



Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

ARDALOEDD GWLEDIG ANGHYSBELL

Hydref 2009



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYDNABYDDIAETH

Yn ystod yr astudiaeth ymchwil ar ardaloedd gwledig anghysbell yng Nghymru, teithiodd tîm ymchwil yr Arsyllfa i nifer o fannau, gan gwrdd ag ystod eang o bobl. Yn ystod yr amser hwn, roedd pawb yn gyfeillgar ac yn barod iawn i helpu bob amser. Hoffai Arsyllfa Wledig Cymru ddiolch yn fawr i'r bobl hynny a wnaeth helpu gyda'r gwaith ymchwil.

Roedd cynrychiolwyr o awdurdodau lleol Gwynedd, Sir Benfro a Phowys yn allweddol yn ystod camau cynnar yr ymchwil, gan helpu i osod y meini prawf ar gyfer diffinio ardaloedd gwledig anghysbell; darparu cyngor ar amodau arbennig o fewn yr ardaloedd lleol; ac am feithrin cysylltiadau â phobl leol. Bu clerod Cyngorau Cymuned Aberdaron, Clydau, Llanfihangel-yng-Ngwynfa a Llangamarch o gymorth mawr yn ystod yr ymchwil wrth drefnu cyfarfodydd gyda'r cyngorau cymuned, darparu hysbysfyrdau yng nghanol y pentrefi lleol, yn ogystal â chymryd gofal o'r trefniadau arlwythaeth ar gyfer y tîm ymchwil. Yn y cyd-destun hwn, hoffwn ddiolch i'r siopau lleol a'r tafarndai am arddangos posteri ac am weithredu fel pwyntiau dosbarthu/casglu ar gyfer yr arolwg tai. Mae'r Arsyllfa hefyd yn ddiolchgar i'r tîmau o fyfyrwyr ôl-radd a gynhaliodd yr arolwg tai.

Yn olaf, hoffai'r Arsyllfa ddiolch i'r rhai a gymrodd rhan yn yr ymchwil hon, sef y trigolion lleol sy'n byw ac yn gweithio yn ardaloedd gwledig anghysbell Cymru. Hefyd, diolch arbennig iawn i'r rheini a ymatebodd i'r arolwg tai; i'r asiantaethau a'r sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg gwasanaethau; i drefnwyr y grwpiau ffocws a'r pobl ifanc a gymrodd ran ynddynt; a hefyd i'r trigolion lleol am roi o'u hamser i gymryd rhan yn y cyfweiliadau.

<i>Cydnabyddiaeth</i>		i
<i>Cynnwys</i>		ii
<i>Adroddiad Cryno</i>		iii
ADRAN 1	CYFLWYNIAD	1
ADRAN 2	DULLIAU	5
ADRAN 3	DATA AROLWG CARTREFI 2007	12
ADRAN 4	ARDAL A DEMOGRAFFEG	16
ADRAN 5	CYMUNED A DIWYLLIANT	27
ADRAN 6	GWASANAETHAU	43
ADRAN 7	TRAFNIDIAETH	59
ADRAN 8	YNNI CARTREFI	64
ADRAN 9	CRYNODEB O GANFYDDIADAU'R AROLWG	70
ADRAN 10	CYFWELIADAU Â THRIGOLION	73
ADRAN 11	POBL IFAINC YM MHERFEDDION CEFN GWLAD CYMRU	91
ADRAN 12	DARPARU GWASANETHAU	112
ADRAN 13	CASGLIADAU	118
ATODIADAU		125

ADRODDIAD CRYNO

Mae'r Adroddiad Cryno hwn yn cynnig brasolwg o ganlyniadau prosiect ymchwil mewn pedair cymuned ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru a gynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru (yr Arsyllfa) rhwng mis Rhagfyr 2008 a mis Ebrill 2009.

Yr Ymchwil

Gan dim ym Mhrifysgol Caerdydd ar ran Arsyllfa Wledig Cymru (Yr Arsyllfa).

PRIF GANFYDDIADAU

Ystyriai 94% o atebwyr fod ansawdd eu bywyd naill ai'n "dda iawn" neu'n "eithaf da".

Tueddai atebwyr i grybwyll heddwch a thawelwch, naws gymunedol, ffordd fwy hamddenol o fyw, y dirwedd a'r golygfeydd fel pethau yr oeddent yn eu hoffi yn eu hardaloedd.

Ystyriai 36% o breswylwyr fod y gwasanaethau cyffredinol a gynigiwyd yn eu hardal leol yn 'wael' neu'n 'wael iawn'.

Ystyriai 63% fod y gwasanaethau ysbytai a gynigiwyd yn 'wael' neu'n 'wael iawn'.

Ystyriai 75% fod ysgol yn 'hanfodol' yn eu hardal leol; credai 21% ei bod yn 'ddymunol'.

Credai 82% fod Swyddfa Bost yn 'hanfodol'; nododd 16% ei bod yn 'ddymunol'.

Credai 58% fod band eang yn 'hanfodol' a nododd 33% ei fod yn 'ddymunol'. Fodd bynnag, dim ond 51% o'r holl atebwyr a dderbynai wasanaethau band eang.

Credai 92% fod mynediad i gar yn 'hanfodol'. Dim ond 4% o'r holl aelwydydd a oedd heb fynediad i gerbyd preifat.

Ystyrid yn gyffredinol fod trafndiaeth gyhoeddus yn wael.

Yr oedd gan 80% o gartrefi wres canolog. Yr oedd gan ganrannau uchel tebyg inswleiddio a gwydro dwbl.

Nid oedd safon yr arbed ynni a gwres mor uchel mewn cartrefi rhent: nid oedd gan 30% wres canolog; nid oedd gan 30% inswleiddio llofft; ac nid oedd gan 31% wydro dwbl.

Nid oedd gan 59% gyswllt â'r prif ddraeniad.

Yr oedd pryder cyffredinol am gynaliadwyedd cymunedau ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru.

CEFNDIR

Yn sgil cyhoeddi'r ddogfen bolisi yn 2008 'Cymru'n Un', a nodai fod angen mynd i'r afael â'r pynciau penodol a oedd yn effeithio ar ardaloedd 'perfeddion cefn gwlad' Cymru rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol (Llywodraeth y Cynulliad) gomisiwn i Arsyllfa Wledig Cymru (yr Arsyllfa) i ymgymryd ag ymchwil helaeth i'r meysydd hyn. Nod yr ymchwil oedd archwilio profiad trigolion o fywyd ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru, gan roi pwyslais ar y strategaethau a'r mecanweithiau a fabwysiadwyd mewn perthynas â'r gwasanaethau a gynigid.

At ddibenion yr astudiaeth diffiniwyd ardaloedd perfeddion cefn gwlad fel cymunedau â llai na 1,000 o gartrefi, a gymerai o leiaf 30 munud mewn car i'w cyrraedd o le â phoblogaeth o fwy na 10,000. Er mwyn deall y pynciau penodol sy'n effeithio ar yr ardaloedd hyn yn well, cynhaliwyd dadansoddiad cyffredinol o'r data a gasglwyd fel rhan o'r arolwg cartrefi yng nghefn gwlad Cymru a gynhaliwyd gan yr Arsyllfa yn 2007.¹ Defnyddiwyd canlyniadau'r dadansoddiad hwn wedyn i lywio strwythur yr ymchwil.

METHODOLEG

Un o brif nodau'r ymchwil oedd cynnig gwahanol olygweddau rhanbarthol a sicrhau bod digon o amrywiaeth. Yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth y Cynulliad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a chynrychiolwyr llywodraethau lleol o Wynedd, Penfro a Phowys, cytunwyd y câi'r ymchwil ei chynnal yn fras mewn pedair ardal: Pen Llŷn, Gogledd Powys, De Powys a Gogledd Penfro. At hynny, cytunwyd y byddai'r Arsyllfa yn dod o hyd i bedair ardal bosibl ym mherfeddion cefn gwlad, sef un ym mhob un o'r ardaloedd a enwyd, i gymryd rhan yn yr astudiaeth.

Fel cam cyntaf i ddod o hyd i gymunedau addas i'r astudiaeth mireiniwyd a helaethwyd y diffiniad cychwynnol o'r hyn oedd ardal 'ym mherfeddion cefn gwlad' i gynnwys y meini prawf canlynol:

- cymunedau a gymerai o leiaf 30 munud mewn car i'w cyrraedd o le sydd â phoblogaeth o fwy na 10,000.
- cymunedau sy'n cynnwys rhwng 180 a 500 o aelwydydd.
- cymunedau sydd â llai na phump o'r deuddeg gwasanaeth 'allweddol' a ddiffinnir fel:

- Siop fwyd
- Swyddfa Bost
- Gorsaf betrol
- Banc neu Gymdeithas Adeiladu
- Meddyg Teulu
- Deintyddfa
- Fferyllfa
- Sefydliad addysgol
- Llyfrgell barhaol
- Gorsaf Heddlu
- Arhosfan bws neu orsaf drenau
- Peiriant Arian Twll yn y Wal

Trwy ddefnyddio'r meini prawf hyn, yn ogystal â thechnoleg mapio GIS, lluniwyd rhestr fer o bedwar ar hugain o gymunedau ymchwil posibl gan yr Arsyllfa. Trwy dynnu ar yr wybodaeth a gafwyd mewn ymweliadau cwmpasu ym mhob un o'r cymunedau, ynghyd â chynghor oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad a'r awdurdodau lleol, dewiswyd pedair cymuned ymchwil, sef Aberdaron (ym Mhenllŷn); Clydau yng ngogledd Penfro; Llanfihangel-yng-Ngwynfa yng ngogledd Powys; a Llangamarch yn ne Powys. Amlinellwyd yr ardaloedd ymchwil yn y cymunedau hyn drwy ddefnyddio codau post a thechnoleg GIS. Gan fod codau post ac ardaloedd cynghorau cymuned yn gorgyffwrdd cynhwyswyd ambell ran o gymunedau cyfagos yn yr ardaloedd ymchwil.

Yr oedd gan yr ymchwil bedwar cymal allweddol.

Cymal 1: Yn ystod mis Rhagfyr 2008 a mis Ionawr 2009, cynhaliwyd arolwg cartrefi manwl ym mhob un o'r ardaloedd ymchwil. Cynhaliwyd yr arolygon gan dîm o ymchwilwyr ôl-radd, a oedd yn cynnwys siaradwyr Cymraeg, o dan gyfarwyddyd staff graidd yr Arsyllfa. Gofynnwyd i bob aelwyd yn yr ardal ymchwil gwblhau holiadur (naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg) dros gyfnod o bedwar diwrnod. Dengys y tabl isod y gyfradd atebion ym mhob ardal ymchwil.

Cymuned	Atebion	Cyfradd ateb
Aberdaron ²	214	47%
Clydau	245	54%
Llanfihangel	192	52%
Llangamarch	194	52%
Cyfanswm	845	51%

¹ Arsyllfa Wledig Cymru (2008) *Adroddiad ar Arolwg Cartrefi yng Nghymru Wledig 2008: Adroddiad 17*. WRO: Caerdydd.

² Yn ôl Cyfrifiad 2001 yr oedd dros 22% o aelwydydd yn ardal ymchwil Aberdaron yn gartrefi gwyliau neu'n ddibreswyl.

Cymal 2: Yn dilyn yr arolwg cartrefi cynhaliwyd cyfanswm o 60 (15 ym mhob ardal astudiaeth) cyfweiliad manwl wyneb yn wyneb â thrigolion a fynegodd barodrwydd i gymryd rhan yn ail gymal yr ymchwil. Lluniwyd a datblygwyd y cymal hwn o'r ymchwil drachefn gan gynnig y dewis o gyfweiliad naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Cofnodwyd a thrawsgrifiwyd pob cyfweiliad yn llawn.

Cymal 3: Ym mhob un o'r pedair ardal astudiaeth crewyd grŵp ffocws gyda phobl ifainc leol rhwng 14 a 18 oed. Cofnodwyd a thrawsgrifiwyd y grwpiau ffocws. Cynhaliwyd grwpiau ffocws Aberdaron a Chlydau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymal 4: Gofynnwyd i groestoriad o ddarparwyr gwasanaethau a oedd yn cynnig gwasanaethau ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru i gwblhau holiadur. Rhoddwyd y dewis iddynt ateb drwy'r post, yn electronig neu dros y we, naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Cysylltwyd â chyfanswm o 243 o ddarparwyr gwasanaethau a chafwyd 49 ateb, sef cyfradd ateb o 20%.

CANFYDDIADAU

Cafwyd cysondeb yng nghanfyddiadau'r ymchwil; tueddai'r data ansoddol o Gymalau 2, 3 a 4 i gefnogi'r data meintiol a gynhyrchwyd gan Gymal 1, sef yr arolwg cartrefi.

Yr Ardal Leol a Demograffeg

Ar draws y pedair ardal yr oedd bron 45% o'r atebwyr wedi byw yn eu hardal leol gyfredol ers dros 25 mlynedd.

Yr oedd dros hanner yr atebwyr mewn gwaith; yr oedd 39% wedi ymddeol; yr oedd 5% yn ddi-waith; ac yr oedd 3% yn sâl hirdymor ac yn anabl. Yr oedd gan Aberdaron, lle'r oedd y ganran uchaf o drigolion wedi ymddeol, ganran gryn dipyn yn is o atebwyr mewn gwaith. Yng Nghlydau yr oedd y ganran uchaf o atebwyr â salwch hirdymor ac atebwyr anabl, sef 6%. Gweithiai canran gymharol uchel o atebwyr (35%) o'u cartrefi neu ynddynt.

Mewn perthynas ag incwm aelwyd yr oedd gan 23% o atebwyr incwm aelwyd blynyddol a oedd yn llai na £10,000 tra oedd gan 8% incwm aelwyd a oedd yn fwy na £52,000 y flwyddyn.

Yr oedd dros 90% o atebwyr yn fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw. Gyda hynny, ystyriai 94% fod ansawdd eu bywyd naill ai'n "dda iawn" neu'n "eithaf da". Tueddai atebwyr i werthfawrogi llonyddwch a thawelwch fwyaf, ffordd arafach o fyw, nawws gymunedol a'r dirwedd a oedd yn

gysylltiedig â'u hardal. Y gŵyn fwyaf cyffredin oedd y diffyg gwasanaethau a'r dirywiad mewn gwasanaethau cyfredol a'r cwtogi a fu arnynt.

Cymuned a Diwylliant

O safbwynt ethnigrwydd ac iaith, ystyriai 49% o atebwyr eu hunain yn Gymry, ac yr oedd ychydig fwy o atebwyr (35%) yn rhugl eu Gymraeg. Yn Aberdaron a Llanfihangel yr oedd y canrannau uchaf o siaradwyr Gymraeg ac yn Llangamarch yr oedd yr isaf. Yr oedd bron 40% o atebwyr wedi symud i'r ardal o Loegr.

At ei gilydd yr oedd canfyddiad o deyrngarwch cymunedol yn uchel wrth i 86% o atebwyr nodi bod 'ymdeimlad o berthyn' da yn eu hardal leol. Yn yr un modd, ystyriai canran uchel o atebwyr (80%) eu hunain yn aelodau o'r gymuned leol. Ymhlith siaradwyr Gymraeg y tueddwyd i gael y canrannau uchaf o ymdeimlad o berthyn - ystyriai 91% o'r grŵp hwn eu bod yn aelodau gweithgar o'r gymuned leol. Fodd bynnag, dangosodd y data cyfweild â thrigolion di-Gymraeg eu bod at ei gilydd wedi eu cymathu'n dda mewn cymunedau lleol. Ystyriai lleiafrif sylweddol, sef 40% o atebwyr, fod eu hardal leol yn ynysig.

Gwasanaethau

Ar draws y pedair ardal gymunedol, ystyriai 37% fod safon y gwasanaethau cyffredinol a gynigir yn 'foddhaol'; ystyriai 27% ei fod yn 'dda' neu'n 'dda iawn'; ac ystyriai 36% o atebwyr fod safon y gwasanaethau cyffredinol a gynigir yn 'wael' neu'n 'wael iawn'. Prin oedd yr atebwyr a gredai fod y gwasanaethau a gynigir wedi newid 'er gwell'. Yr oedd tuedd ymhlith atebwyr Aberdaron i bwysleisio yr ochr orau ar eu gwasanaethau, tra oedd atebwyr Llanfihangel fwyaf beirniadol. Trigolion hirdymor oedd fwyaf tebygol i awgrymu bod gwasanaethau wedi newid 'er gwaeth'.

At ei gilydd, yr oedd atebwyr yn dibynnu ar gymorth i gael mynediad i wasanaethau. Fodd bynnag, yr oedd ychydig dros chwarter (26%) o'r holl atebwyr yn y grŵp oedran dros 65 oed yn dibynnu ar gymorth i gael mynediad i wasanaethau. Yn ardal gymunedol Llanfihangel yr oedd 23% o atebwyr yn dibynnu ar gymorth i gael mynediad i wasanaethau.

O safbwynt mynediad i wasanaethau iechyd, yr oedd trigolion yn fodlon yn gyffredinol ar ddarpariaeth meddygon teulu ac yn anfodlon ar fynediad at wasanaethau deintyddol. Yr oedd pryderon mawr hefyd am ddarpariaeth ysbytai a'r gwasanaethau ambiwlans. Er enghraifft, ystyriai 63% o atebwyr fod darpariaeth ysbytai yn 'wael'

neu'n 'wael iawn', ac yr oedd yn rhaid i 42% o atebwyr deithio dros 30 milltir i ysbyty. Yn Aberdaron 87% oedd y ganran hon. At hynny, dadleuwyd bod y gwasanaethau ambiwlans wedi eu tangyllido. Er bod tuedd ymhlith trigolion i arddel disgwyliadau isel o'r gwasanaethau a gynigir ac yn pwyso a mesur y rhain law yn llaw â'u hansawdd bywyd, dangosai tystiolaeth o gyfweiliadau fod rhai yn ystyried symud i ardal drefol oherwydd eu bod yn credu bod problem wrth gael mynediad i wasanaethau iechyd.

Er bod atebwyr yn ystyried gwasanaethau'r heddlu'n 'foddhaol' yn gyffredinol, yr oedd mwy ohonynt yn ystyried y gwasanaethau hyn yn 'wael' yn hytrach nag yn 'dda' neu 'dda iawn'. Y canfyddiad cyffredinol oedd nad oedd yr heddlu yn derbyn digon o adnoddau.

Yr oedd rhai gwasanaethau, a ystyriwyd yn 'hanfodol' gan nifer fawr o'r atebwyr ar gyfer cynaliadwyedd y cymunedau gwledig hyn, wedi eu cwtogi'n ddiweddar. Er enghraifft, ystyriai 75% o atebwyr fod ysgol yn 'hanfodol' yn eu hardal leol, a chredai 21% ei bod yn 'ddymunol'. Credai hyd yn oed ragor, sef 82% o atebwyr, fod Swyddfa Bost yn 'hanfodol'; a dywedodd 16% ei bod yn 'ddymunol'. Ystyriai 66% o atebwyr fod meddyg teulu lleol yn 'hanfodol' ac ystyriai ychydig dros chwarter (26%) ei fod yn 'ddymunol'. Ystyrid gwasanaethau fel neuaddau cymuned, tafarndai, eglwysi a chapeli yn bwysig hefyd ar gyfer y cymunedau gwledig hyn gan nifer fawr o atebwyr, yn yr arolwg cartrefi yn ogystal ag yn y cyfweiliadau.

Ym mhedair ardal yr arolwg nid oedd darpariaeth leol ar gyfer sinemâu, clybiau nos, theatrau, pyllau nofio, campfeydd neu ganolfannau hamdden. Yr oedd angen awr neu fwy o daith i gyrraedd a dychwelyd i gael mynediad i'r mathau hyn o wasanaeth. Dangosodd tystiolaeth y grwpiau ffocws fod y pynciau mynediad hyn yn effeithio'n fawr ar bobl ifainc a oedd yn ceisio mwy o annibyniaeth ond heb drafnidiaeth bersonol.

Ystyrid mynediad i'r 'perfeddion cefn gwlad' hyn gan y gwasanaethau brys gan y rhan fwyaf o atebwyr naill ai'n 'dda', yn 'dda iawn' neu'n 'foddhaol'. Fodd bynnag, yr oedd nifer fawr o atebwyr yn ystyried mynediad yn 'wael' neu'n 'wael iawn', yn enwedig yn Aberdaron (34%). Dylid nodi hefyd fod y pryderon a godwyd yn gynharach am ansawdd y gwasanaethau ambiwlans.

Yr oedd cryn ddefnydd ar siopau lleol ym mherfeddion cefn gwlad, er bod tystiolaeth anecdotaidd fod prisiau'r nwyddau yn ddrud o'u cymharu ag ardaloedd trefol. Aeth bron tri chwarter o aelwydydd i ymweld ag archfarchnadoedd mewn trefi mwy yn wythnosol. At hynny, yr oedd ychydig dros hanner (52%) o atebwyr, i raddau mwy neu lai eu cysondeb, yn siopa ar y we.

Yr oedd mynediad i gyfrifiadur yn y cartref yn gymharol uchel, sef 74% o'r holl aelwydydd. Mae'r mwyafrif mawr o'r aelwydydd hyn (88%) â chyswllt â'r we, sy'n cynrychioli 65% o'r holl aelwydydd yn yr arolwg.

O safbwynt darparu gwasanaethau band eang yr oedd gwir fwllch rhwng y galw a'r cyflenwad. Ystyriai 58% fod band eang yn 'hanfodol' a nododd 33% ei fod yn 'ddymunol'. Fodd bynnag, dim ond 51% o'r holl atebwyr a dderbynai wasanaethau band eang. Yr oedd pob dosbarth o atebwr, gan gynnwys atebwyr yr arolwg, y rhai a gyfweilwyd, pobl ifainc a darparwyr gwasanaethau, yn pwysleisio'r angen am wasanaeth band eang o safon uchel yng nghefn gwlad Cymru a fyddai'n caniatáu i fusnesau, entrepreneuriaid, darparwyr addysg a chymunedau lleol ffynnu a goroesi'n well. Yn Llanfihangel ac yn Llangamarch yr oedd y gwasanaethau band eang gwaethaf.

O safbwynt gwasanaethau band eang digidol, derbynai 55% o atebwyr y gwasanaethau hyn; ni châi 21% ddim; a dywedodd 22% nad oeddent ar gael yn eu hardaloedd hwy.

Tueddai atebwyr i asesu derbyniad ffonau symudol naill ai'n 'fylchog' neu'n 'wael', ac nid oedd ond 20% yn ei ystyried yn 'dda'. Gan Langamarch yr oedd y derbyniad ffôn symudol gorau; gan Lanfihangel yr oedd y gwaethaf. Ni ddefnyddiwyd ffonau cyhoeddus gan y rhan fwyaf o ddigon o atebwyr (81%). O blith yr atebwyr a ddefnyddiai nhw tueddent i wneud hynny lai nag unwaith yr wythnos.

Trafnidiaeth

Ystyrid yn gyffredinol fod trafndiaeth gyhoeddus yn wael yn ardaloedd yr astudiaeth. Ystyrid bod cerbydau preifat yn 'hanfodol' ar gyfer byw yn eu hardal leol gan 92%, ac nid oedd ond 4% o aelwydydd â mynediad i gar neu gerbyd preifat arall.

Yr oedd tri o bob pum aelwyd (41%) yn perchen ar ddau neu ragor o gerbydau, ac yr oedd 37% arall yn perchen ar un. Nid oedd y data hwn yn

cynnwys cerbydau amaethyddol. Nid oedd neb yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd i'r gwaith.

Crybwyllwyd pris tanwydd a'r angen mawr am gar fel y ddau brif reswm pam yr oedd byw yn yr ardaloedd gwledig hyn yn ddrutach nag mewn ardaloedd trefol. Er bod nifer gyfyngedig o lefydd yn gwerthu tanwydd ym mhob ardal, yr oedd llawer o atebwyr yn trefnu prynu tanwydd ar yr un adeg â'u hymweliad â threfydd cyfagos.

Ynni

Yr oedd yr arolwg yn dangos bod gan 80% o aelwydydd wres canolog. O ran mesuriadau i arbed ynni, yr oedd gan 82% o atebwyr inswleiddiad llofft; yr oedd gan 82% wydro dwbl; gwnaeth 87% ddefnydd o fylbiau golau arbed ynni; ac yr oedd gan 35% inswleiddiad yng ngheudod y wal. Dylid nodi bod gan lawer o dai waliau cerrig solet, felly nid oedd modd dewis inswleiddio'r ceudod wal. Prin oedd yr aelwydydd a ddefnyddiai baneli haul neu felinau gwynt. Fodd bynnag, yr oedd ychydig fwy na thraean (34%) o atebwyr yn Aberdaron yn ystyried buddsoddi mewn melin wynt.

Yr oedd natur y nwyddau arbed gwres canolog ac ynni yn amrywio yn ôl deiliadaeth y tŷ. Er enghraifft, yr oedd gan 80% o dai ar rent cymdeithasol wres canolog o'u cymharu â 67% o dai rhent preifat.

Gan adlewyrchu'r cynnydd mewn costau tanwydd, yr oedd 46% o atebwyr yn lleihau eu defnydd o wres yn ystod y tywydd oer er mwyn arbed arian. Dywedodd lleiafrif bach eu bod yn lleihau eu defnydd o wres am resymau amgylcheddol. Y grwpiau incwm llai oedd y grwpiau mwyaf tebygol i leihau eu defnydd o wres.

Mewn perthynas â chyflenwad trydan, yr oedd mwy nag un ymhob tri atebwr yn dioddef o doriadau yn eu cyflenwad pŵer yn eu hardal leol. Yn Aberdaron a Llanfihangel yr oedd y canrannau uchaf o atebwyr â chanfyddiad negyddol o ba mor ddibynadwy oedd y gwasanaeth trydan lleol.

Nid oedd gan oddeutu chwech o bob deg aelwyd yn yr arolwg gyswllt â'r priif ddraeniad. Yr oedd nifer o dai yn Llangamarch a Llanfihangel yn dibynnu ar ffynhonnau neu bistyll am eu dŵr.

Cymunedau Cynaliadwy

Yr oedd pryder cyffredinol am gynaliadwyedd hirdymor y 'perfeddion' cefn gwlad hyn. Dadleuwyd bod cyfuniad o amgylchiadau wedi arwain at boblogaeth hŷn ac nad oedd unrhyw gymhelliad i bobl ifainc naill ai aros yn yr ardaloedd hyn neu symud iddynt. Yr oedd yr amgylchiadau hyn yn cynnwys:

- Diffyg canolbwytio ar ardaloedd gwledig gan Lywodraeth y Cynulliad;
- Cyllidebau afrealistig i awdurdodau lleol;
- Dim gobaith am waith;
- Prisiau tai uchel;
- Prinder tai fforddiadwy;
- Dim 'gwerth am arian' am y Dreth Gyngor;
- Cwtogi gwasanaethau - yn enwedig ysgolion lleol;
- Costau byw uchel.

At hynny, yr oedd pryderon am gynaliadwyedd yr iaith Gymraeg.

Syniadau i wella cynaliadwyedd

Cynigiodd atebwyr o bob dosbarth syniadau am hybu a gwella cynaliadwyedd yn eu hardaloedd lleol. Yr oedd y rhain yn cynnwys:

- Cymhellion ariannol i fusnesau bychain a chanolig a busnesau gwledig eraill;
- Band eang a thelegyfrathebu o safon uchel;
- Trefniadaeth llywodraeth sy'n cynnwys cymunedau lleol, llywodraeth leol, busnesau a sefydliadau lleol fel y Clwb Pêl-droed, RSPB a Severn Trent Water;
- 'Rhyddhad Gwledig' mewn perthynas â thanwydd, bwyd, treth cerbyd a Threth Gyngor;
- Meini prawf newydd i asesu cyllidebau llywodraethau lleol gwledig;
- System cynllunio gwledig fwy cydnaws a chydymdeimladol;
- Mwy o dai fforddiadwy;
- Mynd i'r afael â phwnc tai haf;
- Cydnabod gwerth y rhwydwaith fferylliaeth a'i ddefnyddio at ddibenion dosbarthu nwyddau mewn ardaloedd gwledig;
- Rhoi darparwyr gwasanaethau at ei gilydd o dan yr un to mewn swyddfeydd gwledig;
- Seibergaffis;
- Tocynnau teithio bysiau/trenau;
- Teithio mewn grŵp drwy gymorthdal i bobl ifainc gael mynediad i gyfleusterau hamdden.

1.1 Amlinelliad o'r Ymchwil

Yn dilyn cyhoeddi yn 2007 y ddogfen bolisi 'Cymru'n Un', a nodai'r angen i fynd i'r afael â'r pynciau penodol a oedd yn effeithio ar ardaloedd 'perfeddion cefn gwlad', comisiynwyd Arsyllfa Wledig Cymru (yr Arsyllfa) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad) i ymgymryd â gwaith ymchwil ar y pynciau hyn. Nod yr ymchwil oedd archwilio sut yr oedd trigolion yn profi bywyd ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru, gan roi pwyslais ar y strategaethau a'r mecanweithiau a fabwysiadwyd mewn perthynas â'r gwasanaethau a gynigid. Yn y pen draw, bwriad yr ymchwil oedd cynnig cynaliadwyedd tymor-hir i gymunedau gwledig.

1.2 Diffinio Ardaloedd 'Perfeddion Cefn Gwlad'

At ddibenion yr astudiaeth diffiniwyd ardaloedd 'perfeddion cefn gwlad' fel cymunedau â llai na 1,000 o gartrefi, a gymerai o leiaf 30 munud mewn car i'w cyrraedd o ganolfan â phoblogaeth o fwy na 10,000¹. Cafwyd bod argraff ar led fod yr ardaloedd hyn yn wynebu anawsterau unigryw mewn perthynas â'u poblogaethau a'u patrymau mudo, eu hanghenion iechyd a lles, eu gwasanaethau lleol, a'u cyflogaeth, a oedd yn ymddangos yn effeithio ar fywydau o ddydd i ddydd trigolion lawer mwy nag yng ngweddill cefn gwlad Cymru. Fel man cychwyn i ddeall natur yr anawsterau hyn yn well gwnaethpwyd peth gwaith ymchwil cefndirol drwy ddefnyddio canlyniadau arolygon tai yng Nghymru wledig a gyflawnwyd ar ran yr WRO yn 2007². Gwerth yr arolwg hwn oedd bod modd rhannu'r canlyniadau hyn yn ddau ddosbarth ar wahân; yn gyntaf, yr ardaloedd hynny a ddiffiniwyd yn 'berfeddion cefn gwlad' Cymru yn ôl y diffiniad a nodwyd uchod, ac yn ail, gweddill cefn gwlad Cymru. Yr oedd hyn yn caniatáu creu cymhariaeth o fewn y ddau wahanol fath o ardal a rhyngddynt.

¹ Yn ystod cymalau diweddarach yr ymchwil mireiniwyd y diffiniad hwn.

² Arsyllfa Wledig Cymru (2008) *Adroddiad ar Arolwg Cartrefi yng Nghymru Wledig 2008: Adroddiad 17*. WRO: Caerdydd.

O fynd yn ôl at yr astudiaeth perfeddion cefn gwlad, un o brif nodau'r ymchwil oedd cynnig gwahanol berspectifau rhanbarthol a sicrhau bod digon o amrywiaeth. Yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth y Cynulliad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a llywodraethau lleol cytunwyd y câi'r ymchwil ei chynnal mewn pedair ardal yn fras: Pen Llŷn, Gogledd Powys, De Powys a Gogledd Penfro. At hynny, cytunwyd y byddai'r Arsyllfa yn dod o hyd i bedair ardal bosibl ym mherfeddion cefn gwlad, un ym mhob un o'r ardaloedd a enwyd, i gymryd rhan yn yr astudiaeth.

Yr oedd pedwar cymal sylweddol yn yr ymchwil. Yn gyntaf, gwnaethpwyd arolwg tai ym mhob un o'r pedair ardal perfeddion cefn gwlad er mwyn deall nodweddion (cyffelyb neu fel arall) pob cymuned yn well. Yn dilyn yr arolwg tai deilliai data ansoddol o'r ail gymal ymchwil yn sgil cyfweiliadau manwl â thrigolion. Yr oedd y trydydd cymal yn cynnwys grwpiau trafod gyda phobl ifainc ym mhob un o'r pedair ardal astudiaeth. Yn olaf, defnyddiwyd holiadur i grynhoi data oddi wrth asiantaethau, awdurdodau lleol a chyfranddeilaid eraill a oedd yn ymwneud â chynnig gwasanaethau yn yr ardaloedd 'perfeddion cefn gwlad' hyn.

1.3 Dewis y Cymunedau

Y cam cyntaf wrth ddod o hyd i faes astudiaeth addas oedd penderfyynu pa fathau o gymuned y dylid eu hystyried yn 'berfeddion cefn gwlad'. Trwy weithio â Llywodraeth y Cynulliad a'r awdurdodau lleol perthnasol cytunwyd ar y meini prawf canlynol ar gyfer cymuned 'perfeddion cefn gwlad':

- Byddai'r cymunedau a ddewiswyd o leiaf 30 munud o daith car o ganolfan â phoblogaeth fwy na 10,000.
- Byddai gan bob cymuned rhwng 180 a 500 o aelwydydd. Yr oedd hyn yn sicrhau bod maint y sampl yn ddigon mawr i fod yn ystadegol berthnasol ond yr oedd hefyd yn cyfyngu'r ymchwil i gymunedau â phoblogaeth fach.

- Byddai gan bob cymuned a ddewiswyd lai na phump o'r deuddeg gwasanaeth hanfodol.

Y gwasanaethau hyn oedd:

- Siop fwyd yn unig
- Swyddfa Bost
- Gorsaf betrol
- Banc neu Gymdeithas Adeiladu
- Meddyg Teulu
- Deintyddfa
- Fferyllfa
- Sefydliad addysgol
- Llyfrgell barhaol
- Gorsaf Heddlu
- Safle bws neu orsaf drenau
- Twll yn y Wal

Cymhwyswyd y meini prawf hyn er mwyn llunio rhestr fer o'r cymunedau canlynol ym mhob un o'r pedair ardal:

Gogledd Powys
Llandrinio
Llandysilio
Llanrhaeadr-ym-Mochnant
Llansantffraid-ym-Mechain
Meifod
Banwy
Llanfihangel – yng- Ngwynfa

Canol Powys
Llangamarch
Llanbedr Castell-paen
Merthyr Cynog
Maesyfed

Gogledd Penfro
Cilgerran
Clydau
Crymych
Trefdraeth
Llandudoch
Cas-mael

Pen Llŷn - Gwynedd
Aberdaron
Cricieth
Llanengan
Llanaelhaearn
Dolbenmaen
Llannor
Llanystumdwy

Yn ystod mis Hydref 2008, cynhaliodd y tîm ymchwil gyfarfodydd â chynrychiolwyr cynghorau Gwynedd, Penfro a Phowys. Yn y cyfarfodydd hyn cynigiodd y cynrychiolwyr cyngor wybodaeth werthfawr a chyngor ar gynaliadwyedd y rhestr fer o gymunedau. Aeth y tîm ymchwil ati wedyn i gynnal ymweliadau cwmpasu ym mhob un o'r cymunedau hyn.

Y cam nesaf oedd asesu'r wybodaeth a gasglwyd yn y cyfarfodydd a'r ymweliadau. Hepgorwyd cymunedau am fod yn rhy agos i ganolfannau gwasanaethau sylweddol; neu am fod yn rhy agos i ganolfannau poblog yn Lloegr; neu oherwydd absenoldeb lle canolog i gymuned. Yn sgil pwyso a mesur gofalus cytunwyd ar y pedair cymuned ganlynol gyda'r cynghorau sir:

Gogledd Powys	Llanfihangel-yng-Ngwynfa
Canol Powys	Llangamarch
Gogledd Penfro	Clydau
Pen Llŷn - Gwynedd	Aberdaron

Gwelir y pedair cymuned ar y map yn Ffigur 1.1.

1.4 Yr Ymweliadau Cwmpasu

Cysylltodd ymchwilwyr tîm craidd yr Arsyllfa dros y ffôn â'r Cynghorau Cymuned yn y pedair ardal astudiaeth. Hysbyswyd Clercod y Cynghorau Cymuned o fanylion amlinellad y prosiect ymchwil Perfeddion Cefn Gwlad ac o gynlluniau ymchwil yr Arsyllfa ac o'r amserlenni gwaith maes yn eu cymunedau. Yn achosion Llanfihangel a Chlydau rhoddodd y tîm ymchwil gyflwyniad i gyfarfodydd y cynghorau cyn cychwyn y

gwaith maes. Derbyniodd Cyngorau Cymuned Llangamarch ac Aberdaron fanylion ysgrifenedig am y prosiect, gan gynnwys copïau enghreifftiol o'r holiaduron tai. Yr oedd pob un o'r Cyngorau Cymuned yn fodlon iawn cydweithio ac yn cynnig awgrymiadau ymarferol i gynorthwyo ymchwil y gwaith maes.

Yn dilyn y cysylltiadau cychwynnol hyn bu'r tîm ar ymweliad â phob un o gymunedau'r maes astudiaeth. Nod yr ymweliadau hyn oedd paratoi'r ffordd ar gyfer y nifer gymharol fawr o ymchwilwyr a fyddai'n cynnal yr arolwg tai. Yn ystod yr ymweliadau cynllunio hyn, bu'r ymchwilwyr yn ymweld â lleoedd yn yr ardaloedd cymunedol; yn pwyso a mesur daearyddiaeth pob ardal o safbwynt eu hygyrchedd i aelwydydd diarffordd; yn cysylltu ag aelodau'r cyngorau cymuned, siopwyr lleol a masnachwyr eraill. Nodwedd bwysig o'r ymweliadau hyn oedd cytuno â siopwyr lleol a landlordiaid tafarnau i fod yn llefydd i gasglu a chyflwyno ar gyfer trigolion a oedd yn dymuno defnyddio'r dull hwn i gyflwyno holiaduron.

1.5 Strwythur yr adroddiad


Ar ôl y cyflwyniad hwn mae'r adroddiad wedi'i rannu'n ddeuddeg adran. Yn Adran 2 disgrifir y dulliau a ddefnyddir i gynnal yr ymchwil ac fe'i dilynir yn Adran 3 gan ddadansoddiad byr o'r wybodaeth am Gymru perfeddion cefn

gwlad a gafwyd o arolwg tai 2007 yng Nghymru wledig. Mae'r pum adran a ganlyn

yn cynnig dadansoddiad o ddata'r arolwg tai. Gan gychwyn ag Adran 4 dyma eu teitlau mewn trefn: Ardal a Demograffeg, Cymuned a Diwyllant, Gwasanaethau, Trafnidiaeth, ac Ynni Cartrefi. Mae'r dadansoddiadau hyn o'r arolwg tai yn archwilio, yn gyffredinol, crynswth y data o'r pedair cymuned dan sylw. Lle yr oedd canlyniadau ar gyfer cymuned neu gymunedau arbennig yn sylweddol wahanol i grynswth y canlyniadau, trafodir y gwahaniaethau hyn. Lle y bo'n addas cynhwysir dyfyniadau atebwyr a gofnodwyd gan y tîm ymchwil yn ogystal â'r data meintiol. Cynigir crynodeb yn Adran 9 o'r pum adran flaenorol.

Mae'r adroddiad wedyn yn trafod ansawdd y data yn Adran 10 gan ddadansoddi'r cyfweiliadau â thrigolion yn y pedair ardal dan sylw. Yn Adran 11 eir i'r afael â'r posibilrwydd nad yw'r ymchwil yn cyfleu safbwyntiau ac anghenion pobl ifainc sy'n byw ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru. Yn yr adran hon cyflwynir dadansoddiad ansoddol o grwpiau ffocws â phobl ifainc ym mhob un o'r meysydd astudiaeth. Yn Adran 12 ceir dadansoddiad o'r ymateb a gafwyd i holiadur a ddanfonwyd i gyflenwyr gwasanaethau yn yr ardaloedd astudiaeth. Yn yr adran olaf cyflwynir casgliadau a chynigir rhai awgrymiadau ar sut i wella bywyd ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru.

Ffigur 1.1 Y Pedair Cymuned Perfeddion Cefn Gwlad



2.1 Amlinelliad

Yr oedd pedwar cymal i ddulliau'r prosiect ymchwil hwn. Yn gyntaf, yr oedd pedwar cyfnod penodol o waith maes wrth i dimau ymchwil gynnal arolygon tai ym mhob un o bedair ardal yr astudiaeth. Yn ail, ar ôl yr arolygon tai, cafwyd cyfres o gyfweiliadau manwl gyda thriolion yr ardaloedd astudiaeth. Yn ystod y trydydd cymal cynhaliodd yr ymchwilwyr grwpiau ffocws gyda phobl ifainc a oedd yn byw yn yr ardaloedd astudiaeth. Yr oedd y pedwerydd cymal, a gynhaliwyd ar yr un adeg â chymalau dau a thri, yn cynnwys holiadur electronig a ddanfonwyd at y chyflenwyr gwasanaethau yn yr ardaloedd astudiaeth.

Yr Arolwg Tai yng Nghymru wledig

Man cychwyn defnyddiol i'r ymchwil oedd arolwg cartrefi yng Nghymru wledig a gynhaliwyd gan yr Arsyllfa yn 2007³, a fu'n canolbwyntio ar bynciau yn ymwneud â phoblogaeth a mudo, cymuned, iechyd a lles, gwasanaethau lleol, cyflogaeth, a'r amgylchedd. Cyflwynodd yr adroddiad ganlyniadau ar Gymru wledig i gyd ar nifer o feysydd, o oedran, rhyw, incwm a dosbarth cymdeithasol i weithgarwch economaidd, statws cyflogaeth, deiliadaeth tŷ, a chenedl. O ddiddordeb penodol i'r astudiaeth hon yr oedd yn bosibl canolbwyntio'n arbennig ar y tai hynny mewn ardaloedd 'diarffordd' neu 'ymylol' yng Nghymru wledig a oedd dros 30 munud o daith car o le poblog a oedd ag o leiaf 10,000 o bobl, er mwyn pennu p'un a oedd amrywiaethau arwyddocaol o gwbl ar draws y gwahanol ddsbarthiadau o fewn Cymru wledig. Daethpwyd o hyd i nifer o amrywiaethau diddorol, a amlinellir yn Adran 3 yr adroddiad hwn.

2.3 Arolwg Cartrefi Perfeddion Cefn Gwlad

Dewiswyd yr arolwg cartrefi, sy'n cynrychioli'r cymal sylweddol cyntaf o'r ymchwil, fel modd i gael brasolwg cynhwysfawr o'r pedair ardal wahanol. Fe'i lluniwyd er mwyn casglu data ar ystod eang o bynciau mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau, yn ogystal ag am wybodaeth ddemograffig bwysig a fyddai'n caniatáu dadansoddi pellach.

³ Arsyllfa Wledig Cymru (2008) *Adroddiad ar Arolwg Cartrefi yng Nghymru Wledig 2008: Adroddiad 17*. WRO: Caerdydd.

Cynhaliwyd yr arolwg cartrefi trwy ddefnyddio holiadur a rannwyd yn saith adran. Holwyd yr atebwyr am y gwasanaethau a gynigiwyd, yn ogystal ag am natur bywyd bob dydd yn y cymunedau gwledig yn gyffredinol. Yr oedd hyn yn caniatáu i ddata gael ei gasglu a fyddai'n cynnig adroddiad mwy crwn o fywyd 'perfeddion cefn gwlad' Cymru, a dadansoddiad mwy cynhwysfawr o'r pynciau yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau.

Cysylltwyd â thriolion ym mhob ardal drwy lythyr (yn Gymraeg ac yn Saesneg) oddeutu wythnos cyn i'r ymchwil gychwyn. Arddangoswyd posteri mewn lleoedd amlwg ym mhob pentref er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ymchwil yn yr arfaeth ac er mwyn cynnig gwybodaeth gefndir ychwanegol; natur yr arolwg; pam yr oedd yn cael ei gynnal; a sut y gallent gymryd rhan. Hyd y cyfnod ymchwil ym mhob ardal oedd pedwar diwrnod, o ddydd Sadwrn i ddydd Mawrth. Dewiswyd yr amser hwn er mwyn sicrhau bod aelwydydd a oedd yn gweithio yn ogystal â'r aelwydydd heb waith yn cael eu cynnwys.

Aeth o leiaf 12 ymchwilydd yn dîm i bob ardal. Rhannwyd yr ardal ymchwil o leiaf yn dair rhan wahanol, gan briodoli pob un i is-dîm o ymchwilwyr. Pennwyd rhif cod i bob cyfeiriad yn yr ardal astudiaeth, ac fe'i dangoswyd ar fap yn ogystal ag ar restr o'r holl gyfeiriadau yn yr ardal. Aeth ymchwilwyr i bob tŷ gan ddilyn trefn a chofnodi yr ymweliad(au) ar eu rhestr. Yr hoff ddull o gwblhau holiadur oedd wyneb yn wyneb â'r atebwyr. Yr oedd ymchwilwyr Cymraeg yn perthyn i bob tîm a chynigiwyd llenwi'r holiadur i bob un o'r trigolion yn Gymraeg. Hysbyswyd trigolion bod cymryd rhan yn yr ymchwil yn wirfoddol. Esboniwyd y byddai eu hatebion yn gyfrinachol ac yn anhysbys. Cymerai'r holiadur 45 munud ar gyfartaledd i'w gwblhau gyda'r atebwyr. Yr ymchwilwyr a nodai'r atebion yn yr holiaduron.

Os oedd yr atebwr yn dewis, byddai'r ymchwilydd yn gadael holiadur ar ei ôl i'w gasglu'n ddiweddarach neu'n gadael amlen radbost ateb busnes. Yn ystod cyfnod y pedwar diwrnod bu modd i'r ymchwilwyr

ymweld â phob tŷ yn y gwahanol ardaloedd. Os nad oedd modd dod o hyd i bobl yn y tŷ erbyn y trydydd ymweliad, gadawai'r ymchwilyr gopiâu o holiaduron yn Gymraeg neu yn Saeseg, amlen radbost ateb busnes a nodyn esboniadol byr.

Dull arall i gwblhau holiaduron oedd caniatáu i atebwyr ddefnyddio'r manau gadael a chasglu. Ym mhob ardal, trwy drefniant gyda siopwyr lleol, tafarndai ac aelodau o'r cynghorau cymuned, yr oedd o leiaf ddau fan lle yr oedd holiaduron yn Gymraeg ac yn Saesneg i'w gweld. Cafwyd posteri yn annog trigolion i gasglu, cwblhau a chyflwyno

holiaduron. Casglodd yr ymchwilyr o'r manau hyn gan nodi hynny ar eu rhestr.

Cynigiwyd basgedaid o fwyd yn wobwr drwy lotri ym mhob ardal er mwyn annog trigolion i gymryd rhan. Yr oedd hawl i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwil ac a nododd eu manylion cyswllt gael mynediad i'r lotri.

Daeth cyfanswm o 845 o atebion i law. Dengys Tabl 2.1 gyfradd ateb pob ardal ymchwil.

Tabl 2.1 Cyfradd atebion yn ôl cymuned

Cymuned	Tai	Tai Haf / Gwag (Cyfrifiad 2001)	Atebwyr	Cyfradd atebion
Aberdaron	597	137	214	47%
Clydau	490	36	245	54%
Llanfihangel	382	14	192	52%
Llangamarch	391	15	194	52%
Cyfanswm	1860	202	845	51%

Dengys Tabl 2.1 mai gan Aberdaron yr oedd y gyfradd ateb isaf, sef 47%. Fodd bynnag, dylid nodi bod Cyfrifiad 2001 yn dangos bod dros 22% o'r tai yn yr ardal ymchwil yn dai haf neu'n dai gwag adeg yr ymchwil. Os hepgorir nifer fawr o dai haf Aberdaron o gyfanswm y tai, byddai cyfradd ateb Aberdaron yn gyson â'r tair ardal ymchwil arall.

Rhannwyd yr holiadur yn saith adran. Eu teitlau oedd: Eich Ardal Chi; Cymuned; Diwylliant ac Iaith; Gwasanaethau; Trafnidiaeth; Ynni Tai; a Gwybodaeth Tai. Ceir copïau o'r holiaduron a'r llythyr yn Atodiadau 1 a 2 yr adroddiad hwn.

2.4 Cyfweiliadau Dilynol

Y rhesymeg tu ôl i'r cyfweiliadau dilynol wyneb yn wyneb â thrigolion oedd er mwyn cynnig dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau trigolion ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru, tra byddai'r arolwg cartrefi yn cynhyrchu data meintiol yn bennaf ynghyd â rhai dyfyniadau enghreifftiol. Dewiswyd pobl i'w cyfweld o blith yr atebwyr a nododd yn yr arolwg cartrefi y byddent yn fodlon cael cyfweiliad. Defnyddiwyd proses gwyddonol i ddewis sampl enghreifftiol ym mhob ardal astudiaeth drwy gymhwyso'r meini prawf canlynol o'r arolwg cartrefi:

- Math o dŷ
- Grwpiau oedran
- Statws cyflogaeth, gan gynnwys anabl ac wedi ymddeol
- Hyfedredd yn y Gymraeg
- Lleolaid y tŷ - mewn pentref, ar fferm neu'n ddiarffordd

Trwy broses o ddeol a dethol, lluniodd y tîm ymchwil sampl enghreifftiol o 15 o bobl i'w cyfweld, ynghyd â rhai wrth gefn, ym mhob ardal astudiaeth.

Y cam nesaf oedd cysylltu â'r bobl i'w cyfweld er mwyn trefnu apwyntiadau. Trefnwyd cyfweiliadau a oedd yn gyfleus o ran lleoliad ac amser iddynt. Fel mae'n digwydd, cytunodd pob un ohonynt i gael cyfweiliad. Fodd bynnag, fe welwyd gwerth cael pobl wrth gefn ar o leiaf ddau achlysur pan fu'n rhaid i bobl dynnu allan oherwydd salwch.

Yn gyffredinol, cynhaliwyd y cyfweiliadau yng nghartrefi'r bobl a gâi eu cyfweld, er bod nifer fechan wedi eu cynnal yn eu lle gwaith. Yr oedd y cyfweiliadau yn lled strwythuredig: gwnâi'r cyfwelydd yn siwr fod y prif themâu yn cael sylw ynghyd â chaniatáu i'r sawl a gâi eu cyfweld gael cyfle i fynegi eu barn a'u pryderon. Enw arall ar y math hwn o gyfweiliad yw 'sgwrs â phwrpas'. Ar gais rhai a gafodd gyfweiliad cynhaliwyd eu cyfweiliadau yn Gymraeg. O ran hyd amrywiai'r cyfweiliadau rhwng 45 a 90 munud. Recordiwyd a thrawsysgrifwyd pob un o'r cyfweiliadau ac fe'u cyfieithwyd lle'r oedd angen.

2.5 Grwpiau ffocws ieuenctid

Cafwyd peth amrywiaeth yn nhrefniadaeth y grwpiau ffocws ieuenctid. Yn ardal astudiaeth Llangamarch, lle nad oedd clwb ieuenctid, cysylltodd aelod o'r tîm ymchwil ag un o'r trigolion a ddywedodd ei fod yn gweithio gyda phobl ifainc yn yr ardal. Yn yr un modd yn ardal astudiaeth Llanfihangel cysylltodd y tîm ymchwil ag un o'r trigolion a ddywedodd ei bod yn helpu cynnal ambell glwb ieuenctid yn Llanwddyn.

Yn ardal astudiaeth Clydau trefnwyd y grŵp ffocws ieuenctid trwy Aelwyd Crymch, sef grŵp ieuenctid yn yr ardal. Trefnwyd y grŵp ffocws yn Aberdaron trwy ysgol leol. Cynhaliwyd y ddau grŵp ffocws hyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn yr un modd â'r cyfweiliadau unigol, gwnaeth yr ymchwilwyr yn sicr fod y prif themâu wedi cael sylw wrth annog trafodaeth ymhlith aelodau'r grŵp. Recordiwyd a thrawsysgrifwyd pob un o'r grwpiau ffocws ac fe'u cyfieithwyd yn ôl y galw.

Er mwyn annog cymryd rhan yn y grwpiau ffocws cynigiwyd tocyn gwerth £10 o siop gadwyn genedlaethol i gyfranwyr. Sicrhawyd cyfranwyr y byddent yn anhysbys.

Sicrhaodd yr ymchwilwyr a fu'n cynnal grwpiau ffocws ieuenctid fod eu hachrediad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn gyfredol ac fe'u cyflwynwyd i'r trefnwyr yn yr ardaloedd astudiaeth. Yn Llangamarch a Llanfihangel, lle'r oedd yr ymchwilwyr yn ddyn, yr oedd y menywod a drefnodd y cyfarfod yn bresennol yn ystod y trafodaethau

grŵp ond ni chymerasant ran. Ar gyfer y grŵp ffocws yng Nghlydau, lle'r oedd yr ymchwilydd yn fenyw, yr oedd y fenyw a drefnodd y cyfarfod yn bresennol ond ni chymerodd ran, ac yn Aberdaron, lle'r oedd yr ymchwilydd yn fenyw, yr oedd staff dysgu'r ysgol yn yr adeilad.

2.6 Holiadur Asiantaethau

Cam olaf yr ymchwil oedd yr holiadur i asiantaethau a gyflenwai wasanaethau yn y pedair ardal astudiaeth. Gyda chymorth personél Llywodraeth y Cynulliad a'r awdurdodau lleol perthnasol lluniodd y tîm ymchwil restr o asiantaethau cyflenwi gwasanaethau a weithiai yn yr ardaloedd astudiaeth. Cysylltwyd â'r asiantaethau hyn yn gyntaf dros y ffôn i'w hysbysu am y prosiect ac i sicrhau eu cyfraniad. Danfonwyd holiaduron ynghyd â llythyron atynt wedyn drwy e-bost neu drwy'r post. Gofynnwyd am atebion drwy e-bost, drwy'r post, neu yr oedd fersiwn ar-lein ar gael ar y we. Cysylltwyd â chyfanswm o 243 o asiantaethau a chafwyd 49 ateb, sef cyfradd ateb o 20%. Ceir copiâu o'r holiaduron ynghyd â'r llythyr yn Atodiadau 3 a 4 yr adroddiad hwn.

I gloi'r adran hon ar ddulliau ymchwil fe geir disgrifiad amlinellol o bob un o'r pedair ardal astudiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys amserlen ymchwil yr holiadur tai; disgrifiad o'r dirwedd; a phwyntiau o ddiddordeb sy'n ymwneud ag ymchwil. Cyflwynir y cymunedau astudiaeth yn nhrefn gronolegol camau ymchwil yr arolwg tai.

2.7 Ardal astudiaeth Llanfihangel-yng-Ngwynfa

Yng ngogledd Powys y mae ardal Cyngor Cymuned Llanfihangel, oddeutu 20 milltir i'r gogledd-orllewin o'r Trallwng. Ni ellir ei chyrraedd ond ar ffyrdd B, sydd mewn rhai mannau yn ffyrdd un-trac a cheir cloddiau mawr o'u pobtu am gryn bellter. Heblaw am bentref Llanfihangel yr aneddiadau eraill yn yr ardal a fu'n rhan o'r ymchwil (a rhai ohonynt â chodau post a oedd yn gorgyffwrdd) oedd Dolanog, Llwydiarth a Phont Llogel, Abertridwr a Llanwddyn. Yr oedd yr ardal ymchwil yn cynnwys 412 o aelwydydd.

Mae anheddiad Llanfihangel yn ymyl y ffordd B4382, gyda lôn bengaead yn troi i ganol y pentref. Mae'n cynnwys cyfuniad o eiddo hen

a modern a nifer o adnoddau lleol gan gynnwys tafarn, siop de, modurdy, neuadd gymuned, cyfleusterau cyhoeddus, maes parcio cyhoeddus, ac eglwys. Bu'r siop de yn fan cyfarfod i'r tîm ymchwil. Yn ystod cyfnod yr ymchwil yr oedd yr ysgol gynradd Eglwys Cymru leol yng nghanol y pentref, ond fe'i caewyd yn gynnar yn 2009.

Mae Dolanog, i'r de-orllewin o Lanfihangel, ger Afon Efyrynwy ac mae argae rhyfeddol yno. Ynghyd ag amrywiaeth o dai, mae'n cynnwys neuadd gymuned, cyfleusterau cyhoeddus a modurdy. Mae Llwydiarth (yr anheddiad) a Phont Llogel (y bont dros Afon Efyrynwy) yn cynnwys tai a ffermydd ar hyd y B4395. Mae'n fychan iawn one mae'n cynnwys Swyddfa Bost, sydd hefyd yn siop ac yn orsaf betrol, a pharc carafanau gwyliau.

Mae Llanwddyn ar y pen deheuol i Lyn Efyrynwy ac yn cynnwys argae sy'n cau'r gronfa. Nodweddion eraill yn Llanwddyn yw grŵp o siopau twristaidd gan gynnwys Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) a dau le gwely a brecwast. Nid nepell o'r llyn mae gan yr ardal yn Llanwddyn a elwir Abertridwr siop sy'n gwerthu petrol, ysgol gynradd a chapel. Awdurdod Severn Trent Water sydd berchen ar lawer o'r tir a pheth o'r eiddo yn yr ardal hon. I'r de-orllewin o Lanwddyn cynhaliwyd arolwg o'r tai a'r ffermydd yn nyffryn Conwy.

Mae tirwedd yr ardal hon yn hynod o atyniadol, ac mae golygfeydd o Lyn Efyrynwy ac Uwchdiroedd Cymru. Mae'r dirwedd arw hon yn cynnwys nifer o ffermydd. Mae llawer o'r rhain yn ddiarffordd a llwybrau cyfyng a llethrog iddynt. Mae gan y Comisiwn Coedwigaeth gryn dir yn yr ardal hon. Mae saethu fasantod yn boblogaidd yn yr ardal hon.

Cynhaliodd tîm ymchwil yr Arsyllfa yr arolwg cartrefi rhwng 29^{ain} Tachwedd a 3^{ydd} Rhagfyr 2008. Yr oedd y cyfnod hwn yn hynod o oer a chafwyd rhew, niwl a pheth eira. Achosodd hyn anhawster mawr wrth gael mynediad i rai o'r ffermydd.

Nodweddion trawiadol yr ardal oedd y rhwydweithiau lleol cryf ac amlygrwydd y Gymraeg.

2.8 Ardal astudiaeth Llangamarch

I'r gorllewin o Lanfair-ym-Muallt y mae ardal Cyngor Cymuned Llangamarch. Yr oedd yr ardal ymchwil ehangach, gan gynnwys codau post a oedd yn gorgyffwrdd, wedi'i hamgáu yn y gogledd a'r gorllewin gan y ffordd A483 ac yn y de a'r dwyrain gan Ardal Beryglus Ardal Hyfforddi Pontsenni y Weinyddiaeth Amddiffyn. Yr oedd yr ardal ymchwil hon yn cynnwys aneddiadau Llangamarch, Garth, Cefn Gorwydd a Thirabad, gyda grŵp o eiddo anghysbell ar gyrion Llanwrtyd. Yr oedd y maes ymchwil yn cynnwys 417 o aelwydydd.

Mae Llangamarch ar ganol eithaf cymhlethdod o aberoedd Afon Irfon ac Afon Camarch. Yn y pentref mae dau westy, dwy dafarn, parc bach glan y môr gyda maes chwarae, gerddi cymunedol a chyfleusterau cyhoeddus, Swyddfa Bost, eglwys, a chapel, gorsaf drenau fach a gwasanaeth bws cyfyngedig, pedair ffôn gyhoeddus, tri blwch llythyrau, a neuadd gymuned. Bu'r Cyngor Cymuned yn ddigon caredig i ganiatáu i'r tîm ymchwil ei ddefnyddio fel man cyfarfod. Mae Garth ar y ffordd A483 ac mae ganddo ysgol, modurdy, a gorsaf drenau fach. Yn ochr ddeheuol yr ardal ymchwil mae aneddiadau bychain Cefn Gorwydd a Thirabad. Mae Tirabad yn agos i Ardal Beryglus Ardal Hyfforddi Pontsenni. Ger Tirabad mae canolfan hyfforddi'r Comisiwn Coedwigaeth. Ceir cryn diroedd o dan ofal y Comisiwn Coedwigaeth yn yr ardal.

Mae tirwedd yr ardal yn fynyddig a hardd. Mae'n cynnwys llawer o ffermydd, a llawer ohonynt yn ddiarffordd â llwybrau cyfyng a llethrog iddynt. Gyda'i fferdd cyfyng ac anodd mae'n un o gymalau Rali GB Cymru. Ar ddiwrnod cyntaf yr ymchwil yr oedd rhai o'r fferdd o amgylch Tirabad ar gau ar gyfer y rali.

Cynhaliodd tîm ymchwil yr Arsyllfa yr arolwg tai rhwng 6^{ed} Rhagfyr a 9^{fed} Rhagfyr 2008. Fel yn achos Llanfihangel yr oedd y tymheredd o dan rewbwynt. Yr oedd y fferdd yn rhewllyd iawn gan ei gwneud hi'n anodd i yrwyr ac i gael mynediad i rai lleoedd. Nodweddion trawiadol yr ardal oedd y rhwydweithiau lleol cryf ac yr oedd llawer o'r atebwyr holiaduron yn adnabod ei gilydd.

Fodd bynnag, nid oedd yr iaith Gymraeg yn nodwedd amlwg yn yr ardal ymchwil.

2.9 Ardal astudiaeth Clydau

Mae Cyngor Cymuned Clydau yng Nghantref Cilgerran i'r dwyrain o Grymoch.

Yr oedd yr ardal ymchwil yn cynnwys 490 o aelwydydd, ac yn cynnwys aelwydydd â'u codau post yn bennaf o fewn ardal y Cyngor Cymuned. Yr oedd tair prif ardal anheddu, sef Tegryn, Bwlch-y-groes, a'r tai ar hyd y dyffryn ger Cwmorgan. Bu'r tîm ymchwil ar ymweliad ag ardal Cyngor Cymuned Tegryn rhwng 13^{ydd} ac 16^{fed} Rhagfyr 2008. Eu man cyfarfod oedd Neuadd Gymuned Bwlch-y-groes.

Yn Nhegryn yr oedd yr anheddu mwyaf yn yr ardal ymchwil. Yr oedd lleoliad y pentref yn peri iddo deimlo'n agored - gan ei fod ar ochr mynydd uchel, ac felly mae'r golygfeydd o'i amgylch yn eithaf syfrdanol. O ran gwasanaethau, mae gan y pentref ddwy dafarn, dau fodurdy, capel ac ysgol gynradd. Mae'r pentref ar ffurf datblygiad strimynnog ar hyd yr heol, a cheir ambell fferm ac eiddo gwasgaredig.

Mae'r gwasanaethau bysiau yn brin iawn, ac ni cheir ond un daith yr wythnos i Aberteifi, ac un daith y mis i Gaerfyrddin. Fodd bynnag, cynigir gwasanaeth bysiau 'ffoniwch am bàs' Green Dragons yn yr ardal bob dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Sadwrn. Mae hwn yn cysylltu teithwyr â'r llwybrau bysiau a gynigir gan Richards Brothers Buses, yn ogystal ag â threfi cyfagos. Yn ystod yr haf mae hwn yn cynnig gwasanaeth i gerddwyr ar gyfer pobl ar hyd llwybr cerdded arfordir Penfro.

Yr oedd arwyddion yn dangos manylion adeiladau newydd yn yr ardal, a fyddai'n cynyddu maint ac o bosibl nifer y gwasanaethau yno. Oherwydd yr hinsawdd economaidd yn ystod cyfnod yr ymchwil yr oedd peth amheuaeth ar led am barhad y prosiect hwn.

Yng nghyffiniau Tegryn mae aneddiadau'r Glog, Llanfyrnach a Hermon, ac yr oedd rhai o'r aelwydydd yn yr aneddiadau hyn yn rhan o'r ardal ymchwil.

Mae Bwlch-y-groes i'r gogledd o Degryn: mae ganddo Neuadd Gymuned, a fu'n fan cyfarfod i'r tîm ymchwil, a siop fwyd a bwydydd anifeiliaid. Yn sgil cau'r ysgol gynradd leol ym Mwlch-y-groes yn 2000, sefydlwyd pwyllgor Neuadd Gymuned Bwlch-y-groes er mwyn prynu safle'r ysgol i'w datblygu'n Ganolfan Gymunedol. Symudodd Cylch Meithrin Bwlch-y-groes, a sefydlwyd ym mis Medi 1974 ac a leolwyd yn neuadd y pentref, yn ddiweddarach i adeilad yr hen ysgol ac mae ar agor hyd heddiw. Mae pentref bach Star i'r de o Fwlch-y-groes.

Mae Cwmorgan yng ngwaelod y dyffryn, lle y ceir nifer o aelwydydd ar hyd-ddo. Mae Cwmorgan gerllaw anheddiad mwy Capel Iwan, a oedd ychydig tu allan i'r ardal ymchwil. Yr oedd ardal ymchwil Cwmorgan yn arbennig o anodd mynd ati yn ystod tridiau cyntaf yr ymchwil gan fod yr heolydd yn llethrog iawn a'r rhew yn eithaf trwch dan draed. Mae'r pentref bach hwn ar waelod dyffryn serth, ac nid oedd ganddo'r un gwasanaeth, er bod y llyfrgell symudol yn galw'n rheolaidd yn yr ardal.

Yr oedd nifer o ffermydd yn ardal Clydau lle'r oedd mynediad iddynt yn anodd. Fodd bynnag, llwyddodd y tîm ymchwil i gywain nifer fawr o atebion. Yr oedd y tymheredd yn eithaf isel yng Nghlydau, ond nid oedd ond yr heolydd mwyaf diarffordd wedi rhewi, felly ni rwystrwyd yr ymchwil.

2.10 Ardal astudiaeth Aberdaron

Mae ardal Cyngor Cymuned Aberdaron ym mhen mwyaf gorllewinol Pen Llŷn yng ngogledd Cymru, oddeutu deunaw milltir i'r gorllewin o'r dref glan y môr Pwllheli. Yr oedd yr ardal ymchwil yn cynnwys 620 o aelwydydd ac yn cwmpasu tair prif ardal anheddu - Aberdaron, Rhoshirwaun a Rhiw. Pentref pysgota bychan traddodiadol Aberdaron oedd y prif anheddiad yn yr ardal ymchwil. Yn y pentref ceir dau westy - y Ship a Thŷ Newydd (a fu'n fan cyfarfod i'r tîm ymchwil) a nifer o lefydd Gwely a Brecwast, yn ogystal â dau gaffi (Yr Hen Best a'r Gegin Fawr), a dau faes parcio canolog, a ddefnyddiwyd yn bennaf gan ymwelwyr traeth a cherddwyr y llwybrau treftadaeth yn yr ardal. Prif ddiwydiant Aberdaron yw twristiaeth a dyfarnwyd y lluman Glas i'r

traeth yn 2005. Cynigir gwasanaeth cychod rheolaidd rhwng Ynys Enlli a Phorth Meudwy drwy gydol tymor yr haf. Mae trafniadaeth gyhoeddus i'r ardal yn gadael o Bwllheli, sef y lle poblog agosaf, ac yn dilyn ffordd y gogledd o Nefyn drwy bentrefi Edern a Thudweiliog, neu ar hyd ffordd y de, drwy bentrefi Llanbedrog, Mynytho, Neigwl a Rhiw.

Rhiw yw un o'r pentrefi uchaf yn Llŷn. A'r mynyddoedd yn gefndir iddo, mae'n cynnig golygfeydd godidog o'r arfordir a Bae Ceredigion. Caewyd yr ysgol yn Rhiw yn y 1950au ond ceir neuadd gymuned weithgar sy'n ganolfan i weithgareddau diwylliannol a chymdeithasol yn y pentref, gan gynnig ystod eang o gyngherddau, darlithoedd a gweithgareddau cymunedol. Mae Rhoshirwaun oddeutu dwy filltir i'r gogledd-ddwyrain o Aberdaron ar hyd y B4413. Mae'r pentref yn wasgaredig ledled llwyfandir deheuol Llŷn.

Mae'r ardal yn gadarnle i'r Gymraeg a'i diwylliant, sy'n rhan bwysig ac annatod o fywyd y gymuned. Yn ôl Cyfrifiad 2001 mae mwy na 75% o'r trigolion yn siarad Cymraeg, a'r ganran uchaf o siaradwyr oedd y grwpiau oedran rhwng 20 a 24 a rhwng 10 a 15. Fodd bynnag, cysylltir y cwmp cyson a fu ar y defnydd o'r Gymraeg yn ystod y degawdau diwethaf ag allfudo ac â mewnfudwyr di-Gymraeg. Rhydd yr enwau lleoedd Cymraeg ymdeimlad cryf o le a dealltwriaeth o hanes a thraddodiadau'r ardal.

Mae cadwraeth a threftadaeth yn yr ardal yn bynciau o bwys, a cheir nifer fawr o ddynodiadau a chynefinoedd bywyd gwyllt, gan gynnwys nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Mae gan Ynys Enlli, sydd oddeutu milltir o ben gorllewinol Llŷn ac yn eiddo i Ymddiriedolaeth Ynys Enlli sy'n ei chynnal, hanes mawr ac fe'i pennwyd yn Warchodfa Natur Genedlaethol. Yn 1956 pennwyd rhan helaeth o'r penrhyn yn Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Yr oedd yn un o'r ardaloedd cyntaf i dderbyn y statws arbennig hwn. Dynodwyd llawer o'r arfordir yn Arfordir Treftadaeth, ac mae llawer rhan ohono o dan ofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r

dirwedd hon wedi bod yn allweddol wrth ffurfio cymeriad yr ardal, o ran ei gwerth amgylcheddol a chymdeithasol uchel ac o ran pwysigrwydd ymwelwyr a thwristiaeth. Mae gwerth twristaidd a hamdden yr arfordir wedi bod yn ddeniadol i ymwelwyr gan drawsnewid yr ardal yn ddiwydiant twristiaeth mawr trwy'i niferoedd uchel o ymwelwyr.

Yn y gorffennol, amaethyddiaeth a physgota oedd dwy ffon cynhaliaeth economi Llŷn gan roi gwaith i'r trigolion lleol. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ffermydd wedi cael eu cyfuno a ffiniau wedi eu dymchwel er mwyn creu unedau mwy, a thrwy hynny newidiwyd patrymau amaethu unedau llai gryn dipyn. Prif bwyslais amaethyddiaeth bellach yw'r diwydiant llaeth a chynhyrchu cig oen a chig eidion o safon uchel. Mae twristiaeth bellach yn ganolog i'r economi leol, ac yn brif ffynhonnell incwm neu'n ffynhonnell ychwanegol o incwm i deuluoedd. Ceir ystod eang o gyfleusterau i ymwelwyr.

3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad cryno o'r wybodaeth sy'n ymwneud â pherfeddion cefn gwlad a gymerwyd o arolwg cartrefi Cymru wledig 2007 a drafodwyd yn yr adrannau blaenorol. Cyflwynir gwybodaeth am nifer o faterion allweddol gan gynnwys poblogaeth ac ymfudiad, cymuned, lles, gwasanaethau lleol a chyflogaeth.

3.2 Anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaethau

Yn ôl yr arolwg cartrefi a gynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru yn 2007, yr oedd preswylwyr ym mherfeddion cefn gwlad Cymru lawer yn fwy tebygol o wynebu anawsterau i allu defnyddio cyfleusterau gofal iechyd, gwasanaethau, ysbytai a deintyddion yn fwyaf penodol, o'u cymharu ag ardaloedd gwledig eraill (llai ymylol neu wasgarog) Cymru. Hefyd, yr oedd preswylwyr perfeddion cefn gwlad yn fwy tebygol o wynebu anawsterau i allu defnyddio gwasanaethau trafniadaeth gyhoeddus, megis safleoedd bysiau. Mae hyn yn cyfateb i ganfyddiadau arolwg perfeddion cefn gwlad, a ddangosodd nad oedd preswylwyr yn defnyddio trafniadaeth gyhoeddus i deithio i'r gwaith. I raddau llai, yr oedd nifer uwch o breswylwyr perfeddion cefn gwlad Cymru hefyd yn sôn eu bod wedi wynebu anawsterau i gael mynediad i glybiau cymdeithasol, gorsafoddedd yr heddlu ac archfarchnadoedd, o'u cymharu â gweddill Cymru wledig. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi hefyd fod bron hanner trigolion Cymru wledig yn dweud nad oeddynt wedi wynebu unrhyw broblemau i allu defnyddio gwasanaethau.

3.3 Canfyddiadau am ansawdd gwasanaethau

Yn gyffredinol, yr oedd ansawdd gwasanaethau yn cael ei raddio'n gadarnhaol gan gartrefi ledled Cymru wledig. Yr unig eithriad oedd mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus, gydag ychydig dros draean (34%) o ddeiliaid cartrefi mewn ardaloedd a oedd yn cael eu dosbarthu fel perfeddion cefn gwlad Cymru yn ystyried bod trafniadaeth gyhoeddus yn wael, o'u cymharu ag ychydig dan chwarter (24%) yng ngweddill Cymru wledig. Yr oedd trigolion Perfeddion Cefn

Gwlad hefyd yn tueddu i fod yn fwy negyddol wrth raddio ansawdd darpariaeth gwasanaethau o'u cymharu â rhannau eraill o Gymru wledig. Yr oedd canfyddiadau cadarnhaol ynglŷn â gwasanaethau megis siopau bwyd, banciau, ysgolion, yr heddlu, meddygon teulu a swyddfeydd y post yn llai amlwg ym mherfeddion cefn gwlad Cymru o'u cymharu â rhannau eraill o Gymru wledig.

3.4 Hyd preswyllo

Canfu arolwg cartrefi 2007 dystiolaeth fod y boblogaeth yn sylweddol sefydlog yng Nghymru wledig; yr oedd ychydig dros chwarter (28%) o'r holl atebwyr wedi bod yn yr un eiddo drwy'r amser am dros 20 mlynedd a 43% arall am gyfnod rhwng 5 ac 20 mlynedd. Wrth edrych yn agosach ar y canlyniadau gwelwyd bod y ffigurau ar gyfer perfeddion cefn gwlad Cymru yn lled debyg i ffigurau gweddill Cymru wledig gyda chyfran ychydig yn uwch o drigolion yn byw yn eu heiddo am gyfnod rhwng 5 ac 20 mlynedd (47%).

Tabl 3.1 Hyd preswyllo

	Perfeddion Cefn Gwlad	Gweddill Cymru Wledig
1-5 oed	23%	26%
6-10 oed	21%	22%
11-20 oed	26%	21%
21-25 oed	9%	8%
25+	19%	20%

3.5 Cyfalaf Cymdeithasol a chymuned leol

Nod yr arolwg cartrefi oedd archwilio teimladau cymunedau a'u canfyddiadau yn ardaloedd gwledig Cymru. Gofynnwyd i atebwyr ymateb i nifer o ddatganiadau yn ymwneud â pherthyn i gymuned, cydlynid, diogelwch, ynysu ac arwyddocâd y Gymraeg, a gofynnwyd iddynt a oeddynt yn cytuno â phob datganiad ai peidio. Yr atebion posibl oedd: cytuno'n gryf; tueddu i gytuno; ddim yn

cytuno nac yn anghytuno, tueddu i anghytuno; neu anghytuno'n gryf.

Yn gyffredinol, yr oedd yr atebion yn aruthrol o gadarnhaol pan ofynnwyd am eu barn am berthyn i gymuned, cydlyniad cymunedol a diogelwch cymunedol, gydag atebion cadarnhaol yn amrywio o 77% i 93%. Wrth edych ar y sefyllfa yn fanylach yng Nghymru wledig, daeth hi'n amlwg fod yr atebion cadarnhaol uchaf yn yr ardaloedd hynny a oedd yn cael eu dosbarthu fel perfeddion cefn gwlad, lle'r oedd pedwar o bob pum preswlydd yn ymateb yn gadarnhaol i'r datganiadau a gynigiwyd. Er bod cwestiynau yn ymwneud â phwysigrwydd y Gymraeg

mewn bywyd cymunedol a chanfyddiadau am ynysu yn denu atebion llai cadarnhaol, yr oedd patrwm amrywiad tebyg yn amlwg rhwng gwahanol rannau o Gymru wledig. Er enghraifft, yr oedd dros hanner (53%) yr holl breswylwyr ym mherfeddion cefn gwlad Cymru yn cytuno bod y gallu i sgwrsio yn y Gymraeg yn bwysig er mwyn gallu cymryd rhan lawn mewn bywyd cymunedol, o'u cymharu â chanran lai, sef 32%, yng ngweddill Cymru wledig. Yn yr un modd, yr oedd ychydig dan chwarter (23%) y preswylwyr ym mherfeddion cefn gwlad Cymru yn teimlo'n ynysig yn byw yn eu hardal leol, o'u cymharu ag 16% yng ngweddill Cymru wledig.

Tabl 3.2 Canfyddiadau am y gymuned leol

	Perfeddion Cefn Gwlad	Gweddill Cymru Wledig
Rwy'n ystyried fy hun yn aelod o'r gymuned leol		
Cytuno	88%	81%
Dim barn	12%	17%
Anghytuno	4%	8%
Mae pobl yn fy nghymuned yn cadw golwg ar ei gilydd		
Cytuno	89%	83%
Dim barn	10%	15%
Anghytuno	5%	9%
Rwy'n teimlo'n ddiogel yn byw yn fy nghymuned		
Cytuno	98%	93%
Dim barn	2%	5%
Anghytuno	1%	3%
Rwy'n bendant yn mwynhau byw yn fy nghymuned		
Cytuno	95%	94%
Dim barn	5%	5%
Anghytuno	2%	3%
Mae ymdeimlad cryf o deimlad cymunedol yn y lle rwy'n byw ynddo		
Cytuno	83%	77%
Dim barn	15%	19%
Anghytuno	9%	13%
Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig er mwyn cymryd rhan lawn yn fy nghymuned		
Cytuno	53%	32%
Dim barn	31%	40%
Anghytuno	37%	60%

Rwy'n teimlo'n ynysig yn y lle rwy'n byw ynddo		
Cytuno	23%	16%
Dim barn	36%	36%
Anghytuno	70%	79%
Gallaf ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal hon		
Cytuno	42%	39%
Dim barn	42%	41%
Anghytuno	40%	47%

3.6 Sgiliau iaith Gymraeg

Dangosodd arolwg cartrefi 2007 a gynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru fod cyfran uwch o drigolion Cymraeg eu hiaith ym mherfeddion cefn gwlad Cymru. Gallai ychydig dros 40% o gartrefi ym mherfeddion cefn gwlad Cymru siarad Cymraeg, naill ai'n rhugl neu'n eithaf da, o'u cymharu â chwarter yng ngweddill Cymru wledig.

3.7 Bodlonrwydd gyda gwasanaethau a chyfleusterau lleol

Yn gyffredinol, yr oedd trigolion Cymru wledig yn lled fodlon ar yr amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau a oedd ar gael yn eu hardaloedd lleol, gyda phedwar o bob pum preswlydd yn dweud bod y

ddarpariaeth naill ai wedi aros yr un fath neu'n well na'r pum mlynedd cynt. Yr oedd y canlyniadau'n lled gyfartal ym mhob rhan o Gymru wledig. Nid oedd unrhyw amrywiad sylweddol mewn atebion cadarnhaol rhwng yr ardaloedd hynny a oedd yn cael eu dosbarthu fel perfeddion cefn gwlad a gweddill Cymru wledig. Fodd bynnag, gwelwyd rhywfaint o amrywiad yn yr ymatebion negyddol a roddwyd i'r cwestiwn hwn, gyda thrigolion ym mherfeddion cefn gwlad yn fwy tebygol o ddweud bod darpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau yn eu hardaloedd lleol wedi dirywio (14% o'i gymharu â 10% yng ngweddill Cymru wledig).

Tabl 3.3 Canfyddiadau am newidiadau i wasanaethau / cyfleusterau lleol yn ystod y pum mlynedd diwethaf:

	Perfeddion Cymru Wledig	Gweddill Cymru Wledig
Yn well	21%	29%
Yr un fath	62%	55%
Yn waeth	14%	10%
Ddim yn Gwybod	3%	6%

3.8 Mynediad i gyfrifiaduron a'r rhyngwrwyd

Er bod mynediad cartrefi i gyfrifiaduron a'r rhyngwrwyd yn gymharol uchel ym mhob rhan o Gymru wledig (dros 70%), yr oedd mynediad ym mherfeddion cefn gwlad ychydig yn is na gweddill Cymru wledig. Yr oedd ychydig dan dri chwarter (74%) y cartrefi ym mherfeddion cefn gwlad Cymru yn gallu cael gafael ar gyfrifiadur cartref, o'i gymharu â nifer ychydig yn uwch o 77% ar gyfer gweddill Cymru wledig, tra bod dau o bob tri o'r cartrefi hynny wedi'u cysylltu â'r

rhyngwrwyd (o'u cymharu â 70% o gartrefi yng ngweddill Cymru wledig). Yr oedd y ffigurau ar gyfer band eang hefyd yn dangos patrwm tebyg (51% ym mherfeddion cefn gwlad o gymharu â 59% ar gyfer gweddill Cymru wledig).

3.9 Perchnogaeth car

Dangosodd arolwg cartrefi 2007 fod nifer fawr o bobl yn perchen car ym mhob rhan o Gymru wledig, gyda 90% o'r holl gartrefi yn dweud eu bod yn perchen ar gar. Fodd bynnag, wrth edrych yn fanylach ar y

canlyniadau gwelwyd bod cyfraddau ychydig uwch o gartrefi yn perchen ar fwy nag un car ym mherfeddion cefn gwlad gyda 56% o gartrefi perfeddion cefn gwlad yn dweud eu bod yn perchen ar ddau neu fwy o geir, o'u cymharu â 51% yng ngweddill Cymru wledig.

3.10 Lle gwaith

Dangosodd yr arolwg fod y ganran o breswylwyr a oedd yn gweithio gartref yn uwch ym mherfeddion cefn gwlad (16%) o'i chymharu â gweddill Cymru wledig (11%).

3.11 Incwm Blynyddol y Cartref

Dangosodd arolwg cartrefi 2007 fod perfeddion cefn gwlad yn cynnwys canran ychydig uwch o gartrefi a oedd ag incwm blynyddol o lai na £10,000 (27%) o'i chymharu â gweddill Cymru wledig, lle'r oedd y ganran ychydig o dan chwarter (23%).

3.12 Ynni cartrefi

Yr oedd cartrefi ym mherfeddion cefn gwlad yn llai tebygol o insiwleiddio'r llofft, fod â gwydro dwbl, ac wedi insiwleiddio'r wal geudod, o'u cymharu â gweddill Cymru wledig, ond yr oeddynt yn fwy tebygol o gael paneli haul a defnyddio bylbiau golau sy'n arbed ynni.

4.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cyflwyno data a gasglwyd ynglŷn â'r atebwyr a'r ardaloedd y maent yn byw ynddynt. Mae'r data hwn yn amlygu'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng yr ardaloedd yr ymchwiliwyd iddynt, ac yn cyflwyno adroddiad cyffredinol o ddealltwriaeth preswylwyr o'r ardaloedd hyn ym mherfeddion cefn gwlad.

4.2 Ardal

Hyd Preswylad

Ar draws y pedair ardal, yr oedd bron 45% o atebwyr wedi byw yn eu hardal leol bresennol

ers dros 25 mlynedd. Gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y pedair ardal o ran y cyfnod o amser yr oedd mwyafrif y bobl wedi byw yno. Tra bo dros hanner yr atebwyr yn Llanfihangel ac Aberdaron wedi preswylwio yn eu hardal leol ers dros 25 mlynedd, 37% oedd y ffigur yn Llangamarch a Chlydau.

I'r gwrthwyneb, yr oedd llai na 10% o breswylwyr Aberdaron wedi byw yno ers llai na phum mlynedd, o'i gymharu â 26% yng Nghlydau. Mae'r ffigurau hyn i'w gweld yn Nhabl 4.1.

Tabl 4.1 Hyd preswylad

	Pob Ardal	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
1 – 5 mlynedd	18.1%	14.1%	21.2%	26.2%	9.4%
6 -10 mlynedd	13.4%	10.9%	17.1%	12.7%	13.2%
11 – 20 mlynedd	16.2%	17.2%	20.2%	12.7%	15.6%
21 – 25 mlynedd	7.6%	5.7%	4.7%	11.5%	7.5%
25 mlynedd neu fwy	44.7%	52.1%	36.8%	36.9%	54.2%

O'r tabl hwn gwelwn fod poblogaethau Llanfihangel ac Aberdaron wedi bod yn fwy sefydlog, gyda llai o fewnfudo, na Llangamarch a Chlydau. Er enghraifft, Clydau sydd â'r boblogaeth fwyaf o fudwyr diweddar (26%) ac Aberdaron sydd â'r lleiaf (9%).

Incwm Cartrefi

Yr oedd incwm blynyddol bron chwarter yr atebwyr yn y pedair ardal yn is na £10,000. Yr oedd incwm blynyddol traean ohonynt rhwng £10,000 ac £21,000 ac yr oedd incwm blynyddol 19% rhwng £21,000 ac £31,000. Yr oedd incwm blynyddol bron chwarter yr atebwyr dros £31,000.

O ran lleoliad, er bod canrannau tebyg o atebwyr ym mhedair ardal yr astudiaeth ag incwm blynyddol llai na £10,000 (rhwng 20% a 25%), yr oedd amrywiaeth ar draws y bandiau incwm eraill. Er enghraifft, yr oedd incwm blynyddol 41% o atebwyr Llanfihangel rhwng £10,000 a £21,000, gyda 44% yn Llangamarch. Yr oedd canrannau yn y band

incwm hwn yn sylweddol uwch yng Nghlydau (53%) ac Aberdaron (55%). Fodd bynnag, Aberdaron oedd â'r ganran isaf o atebwyr ag incwm blynyddol dros £31,000. Gan Lanfihangel yr oedd y ganran fwyaf yn y band dros £31,000 (30%), gyda Llangamarch (23%) yn dilyn ac yna Clydau (22%).

Ymddengys fod perthynas gref rhwng incwm a hyd preswylad: yr oedd 56% o atebwyr gydag incwm blynyddol llai na £10,000 wedi byw yn eu hardal leol ers dros 25 mlynedd, o'i gymharu ag ychydig dros draean y rheiny a oedd yn ennill £31,000 y flwyddyn. Yr oedd atebwyr a oedd wedi byw yn eu hardal leol ers hyd at ddeng mlynedd yn fwy tebygol o fod ag incwm blynyddol o dros £21,000 nag aelodau o'r gymuned a oedd wedi byw yno'n hirach.

4.3 Effeithiau mewnfudo

Yr oedd bron 40% o'r holl atebwyr yn y pedair ardal wedi symud o Loegr. Yn Aberdaron yn unig y gwelwyd canrannau cyfartal o bobl a

oedd wedi byw yn yr ardal ar hyd eu hoes a phobl a oedd wedi symud yno o Loegr: 36% yn y ddau achos. Yng Nghlydau, yr oedd 45% o atebwyr wedi symud o Loegr, o'i gymharu â 35% a oedd wedi byw naill ai yn yr un lle neu yn yr un ardal ar hyd eu hoes.

Yr oedd dros draean y preswylwyr a oedd yn 65 oed neu'n hŷn wedi symud i'w hardal leol o Loegr. Yr oedd hyn yn cymharu â'r 25% o bobl dros 65 oed oedd wedi byw yn eu hardal leol ar hyd eu hoes. Yr oedd canran eithaf uchel (42%) o bobl o dan 35 oed yn y sampl wedi byw yn yr ardal leol ar hyd eu hoes.

Y bobl a oedd wedi symud o Loegr oedd y rhai a oedd yn ennill yr arian mwyaf yn y sampl, gyda 45% o'r grŵp hwn ag incwm blynyddol dros £31,000. Mewn cyferbyniad, yr oedd incwm blynyddol 34% o'r bobl a oedd wedi byw yn yr un ardal leol erioed, neu a oedd wedi symud o fewn yr un ardal, o dan £10,000.

4.4 Bodlonrwydd â'r Ardal Leol

Yr oedd dros 90% o atebwyr yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'u hardal leol fel lle i fyw. Gyda chymaint yn mynegi boddhad, ychydig o amrywiaeth a welwyd rhwng yr ardaloedd. Yn Aberdaron yr oedd y ganran uchaf (97%), a'r isaf yn Llangamarch (91%). Yn yr un modd, ychydig o amrywiaeth a gafwyd yn y boddhad a fynegwyd â'r ardaloedd gwledig hyn fel lle i fyw ar draws y categorïau oed, incwm, statws economaidd ac ethnigrwydd.

Pan ofynnwyd i'r atebwyr beth oeddent yn ei hoffi am fyw yn yr ardaloedd gwledig hyn, yr oeddent yn tueddu i nodi heddwch a bywyd mwy hamddenol, yn enwedig o'i gymharu â ffair a ffwnder lleoliadau trefol; ymdeimlad o gymuned glòs; a thirwedd a golygfeydd prydfferth Cymru wledig. Mae sylwadau canlynol yr atebwyr yn dangos rhai o'r teimladau hyn.

"...heddwch cymharol. Dim cymdogion agos heblaw'r bywyd gwyllt."

(Gwryw hŷn, o Gymru)

"Yr heddwch, yr olygfa, cymdogaeth pentref bychan mewn ardal wledig lle'r ydym yn rhyngweithio am ein bod yn gymuned."

(Oedran gweithio, Cymreig)

"Mae'r amgylchedd yn brydfferth; hyd yn oed os bydda' i'n cael y diwrnod gwaethaf erioed, mae edrych o 'nghwmpas yn gwneud i mi deimlo'n falch o fod yn fyw. Mae yna ymdeimlad o gymuned yma o hyd, lle mae pawb yn gofalu am ei gilydd."

(Benyw o oedran gweithio, Saesnes)

"Y golygfeydd a'r dirwedd brydfferthaf, bod yn agos at natur, mwynhau bywyd mwy heddychlon, cael gardd (tyfu eich ffrwythau a'ch llysiau eich hun ac ati), y teimlad o fod wedi 'troi'ch cefn' ar bethau, bod wedi 'dianc rhag popeth', ar 'ben y llwybr'."

(Gwryw o oedran gweithio, o'r tu allan i Gymru)

Rhwng 2% a 5% a fynegodd anfodlonrwydd. Pan ofynnwyd iddynt beth nad oeddent yn ei hoffi am fyw yn eu hardal leol, nododd atebwyr yn aml y diffyg gwasanaethau a'r dirywiad neu'r toriadau yn y gwasanaethau cyfredol. Soniodd rhai am broblem pobl yn symud i'r ardal ac eraill am y problemau y mae pobl ifainc yn eu hwynebu o ran gwaith a phrynu tŷ yn yr ardal. Ni nododd canran helaeth (33%) unrhyw beth nad oeddent yn ei hoffi am eu hardal.

Dyma rai enghreifftiau o bethau nad oedd pobl yn eu hoffi.

"All y bobl ifanc ddim aros yn yr ardal am nad oes yna unrhyw beth yma iddyn nhw. Pobl ddieithr sy'n byw yn nhri chwarter y tai gan na all pobl leol eu ffordio."

(Gwryw hŷn, wedi byw yn yr ardal ar hyd ei oes)

"Dim llawer i bobl ifanc na'r henoed ei wneud. Dim cludiant cyhoeddus i fynd â chi i drefi mwy. Angen mwy o siopau lleol."

(Benyw hŷn)

"Gormod o bwyslais ar yr iaith Gymraeg ac mae cost argraffu ddwywaith cyn ddruted. Costau byw."

(Benyw hŷn, wedi byw yn yr ardal dros 20 mlynedd)

"Alla' i ddim gyrru mwyach, felly mae mwy o bellter i mi deithio (i siopau ac i'r ysbty), ac nid yw'r cludiant cyhoeddus yn addas."

(Wedi symud i'r ardal o'r tu allan i Gymru)

"Pell iawn oddi wrth siopau da, mae ein trip siopa wythnosol yn costio cymaint am ei bod yn daith o dros 40 milltir i'n harchfarchnad leol ac

yn ôl. Mae pawb yn adnabod ei gilydd ac yn tueddu i fod 'â'u trwynau ym musnes pawb'."

(O dan 35, ddim yn gweithio)

"Dim ar wahân i ddiffyg gwasanaethau, ond ni sy'n dewis byw yma."

(Oedran gweithio, wedi symud i'r ardal o'r tu allan i Gymru)

4.5 Ansawdd Bywyd

Ar y cyfan, yr oedd atebwyr o'r farn fod ansawdd bywyd yn uchel, gyda 94% ohonynt yn nodi bod ansawdd eu bywydau naill ai'n dda neu'n eithaf da. Dangosir y dadansoddiad o ansawdd bywyd rhwng y gwahanol ardaloedd yn Nhabl 4.2 isod. Dengys hwn fod llawer mwy yn ei ystyried yn 'dda iawn' ac yn 'dda' nag yn 'eithaf drwg' neu 'ddrwg'.

Tabl 4.2 Ansawdd Bywyd yn ôl ardal

	Pob Ardal	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Da iawn	68.1%	63.9%	76.0%	71.7%	60.7%
Eithaf Da	26.0%	32.5%	20.3%	22.1%	29.9%
Ddim yn Dda nac yn Ddrwg	4.6%	3.1%	3.1%	4.6%	7.1%
Eithaf Drwg	1.0%	0.5%	0.5%	1.7%	0.9%
Drwg iawn	0.4%	0.0%	0.0%	0.0%	1.4%

Yn yr un modd ag asesiadau o foddhad gyda byw yn yr ardal leol, yr oedd y carannau uchel o atebwyr a nododd fod ganddynt ansawdd bywyd 'da' neu 'dda iawn' yn atal llawer o amrywiaeth ar draws y categorïau.

Fodd bynnag, os cymerir graddau 'da iawn' fel dangosydd o ansawdd bywyd uchel, yr oedd yn bosibl canfod rhai amrywiaethau.

Er enghraifft, yr oedd yr atebwyr hynny a oedd mewn gwaith yn fwy tebygol o ystyried bod ansawdd eu bywyd yn 'dda iawn', gyda 72% o atebwyr yn gweithio o'u cymharu â 65% heb waith.

Yr oedd atebwyr a oedd wedi symud i'r ardal yn fwy tebygol o ystyried bod ganddynt ansawdd bywyd uwch na'r rheiny a oedd wedi byw yno erioed: yr oedd 61% o atebwyr a oedd wedi byw yn yr un ardal leol ar hyd eu hoes yn ystyried bod ansawdd eu bywydau'n 'dda iawn', o'u cymharu â 68% o'r rheiny a oedd wedi symud i'w hardal leol o ardal arall yng Nghymru a 72% o atebwyr a oedd wedi symud i'r ardal o'r tu allan i Gymru.

Yr oedd y berthynas rhwng ansawdd bywyd ac incwm yn union yn ôl y disgwyl. Wrth i

incwm gynyddu (dros £21,000 y flwyddyn), yr oedd atebwyr hefyd yn fwy tebygol o nodi bod ansawdd eu bywydau'n dda iawn. Dangosir hyn yn Nhabl 4.3.

4.6 Lleoliad eiddo o fewn ardaloedd

Gofynnwyd i atebwyr nodi'n benodol a oedd yr eiddo yr oeddent yn byw ynddo mewn pentref; ar gyrion pentref; neu'n eiddo ynysig. Yr oedd y canrannau a gofnodwyd yn eithaf tebyg, sef 29%, 33% a 33%, yn y drefn honno. Nododd canran fechan (4%) fod eu heiddo mewn lleoliad 'arall'. Ar y cyfan, yr oedd 66% o atebwyr yn byw y tu allan i bentref, a oedd yn dangos graddau o ynysiad ffisegol o fewn y cymunedau hyn ym mherfeddion cefn gwlad.

O ran amrywiaeth rhwng y cymunedau yr ymchwiliwyd iddynt, yn Llangamarch yr oedd y gyfradd uchaf o atebwyr a oedd yn byw mewn pentref, sef 37%. Aberdaron a oedd â'r ganran isaf, sef 24%. 26% oedd y ffigur yn Llanfihangel, a 30% yng Nghlydau. Llanfihangel a oedd â'r ganran uchaf o eiddo ynysig, sef 42%, o'i gymharu ag 20% yn Llangamarch, a oedd â'r isaf.

Tabl 4.3 Canfyddiadau o ansawdd bywyd yn erbyn incwm

Incwm Blynyddol	Llai na £10,000	£10,000–£21,000	£21,000 – £31,000	Dros £31,000
Da iawn	61.3%	64.3%	77.5%	76.6%
Eithaf Da	31.0%	26.2%	21.7%	20.8%
Ddim yn Dda nac yn Ddrwg	7.1%	6.7%	0.8%	2.6%
Eithaf Drwg	0.6%	1.9%	0.0%	0.0%
Drwg iawn	0.0%	1.0%	0.0%	0.0%

4.7 Demograffeg

Ceisiodd yr arolwg fod yn gynhwysfawr a dangos cynrychiolaeth gywir o ddsbarthiad aelwydydd yr ardaloedd hyn ym mherfeddion cefn gwlad. Cynhwyswyd penwythnosau yn y cyfnodau arolygu i gynyddu'r cyfranogiad posibl ac i sicrhau y cynrychioliod pob math o aelwyd.

Y math o aelwyd fwyaf cyffredin oedd aelwyd dau berson, sef 42% o'r sampl. Yn ail yr oedd aelwydydd un person, sef 22% o atebwyr.

Awgrymai'r canlyniadau fod aelwydydd a oedd yn cynnwys sawl cenhedlaeth yn anarferol. Yr oedd 90% o'r sampl yn aelwydydd gyda phedwar person neu lai, ac yr oedd 63% o aelwydydd yn cynnwys dau neu lai o bobl.

Ar y cyfan, yr oedd 15% o aelwydydd yn bobl hŷn sengl; yr oedd 24% yn barau hŷn; 8% yn bobl sengl o oedran gweithio; 19% yn barau o oedran gweithio; 23% yn barau o oedran gweithio gyda phlant dibynnol; a bron 5% yn rhieni sengl o oedran gweithio gyda phlant dibynnol.

Dangosodd y canlyniadau hyn boblogaeth sy'n heneiddio yn yr ardaloedd hyn ym mherfeddion cefn gwlad, gyda bron dau o bob pump o aelwydydd (39%) yn cynnwys person hŷn, naill ai'n byw ar eu pennau eu hunain neu fel pâr. Yr oedd y ffigur yn uwch na chyfartaledd Cymru o 25% a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2001. Llangamarch a oedd â'r ganran uchaf o aelwydydd pobl hŷn, sef 46% o'r boblogaeth, a Chlydau a oedd â'r ganran isaf o aelwydydd pobl hŷn, sef traean y boblogaeth sampl.

O ran aelwydydd â phlant, Clydau a oedd â'r ganran uchaf, sef 30%. Llanfihangel a oedd yn ail gyda 29%, a 26% oedd canran Llangamarch ac Aberdaron fel ei gilydd.

Yng Nghlydau yr oedd y nifer uchaf o aelwydydd dau riant gyda phlant dibynnol, sef 26% o aelwydydd. Yma hefyd yr oedd y ganran isaf o aelwydydd un riant gyda phlant, sef 3%.

Yng Nghlydau yr oedd y ganran uchaf o bobl o oedran gweithio, sef 32% o'r boblogaeth sampl. Yr oedd 23% o'r rhain yn barau o oedran gweithio, a'r 9% a oedd yn weddill yn byw ar eu pennau eu hunain. Yn Aberdaron yr oedd y ganran isaf o oedolion o oedran gweithio, sef 24%. O'r rhain, yr oedd 8% yn aelwydydd un person.

Yn Llangamarch yr oedd y ganran uchaf o aelwydydd sengl, sef 12% o'r boblogaeth. Yn Llanfihangel yr oedd y ganran isaf, sef 4%.

4.8 Hunaniaeth Genedlaethol

Ar y cyfan, yr oedd bron hanner yr atebwyr yn eu hystyried eu hunain yn Gymry. Yr oedd traean yn eu cyfrif eu hunain yn Brydeinwyr a 14% yn teimlo mai Saeson oeddent. Aberdaron oedd yr ardal â'r ganran uchaf o atebwyr a oedd yn eu hystyried eu hunain yn Gymry (59%). Yng Nghlydau yr oedd y nifer leiaf, gyda 42% o atebwyr yn nodi mai Cymry oeddent.

Aberdaron oedd â'r ganran isaf o atebwyr a oedd yn eu hystyried eu hunain naill ai'n Saeson (9%) neu'n Brydeinwyr (25%). Yn nhair ardal arall yr astudiaeth, yr oedd rhwng 15% a 16% yn eu hystyried eu hunain yn Saeson; a rhwng 30% a 38% yn eu hystyried eu hunain yn Brydeinwyr.

Yn ôl y disgwyl, yr oedd 94% o'r rheiny a oedd wedi byw yn yr un ardal ym mherfeddion cefn gwlad Cymru ar hyd eu hoes yn eu hystyried eu hunain yn Gymry. Yn ogystal, yr oedd 63% o bobl a oedd wedi symud i'w hardal leol bresennol o ardal arall yng Nghymru yn eu hystyried eu hunain yn Gymry. Yr oedd dros chwarter y rheiny a oedd wedi symud o ardaloedd eraill yng Nghymru i ardal ym mherfeddion cefn gwlad yn eu hystyried eu hunain yn Brydeinwyr, o'i gymharu â 5% o'r rheiny a oedd wedi byw yno ar hyd eu hoes a 53% a oedd wedi symud i Gymru o Loegr.

4.9 Deiliadaeth Cartref

Yn gyffredinol, mae'r arolwg yn dangos canran uchel o berchnogion tai heb forgeisi (62%), a oedd bron dwbl y ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan (34%), fel y nodir gan Gyfrifiad 2001. Y math nesaf mwyaf cyffredin wedyn o ddeiliadaeth cartref oedd perchnogaeth trwy forgais, sef 22% o gartrefi, oedd yn is na'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan (37%).

Yr oedd gwahaniaethau rhwng ardaloedd yr astudiaeth. Er enghraifft, yng Nghlydau yr oedd 27% o'r atebwyr yn prynu eu cartrefi ar forgais, o'i gymharu â 17% yn Llanfihangel. Dengys Tabl 4.4 ddeiliadaeth cartref yn ôl ardal ymchwil.

Fel y gellid disgwyl, wrth i atebwyr fynd yn hŷn yr oeddent yn fwy tebygol o fod yn berchen yn llwyr ar eu tai eu hunain: yr oedd 78% o'r boblogaeth dros 65 oed yn berchen

ar eu tai eu hunain, o'i gymharu â thraean atebwyr o dan 35 oed.

Yr oedd atebwyr o dan 35 oed yn fwy tebygol o rentu gan landlord preifat (19%); yr awdurdod lleol (7%); neu gymdeithas tai (3%) na'u cymheiriaid hŷn.

Atebwyr a oedd wedi byw yn yr ardal leol trwy gydol eu hoes a oedd â'r ganran uchaf o berchnogaeth cartref yn llwyr (65%) o'u cymharu â'r rhai a oedd wedi symud i'r ardal o ardal arall yng Nghymru (60%) a'r rhai a oedd wedi symud i Gymru o'r tu allan (62%). Yr oedd atebwyr a oedd wedi byw yn eu hardal leol trwy gydol eu hoes yn llai tebygol o fod wedi prynu eu cartrefi ar forgais (16%) o'u cymharu â'r rhai a oedd wedi symud i'r ardal o ardal arall yng Nghymru (23%) a'r rhai a oedd wedi symud i Gymru o'r tu allan (26%).

Mae Tabl 4.5 yn dangos y berthynas rhwng incwm a deiliadaeth cartref.

Tabl 4.4 Deiliadaeth Cartref yn ôl ardal

	Pob ardal	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Perchnogaeth Lwyr	62.3%	64.9%	62.3%	61.3%	61.0%
Perchnogaeth trwy Forgais	22.0%	16.5%	23.0%	27.2%	20.0%
Ar rent - Awdurdod Lleol	2.4%	0.5%	4.7%	1.6%	2.9%
Ar rent - Cymdeithas Tai	0.6%	0.5%	0.5%	0.8%	0.5%
Ar rent - Landlord Preifat	8.3%	12.2%	5.8%	4.9%	11.0%
Arall	4.4%	5.3%	3.7%	4.1%	4.8%

Tabl 4.5 Deiliadaeth yn ôl Grŵp Incwm

	Pawb	Llai na £10,000	£10,000-£21,000	£21,000-£31,000	Mwy na £31,000
Perchnogaeth Lwyr	62.3%	57.0%	62.9%	61.7%	50.7%
Perchnogaeth trwy Forgais	22.0%	12.0%	22.4%	29.2%	40.1%
Ar rent - Awdurdod Lleol	2.4%	8.2%	1.4%	0.8%	0.7%
Ar rent - Cymdeithas Tai	0.6%	0.6%	1.4%	0.8%	0.0%
Ar rent - Landlord Preifat	8.3%	13.9%	6.2%	6.7%	5.3%
Arall	4.4%	8.2%	5.7%	0.8%	3.3%

Gellir gweld yn Nhabl 4.5 fod perchnogaeth lwyr yn is ar gyfer atebwyr a oedd â chyflog blynyddol o £31,000 neu fwy (51%) nag yr oedd ar gyfer atebwyr gydag incwm o £10,000 y flwyddyn neu lai (57%). Efallai bod y nifer uchel o bobl sydd wedi ymddeol sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain ond sydd heb incwm blynyddol uchel yn esbonio hyn. Yr oedd y ganran uchaf o berchnogaeth lwyr yn y bandiau incwm blynyddol o £10,000 i £21,000 (63%) ac £21,000 i £31,000 (62%).

Yr oedd grwpiau incwm is yn llai tebygol o brynu eu cartrefi ar forgais na'r rhai a oedd ar gyflog uwch, sy'n tueddu i ategu'r ddamcaniaeth ymddeol uchod. Yr oedd rhentu yn fwy tebygol ymysg y rhai a

oedd yn cymryd rhan a oedd ag incwm blynyddol is.

4.10 Statws Economaidd

Ar y cyfan, yr oedd ychydig dros hanner (51%) yr holl atebwyr a holwyd mewn cyflogaeth a 39% wedi ymddeol. Yr oedd y gweddill yn ddi-waith (5%) neu wedi eu dosbarthu fel rhai a oedd yn dioddef salwch hirdymor ac anabledd (3%). O ran y data ymddeol, yr oedd y 39% a ddatgelwyd gan yr arolwg o berfeddion cefn gwlad yn ganran sylweddol uwch na'r 15% a ddangoswyd gan yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ONS, 2008) a oedd yn cwmpasu Cymru gyfan.

Tabl 4.6 Statws Cyflogaeth

	Pob ardal	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Mewn Cyflogaeth	51.4%	53.5%	53.5%	52.9%	45.9%
Di-waith	5.0%	5.9%	3.7%	4.2%	6.3%
Wedi Ymddeol	38.9%	38.0%	39.6%	35.3%	43.5%
Addysg Amser Llawn	1.0%	0.5%	1.6%	0.4%	1.4%
Salwch hirdymor ac anabledd	3.2%	2.1%	1.6%	6.3%	1.9%

Yr oedd gwahaniaethau mewn statws economaidd rhwng y pedair ardal, fel y gwelir yn Nhabl 4.6 sy'n dangos bod y ganran o atebwyr mewn cyflogaeth yn Aberdaron gryn dipyn yn is na'r tair ardal arall. Yr oedd hyn yn gyson â'r ganran uwch o bobl wedi ymddeol yn Aberdaron.

Clydau a oedd â'r ganran uchaf o bobl a oedd yn dioddef o salwch hirdymor ac anabledd. Yr oedd canrannau'r atebwyr mewn addysg amser llawn yn ymddangos yn isel. Fodd bynnag, gan fod yr holl atebwyr dros 16 oed ac yn tueddu i fod yn ben y teulu, nid oedd plant ysgol ac oedolion ifainc mewn prifysgol wedi eu cynnwys yn y data yma.

4.11 Cymwysterau Addysgol

Ar draws y pedair ardal, yr oedd y rhan fwyaf o atebwyr o berfeddion cefn gwlad Cymru yn meddu ar Lefel O, TGAU neu TAU fel eu cymhwyster addysgol uchaf, sef ychydig o dan chwarter yr atebwyr. Yr oedd gan un rhan o bump radd prifysgol, ac nid oedd gan 15% unrhyw gymwysterau o gwbl. Mae Tabl 4.7 isod yn dangos y gwahaniaethau o ran cymwysterau addysgol yr atebwyr yn y gwahanol ardaloedd. Ymysg y data a oedd yn ei amlygu ei hun; gwelwyd bod gan 18% o'r rhai a atebodd yn Llangamarch gymwysterau ôl-raddedig, bron 4% yn fwy nag unrhyw un o'r ardaloedd eraill; yr oedd gan 27% o'r atebwyr yn Aberdaron Lefel O neu gymhwyster cyfwerth fel eu cymwysterau uchaf, 4% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cefn gwlad Cymru i gyd.

Yr oedd oed hefyd yn cyfrannu fel ffactor o safbwynt cymwysterau addysgol. Er enghraifft, nid oedd gan 32% o'r boblogaeth dros 65 oed unrhyw gymwysterau o gwbl, o'i gymharu â 2% o'r atebwyr o dan 35 oed. Ac er bod y ganran o'r grwpiau oedran hyn â chymhwyster Lefel O neu TGAU fel eu cymhwyster uchaf yn debyg, sef ychydig dros 17% ar gyfer rhai o dan 35 ac ychydig is na 17% ar gyfer pobl dros 65 oed, yr oedd gwahaniaeth sylweddol mewn cymwysterau Lefel A. Yma, yr oedd gan 19% o'r rhai dan 35 Lefel A fel eu cymhwyster uchaf o'i gymharu â 5% o bobl dros 65 oed.

Yr oedd y gwahaniaeth rhwng y gwahanol grwpiau oedran yn parhau ar lefel gradd lle'r

oedd 33% o'r rhai dan 35 yn meddu ar radd fel eu cymhwyster uchaf o'i gymharu â 12% o'r rhai dros 65 oed. Yr oedd y gwahaniaeth rhwng grwpiau oedran yn llai amlwg mewn perthynas â chymwysterau ôl-raddedig. Yn wir, yr oedd grwpiau hŷn ychydig yn fwy tebygol o gael gradd ôl-raddedig. Yr oedd y canrannau fel a ganlyn: 12% o dan 35 oed; 14% o'r grŵp 35-64 oed; a 14% dros 65 oed.

Yr oedd yn ymddangos fod cyswllt rhwng iaith a chymwysterau. Yr oedd atebwyr a oedd yn gallu siarad ychydig o eiriau neu frawddegau yn Gymraeg yn gyson yn meddu ar gymwysterau gwell na'r rhai a oedd naill ai yn siarad Cymraeg yn rhugl neu yn methu siarad Cymraeg o gwbl. Er enghraifft, yr oedd 22% o'r atebwyr a oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl a 17% a oedd yn methu siarad Cymraeg heb unrhyw gymwysterau o gwbl. Mewn gwrthgyferbyniad, dim ond 7% o'r atebwyr a oedd yn siarad ychydig o eiriau neu frawddegau a oedd heb unrhyw gymwysterau o gwbl.

Tabl 4.7 Cymwysterau academiaidd

	Pob ardal	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Tystysgrif Gadael Ysgol	3.7%	3.3%	3.8%	4.2%	3.5%
Lefel O neu gyfwerth	22.6%	19.4%	20.8%	22.9%	26.7%
Lefel A neu gyfwerth	9.3%	12.8%	8.7%	9.6%	6.4%
HND neu gyfwerth	13.2%	13.3%	10.4%	15.8%	12.4%
Gradd Brifysgol	19.6%	20.6%	20.2%	18.8%	19.3%
Gradd ôl-radd	13.8%	11.1%	17.5%	12.9%	13.9%
Dim cymwysterau	15.4%	17.2%	15.3%	13.3%	16.3%
Ddim yn gwybod	2.4%	2.2%	3.3%	2.5%	1.5%

O'r rhai a oedd yn meddu ar HND neu ddiploma tebyg, yr oedd 18% o'r atebwyr yn siarad dim ond ychydig eiriau neu frawddegau yn Gymraeg yn meddu'r cymwysterau hyn, o'i gymharu â 10% o siaradwyr Cymraeg rhugl, a 12% nad oeddent yn siarad dim Cymraeg o gwbl.

Yr oedd y duedd i atebwyr a oedd yn medru siarad ychydig o eiriau neu frawddegau yn Gymraeg feddu ar well cymwysterau hyd yn oed yn fwy amlwg mewn addysg uwch. O gymryd graddau israddedig ac ôl-raddedig gyda'i gilydd, yr oedd 29% o siaradwyr Cymraeg rhugl a 27% o'r rhai nad oeddent yn gallu siarad dim Cymraeg o gwbl yn raddedig. Fodd bynnag, yr oedd 43% eithriadol o'r atebwyr a oedd yn medru siarad ychydig o eiriau neu frawddegau wedi ennill gradd israddedig neu ôl-raddedig.


Un dadansoddiad posibl o hyn yw bod gan atebwyr sy'n meddu ar gymwysterau uchel, newydd-ddyfodiaid nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yr awydd a'r dyhead i ddysgu'r iaith. Yr oedd data traws-tabl ar gyfer cymwysterau addysgol a chyfnod

preswyllo yn tueddu i gefnogi'r ddamcaniaeth hon.

Yr oedd atebwyr a oedd wedi symud i'r ardal o'r tu allan i Gymru yn fwy tebygol o feddu ar gymwysterau uwch na'r rhai oedd wedi byw yn yr ardal erioed neu'r rhai a oedd wedi symud i fyw i'r ardal o ardal arall yng Nghymru. Ar ôl cyfuno'r canlyniadau ar gyfer cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig yr oedd y canrannau fel a ganlyn: 17% o'r rhain a oedd wedi byw yn yr ardal trwy gydol eu hoes; 34% o'r rhai a oedd wedi symud i'r ardal o ardal arall yng Nghymru, a 42% o'r atebwyr a oedd wedi symud i'r ardal o'r tu allan i Gymru

Yr oedd y berthynas rhwng gweithgaredd economaidd a chymwysterau addysgol yn debyg i'r disgwyl. O'r bobl nad oeddent mewn cyflogaeth, nid oedd gan 26% unrhyw gymwysterau o gwbl, o'u cymharu â 6% o'r atebwyr a oedd mewn cyflogaeth. O ran meddu ar gymwysterau addysgol yr oedd yn anodd canfod rhesymau achosol oherwydd bod atebwyr dros 65 oed wedi'u cynnwys yn y categori 'ddim mewn cyflogaeth'.

Ffigur 4.1 Dosbarthiad Incwm yn ôl Lleoliad



4.12 Incwm a Chynilion

Yn gyffredinol, yr oedd gan 23% o'r atebwyr incwm cartref blynyddol o lai na £10,000, ac yr oedd 6% o'r rhai a atebodd yn byw ar lai na £5,000 y flwyddyn. Yr oedd y ffigurau cyfatebol ar lefelau incwm ar gyfer Cymru gyfan⁴ ychydig yn is mewn cymhariaeth, sef 10% a 6% yn y drefn honno, sy'n awgrymu bod ardaloedd ym mherfeddion cefn gwlad yn fwy tebygol o gynnwys canran uwch o drigolion yn y categorïau incwm isel. Mewn cymhariaeth, dim ond canran gymharol fach o atebwyr mewn ardaloedd ym mherfeddion cefn gwlad (8%) a oedd ag incwm cartref blynyddol dros £52,000.

Dangosir dosbarthiad incwm blynyddol ar draws y pedair ardal wahanol yn Ffigur 4.1. Datgelodd y dosbarthiad incwm yma rai gwahaniaethau. Er enghraifft, yr oedd gan 10% o'r atebwyr yn Aberdaron incwm blynyddol a oedd yn llai na £5,000 o'i gymharu â 3% yn Llangamarch.

Yn ddiddorol, yr oedd gan Langamarch un o'r setiau incwm uchaf, gydag 8% o'r atebwyr yn byw ar aelwydydd a oedd ag incwm blynyddol dros £52,000, ac un o'r setiau isaf, gyda 25% o'r rhai a atebodd ar incwm blynyddol llai na £10,000.

Llanfihangel, gyda 10%, a oedd â'r ganran uchaf o atebwyr a oedd yn byw ar incwm blynyddol o dros £52,000. Aberdaron ar 6% a oedd â'r ganran isaf o bobl ar yr incwm hwn.

Os oedd atebwyr wedi aros yn yr un ardal trwy gydol eu hoes yr oeddent yn fwy tebygol o fod ar incwm cartref blynyddol o lai na £10,000 (27% o'r rhai a atebodd) ac yn llai tebygol o gael incwm o dros £52,000 y flwyddyn (3% o'r rhai a atebodd). Mae'r data hwn o'i gymharu â 24% o atebwyr a oedd wedi symud i'r ardal o ardal arall yng Nghymru a oedd ar incwm o lai na £10,000 ac 20% o atebwyr a oedd wedi symud i'r ardal o'r tu allan i Gymru.

Yr oedd atebwyr a oedd wedi symud i'r ardal o ardal arall yng Nghymru yn fwy tebygol, ar 10%, o gael incwm blynyddol o dros £52,000,

o'u cymharu â'r 8% o bobl a oedd wedi symud i mewn i Gymru. Ar draws y pedair ardal yr oedd gan 25% o'r atebwyr gynilion cartref o dan £1,000, ac yr oedd gan 7% dros £100,000 mewn cynilion. Yng Nghlydau yr oedd gan bron 30% o'r rhai a atebodd lai na £1000 mewn cynilion. Llanfihangel a oedd â'r ganran uchaf o atebwyr a oedd â thros £100,000 mewn cynilion, sef 9%. Aberdaron a oedd â'r ganran isaf o atebwyr â chynilion dros £100,000, sef 5%.

Atebwyr a oedd wedi symud i mewn o'r tu allan i Gymru a oedd â'r ganran uchaf, yn y categori cynilion dros £100,000, sef 10%.

Yn gyffredinol, yr oedd 75% o'r atebwyr yn teimlo bod byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy costus na byw mewn ardaloedd trefol. Clydau a oedd â'r ganran isaf o atebwyr a oedd yn teimlo hyn, gyda dim ond 68%, a Llanfihangel oedd â'r ganran uchaf, gyda 82%.

⁴ Gweler gwefan CACI yn:
<http://www.caci.co.uk/paycheck.aspx>

Ardal a demograffeg – Canfyddiadau allweddol

Demograffeg Gyffredinol

Yn gyffredinol, yr oedd bron hanner yr atebwyr yn ystyried eu hunain yn Gymry. Yr oedd traean yn disgrifio eu hunain fel Prydeinwyr a 14% yn teimlo eu bod yn Saeson.

Aberdaron oedd yr ardal â'r ganran uchaf o atebwyr a oedd yn eu hystyried eu hunain yn Gymry (59%). Clydau oedd â'r ganran isaf, gyda 42% o'r rhai a atebodd yn dweud eu bod yn Gymry.

Yr oedd bron 45% o atebwyr wedi byw yn eu hardal leol bresennol am dros 25 mlynedd.

Yr oedd 94% o'r rhai a oedd wedi byw yn yr un ardal wledig iawn o Gymru trwy gydol eu hoes yn eu hystyried eu hunain yn Gymry. Ar ben hynny, yr oedd 63% o bobl a oedd wedi symud i'w hardal bresennol o ardal arall yng Nghymru yn eu hystyried eu hunain yn Gymry.

Atebwyr a oedd wedi byw yn eu hardal leol am 25 mlynedd neu fwy oedd y categori mwyaf tebygol o siarad Cymraeg yn rhugl, gyda 75% o'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl wedi byw yn yr ardal am y cyfnod hwn o amser.

Yr oedd 72% o'r atebwyr a oedd yn eu hystyried eu hunain yn Gymry wedi byw yn eu hardal leol am dros 25 mlynedd.

Yr oedd 36% o'r atebwyr a oedd yn eu hystyried eu hunain yn Saeson wedi byw yn eu hardal leol am lai na chwe blynedd.

Yr oedd atebwyr a oedd wedi byw yn eu hardal leol am hyd at ddeng mlynedd yn fwy tebygol o fod ag incwm blynyddol o dros £21,000 na thrigolion a oedd wedi byw yn y gymuned am gyfnod hirach.

Yn gyffredinol, yr oedd bron 40% o'r atebwyr wedi symud i'r ardal o Loegr

Yr oedd dros draean y trigolion a oedd yn 65 mlwydd oed neu'n hŷn wedi symud i'w hardal leol o Loegr.

Canran gymharol fach, sef 16%, o atebwyr a oedd wedi byw yn yr un lle neu ardal trwy gydol eu hoes a oedd yn methu siarad dim Cymraeg o gwbl.

Mewn gwrthgyferbyniad, yr oedd 72% o'r atebwyr a oedd wedi byw yn yr un ardal neu le trwy gydol eu hoes yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n weddol dda.

Pobl a oedd wedi symud o Loegr oedd yr enillwyr uchaf yn y sampl, gyda 45% o'r grŵp hwn yn derbyn incwm blynyddol dros £31,000.

Mewn gwrthgyferbyniad, yr oedd 34% o bobl a oedd wedi byw yn yr un ardal leol erioed neu wedi symud o fewn yr un ardal ag incwm o dan £10,000 y flwyddyn.

Y ganran uchaf o gartrefi oedd y math o gartref â dau berson ynddo ar 42%. Aelwydydd un person a oedd yn ail ar 22%.

Yn gyffredinol, yr oedd 15% o gartrefi yn ddinasyddion hŷn sengl; 24% yn barau o ddinasyddion hŷn; 8% yn bobl sengl oed gweithio; 19% yn barau oed gweithio; 23% yn barau oed gweithio gyda phlant dibynnol; a bron 5% yn rhieni sengl oed gweithio gyda phlant dibynnol.

Yr oedd 34% o'r atebwyr dros 65 mlwydd oed.

Yr oedd 7% o'r atebwyr o dan 35 mlwydd oed.

Bodlonrwydd â'r Ardal Leol ac Ansawdd Bywyd

At ei gilydd, yr oedd dros 90% o'r atebwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon â'u hardaloedd lleol fel lle i fyw.

Pan ofynnwyd beth oeddent yn ei hoffi am fyw yn eu hardal leol yr atebion cyffredin oedd heddwch a thawelwch, teimlad o gymuned a golygfeydd.

Pan ofynnwyd iddynt beth nad oeddent yn ei hoffi am fyw yn eu hardal leol yr oedd atebwyr yn aml yn nodi diffyg gwasanaethau, a gwasanaethau presennol yn dirywio neu'n dod i ben.

Yn gyffredinol, barnwyd bod ansawdd bywyd yn uchel gyda 94% o'r rhai a atebodd yn graddio eu hansawdd bywyd fel naill ai 'da iawn' neu 'eithaf da'. Llangamarch a oedd â'r ganran uchaf (76%) o atebwyr a deimlai fod eu hansawdd bywyd yn dda iawn, ac Aberdaron a oedd â'r ganran isaf (61%).

Ble'r oedd pobl yn byw

Yn gyffredinol, yr oedd dros ddwy ran o dair o'r atebwyr yn byw y tu allan i bentref.

Dim ond yn Llangamarch yr oedd dros draean o'r atebwyr (37%) yn byw mewn pentref, ac yn Aberdaron yr oedd y ganran hon o dan chwarter, sef 24%.

Yn Llanfihangel nododd 42% o'r atebwyr eu bod yn byw mewn eiddo ynysig, o'i gymharu ag 20% yn Llangamarch.

Deiliadaeth Cartref

Yr oedd 84% o'r eiddo a oedd mewn perchnogaeth lwyr neu gyda morgais.

Statws Economaidd

Yn gyffredinol, yr oedd dros hanner yr holl atebwyr mewn cyflogaeth.

Yr oedd 39% o'r atebwyr wedi ymddeol.

Yr oedd 5% o'r holl atebwyr yn ddi-waith.

Yr oedd 3% yn dioddef salwch hirdymor ac anabledd.

Ar 46%, yr oedd y ganran o atebwyr mewn cyflogaeth yn Aberdaron gryn dipyn yn is na'r tair ardal arall. Yr oedd hyn yn gyson â chyfran uwch Aberdaron o bobl wedi ymddeol.

Clydau gyda ffigur o 6% oedd â'r ganran uchaf o salwch hirdymor ac anabledd.

Cymwysterau

Yr oedd gan 20% o'r atebwyr radd brifysgol.

Nid oedd gan 15% unrhyw gymwysterau o gwbl.

Incwm

Yn gyffredinol, yr oedd gan 23% o'r atebwyr incwm cartref blynyddol o lai na £10,000; yr oedd gan 6% o'r ffigur incwm cartref blynyddol a oedd yn llai na £5,000 y flwyddyn.

Yr oedd gan 8% o'r atebwyr incwm cartref blynyddol o fwy £52,000.

5.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cyflwyno data a gasglwyd am gymunedau a diwylliant ardaloedd yr astudiaeth. Mae'r drafodaeth yn troi o gylch canfyddiadau trigolion ym mhob ardal am eu cymunedau lleol a'u diwylliannau cysylltiedig, gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion yn ymwneud â rhyngweithio ac ymgysylltu cymunedol, yr iaith Gymraeg a diwylliant a nodweddion unigryw lleol.

Mae'r data a gyflwynir yn amlygu'r hyn sy'n debyg a'r gwahaniaethau rhwng y gwahanol ardaloedd a ymchwiliwyd, yn ogystal â rhoi disgrifiad cyffredinol o'r profiad o fyw yn yr ardaloedd hyn ym mherfeddion cefn gwlad.

5.2 Yr Iaith Gymraeg

Ar draws pob un o ardaloedd yr astudiaeth, yr oedd ychydig dros draean yr holl atebwyr (35%) yn siaradwyr Cymraeg rhugl a dywedodd 8% arall eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn weddol dda. Nododd 37% yn ychwanegol o atebwyr fod ganddynt wybodaeth fwy cyfyngedig o'r iaith Gymraeg, a oedd yn eu galluogi i siarad ychydig eiriau neu frawddegau. Ni allai'r 21% a oedd yn weddill siarad yr iaith o gwbl.

Yn Aberdaron y cafwyd y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg (63%), ac yna Llanfihangel (54%) a Chlydau (41%). Yr oedd y ffigur ar gyfer Llangamarch gryn dipyn yn is, sef 13% ac yr oedd gan yr ardal gyfran uwch o bobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg (45%).

Mae siaradwyr Cymraeg yn tueddu i fod wedi eu canoli yn y categori oed iau (o dan 35 oed), gyda hanner yr holl drigolion yn y categori hwn yn gallu siarad yr iaith yn rhugl neu'n eithaf da. Yr oedd y ffigur ar gyfer trigolion rhwng 35-64 ychydig yn is, sef 40%, ac ychydig o dan draean (31%) atebwyr 65 oed a oedd yn siarad Cymraeg. O'i gymharu â hyn, yr oedd y categorïau oedran hŷn yn tueddu i fod â chyfran fwy o bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg, gyda 21% o breswylwyr rhwng 35-64 a 22% o drigolion 65 oed neu hŷn wedi eu cynnwys yn y categori hwn. Mae hyn yn cymharu â 9% yn unig o drigolion o dan 35 oed.

Atebwyr a oedd wedi byw yn eu hardal leol am 25 mlynedd neu fwy oedd y categori mwyaf tebygol o fod yn siarad Cymraeg, gyda bron tri chwarter y rheini a oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n eithaf da wedi byw yno am y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, yr oedd chwarter y rheini nad oeddent yn siarad Cymraeg hefyd wedi byw yn eu hardal leol am dros 25 mlynedd. O blith y trigolion hynny a oedd yn siarad ychydig eiriau neu frawddegau o Gymraeg, yr oedd 27% wedi symud i'r ardal lai na chwe blynedd yn ôl, ac ychydig o dan chwarter yr atebwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg wedi byw yno am gyfnod cyffelyb o amser.

5.3 Diwylliant a Nodweddion Unigryw Lleol

Ar y cyfan, yr oedd y trigolion yn hynod gadarnhaol (60%) pan gawsant eu holi am ddiwylliant a chymeriad eu hardal leol. Yn Aberdaron yr oedd hyn amlycaf, lle'r oedd pedwar o bob pump o'r trigolion yn cytuno bod cymeriad a diwylliant unigryw yn eu hardal leol. Yn dynn ar ei sodlau yr oedd Clydau (63%) a Llanfihangel (60%).

Pan ofynnwyd iddynt egluro eu hatebion, soniodd mwyafrif yr atebwyr am ddylanwad yr iaith Gymraeg, fel y dengys y dyfyniadau isod:

"Defnydd helaeth o'r iaith Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus traddodiadol a bywyd preifat."

(Benyw, 65+, Aberdaron, ychydig eiriau Cymraeg)

"Am fod llawer o bobl sydd wedi byw yn y pentref ar hyd eu hoes, maen nhw'n siarad Cymraeg ac mae ganddyn nhw hen safonau a gwerthoedd. Mae pawb yn adnabod ei gilydd yn y pentref."

(Gwryw, 35-64, Clydau, siaradwr Cymraeg rhugl)

"Rydym yn byw mewn rhan o Gymru lle siaredir Cymraeg. Nid wyf erioed o'r blaen wedi teimlo na dod ar draws y fath ymdeimlad o falchder."

(Benyw, 35-64, Clydau, wedi symud o'r tu allan i Gymru)

Awgrymai eraill bwysigrwydd y traddodiad ffermio Cymreig a hanes y gymuned:

“Mae'r diwylliant gwledig yn unigryw oherwydd mae llawer o deuluoedd lleol wedi bod yma ers cenedlaethau ac mae teuluoedd wedi closio er lles y gymuned.”

(Gwryw 35-64, Aberdaron, Cymro Cymraeg)

Cyfeiriodd nifer o atebwyr at natur artistig yr ardal glòs ei gwead gan roi enghreifftiau o ddigwyddiadau lleol:

“Llawer iawn o Gymraeg yn cael ei siarad. Gweithgareddau CFFI a'r urdd/eisteddfod – dawns y gloesen/dawnsio gwerin, canu. Gweithgareddau capel hefyd.”

(Benyw, wedi byw yng Nghlydau am lai na phum mlynedd, di-Gymraeg)

Fodd bynnag, nid oedd mwyafrif yr atebwyr yn Llangamarch yn rhannu'r farn hon, gyda 44% o'r holl drigolion a holwyd yn datgan nad oedd eu hardal leol yn unigryw o safbwynt diwylliannol, tra bo 22% arall yn ansicr ar y mater. Ymateb a geid yn gyffredin oedd argraff bod mwy nag un diwylliant unigryw yn yr ardal:

“Ddeng mlynedd ar hugain yn ôl cymuned â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddi oedd hon, wedi ei seilio ar amaethyddiaeth. Dyma sylfaen y gymdeithas hyd heddiw, ond mae wedi newid am fod y pentref yn fwy a mwy o bobl Saesneg eu hiaith wedi symud i'r ardal.”

(Gwryw, 35 - 64, Clydau, preswlydd ers 2-5 mlynedd)

“Mae yna 2 (ddiwylliant): yr un Cymraeg (sy'n gwanhau) a'r un Saesneg (newydd-ddyfodiad).”

(Benyw, Saesnes, wedi symud i Glydau lai na phum mlynedd yn ôl)

“Am fod yr ardal yn un wirioneddol Gymraeg...mae rhai newydd-ddyfodiad wedi cymathu'n dda iawn i'r gymuned sydd ohoni ond mae llawer sydd wedi dod i wladychu'r ardal.”

(Gwryw, 65+, wedi byw yn Llanfihangel ar hyd ei oes, Cymro Cymraeg)

“Gwledig, traddodiadol, gwladgarol os nad cenedlaetholgar ar brydiau, cyfeillgar, hamddenol ond gwaetha'r modd dim bob

amser yn feddwl-agored iawn ynghylch syniadau newydd/dieithr.”

(Benyw, o dan 35, Aberdaron, wedi symud o'r tu allan i Gymru)

“Yn ddiweddar rydw i wedi sylweddoli bod yna bobol â diwylliant gwahanol yn yr ardal, fel Pwyliaid am nad ydi rhai ohonyn nhw'n deall Saesneg na Chymraeg. Mae'n gallu bod yn anodd pan fyddwch chi'n gofyn iddyn nhw am gymorth.”

(Benyw 20 – 35, Aberdaron, Cymraes Gymraeg)

Ar draws pob ardal astudiaeth, yr oedd trigolion dros 35 oed yn fwy tebygol o ateb yn gadarnhaol ar fater diwylliant, gyda 62% o'r atebwyr rhwng 35-64 oed a 58% o'r atebwyr 65 oed neu'n hŷn yn nodi bod gan yr ardal lle'r oeddent yn byw ddiwylliant unigryw. Yr oedd hyn yn cymharu â ffigur llai sef 42% i drigolion o dan 35 oed.

O'i gymharu â hyn, yr oedd traean yr atebwyr yn y categori oedran diwethaf hwn un ai'n anghytuno'n gryf neu'n tueddu i anghytuno nad oedd unrhyw ddiwylliant neu gymeriad unigryw yn eu hardal leol, ac yr oedd chwarter y trigolion wedyn yn ymddangos yn ansicr.

Yr oedd trigolion â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, neu a oedd â rhywfaint o sgiliau iaith Gymraeg, hefyd yn fwy tebygol o ateb yn gadarnhaol ar fater diwylliant lleol (sef 62% a 65% yn y drefn yna), tra bo ychydig dros draean (37%) y trigolion di-Gymraeg yn datgan nad oedd unrhyw ddiwylliant neu gymeriad unigryw yn yr ardal lle'r oeddynt yn byw.

Yr oedd y trigolion hynny a oedd wedi symud i'r ardal o ardal tu allan i Gymru'n ateb y cwestiwn hwn yn fwy cadarnhaol, gyda 65% o'r holl atebwyr yn y categori hwn yn cytuno â'r datganiad, o'i gymharu â 59% o'r trigolion a oedd wedi byw yn yr ardal ar hyd eu hoes. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu'r duedd i bobl symud i ardaloedd gwledig fel Pen Llŷn a Sir Benfro ar sail eu dymuniad i fyw mewn ardal a ystyrir yn un â chymeriad a diwylliant unigryw.

Yr oedd cytundeb llethol ymhlith atebwyr ym mhob un o ardaloedd yr astudiaeth bod yr

iaith Gymraeg yn chwarae rhan bwysig mewn llunio cymeriad a diwylliant eu hardal leol. Yn Aberdaron yr oedd hyn i'w weld amlycaf, gyda mwyafrif sylweddol o 97% o'r atebwyr yn ateb yn gadarnhaol, ac yna Clydau (80%) a Llanfihangel (77%).

Pan ofynnwyd iddynt egluro eu hatebion, pwysleisiai llawer o'r atebwyr fod yr iaith Gymraeg yn bwysig i gymryd rhan ym mywyd y gymuned ac ar gyfer swyddi, ac mai hi oedd y ddewis iaith mewn ysgolion lleol. Âi nifer ymlaen i nodi bod defnyddio'r Gymraeg ym mywyd beunyddiol eu cymuned yn fodd i warchod yr iaith.

"Mae digon o dystiolaeth am sut mae'r Gymraeg wedi llunio cymeriad ein hardal: enwau ffermydd, ardaloedd trefol enwog am eu dylanwadau Cymreig."

(Benyw, wedi symud o'r tu allan i Gymru i Langamarch, Cymraes Gymraeg)

"Mae'n bwysig os ydych chi'n byw yng Nghymru – mae'r iaith yn cadw gwreiddioldeb y lle. Rhaid cadw traddodiad."

(Benyw, 35-64, Clydau, wedi symud o'r tu allan i Gymru, di-Gymraeg)

"Mae'n chwarae rhan bwysig gan fod pawb lleol yn siarad Cymraeg ac maen nhw wedi bod yma ers blyneddau lawer ac mae ein holl draddodiadau wedi aros yr un fath, gan dreiglo i'r holl genedlaethau newydd."

(Gwryw, 35-64, wedi byw yn Llanfihangel ar hyd ei oes, siaradwr Cymraeg rhugl)

"Iaith y siopau a gweithgareddau cymunedol, mae'r Saeson yn dysgu'r iaith i fod yn rhan o'r gymuned."

(Cymro Cymraeg, wedi byw yn Aberdaron ers dros 65 mlynedd)

Yr oedd atebwyr yn Llangamarch yn llawer mwy tebygol o ateb yn negyddol, gyda bron i ddwy ran o dair (64%) yn nodi nad oedd yr iaith Gymraeg yn ffactor pwysig mewn llunio diwylliant a chymeriad yr ardal leol. Mae hyn yn cysylltu â'r sylw cynharach bod yr iaith Gymraeg wedi chwarae rhan lai amlwg o lawer yn Llangamarch, o'i chymharu â'r ardaloedd eraill.

Yr oedd y rhai nad oedd yn credu ei bod yn bwysig yn aml yn nodi rhesymau cysylltiedig

â'r iaith Gymraeg yn colli tir, yn bennaf yn sgil pobl yn symud i'r gymuned.

"Mae'r ffordd o fyw ffisegol a diddordeb pobl yn y ffordd honno o fyw yn ymddangos, yn fy mhrofiad i, fel pe bai'n uno'r bobl leol i raddau mwy na rhai 'materion diwylliannol' sy'n tueddu i'w rhannu neu wahaniaethu rhyngddynt."

(Gwryw, 35-64, Clydau, wedi symud o'r tu allan i Gymru)

"...y cyfnod rydym ni'n byw ynndo – dim ymadroddion modern am bethau newydd ee, cyfrifiaduron. Nid yw'r Gymraeg sy'n cael ei siarad yma'n arbennig i'r ardal. Geiriau a brawddegau, nid acenion."

(Gwryw, 35-64, Clydau)

"Credai mai achos ydyw i'r cyfryngau ac ychydig o ymwahanwyr eithafol ond byddai'n well gan y rhan fwyaf o bobl i'r adnoddau a'r arian gael eu gwario ar seilwaith lleol yn hytrach na gwasanaethau cyfieithu ac S4C."

(Benyw, Aberdaron, wedi symud o'r tu allan i Gymru)

Cafwyd ateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn yn weddol gytbwys ar draws pob categori oed, gydag ychydig lai na thri chwarter yr atebwyr ym mhob categori'n dweud fod yr iaith Gymraeg yn ffactor ffurfiannol o bwys. O blith yr atebwyr hyn a atebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn, yr oedd mwyafrif sylweddol yn siaradwyr Cymraeg rhugl (87%), wedi byw yn yr ardaloedd lleol ar hyd eu hoes (84%) ac yn eu hystyried eu hunain yn Gymry (78%).

5.4 Cyfalaf Cymdeithasol a'r Gymuned Leol

Yr oedd yr holiadur yn ymchwilio ymhellach i gyfalaf cymdeithasol y cymunedau yr oedd y trigolion yn byw ynddynt ac yn cyfrannu atynt. Yr oedd hyn yn cynnwys craffu'n fanwl ar nodweddion sefydliadau cymdeithasol, fel rhwydweithiau cymunedol a chymdeithasol a lefelau ymddiriedaeth gymunedol sy'n hwyluso cydgysylltu a chydweithredu cymunedol.

Teimlad Cymunedol

Yr oedd mwyafrif sylweddol o'r trigolion a holwyd (86%) o'r farn fod yna ymdeimlad da o gymuned yn eu hardal leol. Yr oedd hon yn farn gyffredin iawn ar draws y pedair ardal, gyda'r ganran uchaf yng Nghlydau (89%) ac

Tabl 5.1 Canfyddiadau o'r 'ymdeimlad o gymuned' yn ardaloedd yr astudiaeth

	Pob ardal	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Nac oes	14.4%	14.6%	21.6%	10.9%	11.4%
Oes	85.6%	85.4%	78.4%	89.1%	88.6%

Pan ofynnwyd iddynt egluro eu hatebion, yr oedd yr atebion cyffredin yn cynnwys pobl leol, bod yn gymdogol, gweithgareddau cymunedol, materion Cymreigrwydd a chyfeillgarwch. Mae'r dyfyniadau sy'n dilyn yn dangos rhai o'r rhain:

"Os oes angen help arnoch, mae yna bobl yna bob amser."

(Gwryw, 65+, Aberdaron, Sais, wedi symud o'r tu allan i Gymru)

"Mae cymuned o bobl leol sy'n ymuno â'i gilydd i ddathlu (ee noson tân gwyllt yn y neuadd bentref) ac i drafod materion lleol (cyngor plwyf ac ati) mae ymdeimlad cryf o gymuned hefyd rhwng pobl o'r un anian."

(Benyw, 35-64, Aberdaron, Saesnes wedi symud o'r tu allan i Gymru).

"Mae pobl yn tueddu i berthyn i deuluoedd sy'n byw yn yr ardal ers cenedlaethau. Er hynny, mae croeso i newydd-ddyfodiaid, yn arbennig pobl ifainc, sy'n cymathu'n arbennig o dda i bob golwg. Mae dysgu Cymraeg yn agwedd bwysig o integreiddio cymunedol."

(Benyw, 35-64, Aberdaron, Prydeinwraig, wedi symud o'r tu allan i Gymru)

"Byddai'n bosibl byw fel meudwy ond mae'r rhan fwyaf o bobl yn dod i adnabod eraill yn weddol gyflym. Mae'r swyddfa bost a neuadd y pentref yn ganolbwyntiau'r gymuned, yn fwy felly na'r eglwys."

(Benyw, 35-64, Llangamarch, Saesnes, wedi symud o'r tu allan i Gymru)

Yn gyffredinol, yr oedd y farn gadarnhaol hon yn cael ei rhannu gan drwyth llethol y trigolion Cymraeg eu hiaith (91%), yn ogystal â'r di-Gymraeg (84%).

Yr oedd y lleiafrif bach o drigolion a deimlai nad oedd unrhyw ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol yn pryderu'n bennaf ynghylch colli hen drigolion a oedd wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned, yr ymranid

cynyddol rhwng mewnfudwyr a thrigolion a oedd yno ers amser maith, a'r duedd i drigolion lleol gadw atynt eu hunain. Pwysleisir y pwyntiau hyn yn y dyfyniadau sy'n dilyn:

"Mae pawb yn adnabod ei gilydd ond mae pawb yn gofalu am ei gilydd, symudodd llawer o bobl i'r ardal ac mae'r gymuned wedi dirywio. Mae estroniaid yn cadw atynt eu hunain."

(Gwryw, 35-64, Aberdaron, wedi byw yn yr ardal ar hyd ei oes, Cymro Cymraeg)

"Mae pawb yn gyfeillgar ac ati, ond mae'n anodd torri trwodd o fod yn 'ffrindiau sy'n codi llaw' i fod yn 'ffrindiau' ac yn anodd barnu beth mae pobl eraill yn ei feddwl. Dydym ni ddim wedi integreiddio'n dda."

(Benyw, 35 – 64, Clydau, wedi symud o'r tu allan i Gymru).

"Dim mor gryf ag roedd yn arfer bod, un rheswm am hynny yw bod llai o amser gan ferched ar gyfer gweithgareddau cymunedol, hefyd 'dyw rhai mewnfudwyr ddim yn cymryd rhan. Pan mae rhywbeth yn digwydd mae'r gymuned yn cefnogi."

(Gwryw, 35-64, Llanfihangel, wedi symud o rywle arall yng Nghymru, Cymro Cymraeg rhugl)

"Mwy o bobl newydd – wedi datblygu'n 'ni a nhw."

(Gwryw, 65+, Llangamarch, wedi byw yn yr ardal ar hyd ei oes, di-Gymraeg)

"Wrth i arweinwyr cymunedol hŷn farw neu symud mae llai o ysbryd cymunedol."

(Gwryw, 65+, Llangamarch, Prydeiniwr, di-Gymraeg, wedi symud o rywle arall yng Nghymru)

O edrych yn fanwl ar yr atebion a roddwyd, nododd y mwyafrif llethol o'r trigolion, waeth beth oedd eu hoed, fod yna ymdeimlad cymunedol cryf. Er enghraifft, cytunai 86% o'r atebwyr ym mhob categori oed fod

ymdeimlad cymunedol da yn eu hardal leol. At hynny, yr oedd trigolion a oedd yn medru'r Gymraeg yn fwy tebygol o roi ateb cadarnhaol (91%), er bod y ffigurau ar gyfer trigolion a oedd yn siarad ychydig eiriau o Gymraeg, neu'r di-Gymraeg yn dal yn gymharol uchel, sef 80% ac 84% yn ôl eu trefn. Cafwyd ateb cadarnhaol gan ganran uwch o'r trigolion a oedd yn eu hystyried eu hunain yn 'Gymreig' pan ofynnwyd am yr ymdeimlad o gymuned yn eu hardal (89%). Dim ond ychydig yn is oedd y ffigur ar gyfer trigolion 'Prydeinig' (83%) a 'Seisnig' (82%).

Nodwyd ymdeimlad o gymuned hefyd ymhlith canrannau uchel o atebwyr a oedd wedi symud yn ddiweddar a rhai a oedd wedi plwyfo yno ers cyfnod hir. Er enghraifft, atebodd 84% o'r trigolion a oedd wedi byw yn eu hardal leol ar hyd eu hoes yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn, ac yr oedd y ffigurau ar gyfer trigolion a oedd wedi symud i'r ardal, un ai o rywle arall yng Nghymru neu o'r tu allan i Gymru, yn weddol debyg sef 89% a 84% yn ôl eu trefn.

Gweithgareddau Cymunedol

Atebodd bron hanner y trigolion a holwyd yng nghymunedau'r astudiaeth (48%) yn gadarnhaol pan gawsant eu holi am faint o weithgareddau cymunedol a gâi eu cynnal yn eu hardal leol. Yn Llangamarch y cafwyd y ganran uchaf o drigolion oedd yn cytuno (58%) a Llanfihangel (53%), a Chlydau (50%)

yn dilyn yn agos. Yn Aberdaron y cafwyd y ffigur isaf, lle nad oedd ond ychydig dros draean y trigolion yn cytuno bod digon o weithgareddau cymunedol yn cael eu darparu'n lleol (Tabl 5.2).


Pan ofynnwyd am y math o weithgaredd, lle a man cyfarfod, tueddai'r atebwyr i roi atebion cysylltiedig â digwyddiadau a oedd yn cael eu cynnal yn y neuadd bentref, ysgol neu gapel lleol. Amrywiai'r digwyddiadau o gyfarfodydd pwyllgor, i ddigwyddiadau elusennol, dosbarthiadau a oedd yn cael eu dysgu, a chyfarfodydd Sefydliad y Merched. Ond yn Aberdaron, yr oedd y trigolion yn fwy tebygol un ai o deimlo'n ddifater am y ddarpariaeth gweithgareddau cymunedol (29%) neu i ateb yn negyddol o gael eu holi am y mater (38%).

Gan gymryd yr atebion ym mhob un o ardaloedd yr astudiaeth gyda'i gilydd, ymddengys fod y tebygolrwydd i drigolion roi ateb cadarnhaol i'r datganiad hwn yn tueddu i gynyddu gyda lefel incwm, (Ffigur 5.1). Er enghraifft, canfuwyd y ganran uchaf o atebion cadarnhaol yn y categori incwm uchaf (£31,000 y flwyddyn neu fwy), lle y dywedodd 54% o'r holl atebwyr eu bod un ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno bod y gweithgareddau cymunedol a gâi eu darparu yn eu hardaloedd lleol yn tueddu i fod yn ddigonol.

Tabl 5.2 Asesiad o lefel gweithgareddau cymunedol fesul ardal

	Pob ardal	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Cytuno'n gryf	19.5%	26.4%	22.7%	20.8%	9.0%
Tueddu i gytuno	28.9%	26.4%	35.7%	29.0%	24.9%
Ddim yn cytuno nac anghytuno	17.5%	17.0%	10.8%	13.4%	28.9%
Tueddu i anghytuno	23.8%	19.8%	21.1%	27.7%	25.4%
Anghytuno'n gryf	10.3%	10.4%	9.7%	9.1%	11.9%

Ffigur 5.1 Asesiad o lefel gweithgareddau cymunedol grŵp incwm



Yr oedd trigolion yn y categorïau incwm is (llai na £10,000 y flwyddyn ac o £10,000-£21,000 y flwyddyn) yn fwy tebygol o ateb yn negyddol o gael eu holi am y mater hwn (y naill a'r llall yn 38%). O symud y mater hwn yn ei flaen, yr oedd mwyafrif clir o'r trigolion ar draws pob ardal o'r astudiaeth (62%) yn dweud eu bod yn ymwneud yn weithgar â rhyw fath o weithgareddau cymunedol yn eu hardaloedd lleol. Yn Llanfihangel yr oedd y ffigur hwn uchaf, lle'r oedd bron tri chwarter (74%) yr holl drigolion a arolygwyd yn cyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol yn yr ardal leol. Yr oedd hyn yn cymharu â ffigur llai, ac eto'r un mor arwyddocaol o 59% yn Aberdaron, 58% yng Nghlydau a 57% yn Llangamarch.

Yn y categorïau oed 35-64 y cafwyd fwyaf o ymgysylltu â gweithgareddau cymunedol, gyda 67% o'r holl atebwyr yn y categorïau hwn yn datgan eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol rheolaidd. Yn dynn wrth sodlau'r categorïau hwn, ar 55%, yr oedd pobl 65 oed a throsodd, ac yna'r rhai o dan 35 oed (46%) (Tabl 5.3). Felly yr oedd trigolion yn y categorïau oed diwethaf hwn yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, gydag ychydig dros hanner (53%) y trigolion hyn yn dweud nad oeddent yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymunedol yn eu hardal leol. Yr oedd hyn yn cymharu ag ychydig dros draean y trigolion yn y categorïau oed 35-64 a 43% yn y categorïau oed 65 neu'n hŷn.

Tabl 5.3 Ymgysylltu mewn gweithgareddau cymunedol yn ôl oed

	Pawb	O dan 35 oed	35 – 64 oed	65 neu hŷn
Ydw	37.3%	52.6%	32.6%	42.8%
Na	61.6%	45.6%	66.8%	55.4%
Ansicr	1.1%	1.8%	0.6%	1.9%

Yr oedd yn ymddangos bod lefelau incwm hefyd yn ffactor dylanwadol wrth bennu lefel ymgysylltu mewn gweithgareddau cymunedol yn lleol. Ar draws pob un o ardaloedd yr astudiaeth, yr oedd lefel y cyfranogi mewn

gweithgareddau cymunedol yn tueddu i godi'n gyson gyda lefel incwm, gydag ychydig dros hanner (54%) yr holl drigolion a oedd yn ennill llai na £10,000 y flwyddyn yn dweud eu bod yn chwarae rhan weithgar mewn

gweithgareddau cymunedol. Yr oedd hyn yn cymharu â mwyafrif mwy sylweddol o 70% o'r trigolion hynny yn y categori incwm uchaf o £31,000 y flwyddyn neu fwy.

Agweddau at berthyn i gymuned

Gofynnwyd i drigolion nodi i ba raddau yr oeddent yn eu hystyried eu hunain yn aelod o'r gymuned leol. Gofynnwyd iddynt raddio eu hagweddau trwy ddewis un o bum categori, yn amrywio o gadarnhaol i negyddol: 'cytuno'n gryf', 'tueddu i gytuno', 'ddim yn cytuno nac anghytuno', 'tueddu i anghytuno', ac 'anghytuno'n gryf'.

Yr oedd cyfartaledd o 44% o atebwyr yn cytuno'n gryf pan holwyd hwynt, a 35% arall yn tueddu i gytuno, gan roi ateb cadarnhaol iawn. Yr oedd yr ymatebion mwyaf cadarnhaol yn Aberdaron (83%) a Llanfihangel (84%), er bod y ffigurau am Glydau a Llangamarch yr un mor arwyddocaol, gydag ychydig dros dri chwarter y trigolion yn y ddwy ardal naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno. Gweler Tabl 5.4.

Tabl 5.4 Canfyddiadau o berthyn i gymuned

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Cytuno'n gryf	44.3%	52.7%	40.4%	37.4%	48.3%
Tueddu i gytuno	35.4%	31.5%	35.6%	39.1%	34.5%
Ddim yn cytuno nac anghytuno	8.9%	8.2%	5.3%	8.9%	12.8%
Tueddu i anghytuno	9.5%	6.5%	16.0%	12.3%	3.0%
Anghytuno'n gryf	1.9%	1.1%	2.7%	2.1%	1.5%

Yr oedd trigolion yn Llangamarch a Chlydau, fodd bynnag, yn fwy tebygol o ymateb yn negyddol wrth gael eu holi ynghylch eu safle yn y gymuned leol, gyda 19% o drigolion yn Llangamarch a 14% o drigolion yng Nghlydau naill a'i anghytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno. Yr oedd ymatebion negyddol yn Llanfihangel (8%) ac Aberdaron (5%) yn drawiadol llai cyffredin.

Trwy bob un o ardaloedd yr astudiaeth, yr oedd mwyafrif sylweddol o drigolion sy'n siarad Cymraeg (91%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno eu bod yn aelod gweithgar o'r gymuned leol. Yr oedd y ganran o drigolion a oedd yn ymateb yn gadarnhaol fel hyn yn sylweddol is ymysg y trigolion hynny nad oedd ond yn siarad ychydig eiriau neu frawddegau Cymraeg (74%) a'r rheini nad oedd yn siarad dim Cymraeg o gwbl (67%). I'r gwrthwyneb, yr oedd pobl ddi-Gymraeg yn fwy tebygol o ymateb yn negyddol wrth gael eu holi am eu rôl fel aelodau o'r gymuned leol, gydag un o bob

pump naill ai'n tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Yn gyffredinol, yr oedd yr atebwyr hynny a oedd yn eu hystyried eu hunain yn 'Gymreig' yn fwy tebygol i'w hystyried eu hunain fel rhan o'r gymuned leol, gyda 90% o drigolion yn y categori hwn yn ymateb yn gadarnhaol wrth gael eu holi. Yr oedd y ffigurau ar gyfer trigolion a oedd yn eu hystyried eu hunain yn 'Brydeinig' (72%), 'Seisnig' (66%) neu 'Ddim un o'r rhain' (72%) yn is.

Yr oedd teimladau o ymlyniad i'r gymuned leol yn ymddangos fel petaent gryfaf ymysg y trigolion hynny a oedd wedi byw yn yr ardal leol ar hyd eu hoes, gyda 69% o'r atebwyr hynny'n cytuno'n gryf eu bod yn eu hystyried eu hunain yn aelodau o'r gymuned leol. Mewn cyferbyniad i hyn, dim ond 45% o'r trigolion a oedd wedi symud o ardal arall yng Nghymru, a 30% o'r rhai a oedd wedi symud i mewn o'r tu allan i Gymru, a oedd yn cytuno'n gryf â'r gosodiad. Fodd bynnag, os cyfunir y categorïau 'cytuno'n gryf' a 'thueddu i gytuno', yr oedd y mwyafrif helaeth o fewnfudwyr yn cytuno eu bod yn teimlo'n rhan o'u gymuned leol. Gweler Tabl 5.5.

Tabl 5.5 Canfyddiadau o berthyn i gymuned ymysg trigolion brodorol a mewnfudwyr

	Pawb	Wedi byw yn yr ardal ar hyd eu hoes	Wedi symud o rywle arall yng Nghymru	Wedi symud o'r tu allan i Gymru
Cytuno'n gryf	44.3%	69.3%	45.1%	30.0%
Tueddu i gytuno	35.4%	22.4%	35.6%	42.0%
Ddim yn cytuno nac anghytuno	8.9%	3.1%	8.0%	13.1%
Tueddu i anghytuno	9.5%	4.7%	9.5%	12.2%
Anghytuno'n gryf	1.9%	0.5%	1.9%	2.6%

Yr oedd teimladau o ymlyniad i'r gymuned leol hefyd yn ymddangos fel petaent uchaf ymysg y grwpiau oedran hŷn, gydag ychydig dros hanner (53%) yr holl drigolion 65 oed neu hŷn yn cytuno'n gryf eu bod hwy'n teimlo'n rhan o'u cymuned leol (Ffigur 5.2). Yr oedd yr ymlyniad hwn fel petai'n gostwng mewn grwpiau iau, gyda 41% o atebwyr 35-64 oed ac ychydig dros draean (34%) o drigolion o dan 35 oed yn cytuno'n gryf.


Teulu a rhwydweithiau cymdeithasol eraill

Yn yr holiadur holwyd yn fanylach am y rhwydweithiau cymdeithasol anffurfiol sy'n rhan o wead pob ardal, gan hwyluso felly asesu graddfa'r cysylltiad cymdeithasol gyda theulu, cyfeillion a chymdogion. Gofynnwyd i

atebwyr nodi i ba raddau y teimlent eu bod yn adnabod llawer o bobl yn eu cymuned leol. Unwaith eto, gofynnwyd iddynt gofnodi eu hateb gan ddefnyddio un o'r pum categori a nodwyd eisoes.

Rhwng pawb, yr oedd hanner yr holl atebwyr yn cytuno'n gryf eu bod yn adnabod llawer o bobl yn eu cymuned leol. Yr oedd y ganran uchaf yn Aberdaron (60%) a Llanfihangel (57%), gyda chanrannau is o 47% yn Llangamarch a 40% yng Nghlydau. Wrth ystyried yr holl atebion cadarnhaol (y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno) yr oedd y ffigurau'n tueddu i gyfateb i'w gilydd trwy holl ardaloedd yr astudiaeth. Gweler Tabl 5.6.

Ffigur 5.2 Canfyddiadau o berthyn i gymuned yn ôl grŵp oedran



Yr oedd atebwyr yn fwy tebygol o adnabod llawer o bobl yn y gymuned os oeddent yn siaradwyr Cymraeg, gyda 70% o'r holl atebwyr yn y categori hwn yn cytuno'n gryf â'r

gosodiad hwn. Ar y llaw arall, ychydig dros draean y trigolion a oedd yn gallu siarad ychydig eiriau neu frawddegau'n unig o Gymraeg, neu heb unrhyw wybodaeth o gwbl

o'r iaith, a oedd yn cytuno'n gryf eu bod yn adnabod llawer o bobl yn eu cymuned leol. (Ffigur 5.3).


Ym mhob un o gymunedau'r astudiaeth, yr oedd trigolion a oedd wedi symud i'r ardal leol yn fwy tebygol o roi ateb negyddol na thrigolion a oedd yno ers amser maith. Yr

oedd 14% o drigolion a oedd wedi symud i mewn o ardal arall yng Nghymru, a 16.3% o drigolion a oedd wedi symud i'r ardal o'r tu allan i Gymru, naill ai'n tueddu i anghytuno neu'n anghytuno'n gryf wrth gael eu holi a oeddent yn adnabod llawer o bobl yn eu cymuned leol.

Tabl 5.6 Canfyddiadau o rwydweithiau cymdeithasol yn ôl ardal

	Pob ardal	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Cytuno'n gryf	50.3%	56.7%	46.6%	39.9%	59.9%
Tueddu i gytuno	30.0%	26.2%	30.7%	37.0%	24.6%
Ddim yn cytuno nac anghytuno	7.1%	7.0%	3.7%	7.6%	9.7%
Tueddu i anghytuno	11.3%	8.6%	16.4%	14.7%	5.3%
Anghytuno'n gryf	1.3%	1.6%	2.6%	0.8%	0.5%

Ffigur 5.3 Canfyddiadau o rwydweithiau cymdeithasol yn ôl sgiliau iaith Gymraeg



Yn gyffredinol, yr oedd trigolion yn weddol gadarnhaol pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn adnabod mwy o bobl yn eu cymuned nag oeddent yn y gorffennol, gydag ychydig dros hanner (52%) yn tueddu naill ai i gytuno neu i gytuno'n gryf â hyn. Cafwyd y graddau uchaf

o ymatebion cadarnhaol yn Llangamarch (55%) a Chlydau (58%), y ddau'n uwch na'r cyfartaledd cyffredinol.

Fodd bynnag, pan gaiff yr holl ymatebion negyddol eu hystyried gyda'i gilydd, daw rhai

safbwyntiau croes i'r amlwg. Er enghraifft, teimlai ychydig dros draean yr holl atebwyr yn Llanfihangel, Llangamarch ac Aberdaron eu bod yn adnabod llai o bobl yn eu cymuned leol na chynt. Nid oedd y safbwyntiau negyddol hyn ond ychydig yn llai amlwg yng Nghlydau, gyda 29% o'r holl atebwyr naill ai'n tueddu i anghytuno neu i anghytuno'n gryf â'r farn hon.

Trwy holl ardaloedd yr astudiaeth, mynegodd ychydig dros hanner yr holl drigolion o dan 35 oed (55%) a rhwng yr oedrannau 35 a 64 (57%), eu bod yn adnabod llai o bobl yn eu cymuned na chynt. I'r gwrthwyneb i hyn, yr

oedd trigolion yn y categori oedran hynaf (65 neu'n hŷn) yn llawer mwy tebygol o anghytuno â'r farn hon, gyda 41% naill ai'n tueddu i anghytuno neu i anghytuno'n gryf (Tabl 5.7).

Daeth yn amlwg hefyd fod trigolion di-Gymraeg a rhai nad oedd ond yn siarad ychydig eiriau neu frawddegau Cymraeg yn llawer mwy tebygol o adnabod llai o bobl yn eu cymuned na chynt. Yr oedd y ffigur ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn is.

Tabl 5.7 Canfyddiadau o rwydweithiau cymdeithasol yn ôl oedran

	Pawb	O dan 35 oed	35 - 64 oed	65 neu hŷn
Cytuno'n gryf	28.3%	31.0%	30.9%	22.8%
Tueddu i gytuno	23.5%	24.1%	26.2%	18.8%
Ddim yn cytuno nac anghytuno	15.9%	17.2%	14.8%	17.6%
Tueddu i anghytuno	18.8%	19.0%	17.0%	22.0%
Anghytuno'n gryf	13.6%	8.6%	11.2%	18.8%

Gofynnwyd i drigolion hefyd nodi faint o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu a oedd yn byw o fewn pum milltir i'w heiddo.

Drwy holl ardaloedd yr astudiaeth, nododd tua hanner yr holl drigolion fod ganddynt ddeg neu lai o aelodau o'r teulu'n byw o fewn pum milltir i'w heiddo. O fewn y categori hwn, cafwyd yr ymatebion uchaf yn Llangamarch (56%) a Chlydau (55%). Gweler Tabl 5.8.

Yn y ddwy ardal arall yn yr astudiaeth (Llanfihangel ac Aberdaron) yr oedd trigolion yn fwy tebygol o fod â nifer uwch o gyfeillion

agos neu aelodau o'r teulu'n byw yn agos, gyda 21% o'r trigolion yn Llangamarch a 28% o'r trigolion yn Aberdaron yn dweud bod ganddynt 21 neu fwy o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu'n byw gerllaw.

Yn ategu'r canfyddiad hwn, ymddangosai hefyd fod trigolion sy'n byw yn Llangamarch a Chlydau'n fwy tebygol o fod heb unrhyw gyfeillion agos nag aelodau o'r teulu'n byw o fewn pum milltir i'w cartref (15% yn Llangamarch a 13% yng Nghlydau), o'i gymharu â 9% o'r trigolion yn Llanfihangel ac 8% yn Aberdaron.

Tabl 5.8 Asesiad o rwydweithiau teulu a rhwydweithiau eraill yn ôl ardal

	Pob ardal	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
1-5	29.9%	26.2%	34.4%	32.6%	26.1%
6-10	20.6%	23.6%	21.4%	22.2%	15.6%
11-20	18.0%	18.8%	14.1%	16.3%	22.7%
21+	20.2%	22.0%	15.6%	15.5%	28.0%
Dim	9.4%	9.4%	14.6%	13.4%	7.6%

Yn nwy ardal arall yr astudiaeth (Llanfihangel ac Aberdaron) yr oedd y trigolion yn fwy tebygol o gael nifer uchel o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu'n byw'n agos, gyda 21% o'r trigolion yn Llangamarch a 28% o'r trigolion yn Aberdaron yn dweud fod ganddynt 21 neu fwy o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu'n byw gerllaw.


Yn ategu'r canfyddiad hwn, ymddangosai hefyd fod trigolion sy'n byw yn Llangamarch a Chlydau'n fwy tebygol o fod heb unrhyw gyfeillion agos nac aelodau o'r teulu'n byw o fewn pum milltir i'w cartref (15% yn Llangamarch a 13% yng Nghlydau), o'i gymharu â 9% o'r trigolion yn Llanfihangel ac 8% yn Aberdaron.

Trwy holl ardaloedd yr astudiaeth, dywedodd dros draean yr holl drigolion di-Gymraeg (38%), a'r rhai nad oedd ond yn siarad ychydig eiriau neu frawddegau Cymraeg (38%), fod ganddynt rhwng un a phump o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu'n byw o fewn pum milltir i'w cartref. Yr oedd hyn yn wir am fymryn dros draean (33%) y siaradwyr Cymraeg a holwyd.

Fel y dengys Ffigur 5.4, gellir gweld yr un patrwm yn nhermau ethnigrwydd, gydag ychydig o dan draean (32%) o'r atebwyr a oedd yn eu hystyried eu hunain yn 'Gymry' yn dweud fod ganddynt 21 neu fwy o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu'n byw o fewn pum milltir. Ar y llaw arall, yr oedd gan ganran uwch o'r trigolion hynny a oedd yn eu hystyried eu hunain yn 'Brydeinwyr' (40%), yn 'Saeson' (39%) neu 'Eraill' (50%) lai na phump o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu'n byw gerllaw.

Yn gyffredinol, yr oedd trigolion a oedd wedi byw yn eu hardal leol ar hyd eu hoes yn fwy tebygol o fod â nifer uwch o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu'n byw gerllaw, o'u cymharu â mewnfudwyr. Er enghraifft, dywedodd 42% o'r trigolion a oedd wedi byw yn eu hardal leol ar hyd eu hoes fod ganddynt 21 neu fwy o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu'n byw o fewn pum milltir i'w heiddo. Yr oedd y ffigurau ar gyfer trigolion a oedd wedi symud i mewn, naill ai o fewn Cymru neu o'r tu allan iddi, yn sylweddol is.

Ffigur 5.4 Rhwydweithiau teulu a rhwydweithiau eraill yn ôl ethnigrwydd



Yn cyferbynnu â hyn, yr oedd gan ychydig dros chwarter (27%) o'r trigolion a oedd wedi symud o rywle arall yng Nghymru, a 42% o atebwyr a oedd wedi symud o'r tu allan i Gymru, bump neu lai o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu'n byw gerllaw. Yr oedd y ganran o drigolion yn y categori hwn a oedd

wedi byw yn yr ardal ar hyd eu hoes yn llawer is, sef 14%.

Cydlyniaid Cymunedol

Gofynnwyd i atebwyr nodi'r graddau yr oeddent o'r farn fod pobl yn eu cymuned leol yn edrych ar ôl ei gilydd.

Trwy bob un o ardaloedd yr astudiaeth, derbyniodd y cwestiwn hwn ymateb hynod o gadarnhaol, gyda bron hanner yr holl atebwyr yn cytuno'n gryf. Dywedodd 37% pellach o'r atebwyr eu bod yn tueddu i gytuno bod pobl yn eu cymuned yn cadw llygad ar ei gilydd, tra bo'r ymatebion negyddol (y rhai a oedd naill ai'n tueddu i anghytuno neu'n anghytuno'n gryf) yn llawer llai ar 7%.

Gwelwyd y lefelau uchaf o gydlynid yn Llanfihangel ac Aberdaron, lle'r oedd dros hanner yr holl drigolion a holwyd yn y ddwy ardal yn cytuno'n gryf â'r gosodiad. Yr oedd y ffigurau ar gyfer Llangamarch (44%) a Chlydau (40%) yn amlwg is. Fodd bynnag, wrth gymryd yr holl ymatebion cadarnhaol gyda'i gilydd, ymddangosai'r ffigurau'n fwy cyson ledled holl ardaloedd yr astudiaeth (Tabl 5.9).

Tabl 5.9 Canfyddiadau o gydlynid cymunedol yn ôl ardal

	Pobman	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Cytuno'n gryf	43.2%	56.5%	43.5%	39.6%	55.0%
Tueddu i gytuno	36.0%	31.0%	34.8%	47.2%	34.2%
Ddim yn cytuno nac anghytuno	9.3%	8.2%	6.0%	6.4%	9.9%
Tueddu i anghytuno	10.5%	3.3%	14.7%	6.4%	1.0%
Anghytuno'n gryf	1.0%	1.1%	1.1%	0.4%	0.0%


Yn ogystal â hyn, yr oedd dros hanner (55%) yr holl ymatebwyr 65 oed neu hŷn yn cytuno'n gryf fod pobl yn eu cymuned yn cadw llygad ar ei gilydd. Yr oedd y ganran o drigolion yn y categori 'cytuno'n gryf' yn tueddu i ostwng gydag oedran, gyda 45% o drigolion rhwng 35 a 64 oed a 41% o drigolion o dan 35 oed yn cytuno'n gryf â'r gosodiad. Pan oedd yr holl ymatebion cadarnhaol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd, ymddangosai'r ffigurau'n fwy cyson drwy'r holl categorïau oedran (Tabl 5.10).

Yn gysylltiedig â'r mater hwn, gofynnwyd hefyd i'r trigolion ystyried i ba raddau y teimlent y gellid ymddiried mewn pobl yn eu cymuned. Cofnodwyd ymatebion gan ddefnyddio'r un patrwm â'r cwestiynau blaenorol, drwy ofyn i'r trigolion nodi a

oeddent yn cytuno'n gryf, yn tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Yn gyffredinol, ymddangosai fod cytundeb llethol ymysg trigolion y gellid ymddiried mewn pobl yn eu hardaloedd lleol, gyda 83% o'r holl atebwyr naill ai'n cytuno'n gryf (43%) neu'n tueddu i gytuno (40%). Yr oedd yr ymatebion cadarnhaol uchaf ymysg y grwpiau oedran hŷn, gyda 90% o'r holl atebwyr 65 oed neu hŷn naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno fod lefel uchel o ymddiriedaeth gymunedol yn eu hardal leol. Dilynid hyn yn agos gan drigolion yn y categori oedran 35-64 oed (80%), a'r rhai o dan 35 oed (72%). Gweler Ffigur 5.5.

Ffigur 5.5 Canfyddiadau o ymddiriedaeth gymunedol yn ôl grŵp oedran



Y categori oedran 'o dan 35' a oedd yn cynnwys y lefel uchaf o ymatebion negyddol (10%), o'i gymharu â'r ffigurau ar gyfer y categori oedran 35-64 oed (7%) a'r rhai 65 oed neu hŷn (3%). Yr oedd canran uwch o drigolion yn y categorïau oedran is hefyd heb

fod yn cytuno nac yn anghytuno pan holwyd hwy ynghylch y graddau y gellid ymddiried yn aelodau eraill eu cymuned leol. Yr oedd y ffigur ar gyfer y categori 'o dan 35' (17%) yn fwy na dwbl yr hyn oedd ar gyfer y rhai 65 oed a hŷn (7%). Gweler Tabl 5.10.

Tabl 5.10 Canfyddiadau o gydlynad cymunedol yn ôl oedran

	Pawb	O dan 35 oed	35 - 64 oed	65 neu hŷn
Cytuno'n gryf	43.2%	41.4%	44.7%	55.3%
Tueddu i gytuno	36.0%	46.6%	39.3%	32.2%
Ddim yn cytuno nac anghytuno	9.3%	8.6%	8.6%	5.7%
Tueddu i anghytuno	10.5%	3.4%	6.5%	6.4%
Anghytuno'n gryf	1.0%	0.0%	0.8%	0.4%

Canfyddiadau o unigedd

Gofynnwyd i drigolion nodi i ba raddau y teimlent fod eu hardal leol wedi ei hynysu.

Rhwng pawb, yr oedd bron hanner pob un o'r atebwyr yn anghytuno â'r gosodiad hwn, gyda nifer weddol gyfartal o atebwyr naill ai'n tueddu i anghytuno (25%) neu'n anghytuno'n gryf (23%). Yr oedd hyn yn arwydd o lefel weddol uchel o foddhad yn ardaloedd yr astudiaeth fel lleoedd i fyw.

Er gwaethaf hyn, er bod y nifer o atebwyr yn y categorïau eraill gryn dipyn yn is, yr oedd teimladau o unigedd yn amlwg trwy bob un o ardaloedd yr astudiaeth. Mewn gwirionedd, yr

oedd tipyn dros draean yr holl atebwyr (39%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno eu bod yn teimlo'n ynysig. Yr oedd y 13% a oedd yn weddill heb benderfynu ar y mater, ac nid oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r gosodiad.

Cafwyd y teimladau cryfaf o unigedd yn Llangamarch, gyda 22% o'r trigolion a holwyd yn yr ardal hon yn cytuno'n gryf â'r gosodiad, a 26% pellach yn nodi eu bod yn tueddu i gytuno. Yr oedd yr ymatebion eraill (yn rhai cadarnhaol a rhai negyddol) yn weddol wastad drwy ardaloedd eraill yr astudiaeth (Tabl 5.11).


Tabl 5.11 Canfyddiadau o unigedd yn ôl ardal

	Pob ardal	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Cytuno'n gryf	15.6%	14.2%	22.3%	16.1%	9.8%
Tueddu i gytuno	23.4%	21.0%	26.1%	21.9%	24.9%
Ddim yn cytuno nac anghytuno	12.5%	10.8%	7.6%	13.4%	17.6%
Tueddu i anghytuno	25.2%	26.1%	23.4%	26.3%	24.9%
Anghytuno'n gryf	23.3%	27.8%	20.7%	22.3%	22.8%

O ran oedran, yr oedd ychydig dros hanner (52%) yr holl atebwyr o dan 35 oed naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno eu bod weithiau'n teimlo wedi eu hynysu yn eu hardal. Yr oedd teimladau o ynysu o'r fath yn tueddu i leihau gydag oedran, gyda thrigolion

rhwng 35 a 64 oed a rhai dros 65 oed yn fwy tebygol naill ai o anghytuno'n gryf neu o dueddu i anghytuno â'r gosodiad (48% o'r grŵp cyntaf a 52% o'r olaf).

Ffigur 5.6 Canfyddiadau o unigedd yn ôl sgiliau iaith Gymraeg



Fel y dengys Ffigur 5.6, yr oedd trigolion nad oeddent yn siarad Cymraeg hefyd yn fwy tebygol o deimlo wedi eu hynysu yn eu hardal, gyda bron hanner (48%) o bawb nad oedd yn siarad Cymraeg naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno â'r gosodiad.

Cymuned a Diwylliant – Darganfyddiadau allweddol

Yr iaith Gymraeg

Yr oedd 43% o'r holl atebwyr yn siaradwyr Cymraeg a nododd 37% pellach eu bod yn gallu siarad ychydig eiriau neu frawddegau Cymraeg.

Yn Aberdaron y cafwyd y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Diwylliant a nodweddion unigryw lleol

Cytunai cyfran uchel o atebwyr fod cymeriad a diwylliant unigryw yn eu hardal leol.

Yr oedd atebion cadarnhaol yn pwysleisio pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a thraddodiadau ffermio Cymreig.

Yr oedd atebion negyddol yn tueddu i ganolbwyntio ar fodolaeth mwy nag un diwylliant lleol gwahanol.

Fe wnaeth cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg nag o drigolion di-Gymraeg ymateb yn gadarnhaol i bwnc diwylliant lleol.

Teimlad o Gymuned

Cytunai 89% o atebwyr fod teimlad cryf o gymuned yn eu hardal leol.

Yr oedd rhesymau cyffredin yn cynnwys pobl leol, ysbryd cymdogol, gweithgareddau cymunedol a chyfeillgarwch.

Yr oedd ymatebion negyddol yn tueddu i ganolbwyntio ar golli trigolion hirdymor a'r hollt rhwng mewnudwyr a thrigolion a fu ers amser maith.

Gweithgareddau cymunedol

Cytunai bron hanner yr holl atebwyr fod digon o weithgareddau cymunedol yn eu hardal leol.

Yr oedd gweithgareddau cymunedol yn gysylltiedig â neuaddau pentref, ysgolion neu gapeli'n bennaf.

Yr oedd cyfran sylweddol o'r atebwyr yn chwarae rhan weithgar mewn rhyw fath o weithgareddau cymunedol yn eu hardal leol.

Yr oedd lefelau o gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn tueddu i gynyddu'n raddol yn ôl lefel incwm.

Perthyn i gymuned

Yr oedd pedwar o bob pump o'r trigolion yn eu hystyried eu hunain yn aelod o'r gymuned leol.

Yr oedd cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn eu hystyried eu hunain yn aelodau gweithgar o'u cymuned leol o'u cymharu â thrigolion nad oedd ond yn siarad ychydig eiriau neu frawddegau Cymraeg, neu drigolion di-Gymraeg.

Yr oedd trigolion hirdymor yn llawer mwy tebygol o'u hystyried eu hunain yn aelodau o'r gymuned leol na thrigolion a oedd wedi symud i'r ardal, naill ai o ardal arall yng Nghymru neu o'r tu allan i Gymru.

Rhwydweithiau teulu a rhwydweithiau eraill

Cytunai pedwar o bob pump o'r atebwyr eu bod yn adnabod llawer o bobl yn eu cymuned leol.

Yr oedd trigolion a oedd yn siarad Cymraeg yn fwy tebygol o adnabod llawer o bobl yn y gymuned na rhai di-Gymraeg.

Dywedodd chwarter y trigolion di-Gymraeg nad oeddent yn adnabod llawer o bobl yn eu cymuned leol.

Yr oedd trigolion a oedd wedi symud i'r ardal leol, naill ai o fewn Cymru neu o'r tu allan i Gymru, yn fwy tebygol o adnabod llai o bobl yn y gymuned na brodorion neu rai a oedd yno ers amser maith.

Yr oedd trigolion yn Llanfihangel ac Aberdaron yn fwy tebygol o fod â nifer uwch o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu'n byw o fewn cyrraedd agos.

Yn Llangamarch a Chlydau, yr oedd gan ychydig dros hanner yr holl drigolion lai nag 11 o aelodau yn byw o fewn pum milltir i'w heiddo.

Yr oedd gan draean y trigolion a oedd yn siarad Cymraeg dros 21 o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu'n byw gerllaw.

Yr oedd gan gyfran uwch o drigolion a oedd yno ers amser maith 21 neu fwy o gyfeillion agos neu aelodau o'r teulu'n byw o fewn pum milltir i'w heiddo, o'u cymharu â'r rhai a oedd wedi symud i'r ardal naill ai o fewn Cymru neu o'r tu allan i Gymru.

Cydlyniad cymunedol

Cytunai 86% o'r trigolion fod pobl yn eu cymuned leol yn gofalu am ei gilydd.

Cafwyd y lefelau uchaf o gydlyniad yn Aberdaron a Llanfihangel.

Cytunai 83% o'r holl atebwyr y gellid ymddiried mewn pobl yn eu cymuned leol.

Yr oedd y canfyddiadau cadarnhaol uchaf o ymddiriedaeth gymunedol ymysg y grwpiau oedran hŷn.

Canfyddiadau o unigedd

Anghytunai bron hanner yr holl atebwyr fod eu hardal leol yn teimlo'n ynysig.

Yr oedd canfyddiadau o unigedd uchaf ymysg trigolion o dan 35 oed ac yn tueddu i leihau gydag oedran.

Cytunai cyfran uwch o drigolion di-Gymraeg eu bod yn teimlo'n ynysig wrth fyw yn eu hardal, o'i chymharu â thrigolion gyda rhai sgiliau iaith Gymraeg, a siaradwyr Cymraeg.

6.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn archwilio'r canfyddiadau sydd gan drigolion y pedair cymuned a astudiwyd ynghylch gwasanaethau a'u hasesiadau o'r gwasanaethu hynny. Yn gyffredinol, archwilir data cronus o'r pedair cymuned a astudiwyd. Mewn achosion lle mae canlyniadau cymuned neu gymunedau penodol yn dangos amrywiadau sylweddol o'r canlyniadau cyffredinol, trafodir y gwahaniaethau hynny.

6.2 Asesu'r ddarpariaeth gwasanaethau

Yr oedd yr holiadur yn gofyn i atebwyr gloriannu'r ddarpariaeth o ran y gwasanaethau canlynol yn eu hardal leol: darpariaeth gwasanaethau yn gyffredinol, siopau bwyd, siopau ar wahân i siopau bwyd, banciau a chymdeithasau adeiladu, peiriannau arian twll yn y wal, tai tafarn, mannau i fwyta, meddygfeydd, ysbytai, deintyddion, ysgolion, casglu ysbwriel, ailgylchu a phlisma.

Gofynnwyd i atebwyr hefyd ddweud a oeddent yn ystyried rhai gwasanaethau yn 'hanfodol', yn 'ddymunol' neu yn 'ddiangen' yn eu cymuned.

Yn nhermau darpariaeth gwasanaethau yn gyffredinol ym mhedair cymuned yr astudiaeth,

yr oedd y gyfran fwyaf o atebwyr, 37% yn ei hystyried yn 'foddhaol'.

Fodd bynnag, yr oedd cyfrannau uwch o atebwyr yn ystyried y ddarpariaeth gwasanaethau cyffredinol yn 'wael' (25%) neu 'wael iawn' (11%) na 'da' (20%) neu 'dda iawn' (7%).


Mae Tabl 6.1 yn dangos y farn am y ddarpariaeth gwasanaethau yn gyffredinol yn ôl ardal gymunedol. Yr eithriad yma oedd Aberdaron lle'r oedd 46% o'r atebwyr yn ystyried darpariaeth gwasanaethau yn gyffredinol yn 'foddhaol'. At hyn, yr oedd atebwyr Aberdaron yn tueddu i ystyried y ddarpariaeth gyffredinol yn fwy ffafriol na'r cymunedau eraill yn yr astudiaeth. Canlyniadau Aberdaron oedd 'gwael' (11%) a 'gwael iawn' (10%) o'i gymharu â 'boddhaol' (46%), 'da' (22%) a 'da iawn' (12%).

Yn gyffredinol, yr oedd tueddiad gan atebwyr a oedd wedi byw mewn ardal am gyfnodau hirach i ystyried fod y ddarpariaeth yn gyffredinol yn 'foddhaol' ac i fod yn llai beirniadol. Gellid gweld o hyn fod lefelau goddefgarwch a derbyn yn cynyddu dros amser. Gwelir y canrannau hyn yn Ffigur 6.1.

Tabl 6.1 Asesiad o ddarpariaeth gwasanaethau yn gyffredinol

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Da iawn	7.0%	4.1%	7.8%	3.9%	11.8%
Da	20.1%	15.9%	19.9%	22.1%	21.9%
Boddhaol	36.6%	33.8%	33.1%	33.7%	45.6%
Gwan	25.0%	33.8%	29.5%	26.5%	11.2%
Gwael iawn	11.3%	12.4%	9.6%	13.8%	9.5%

Ffigur 6.1 Ddarpariaeth gwasanaethau yn gyffredinol yn ôl hyd preswyllo



Yn gyffredinol, ystyriai 34% o atebwyr y ddarpariaeth siopau bwyd yn 'foddhaol'. Yr oedd y cyfrannau a ystyriai'r ddarpariaeth siopau bwyd naill ai'n 'dda' (24%) a 'da iawn' (9%) neu'n 'wael' (21%) a 'gwael iawn' (12%) fwy neu lai yn gyfartal.

Aberdaron unwaith eto oedd yr eithriad gyda thuueddiad i fod yn fwy ffafriol o ran y ddarpariaeth siopau bwyd. Er bod canran 'boddhaol' Aberdaron (32%) yn agos at y ganran gyffredinol, yr oedd y ganran 'da' (31%) a 'da iawn' (14%) lawer yn uwch na'r ganran ar gyfer 'gwael' (16%) a 'gwael iawn' (7%).

Yn gyffredinol, yr oedd 64% o'r atebwyr yn ystyried fod siop fwyd yn 'hanfodol' yn eu hardal leol; yr oedd 31% yn ei hystyried yn 'ddymunol'; a dywedodd 5% fod siop fwyd yn 'ddiangen'. Yn Aberdaron, yr oedd 81% o'r atebwyr yn ystyried fod siop fwyd yn 'hanfodol' yn eu hardal leol.

O ran siopau ar wahân i siopau bwyd yr oedd nifer uwch o atebwyr yn ystyried fod y ddarpariaeth yn 'wael' (28%) a 'gwael iawn' (25%) na 'boddhaol' (25%). Yr oedd canrannau 'da' (19%) a 'da iawn' (4%) yn gymharol isel.

Atebwyr Llangamarch oedd y rhai mwyaf beirniadol o'r ddarpariaeth siopau ar wahân i siopau bwyd gyda'r canrannau 'da iawn' (2%), 'da' (13%), 'boddhaol' (20%), 'gwael' (37%) 'gwael iawn' (29%). Yr oedd atebwyr Llanfihangel hefyd yn feirniadol yn y categori hwn gyda chyfraddau arbennig o uchel o ganrannau 'gwael' (28%) a 'gwael iawn' (35%).

Fodd bynnag, yr oedd atebwyr yn Aberdaron yn llai beirniadol o'r ddarpariaeth siopau ar wahân i siopau bwyd. Yr oedd eu canrannau 'gwael' (23%) a 'gwael iawn' (15%) gyda'i gilydd ychydig yn uwch na 'da' (28%) a 'da iawn' (7%). Yr oedd canrannau Clydau yn tueddu i fod yn agos at y canlyniadau cyffredinol.

Yr oedd y farn gyffredinol ynglŷn â darpariaeth banciau a chymdeithasau adeiladu yn pwysu tuag at 'gwael' a 'gwael iawn'. Yn gyffredinol y farn oedd: 'da iawn' (5%), 'da' (12%), 'boddhaol' (21%), 'gwael' (22%) a 'gwael iawn' (41%).

Unwaith eto yr oedd Aberdaron ychydig yn wahanol. Fodd bynnag ar gyfer y categori gwasanaeth hwn yr oedd atebwyr yn Aberdaron yn fwy beirniadol na'r cymunedau eraill, gyda'r canrannau 'da iawn' (3%), 'da' (7%), 'boddhaol'

(15%), a chyfrannau uchel i 'gwael' (23%) a 'gwael iawn' (52%).

Yn gyffredinol, yr oedd 31% o'r atebwyr yn ystyried fod banc neu gymdeithas adeiladu yn 'hanfodol' yn eu hardal leol; yr oedd 46% yn ei ystyried yn 'ddymunol'; ac yr oedd 23% yn ystyried fod banc neu gymdeithas adeiladu yn 'ddiangen'.

Yr oedd yr farn gyffredinol ar gyfer darpariaeth peiriannau arian yn tueddu at 'wael' a 'gwael iawn'. Y canrannau oedd: 'da iawn' (6%), 'da' (14%), 'boddhaol' (25%), 'gwael' (19%) a 'gwael iawn' (36%).

Yr oedd y farn am ddarpariaeth peiriannau arian yn y cymunedau unigol yn tueddu i fod yn agos at y canrannau cyffredinol, er bod atebwyr yn Aberdaron yn fwy beirniadol na chymunedau eraill.

Yn gyffredinol, yr oedd 34% o atebwyr yn ystyried fod peiriant arian yn 'hanfodol' yn eu hardal leol; yr oedd 51% yn ystyried ei fod yn

'ddymunol'; a dywedodd 15% fod peiriant arian yn 'ddiangen'.

Yn gyffredinol, yr oedd yr atebwyr yn fodlon â'r ddarpariaeth tafarndai. Y canrannau cyffredinol oedd: 'da iawn' (17%), 'da' (34%), 'boddhaol' (35%), 'gwael' (9%) a 'gwael iawn' (5%).

Atebwyr yn Llanfihangel oedd â'r canrannau uchaf o 'gwael' (17%) a 'gwael iawn' (6%) ar gyfer darpariaeth tafarndai. Aberdaron oedd â'r canrannau uchaf o 'da' (41%) a 'da iawn' (26%) yn y categori hwn.

Yn gyffredinol yr oedd 40% o atebwyr yn ystyried fod tŷ tafarn yn 'hanfodol' yn eu hardal leol; yr oedd 49% yn ystyried ei fod yn 'ddymunol'; a dywedodd 11% fod tŷ tafarn yn 'ddiangen'.

Dengys Tabl 6.2 pa mor bwysig yr oedd yr atebwyr yn ystyried tafarndai lleol i fywyd cymunedol lleol.

Tabl 6.2 Tafarndai – pwysigrwydd i fywyd cymunedol

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Ddim yn bwysig o gwbl	17.4%	29.6%	15.4%	16.2%	9.5%
Eithaf pwysig	28.8%	28.6%	33.0%	32.3%	21.4%
Pwysig iawn	26.0%	24.3%	24.5%	22.1%	33.3%
Ddim yn gwybod	21.4%	11.1%	20.7%	23.8%	28.6%
Dim un i gael	6.3%	6.3%	6.4%	5.5%	7.1%

Yr oedd y farn gyffredinol am y ddarpariaeth tai bwyta, caffis a mannau eraill i fwyta yn tueddu i fod yn ffafriol: 'da iawn' (13%), 'da' (28%), 'boddhaol' (30%), 'gwael' (19%) a 'gwael iawn' (10%).

Yr oedd y farn am y ddarpariaeth o ran mannau bwyta yn Llanfihangel, Llangamarch a Chlydau yn cydbwysu'n fras rhwng cymeradwyaeth ac anghymeradwyaeth, ond yr oedd trigolion Aberdaron yn bendant yn cymeradwyo eu mannau bwyta gyda'r canrannau 'da iawn' (20%), 'da' (37%), 'boddhaol' (26%), 'gwael' (11%) a 'gwael iawn' (6%).

Yn gyffredinol, yr oedd 22% o'r atebwyr yn ystyried fod tai bwyta a chaffis yn 'hanfodol' yn

eu hardal leol; yr oedd 61% yn eu hystyried yn 'ddymunol'; a 18% yn ystyried eu bod yn 'ddiangen'.

Gan adlewyrchu eu boddhad cyffredinol gyda'r ddarpariaeth tai bwyta a chaffis yn eu hardal leol o bosibl, yr oedd 36% o atebwyr Aberdaron yn ystyried fod tai bwyta a chaffis yn 'hanfodol' yn eu hardal leol; yr oedd 55% yn eu hystyried yn 'ddymunol'; ac 11% yn ystyried eu bod yn 'ddiangen'.

Dengys Tabl 6.3 y farn am y ddarpariaeth meddygfeydd.

Tabl 6.3 Darpariaeth Meddygfeydd

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Da iawn	21.0%	19.1%	20.0%	9.4%	35.8%
Da	21.3%	18.5%	24.8%	21.7%	20.2%
Bodddhaol	24.9%	24.8%	29.1%	25.1%	21.2%
Gwael	15.9%	17.2%	11.5%	24.6%	9.3%
Gwael iawn	16.9%	20.4%	14.5%	19.2%	13.5%


Dengys Tabl 6.3 fod atebwyr yn gyffredinol yn fodlon neu'n fwy na bodlon â'r ddarpariaeth meddygfeydd, yn enwedig yn ardal Aberdaron lle'r oedd y canrannau 'da iawn' (36%) a 'da' (20%) lawer yn uwch na 'gwael' (9%) a 'gwael iawn' (14%).

Clydau oedd yr unig gymuned lle'r oedd y farn am y ddarpariaeth meddygfeydd yn tueddu at

anfodlonrwydd. Y canrannau yno oedd 'da iawn' (9%), 'da' (22%), 'bodddhaol' (25%), 'gwael' (25%) a 'gwael iawn' (19%).

Yr oedd rhywfaint o wahaniaeth o ran grŵp oedran yn y farn am ddarpariaeth meddygfeydd. Dengys y siart bar yn Ffigur 6.2 y gwahaniaethau hyn.

Figur 6.2 Darpariaeth Meddygfeydd yn ôl oedran



Yn gyffredinol, yr oedd 66% o'r atebwyr yn ystyried bod meddyg teulu yn 'hanfodol' yn eu hardal leol; yr oedd 26% yn ei ystyried yn 'ddymunol'; ac 8% yn ei ystyried yn 'ddiangen'.

Yr oedd canran uwch o drigolion Aberdaron, 75%, yn ystyried bod meddyg teulu yn yr ardal leol yn 'hanfodol'.

Yn wahanol i feddygfeydd, yr oedd y farn am ddarpariaeth ysbytai yn dangos tueddiad cyffredinol at anfodlonrwydd. Gwelir y canrannau hyn isod yn Nhabl 6.4.

Tabl 6.4 Darpariaeth ysbytai


	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Da iawn	5.6%	6.1%	3.8%	6.3%	6.0%
Da	11.6%	11.6%	8.1%	14.3%	12.0%
Boddhaol	20.1%	21.1%	17.5%	24.9%	16.2%
Gwael	24.9%	23.1%	30.0%	27.0%	19.2%
Gwael iawn	37.9%	38.1%	40.6%	27.5%	46.7%

Y niferoedd amlwg yn y fan hon oedd y cyfrannau uchel o 'wael' a 'gwael iawn', a oedd yn uwch na 'boddhaol' ar draws pedair cymuned yr astudiaeth.

Yr oedd Aberdaron yn arbennig o nodedig, gydag yn agos i 50% o atebwyr yn ystyried y ddarpariaeth ysbytai yn 'wael iawn'.

Yr oedd rhywfaint o wahaniaeth o ran grŵp oedran yn y farn am ddarpariaeth ysbytai. Dengys y siart bar yn Ffigur 6.3 y gwahaniaethau hyn.

Ffigur 6.3 Darpariaeth Ysbytai yn ôl oedran



Yr oedd niferoedd tebyg yn ymddangos mewn perthynas â deintyddfeydd. Ar draws y pedair cymuned yr oedd canrannau 'gwael' a 'gwael iawn' yn uwch na 'da' a 'da iawn'. Y canrannau cyffredinol oedd: 'da iawn' (7%), 'da' (14%), 'boddhaol' (20%), 'gwael' (25%) a 'gwael iawn' (35%). Clydau oedd â'r cyfuniad uchaf o 'gwael' a 'gwael iawn'.

Yn gyffredinol, yr oedd 46% o'r atebwyr yn ystyried deintyddfa yn 'hanfodol' yn eu hardal

leol; yr oedd 43% yn ystyried y gwasanaeth yn 'ddymunol'; a 12% yn ei ystyried yn 'ddiangen'.

Pan gynhaliwyd y gwaith maes yr oedd atebwyr yn y pedair cymuned yn ystyried bod mynediad i ysgolion yn well na boddhaol. Y farn gyffredinol oedd: 'da iawn' (32%), 'da' (34%), 'boddhaol' (25%), 'gwael' (5%) a 'gwael iawn' (5%).

Yn gyffredinol, yr oedd 75% o atebwyr yn ystyried bod cael ysgol yn 'hanfodol' yn eu hardal leol; yr oedd 21% yn ei ystyried yn 'ddymunol'; a 4% yn ei ystyried yn 'ddiangen'.

Yr oedd y farn am ddarpariaeth casglu ysbwriel yn gyson ar draws y pedair cymuned. Ystyrid bod casglu ysbwriel yn well na boddhaol gan y gyfran uchaf o atebwyr. Yn gyffredinol y farn

oedd: 'da iawn' (36%), 'da' (35%), 'boddhaol' (22%), 'gwael' (5%) a 'gwael iawn' (2%).

Yr oedd amrywiaeth yn y farn am gyfleusterau ailgylchu. Yr oedd atebwyr yng Nghlydau ac Aberdaron yn tueddu i fod yn llai beirniadol na'r rheini yn Llanfihangel a Llangamarch. Gwelir y farn am gyfleusterau ailgylchu yn Nhabl 6.5.

Tabl 6.5 Darpariaeth cyfleusterau ailgylchu

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Da iawn	24.1%	14.0%	21.7%	27.3%	31.5%
Da	32.4%	26.4%	27.4%	38.9%	35.0%
Boddhaol	24.1%	30.9%	26.9%	21.3%	18.5%
Gwael	12.9%	20.2%	15.4%	8.8%	8.5%
Gwael iawn	6.6%	8.4%	8.6%	3.7%	6.5%

Gyda golwg ar blismona, y farn amlycaf yn y pedair cymuned oedd 'boddhaol'. Fodd bynnag, ym mhob un o'r pedair cymuned yr oedd canrannau cyfunol 'gwael' a 'gwael iawn' yn uwch na 'da' a 'da iawn'. Y farn gyffredinol oedd: 'da iawn' (5%), 'da' (19%), 'boddhaol' (41%), 'gwael' (21%) a 'gwael iawn' (14%).

Yn gyffredinol, yr oedd 35% o atebwyr yn ystyried bod gorsaf heddlu'n 'hanfodol' yn eu

hardal leol; yr oedd 45% yn ei ystyried yn 'ddymunol'; ac 20% yn ei ystyried yn 'ddiangen'.

Yr oedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau'n ymwneud â phwysigrwydd neuaddau a chanolfannau cymunedol, ynghyd ag eglwysi a chapeli i fywyd cymunedol lleol. Dengys Tabl 6.7 y canlyniadau ar gyfer eglwys neu gapel.

Tabl 6.6 Pwysigrwydd Neuadd Gymunedol i'r gymuned

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Ddim yn bwysig o gwbl	4.0%	3.1%	8.4%	2.6%	2.4%
Eithaf pwysig	22.3%	15.2%	31.4%	24.8%	17.6%
Pwysig iawn	45.8%	70.2%	46.6%	31.6%	38.6%
Ddim yn gwybod	20.7%	11.5%	13.6%	21.8%	34.3%
Dim un i gael	7.3%	0%	0%	19.2%	7.1%

Tabl 6.7 Pwysigrwydd Eglwys neu Gapel i'r gymuned

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Ddim yn bwysig o gwbl	9.6%	7.4%	13.6%	9.0%	8.6%
Eithaf pwysig	32.6%	33.0%	36.6%	36.9%	23.9%
Pwysig iawn	33.1%	42.6%	29.3%	26.2%	35.9%
Ddim yn gwybod	22.7%	16.5%	17.8%	25.8%	29.2%
Dim un i gael	1.9%	5%	2.6%	2.1%	2.4%

Tabl 6.8 Gwasanaethau Eraill

	Hanfodol	Dymunol	Diangen
Swyddfa Bost	81.9%	16.4%	1.7%
Gorsaf Betrol	59.8%	32.5%	7.7%
Fferyllfa	57.6%	32.1%	10.3%
Arhosfan bws neu drên	56.8%	34.2%	9.1%
Llyfrgell barhaol neu deithiol	32.5%	56.6%	11.0%

Gofynnwyd i atebwyr asesu ystod o wasanaethau eraill gan nodi a oeddent yn eu hystyried yn 'hanfodol', 'dymunol' neu 'ddiangen' yn eu hardal leol. Gwelir y canlyniadau cyffredinol yn Nhabl 6.8. Y canlyniad amlycaf yma oedd ar gyfer 'Swyddfa Bost' yn y gymuned: yr oedd 82% o atebwyr yn ystyried Swyddfa Bost yn 'Hanfodol'; dywedodd 16% y byddai'n 'Dymunol'; ac yr oedd 2% yn ystyried Swyddfa Bost yn 'Ddiangen' yn ardal eu cymuned leol.

6.3 Gwasanaethau Cyfathrebu

Gofynnwyd ystod o gwestiynau i'r atebwyr am wasanaethau cyfathrebu a chyfryngau. Yr oedd y cwestiynau hyn yn ymwneud â pherchnogaeth cyfrifiaduron, cysylltiadau â'r rhyngwyd, band eang, telegyfathrebu, a gwasanaethau radio a theledu yn eu hardal leol.

Perchnogaeth cyfrifiaduron

Yn gyffredinol, yr oedd gan 74% o'r cyfanswm o 845 o atebwyr gyfrifiadur yn y cartref. O'r pedair ardal, Clydau a oedd â'r gyfran uchaf o berchnogaeth cyfrifiaduron, sef 79%. Llanfihangel oedd â'r gyfran isaf o berchnogaeth cyfrifiaduron, sef 70%.

Yr oedd perchnogaeth cyfrifiaduron yn amrywio llawer yn ôl oedran, gyda grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o fod yn berchen ar gyfrifiadur. O'r rhai a oedd o dan 35 mlwydd oed, yr oedd gan 93% gyfrifiadur; i'r rhai yn y grŵp 35-64 oed, yr oedd perchnogaeth yn 86%; a 50% i'r rhai dros 64 oed. Fodd bynnag yr oedd cyfanswm y nifer o gartrefi yn yr arolwg o dan 35 yn isel, sef 58.

Yr oedd perthynas gadarnhaol rhwng perchnogaeth cyfrifiaduron ac incwm cynyddol yn y cartref. Yr oedd cartrefi ag incwm blynyddol dan £10K yn cofrestru perchnogaeth o 57%; yr oedd £10K - £21K yn adrodd 75%; yr oedd £21K-31K â 88%; ac mewn cartrefi dros £31K y flwyddyn, y gyfran oedd 92%.

Yr oedd gwahaniaeth sylweddol hefyd mewn perchnogaeth cyfrifiaduron rhwng y rheini a oedd yn gyflogedig (88%) a'r rheini nad oeddent yn gyflogedig (61%).

Mynediad i'r rhyngwyd

O'r cartrefi (623) â chyfrifiaduron, yr oedd gan 88% fynediad i'r rhyngwyd. Yr oedd hyn yn 65% o'r holl gartrefi yn yr arolwg.

Unwaith eto, Clydau oedd â'r gyfran uchaf o gartrefi â mynediad i'r rhyngwyd, sef 93% o'r cartrefi â chyfrifiaduron. Llangamarch oedd â'r gyfran isaf o gartrefi â mynediad i'r rhyngwyd, sef 82% o'r cartrefi â chyfrifiaduron.

Yr oedd y gwahaniaethau mewn mynediad i'r rhyngwyd yn ôl incwm y cartref yn fwy amlwg. O'r cartrefi hynny â chyfrifiadur, yr oedd gan 79% o'r rhai oedd ag incwm o dan £10,000 y flwyddyn fynediad i'r rhyngwyd; o'r rhai £10,000 - £21,000 y flwyddyn y ffigur oedd 86%; ar gyfer £21,000-31,000 y flwyddyn yr oedd yn 92%; hefyd yr oedd gan 92% o gartrefi a oedd ag incwm dros £31,000 y flwyddyn fynediad i'r rhyngwyd.

Darpariaeth band eang

Yn gyffredinol, yr oedd 58% o atebwyr yn ystyried bod band eang yn 'Hanfodol'; dywedodd 33% ei fod yn 'Dymunol'; ac yr oedd 9% yn ei ystyried yn 'ddiangen'.

Fodd bynnag, 51% o'r cyfanswm o 845 o atebwyr a oedd â band eang.

Yr oedd y 432 o atebwyr a oedd â band eang yn cynrychioli 79% o'r 547 o gartrefi a oedd â mynediad i'r rhyngwyd.

Yr oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng yr ardaloedd yn yr astudiaeth o ran darpariaeth band eang, gyda gwell darpariaeth yng

Nghlydau ac Aberdaron i bob golwg nag yn Llanfihangel a Llangamarch. Gwelir y gwahaniaethau hyn yn Nhabl 6.9, sy'n seiliedig ar gyfanswm yr atebwyr ym mhob ardal o'r astudiaeth. Yn ogystal â dangos perchnogaeth

cyfrifiaduron, mynediad i'r rhyngwyd a band eang, mae Tabl 6.9 yn dangos y canrannau a oedd yn ystyried bod band eang yn 'Hanfodol', 'Dymunol' neu 'Ddiangen'.

Tabl 6.9 Mynediad band eang a'r canfyddiad o'r angen am y gwasanaeth yn seiliedig ar gyfanswm nifer y cartrefi.

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Perchnogaeth cyfrifiaduron	73.7%	69.8%	71.1%	79.2%	73.4%
Mynediad i'r rhyngwyd	64.7%	60.9%	58.2%	73.5%	64.0%
Mynediad band eang	51.1%	43.2%	40.7%	63.7%	53.3%
band eang yn Hanfodol	58.1%	57.8%	54.9%	60.8%	57.9%
band eang yn Dymunol	32.5%	28.9%	40.9%	32.3%	29.5%
band eang yn Ddiangen	9.4%	13.3%	4.3%	6.9%	12.9%

Ac eithrio Clydau, ar gyfer pob ardal yn yr astudiaeth yr oedd y gyfran o'r atebwyr a oedd yn ystyried bod band eang yn 'Hanfodol' yn uwch na'r gyfran a oedd â band eang. Yr oedd y bwch ymddangosiadol hwn rhwng cyflenwad a galw hyd yn oed yn ehangach os oedd yr atebwyr a oedd yn ystyried band eang yn 'Dymunol' yn cael eu cyfrif.

Yr oedd mwyafrif mawr (79.9%) o'r atebwyr a oedd â band eang yn derbyn y gwasanaeth dros linell ffôn.

Yn gyffredinol, yr oedd 12.5% o atebwyr oedd yn derbyn band eang yn defnyddio cyswllt di-wifr. Llanfihangel (18.1%) ac Aberdaron (13.2%) oedd â'r defnydd uchaf o fand eang di-wifr.

Yr oedd cyfrannau llai o gyfanswm yr atebwyr yn derbyn band eang drwy gysylltiadau lloeren (1%) neu symudol (2%). Yr oedd dulliau 'eraill' o dderbyn band eang yn cyfrif am 6% o'r atebwyr a oedd yn derbyn y gwasanaeth.

Dywedodd cyfran uchel, 67%, o'r atebwyr a oedd â band eang, eu bod wedi gallu dewis rhwng gwahanol gyflenwyr. Fodd bynnag dywedodd bron un ym mhob pump (19%) o'r atebwyr nad oedd dewis ganddynt, gydag 1% yn dweud nad oeddent yn gwybod.

O ran ansawdd y band eang, yr oedd asesiadau'r atebwyr yn tueddu at dda a boddhaol. Gwelir yr asesiadau hyn yn Nhabl 6.10.

Tabl 6.10 Asesiad o ansawdd band eang

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Da iawn	17.6%	10.8%	24.1%	21.2%	13.2%
Da	40.5%	38.6%	30.4%	42.9%	45.6%
Boddhaol	19.7%	27.7%	20.3%	16.0%	18.4%
Gwael	14.1%	16.9%	12.7%	15.4%	11.4%
Gwael iawn	3.7%	1.2%	6.3%	2.6%	5.3%

Mynediad i deledu, radio a ffonau

Gofynnwyd i atebwyr a oeddent yn derbyn radio digidol neu deledu 'Freeview' yn eu cartrefi. Dengys Tabl 6.11 y canlyniadau hyn.

Er bod y canlyniad 'Ydw' yn glir, yr oedd peth ansicrwydd ynghylch y canlyniadau 'Nac ydw' a

'Ddim ar gael', na chafodd eu hidlo. Mae'n bosibl bod rhai atebwyr wedi ateb 'Nac ydw' oherwydd nad oedd y gwasanaeth ar gael. Caiff y ddamcaniaeth hon ei chefnogi gan y berthynas rhwng incwm a mynediad i radio a theledu digidol. Gwelir y rhain yn Nhabl 6.12.

Tabl 6.11 Radio a theledu digidol yn ôl Ardal Gymunedol

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Ydw	55.1%	39.4%	31.3%	78.4%	63.4%
Nac ydw	20.5%	26.1%	22.5%	14.2%	21.0%
Ddim ar gael	21.8%	31.7%	44.5%	6.5%	10.2%
Ddim yn dymuno ei gael	2.6%	2.8%	1.6%	0.9%	5.4%

Tabl 6.12 Radio a theledu digidol yn ôl grŵp Incwm

	Pawb	Llai na 10k	10k – 21k	21k – 31k	31k neu uwch
Ydw	55.1%	53.7%	53.7%	52.9%	50.7%
Nac ydw	20.5%	22.1%	24.6%	18.5%	16.7%
Ddim ar gael	21.8%	19.5%	18.2%	26.1%	32.0%
Ddim yn dymuno ei gael	2.6%	4.7%	3.4%	2.5%	0.7%

Clydau, gyda 78%, a oedd â'r gyfradd uchaf o ddefnyddwyr radio a theledu digidol, a ffigur sylweddol is (7%) ar gyfer 'Ddim ar gael' na'r ardaloedd cymunedol eraill.

Yn gyffredinol, yr oedd asesiadau o ansawdd y derbyniad ffôn symudol yn tueddu at fylchog a gwael. Yn wir, dim ond un o bob pum atebwr a oedd yn ei ystyried yn 'dda'. Fel y profodd ymchwilyr yn y maes, yr oedd derbyniad ffôn

symudol ym mhob un o'r ardaloedd cymunedol yn amrywiol a phenodol yn lleol. Dengys Tabl 6.13 y canlyniadau ar gyfer derbyniad ffôn symudol.

Ymddengys o Dabl 6.13 mai yn ardal Llangamarch oedd y derbyniad gorau. Y gwaelaf oedd ardal Llanfihangel, sef yr ardal fwyaf mynyddig yn yr astudiaeth.

Tabl 6.13 Aseiad o dderbyniad Ffôn Symudol

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Ddim yn bodoli	16.1%	24.5%	5.7%	28.0%	4.3%
Bylchog	56.3%	63.3%	50.5%	51.9%	60.6%
Da	22.7%	9.6%	39.1%	16.0%	27.4%
Ddim yn gwybod	1.4%	0.5%	1.6%	1.2%	2.4%
Dim ffôn symudol	3.4%	2.1%	3.1%	2.9%	5.3%

Gofynnwyd i'r atebwyr amcangyfrif y pellter i'w ffôn cyhoeddus agosaf. Gwelir y canlyniadau yn Nhabl 6.14.

Gan fod nifer cynyddol o ffonau cyhoeddus yn derbyn cardiau yn unig yn ôl pob golwg,

gofynnwyd i'r atebwyr a oedd eu ffôn cyhoeddus agosaf yn derbyn arian. Yn gyffredinol, doedd 50% ddim yn gwybod, dywedodd 33% ei fod yn derbyn arian; gyda 17% yn dweud nad oedd.

Gofynnwyd i atebwyr pa mor aml oedden nhw'n defnyddio eu ffôn cyhoeddus agosaf. Yn gyffredinol, doedd 81% byth yn defnyddio ffôn

cyhoeddus; yr oedd 0.2% yn ei ddefnyddio'n ddyddiol; 1% yn ei ddefnyddio bob wythnos o bosibl; a 18% yn ei ddefnyddio'n llai aml.

Tabl 6.14 Milltiroedd at y ffôn cyhoeddus agosaf

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Llai na 1 milltir	61.8%	58.4%	71.9%	59.3%	58.6%
1 – 5 milltir	32.2%	39.4%	18.6%	33.2%	36.2%
5 – 10 milltir	1.8%	1.6%	2.3%	1.8%	1.5%
Ddim yn gwybod	4.4%	0.5%	7.3%	5.8%	3.9%

6.4 Defnyddio gwasanaethau

Gofynnwyd i'r atebwyr pa mor bell oedd rhaid iddynt deithio er mwyn gallu defnyddio amrediad o wasanaethau. Gwelir y canlyniadau cyffredinol yn Nhabl 6.15. Noder mai sail y canlyniadau hyn yw'r nifer o atebwyr a atebodd ar gyfer pob gwasanaeth: e.e. nid oedd gan bob un o'r atebwyr blant yn yr ysgol. Mae'r pellteroedd yr oedd atebwyr yn teithio i ysbyty yn sefyll allan yn Nhabl 6.15. Yn gyffredinol, yr oedd 42% o'r atebwyr yn gorfod teithio dros 30 o filltiroedd i gyrraedd ysbyty. Yn Aberdaron yr oedd y ganran hon yn 87%. Dim ond canrannau bach o atebwyr a oedd yn ystyried mai taith fer a oedd ganddynt i'r ysbyty. Yr oedd tystiolaeth ansoddol yn arwyddo bod rhai cyfleusterau 'ysbyty bwthyn' lleol naill ai wedi cau neu'n gweithredu â llai o oriau agor.

Yn yr un modd, sylwodd atebwyr fod rhai gorsafoedd heddlu yn gweithredu â llai o oriau agor.

Yn gyffredinol, yr oedd pellteroedd a deithiwyd i gyrraedd ysgolion cynradd ac uwchradd yn gymharol fyr.

Gofynnwyd i atebwyr hefyd pa ddull o deithio yr oeddent yn ei ddefnyddio i gyrraedd y gwasanaethau. Ar wahân i ysgolion (Yr oedd bysiau'n cael eu darparu) a'r Swyddfa Bost (Yr oedd atebwyr a oedd yn byw mewn pentref yn dueddol o gerdded), ym mhob categori gwasanaeth yn yr arolwg, yr oedd rhwng 94% a 97% o'r atebwyr a atebodd y cwestiwn yn defnyddio eu cerbyd eu hunain.

Tabl 6.15 Milltiroedd i gyrraedd at wasanaethau - y sail yw'r nifer o atebwyr a atebodd ar gyfer pob gwasanaeth

Milltiroedd	5 neu lai	6-10	11-15	16-20	21-25	26-30	Dros 30
Taith siopa fawr i'r cartref	13.6%	25.4%	26.4%	22.2%	6.0%	2.7%	3.7%
Meddyg	34.5%	47.0%	13.7%	3.5%	0.5%	0.5%	0.4%
Deintydd	6.7%	26.8%	23.0%	20.6%	6.4%	5.4%	11.1%
Ysbyty	1.2%	8.1%	9.5%	18.9%	10.7%	9.4%	42.2%
Gorsaf Heddlu	21.3%	40.4%	19.6%	15.2%	1.7%	0.7%	1.0%
Ysgol Gynradd	87.1%	12.3%	0%	0.6%	0%	0%	0%
Ysgol Uwchradd	35.7%	50.8%	9.7%	1.6%	0.5%	0.5%	1.1%
Swyddfa Bost	81.3%	14.6%	2.1%	1.7%	0.1%	0.1%	0.1%
Cyngor Cyfreithiol neu Les	4.7%	17.3%	34.1%	30.2%	8.0%	3.8%	1.9%

I ymweld â Swyddfa Bost, tra bo 75% yn defnyddio eu cerbyd eu hunain, yr oedd 21% yn cerdded. Yr oedd y gweddill yn dal bws, yn defnyddio beic neu'n cael lifft mewn cerbyd gan rywun arall. Yr oedd y rhan fwyaf o atebwyr a oedd â phlant yn yr ysgol gynradd (66%) yn mynd â nhw yno yn y car; yr oedd 18% yn defnyddio bws ysgol; a 13% yn cerdded. Yr oedd cyfrannau bach yn defnyddio beic gydag eraill yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau eraill.

O ran yr ysgol uwchradd, yr oedd 51% yn dal bws ysgol gyda 47% yn cael eu cludo mewn car preifat. Yr oedd cyfrannau bach yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau eraill.

Yn wyneb y pellteroedd ynghlwm â chyrraedd rhai gwasanaethau, gofynnwyd i'r atebwyr a oeddent yn dibynnu ar bobl eraill yn eu hardal leol i'w helpu i gyrraedd at gyfleusterau a gwasanaethau. Dengys Tabl 6.16 y canlyniadau hyn.

Tabl 6.16 Atebwyr sy'n dibynnu ar gymorth i gyrraedd gwasanaethau

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Ydw	18.2%	22.8%	16.5%	16.3%	17.9%
Nac ydw	78.6%	72.5%	80.9%	82.0%	78.1%
Ddim yn gwybod	3.2%	4.8%	2.7%	1.7%	4.0%

Yn ardal cymuned Llanfihangel yr oedd 23% o'r atebwyr yn dibynnu ar gymorth i gyrraedd gwasanaethau. Nid yw'n syndod fod y gyfran o atebwyr a oedd yn dibynnu ar gymorth yn codi gydag oedran. Yr oedd dros chwarter (26%) o'r holl atebwyr yn y grŵp oedran 65 a throsodd yn dibynnu ar gymorth.

Pan ofynnwyd iddynt esbonio eu hatebion, yr oedd y rhan fwyaf o bobl yn dweud eu bod yn dibynnu ar rywun arall am lifft i gyrraedd cyfleusterau meddygol:

"Does gen i ddim trafndiaeth fy hun. Maen nhw'n help mawr yn enwedig os bydd brys i gyrraedd eich ysbyty agosaf."

"...yn dibynnu ar deulu i gyrraedd yr ysbyty."

"...triniaeth, lifft i'r ysbyty i gael triniaeth am gancr."

"...lifft i'r feddygfa oherwydd dyw'r bws ddim yn ei phasio o'r fan hon."

Yr oedd eraill yn dibynnu ar lifft i fynd i ddiwyddiadau lleol neu i siopa:

"...cyfarfod â ffrind bob yn ail ddydd i weld ydyn ni yn iawn a siopa i'n gilydd."

"mae Age concern yn darparu trafndiaeth i fynd â fi i'r clwb byw'n iach."

"Mae yna warden sy'n ymweld â fi os wyf i'n sâl. Bydd hi hefyd yn casglu presgripsiynau ac yn siopa i fi."

Dyweddodd rhai eu bod yn dibynnu ar gymdogion am dasgau dydd i ddydd:

"Defnyddio dreif fy nghymydog os yw fy un i wedi rhewi gormod i'w ddefnyddio."

"Defnyddio'r cymydog drws nesaf ar gyfer y rhyngwyd"

"Cerdded y ci."

Yn dilyn y cwestiwn am ddibynnu ar gymorth, gofynnwyd i'r atebwyr a oeddent yn rhoi cymorth i bobl i ddefnyddio gwasanaethau. Yn gyffredinol, yr oedd 41% o'r atebwyr yn darparu cymorth i eraill; doedd 55% ddim yn gwneud, a doedd 4% ddim yn gwybod..

Doedd dim gwahaniaethau sylweddol rhwng yr ardaloedd o ran y cyfrannau o bobl a oedd yn darparu cymorth.

Yr oedd y mwyafrif o bobl yn dweud eu bod yn darparu cymorth i bobl yn eu hardal leol oedd yn cael trafferth cyrraedd at drafndiaeth neu nad oedd ganddynt unrhyw ddulliau trafndiaeth eraill. Yr oedd pobl yn rhoi esboniadau tebyg am roi cymorth i'r rhesymau yr oedd pobl yn ei roi am fod angen cymorth i gyrraedd gwasanaethau.

“Casglu meddyginiaeth a siopa i rai pobl oedrannus. Mynd â pherson di-waith i'r ganolfan swyddi. Mynd â pherson i siopa yn y dref - dim bysiau yma.”

“Siopa, lifftiau, garddio, cyfeillgarwch...”

“Rwy'n rhoi mynediad i ebost ac yn cynorthwyo gyda chwiliadau gwe, er enghraifft gwybodaeth deithio - cynllunio teithiau, archebu tocynnau trên ac ati.”

“Yn aml rwy'n rhoi lifft i'r siop i aelodau hŷn o'r gymuned.”

“Rydyn ni'n siopa dros bobl ac maen nhw'n gwneud yr un peth hi ni.”

“Rwy'n gweithio yn y feddygfa felly rwy'n dod â meddyginiaeth i bobl hŷn sy'n methu dod i'r feddygfa”

“Rwy'n mynd â phobl at y meddyg a'r deintydd a hyd yn oed yn galw 999 ar eu rhan.”

“Mae fy nhad yn sâl iawn ac wedi rhoi'r gorau i yrru. Rwy'n ei yrru i bobman - at y meddyg, yr ysbyty a'r fferylllydd, gan fynd ag ef siopa ac at yr optegydd.”

Er bod y grwpiau oedran 35-64 a thros 65 yn tueddu at y canlyniadau cyffredinol, yr oedd llai o atebwyr yn y grŵp dan 35 yn darparu cymorth i eraill: yr oedd 25% yn darparu cymorth; doedd 64% ddim yn gwneud; ac 11% ddim yn gwybod.

6.5 Siopa

Yn nhermau mynediad mwy cyffredinol at wasanaethau, yn enwedig siopa, gofynnwyd i atebwyr am arwydd o ble, a pha mor aml, yr oedden nhw'n siopa ar gyfer y cartref.

Yr oedd siopau lleol yn cael defnydd da. Yn gyffredinol, yr oedd 24% yn defnyddio siopau lleol bob dydd; yr oedd 54% yn eu defnyddio bob wythnos; 16% yn eu defnyddio'n llai aml; a doedd 6% byth yn defnyddio siopau lleol. Yr oedd y cyfuniad o wahanol amledd defnydd yn tueddu i guddio'r gwahaniaethau rhwng y cymunedau, er bod rhywfaint o arwydd o hyn i'w weld yn y cyfrannau nad oedd byth yn defnyddio siopau lleol. Yr isaf oedd Aberdaron gyda 4% o'r atebwyr byth yn defnyddio siopau lleol, tra bod 9% o atebwyr yn Llanfihangel ac 8% yng Nghlydau nad oedd byth yn defnyddio siopau lleol. Yn Llangamarch y ffigur oedd 5%.

Yr oedd y canlyniadau o bosibl yn adlewyrchu'r canfyddiad eang fod nwyddau mewn siopau gwledig yn tueddu i fod yn fwy drud na'r rheini mewn trefi, ac yr oedd hyn yn amlwg yn y ffigurau ar gyfer defnydd o siopau lleol yn erbyn grwpiau incwm. yr oedd cyfrannau uwch o grwpiau incwm is nad oedd byth yn defnyddio siopau lleol. I'r rheini ag incwm o dan £10,000 y flwyddyn, doedd 12% byth yn defnyddio siopau lleol; o ran y grŵp £10,000-£21,000 y ffigur oedd 6%; i'r rhai £21,000-31,000 yr oedd yn 3%; ac i'r rheini ag incwm blynyddol dros £31,000 y ffigur oedd 6%.

Yr oedd cyfrannau uchel o atebwyr ym mhob un o gymunedau'r astudiaeth yn teithio'n rheolaidd i siopau pellach i ffwrdd, megis archfarchnadoedd. Yr oedd y mwyafrif o'r atebwyr, 73%, yn gwneud y teithiau hyn bob wythnos. 2% yn unig o'r atebwyr a oedd yn dweud nad oeddent byth yn gwneud hynny.

I wahanol raddau, yr oedd nifer uwch o atebwyr yn siopa dros y rhyngrwyd na'r nifer nad oedd yn gwneud. Yn gyffredinol, yr oedd 52% yn siopa dros y rhyngrwyd. Yr oedd siopa dros y rhyngrwyd yn amrywio yn ôl oedran. Yr oedd grwpiau oedran iau yn ei defnyddio'n amlach: ni fyddai 26% o'r rhai dan 35 fyth yn siopa dros y rhyngrwyd; doedd 36% o'r rhai yn y grŵp 35-64 byth yn ei defnyddio i siopa; a dywedodd 74% o'r rhai dros 65 na fyddent fyth yn ei defnyddio i siopa.

Yr oedd cyfrannau go debyg i'w gilydd o blith yr atebwyr naill ai'n siopa dros y ffôn a chatalog neu nad oedd yn defnyddio'r dulliau hyn.

6.6 Cyrraedd at atebwyr yn ardaloedd yr astudiaeth

Gofynnwyd i atebwyr pa mor hawdd oedd hi i'r gwasanaethau brys gyrraedd eu cartrefi. Dengys Tabl 6.17 y canlyniadau hyn.

Dengys Tabl 6.17 er bod tuedd ymysg atebwyr ym mhob ardal yn yr astudiaeth i ystyried hwylustod mynediad ar gyfer y gwasanaethau brys yn 'dda iawn', 'da' neu 'foddfaol', yr oedd lleiafrifoedd sylweddol a oedd yn ei ystyried yn wael neu 'wael iawn'. Yn wir, yn Aberdaron yr oedd y nifer oedd yn ei ystyried yn 'wael' a 'gwael iawn' ychydig yn uwch na 'da' a 'da iawn'

Tabl 6.17 Rhwyddineb Mynediad ar gyfer y Gwasanaethau Brys

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Da iawn	15.5%	9.1%	20.0%	20.1%	11.8%
Da	25.9%	27.4%	22.2%	31.4%	21.6%
Boddhaol	27.9%	32.8%	23.2%	23.8%	32.4%
Gwael	21.6%	23.7%	23.2%	18.8%	21.6%
Gwael iawn	9.1%	7.0%	11.4%	5.9%	12.7%

Gofynnwyd i atebwyr hefyd pa mor hawdd oedd hi iddynt sicrhau gwasanaeth gweithwyr megis plymwy a thrydanwyr. Yn gyffredinol, yr oedd yr ymatebion hyn yn tueddu at 'dda iawn' (15%), 'da' (30%) a 'boddhaol' (35%) yn hytrach na 'gwael' (16%) a 'gwael iawn' (4%). Fodd bynnag, mae'r canlyniadau hyn yn dal i ddangos bod un ym mhob pump o'r atebwyr yn ystyried bod mynediad i wasanaethau gweithwyr yn 'wael' neu 'wael iawn' yn eu hardal.

Yn yr un modd, gofynnwyd i atebwyr pa mor hawdd oedd hi i sicrhau gwasanaeth a chynnal a chadw rheolaidd ar gyfer eu cyfarpar yn y cartref. Does dim syndod fod yr atebion hyn yn debyg i'r rhai ar gyfer y cwestiwn blaenorol gan dueddu at 'dda iawn' (13%), 'da' (29%) a 'boddhaol' (38%) yn hytrach na 'gwael' (16%) a 'gwael iawn' (4%). Unwaith eto yr oedd un atebwr o bob pump yn ystyried bod mynediad i wasanaeth cynnal a chadw rheolaidd yn 'wael' neu 'wael iawn'.

6.7 Gwasanaethau eraill

Nid oedd gan yr un o'r pedair ardal gymunedol wasanaethau lleol megis sinema, clwb nos, ale fowlio, theatr, pwll nofio, campfa neu ganolfan hamdden. Yn y rhan fwyaf o achosion yr oedd

mynediad i'r gwasanaethau hyn yn golygu cyfanswm o awr neu fwy o daith i gyrraedd a dychwelyd. Mewn rhai lleoliadau, byddai'r amser teithio lawer yn hirach ar gyfer rhai o'r gwasanaethau.

Yr oedd rhai siopau lleol yn darparu gwasanaeth llogi fideos. Yn achlysurol, cynhelid cynyrchiadau theatr lleol, dosbarthiadau ac arddangosfeydd celf a sgriniadau ffilm yn defnyddio cyfleusterau cymunedol. Yn ardal Llangamarch yr oedd atebwyr yn sôn am gyfleusterau campfa yn Llanwrtyd, a fyddai'n golygu 30 munud o deithio.

Yr oedd atebwyr yn Llangamarch hefyd yn frwd ynghylch y cyfleusterau celfyddydol a theatr yn Llanfair ym Muallt, a oedd mae'n debyg dan fygythiad.

6.8 Newidiadau mewn darpariaeth gwasanaethau

Gofynnwyd i atebwyr sut yr oedd darpariaeth eu gwasanaethau wedi newid yn gyffredinol yn eu hardal leol dros y pum mlynedd diwethaf. Dengys Tabl 6.18 y canlyniadau ar gyfer y pedair ardal yn yr astudiaeth.

Tabl 6.18 Newidiadau canfyddedig mewn gwasanaethau dros bum mlynedd yn ôl cymuned

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Er gwell	18.6%	11.2%	17.2%	17.3%	27.8%
Dim gwahaniaeth	44.5%	44.9%	35.6%	51.8%	43.9%
Er gwaeth	36.9%	43.8%	47.1%	30.9%	28.3%

Fel y dengys Tabl 6.18, mae'r ffigurau cyffredinol yn cuddio amrywiadau sylweddol rhwng yr ardaloedd yn yr astudiaeth, er bod pob

un ar wahân i Aberdaron wedi cofnodi canran isel ar gyfer newid 'er gwell'.

Atebwyr yn Aberdaron a oedd yn gweld eu gwasanaethau yn y golau gorau; ganddynt hwy yr oedd y cyfraddau uchaf o newid 'er gwell' a'r isaf ar gyfer 'er gwaeth'. Atebwyr yn Llanfihangel a oedd â'r niferoedd isaf ar gyfer 'er gwell' a'r ail uchaf ar gyfer 'er gwaeth', oedd 15% yn uwch na ffigur Aberdaron. Yn wir y ffigurau am newid 'er gwaeth' a oedd yn dangos yr amrywiaeth mwyaf, gydag yn agos i 20% rhwng Llangamarch (47%) ac Aberdaron (28%). Yr oedd Llanfihangel (44%) a Llangamarch (47%) yn adrodd cyfraddau uchel o newid 'er gwaeth' yn eu gwasanaethau.

Grŵp arall a gofnododd gyfradd uchel o newid 'er gwaeth' oedd yr atebwyr a oedd wedi byw yn yr ardal drwy eu bywyd. Y gyfran o'r atebwyr hyn a oedd yn ystyried bod gwasanaethau wedi newid 'er gwaeth' oedd 43%, oedd yn cymharu â 37% ar gyfer y rheini oedd wedi symud o fewn Cymru a 32% ar gyfer y rheini oedd wedi symud o'r tu allan i Gymru.

Yr oedd oedran yn ffactor wrth bennu canfyddiadau o newid, gydag amrywiadau sylweddol rhwng grwpiau. Gwelir y rhain yn Nhabl 6.19.

Tabl 6.19 Newidiadau canfyddedig mewn gwasanaethau dros bum mlynedd yn ôl grŵp oedran

	Pawb	Dan 35	35 – 64	Dros 65
Er gwell	18.6%	22.0%	17.6%	18.7%
Dim gwahaniaeth	44.5%	62.0%	43.3%	44.2%
Er gwaeth	36.9%	16.0%	39.1%	37.1%

Fel y dengys Tabl 6.19, yr oedd y grwpiau oedran hŷn yn fwy tebygol o ystyried fod gwasanaethau wedi newid. Hefyd yr oedd y grwpiau oedran hŷn yn fwy tebygol o ystyried fod y gwasanaethau wedi newid 'er gwaeth'.

Yr oedd y rheini a oedd yn meddwl fod darpariaeth eu gwasanaethau wedi newid er gwell yn bennaf yn nodi gwelliannau mewn ailgylchu a chasglu sbwriel, gwelliannau bach yn y gwasanaeth bysiau, neuadd gymunedol a mynediad band eang.

“Mae ailgylchu wedi gwella, ond mae angen casglu deunyddiau'n fwy rhagweithiol. Does dim casgliad cardfwrdd a phlastig.”

“Mae'r siop leol, y swyddfa bost a'r modurdy lleol wedi'u hailagor. Mae peiriant arian wedi'i osod. Mae gennym ni neuadd gymuned newydd hefyd. Mae bws yn dod yn syth i'r pentref bellach. Mae cysylltedd rhyngwyd wedi gwella.”

Aeth un atebwr mor bell â dweud:

“Mae neuadd y pentref wedi gwella'n aruthrol.”

Fodd bynnag yr oedd rhai yn llai brwd:

“Ychydig o ymdrech i wella pethau, ond fawr o effaith.”

“Gwasanaeth bysiau bob dydd Llun, ond yr amseroedd anghywir.”

Dywedodd llawer o bobl nad oedd wedi gweld unrhyw newid dros y pum mlynedd diwethaf mai ychydig a oedd wedi'i wneud i wella'r ardaloedd hyn:

“Mae fel pe bai amser yn sefyll yn llonydd.”

“Mae'r awdurdod lleol siŵr o fod yn meddwl fod y gwasanaethau presennol yn ddigonol. Rwy'n tueddu i gytuno.”

“Wedi aros yn wael.”

Dywedodd rhai bod rhai pethau wedi newid er gwell, ond nad oeddent ar eu gorau:

“Mae gennym ni 3 neu 4 o fysiau Draig Werdd erbyn hyn, ond heb eu defnyddio i'r eithaf. Gellid mynd â phobl ifanc yn eu harddegau i Oakwood (haf), i'r dref, sinema, rasio cartiau, ond does neb yn trafferthu i'w drefnu. Mae prisiau draig werdd yn ddrud.”

Hefyd yr oedd rhai atebwyr yn ystyried nad oedd unrhyw newid ar hyn o bryd, ond yn ofni newidiadau yn y dyfodol:

“Dim newid ar hyn o bryd, ond gallai'r swyddfa bost gau, fyddai'n golled fawr i'r pentref.”

Yr oedd y rheini a oedd yn ystyried bod pethau wedi newid er gwaeth dros y pum mlynedd yn tueddu i sôn am golli gwasanaethau fel swyddfeydd post, trafndiaeth gyhoeddus a dirywiad o ran gofal iechyd.

“Rwy'n gweld eisiau swyddfa bost sydd hefyd yn gwerthu papurau newydd a bwydydd sylfaenol ac sy'n cael ei defnyddio fel man cyfarfod i drigolion lleol yn rheolaidd.”

“... dyw'r drafndiaeth gyhoeddus sydd gennym ddim yn galluogi i neb ei defnyddio i fynd yn ôl a blaen i'r gwaith.”

“...mae popeth yn cau.”

Tabl 6.20 Newid a sut mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar atebwyr

Newid	Effaith
“Yr oedd y banciau i gyd yn arfer bod yma ond maen nhw wedi mynd, yr oedd yma ddeintyddion, mwy o ddarpariaeth meddygon, popeth wedi'i dorri. Mae trafndiaeth yn cynyddu. Symudodd pobl i fyw yma ac maen nhw'n gyrru'n rhy gyflym ar hyd y lonydd.”	“4 blynedd heb ddeintydd, 15 milltir i gyrraedd meddyg (pan gyrhaeddais i gyntaf, byddai'r meddyg yn dod i'r tŷ). Y bechgyn wedi cael damweiniau oherwydd pobl yn goryrru”.
“Mae'r gwasanaeth bysiau wedi mynd. Goleuadau'r stryd wedi'u diffodd. Mae'r digwyddiadau lleol yn llai aml ac mae bygythiad i gau'r ysgol”	Mae gen i gar felly dyw'r diffyg gwasanaeth bws ddim yn effeithio arnaf i ond mae pobl oedrannus yn gorfod dibynnu ar bobl eraill a gan nad yw newydd-ddyfodiaid yn cyfrannu i fywyd y pentref mae'n anodd dod o hyd i lifft dibynadwy. Ysbryd y pentref yn gyffredinol yn isel.”
“Eiddo gwag, diffyg cynnal a chadw, llai o bobl leol, a mwy o fewnddyfodiaid nad ydyn nhw'n cymysgu, llai o ysbryd cymunedol, methu dod o hyd i weithwyr, defnyddio'r rhyngrwyd a rhai cymdogion o uffern.”	“Rydym ni'n byw bywyd unig iawn bellach, ddim yn adnabod a methu enwi'r mwyafrif yn y pentref. Rwyf i wedi rhoi'r gorau i fod yn gymdeithasol.”
“Er nad yw'n effeithio arnaf i'n bersonol mae fy rhieni oedrannus wedi'u heffeithio'n wael gyda'r fan groser/llaeth/pobydd yn rhoi'r gorau i alw oherwydd pris disel.”	“Ar hyn o bryd rwy'n gallu gyrru i'r pentref nesaf i gael nwyddau ond mae fy rhieni yn dibynnu ar gyfleusterau symudol.”
“Ar un adeg yr oedd y siopau i gyd yn gweithio ac yn masnachu. Ers hynny mae'r cigydd wedi cau, y pobydd wedi cau, y swyddfa bost wedi cau, y siopau anrhegion bach wedi cau.”	“Y rhan fwyaf o'r bysiau wedi rhoi'r gorau i aros ger y modurdy felly dwyf i ddim yn gallu defnyddio'r bws. Colli siop y pentref a'r swyddfa bost yn Nhrelech.”

Gwasanaethau - canfyddiadau allweddol

Ystyriai 37% o atebwyr fod safon y gwasanaethau yn gyffredinol yn 'foddhaol'.

Ystyriai 36% o atebwyr fod safon y gwasanaethau cyffredinol a gynigir yn 'wael' neu'n 'wael iawn' yn erbyn 27% a oedd yn eu hystyried yn 'dda' neu 'dda iawn'.

Yn gyffredinol, yr oedd 66% o'r atebwyr yn ystyried bod meddygon teulu yn 'hanfodol' yn eu hardal leol; yr oedd 26% yn eu hystyried yn 'ddymunol'. Yn gyffredinol yr oedd atebwyr yn fodlon neu'n fwy na bodlon â'r ddarpariaeth meddygon teulu.

Yn wahanol i feddygfeydd, yr oedd tueddiad cyffredinol at anfodlonrwydd â'r ddarpariaeth ysbytai.

Yr oedd rhaid i 42% o atebwyr deithio dros 30 milltir i gyrraedd ysbyty. Yn Aberdaron yr oedd y ganran hon yn 87%.

Yr oedd anfodlonrwydd cyffredinol â darpariaeth deintyddion.

Yn gyffredinol, yr oedd 75% o atebwyr yn ystyried bod cael ysgol yn 'hanfodol' yn eu hardal leol; yr oedd 21% yn ei ystyried yn 'ddymunol'. Pan gynhaliwyd y gwaith maes yr oedd atebwyr yn y pedair cymuned yn ystyried bod mynediad i ysgolion yn well na boddhaol.

Yn gyffredinol, yr oedd y pellter yr oedd rhaid teithio i gyrraedd ysgolion cynradd ac uwchradd yn gymharol fyr.

Er bod atebwyr yn ystyried gwasanaethau'r heddlu'n 'foddhaol' yn gyffredinol, yr oedd mwy ohonynt yn ystyried y gwasanaethau hyn yn 'wael' yn hytrach nag yn 'dda'.

Yr oedd 82% yn ystyried Swyddfa Bost yn 'Hanfodol'; dywedodd 16% ei bod yn 'Ddymunol'; ac yr oedd 2% yn ystyried Swyddfa Bost yn 'Ddiangen'.

Yr oedd gan 74% o'r holl atebwyr (845) gyfrifiadur yn y cartref.

Yr oedd gan 88% o'r cartrefi (623) a oedd â chyfrifiaduron fynediad rhyngrwyd. Yr oedd

hyn yn cynrychioli 65% o'r holl gartrefi yn yr arolwg.

Yr oedd bwlch rhwng Galw a Chyflenwad am wasanaethau band eang.

- Ystyriai 58% fod band eang yn 'Hanfodol' a nododd 33% ei fod yn 'Ddymunol'; tra bod 9% yn ei ystyried yn 'Ddiangen'.
- 51% o'r holl atebwyr a dderbyniai wasanaethau band eang.

Yr oedd yn ymddangos bod gwell darpariaeth band eang yng Nghlydau ac Aberdaron nag oedd yn Llanfihangel a Llangammarch.

Yr oedd dros chwarter (26%) o'r holl atebwyr, yn y grŵp oedran dros 65, yn dibynnu ar gymorth i ddefnyddio gwasanaethau. Yn ardal cymuned Llanfihangel yr oedd 23% o'r atebwyr, sef dros un mewn pump, yn dibynnu ar gymorth i ddefnyddio gwasanaethau.

Yr oedd siopau lleol yn cael defnydd da ond yr oedd tystiolaeth anecdotaidd eu bod yn ddrud.

Yr oedd cyfrannau uchel o atebwyr ym mhob un o gymunedau'r astudiaeth yn teithio i siopau pellach i ffwrdd, megis archfarchnadoedd, yn rheolaidd. Yr oedd 73% o atebwyr yn gwneud y daith hon bob wythnos.

Yr oedd 52% o atebwyr yn siopa, i wahanol raddau, dros y rhyngrwyd.

Yn gyffredinol, ychydig o atebwyr a oedd yn meddwl bod darpariaeth gwasanaethau wedi newid 'er gwell'.

7.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn edrych ar y dulliau o deithio a ddefnyddir gan bobl mewn pedair ardal astudiaeth. Mae yma isadrannau ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat yn ogystal ag asesiadau a chymariaethau. Gan mai un o amcanion pwysicaf trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd yw cyrraedd y gwaith, mae'r isadran gyntaf yn edrych ar y pellter mae'r atebwyr yn ei deithio i gyrraedd eu gwaith.

7.2 Teithio i'r gwaith

Gofynnwyd i'r atebwyr pa mor bell i fwrdd y gweithiai'r prif enillydd yn y cartref. Dengys Tabl 7.1 y canlyniadau yn y pedair cymuned astudiaeth.

Y canlyniadau amlycaf oedd y gyfran weddol uchel o atebwyr a weithiai gartref neu o'r cartref, yn arbennig yn Llanfihangel a Chlydau. Yr oedd gan Lanfihangel fwy o bobl heb fan gwaith sefydlog sy'n awgrymu elfen o weithio o'r cartref. Dangosai data wedi'i groesgyfeirio fod cyfran uchel o'r atebwyr a weithiai o'r cartref yn ffermwyr a chontractwyr amaethyddol.

Tabl 7.1 Pellter teithio i'r gwaith mewn milltiroedd

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Gweithio gartref	34.7%	42.3%	27.5%	40.5%	25.6%
Llai na 5 milltir	9.5%	8.5%	7.3%	10.1%	11.6%
5 – 10	8.7%	6.2%	13.8%	6.3%	9.9%
11 – 20	14.5%	10.8%	15.6%	12.7%	19.8%
20 – 49	13.3%	13.1%	19.3%	10.8%	11.6%
50 milltir neu fwy	7.3%	3.1%	6.4%	8.9%	10.7%
Dim man gwaith sefydlog	12.0%	16.2%	10.1%	10.7%	10.7%

O ran teithio pellter sylweddol i'r gwaith o'r cartref, yr oedd gan Llangamarch ac Aberdaron dros 40% o atebwyr a deithiai fwy nag 11 milltir, o'i gymharu â Llanfihangel a Chlydau, gyda thua 30%.

Dim ond 3% o atebwyr Llanfihangel a deithiai fwy na 50 milltir i'r gwaith.

Yr oedd yr atebwyr a symudodd i'r ardaloedd astudiaeth o'r tu allan i Gymru yn fwy tebygol o deithio ymhellach. Er enghraifft, yr oedd 13% o atebwyr a oedd wedi symud o'r tu allan i Gymru yn teithio dros 50 milltir i'r gwaith o'i gymharu â

2% o'r rheiny a oedd wedi symud oddi mewn i Gymru a 5% o'r atebwyr a oedd wedi byw yn yr ardal trwy gydol eu hoes.

Y prif ddull o deithio i'r gwaith oedd unigolyn yn defnyddio ei gar, ei fan neu ei feic modur ei hun. Nid oedd yr un o'r atebwyr yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus na thacsi. Yr oedd yna ychydig o ddefnydd o feiciau, 'trafnidiaeth arall', a rhai unigolion yn cerdded neu redeg. Dengys Tabl 7.2 y manylion yn ôl yr ardaloedd astudiaeth.

Tabl 7.2 Dull teithio i'r gwaith

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Car y cartref/cerbyd arall	85.6%	81.5%	96.6%	81.2%	84.9%
Rhannu car/beic modur	2.0%	1.1%	0%	3.4%	2.8%
Cerdded neu redeg	8.2%	9.8%	3.4%	12.0%	6.6%
Beic	0.5%	2.2%	0%	0%	0%
Arall	3.7%	5.4%	0%	3.4%	5.7%

7.3 Trafnidiaeth gyhoeddus

Er nad oedd yr un o'r atebwyr yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i gyrraedd y gwaith, gofynnwyd i'r atebwyr am ryw syniad o ba mor aml y byddent yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn gyffredinol. Dengys Tabl 7.3 y canlyniadau hyn.

Ychydig iawn o ddefnydd aml o drafndiaeth gyhoeddus a gafwyd ym mhob un o'r ardaloedd astudiaeth. Fodd bynnag, yr oedd y nifer a ddefnyddiai drafndiaeth gyhoeddus yn wythnosol yn rhyfeddol o uchel, gyda Llanfihangel, Clydau ac Aberdaron rhwng 21% - 24% a Llangamarch bron dwywaith mwy na hynny, sef 45%. Mae gan Langamarch wrth

gwrs orsaf drên sy'n cysylltu ag Abertawe ac Amwythig, ac o'r holl ardaloedd astudiaeth, dyma'r agosaf at ganolfannau mwy poblog megis Llanellwedd, Llandrindod, Llanymddyfri ac Aberhonddu.

Nid oedd oedran yn ymddangos yn arwyddocaol o ran dylanwadu ar batrymau trafndiaeth oni bai am ddefnydd dyddiol gan bobl iau a dueddai i ddefnyddio mwy ar drafndiaeth gyhoeddus. Yn y grŵp oedran o dan 35, defnyddiai 7% drafndiaeth gyhoeddus yn ddyddiol; yn y grŵp 35 - 64 oed, 1% oedd y ffigur hwn; ac yn y grŵp dros 65, yr oedd y gyfran yn 0.4%.

Tabl 7.3 Trafnidiaeth Gyhoeddus – Amledd defnydd

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Dyddiol	1.2%	0.5%	1.0%	0.8%	2.4%
Mwy na dwywaith yr wythnos	4.2%	3.2%	5.7%	1.2%	7.1%
Wythnosol	27.6%	24.1%	44.8%	21.0%	22.9%
Llai aml	55.2%	67.9%	47.9%	61.3%	43.3%
Byth	11.8%	4.3%	0.5%	15.6%	24.3%

Yr oedd trafndiaeth yn agwedd hollbwysig ym mherfeddion cefn gwlad ac er nad oedd yr atebwyr yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn gyson iawn, yr oedd eu canfyddiad o ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus yn bwysig. Dengys Tabl 7.4 farn yr atebwyr am y drafndiaeth gyhoeddus.

O edrych ar Dabl 7.4, ymddengys mai trigolion Llanfihangel a oedd â'r farn fwyaf beirniadol o

drafndiaeth gyhoeddus gyda dros 90% ohonynt yn ei nodi'n 'wael' neu'n 'wael iawn'. Yn wir yr oedd 71% yn Llanfihangel yn barnu bod trafndiaeth gyhoeddus yn 'wael iawn'. Yr oedd y canlyniadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y defnydd o drafndiaeth gyhoeddus; atebwyr Llanfihangel a dueddai i'w ddefnyddio leiaf. Yn Aberdaron yn unig y gwelid y cyfanswm o'r 'da' a'r 'da iawn' yn fwy na'r 'gwael' a'r 'gwael iawn'.

Tabl 7.4 Trafnidiaeth gyhoeddus – Poblogrwydd

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Da iawn	4.6%	1.1%	4.3%	2.2%	10.8%
Da	20.3%	5.4%	24.5%	11.6%	39.9%
Boddhaol	5.7%	2.7%	1.6%	6.5%	11.3%
Gwael	26.0%	19.6%	33.5%	32.3%	17.7%
Gwael iawn	43.4%	71.2%	36.2%	47.3%	20.2%

7.4 Trafnidiaeth breifat

Yn gyffredinol, yr oedd 92% o'r atebwyr yn ystyried bod mynediad i gar yn rhan 'hanfodol' o fywyd yn eu hardal hwy. Aberdaron gydag 88% oedd yr unig ardal o fewn yr astudiaeth lle y dywedodd llai na 90% eu bod yn ystyried bod car yn 'hanfodol'. Yr oedd hyn yn gyson gyda thueddiad Aberdaron i nodi bod trafndiaeth gyhoeddus yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.

Yr oedd y gyfran o'r atebwyr a oedd yn nodi nad oedd angen car yn 6%. Yr oedd cyfran uwch o'r atebwyr yn nodi nad oedd angen car yn Aberdaron (8%) a Llangamarch (9%).

Yr oedd grwpiau incwm llai yn fwy tebygol o ystyried nad oedd angen car gyda'r grŵp incwm isaf yn fwy na dwywaith mwy tebygol o fod o'r farn hon. Yr oedd y cyfrannau yn ôl grŵp incwm fel a ganlyn: llai na £10,000 y flwyddyn (10%); £10,000 - £21,000 y flwyddyn (5%); £21,000 - £31,000 y flwyddyn (3%); a thros £31,000 y flwyddyn (4%).

Ychydig iawn o gartrefi a oedd heb gar. Dengys Tabl 7.5 y nifer ceir yn ôl ardal astudiaeth. Nid yw'r data yma'n cynnwys tractorau na pheiriannau amaethyddol eraill.

Tabl 7.5 Cerbydau yn ôl cartrefi, heb gynnwys tractorau

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Dim un	4.3%	3.7%	2.1%	3.5%	8.1%
1 cerbyd	36.5%	28.0%	43.7%	34.7%	39.8%
2 gerbyd	40.8%	45.0%	37.9%	41.2%	39.3%
3 neu fwy o gerbydau	18.3%	23.3%	16.3%	20.8%	12.8%

I ryw raddau mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu'r farn ar ba mor hanfodol oedd perchen car. Yr oedd y gyfran a oedd yn berchen car, yn enwedig sawl car, ar ei uchaf yn Llanfihangel ac ar ei isaf yn Aberdaron a Llangamarch.

Yr oedd tuedd i lai o bobl yn y grŵp dros 65 oed i berchen ar fwy nag un cerbyd.

Dengys Tabl 7.6 fod cysylltiad uniongyrchol a chadarnhaol rhwng perchen car â chynnydd mewn incwm.

Tabl 7.6 Perchnogaeth cerbyd yn ôl grŵp incwm

	Pawb	Llai na £10,000 y flwyddyn	£10,000 – 21,000 y flwyddyn	£21,000 – 31,000 y flwyddyn	£31,000 neu fwy y flwyddyn
Dim un	4.3%	7.5%	3.8%	0%	0%
1 cerbyd	36.5%	57.9%	43.1%	26.7%	11.0%
2 gerbyd	40.8%	28.9%	41.2%	46.7%	53.9%
3 neu fwy o gerbydau	18.3%	5.7%	11.8%	26.7%	35.1%

Yr oedd atebwyr mewn gwaith yn fwy tebygol o berchen car neu geir na'r rheiny heb waith. Yn wir, yr oedd pob un o'r atebwyr mewn gwaith yn berchen car o'i gymharu ag 8% o'r di-waith a oedd heb gar. Yr oedd atebwyr mewn gwaith yn fwy tebygol o berchen ar fwy nag un car na'r di-waith.

Yr oedd tueddiad ymysg atebwyr i berchen ar geir hŷn. Yn gyffredinol yr oedd 17% o'r atebwyr

yn berchen ar un neu fwy o geir iau na dwy oed; yr oedd 40% yn berchen car neu geir rhwng dwy a phum mlwydd oed; 46% yn berchen car neu geir rhwng chwech a deg oed; a 24% yn berchen car neu geir dros un ar ddeg oed.

Nid yw'n syndod bod tueddiadau tebyg i'r hyn a welwyd gyda pherchnogaeth car i'w gweld o ran milltired blynyddol. Tueddai atebwyr Llanfihangel i gofnodi milltired blynyddol uwch;

tueddai'r rhai dros 65 oed i yrru llai o filltiroedd; yr oedd pobl mewn gwaith yn gyrru mwy na'r rhai heb waith; ac yr oedd y grwpiau incwm uwch yn gyrru mwy.

7.5 Defnydd a chostau cymharol trafndiaeth

Gofynnwyd i'r atebwyr pa mor aml y byddent yn defnyddio dulliau gwahanol o drafnidiaeth er mwyn cyrraedd gwasanaethau. Dengys Tabl 7.7 y canlyniadau ar gyfer poblogaeth yr arolwg i gyd.

Yr oedd y data yn Nhabl 7.7 yn gyson â'r canlyniadau eraill yn ymwneud â thrafnidiaeth. Gwelwyd bod dibyniaeth ar gerbydau preifat er mwyn cyrchu gwasanaethau.

O ystyried pwysigrwydd y defnydd o gerbydau preifat, nid oedd yn syndod mai tanwydd ar gyfer cerbydau preifat oedd y categori uchaf o gost trafndiaeth. Mae Tabl 7.8 yn cymharu faint oedd atebwyr yn ei wario ar wahanol ddulliau o drafnidiaeth. Eto, yr oedd y data yma yn gyson â'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat i'r graddau fod y data am wariant ar y categorïau eraill yn ddibwys.

Tabl 7.7 Amledd cyffredinol dulliau gwahanol o drafnidiaeth er mwyn cyrraedd gwasanaethau

	Dyddiol	Wythnosol	Llai aml
Car personol	63.9%	29.9%	6.2%
Car rhywun arall	2.4%	11.6%	86.0%
Trafnidiaeth gyhoeddus	1.6%	7.9%	90.5%
Tacsi	0.6%	1.4%	98.0%
Cerdded	23.7%	25.7%	50.7%
Beic	1.4%	6.2%	92.4%
Beic modur	1.6%	3.1%	95.3%

Yr oedd amrywiadau yn yr ardaloedd astudiaeth o ran gwariant ar danwydd i'r cerbydau preifat. Er enghraifft, gwariai 24% o atebwyr Aberdaron £40 yr wythnos o'i gymharu â 42% o atebwyr Llanfihangel. Yr oedd tua'r un ganran o atebwyr Clydau a Llangamarch yn gwario dros £40 yr wythnos, gyda 34% yn y cyntaf a 33% yn yr ail.

Yn gyffredinol atebwyr Llanfihangel a wariai fwyaf ar danwydd cerbydau preifat; yr oedd atebwyr Clydau a Llangamarch yn debyg; ac atebwyr Aberdaron a wariai leiaf.

O ran oedran, y grŵp a wariai fwyaf ar danwydd i gerbydau preifat oedd y grŵp 35-64 oed:

gwariai 42% o'r grŵp hwn fwy na £40 yr wythnos. Y rhai dros 65 wariai leiaf gyda 16% ohonynt yn gwario dros £40 yr wythnos ac yr oedd 25% o'r rhai dan 35 yn gwario dros £40 yr wythnos.

Nid oes syndod bod yr atebwyr mewn gwaith yn tueddu i wario mwy ar danwydd cerbydau na'r rhai heb waith. O blith yr atebwyr mewn gwaith gwariai 46% ohonynt dros £40 yr wythnos ar danwydd cerbydau preifat o'i gymharu ag 20% o'r rhai di-waith.

Tabl 7.8 Gwariant wythnosol cymharol ar wahanol ddulliau o drafnidiaeth

	Bws	Trên	Tanwydd car	Tacsi
£10 neu lai	90.6%	86.8%	7.3%	88.0%
£11 - £20	2.0%	1.7%	21.5%	3.0%
£21 - £30	0%	0.8%	20.9%	0%
£31 - £40	0.7%	0%	13.8%	0%
Dros £40	1.3%	3.3%	33.1%	0%
Ddim yn gwybod	5.4%	7.4%	3.4%	9.0%

Trafnidiaeth – Prif ddarganfyddiadau

Cyfran weddol uchel o atebwyr yn gweithio gartref neu o'r cartref.

Atebwyr a oedd wedi symud i'r ardaloedd astudiaeth o'r tu allan i Gymru'n fwy tebygol o deithio ymhellach i'r gwaith.

Cerbydau preifat oedd y prif ddull o deithio i'r gwaith.

Cerbydau preifat oedd y prif ddull o gario plant i'r ysgol.

Defnyddiai'r mwyafrif o atebwyr gerbydau preifat i gyrchu gwasanaethau.

Nid oedd neb yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i gyrraedd y gwaith.

Yr oedd defnydd aml o drafndiaeth gyhoeddus yn isel, ond wedi dweud hynny yr oedd defnydd wythnosol o drafndiaeth gyhoeddus yn gymharol uchel.

Yn gyffredinol ystyrir trafndiaeth gyhoeddus yn wael.

Ystyriai 92% o'r atebwyr fod cael car yn 'hanfodol'. 6% o'r atebwyr a ystyriai nad oedd angen car.

Dim ond 4% o'r holl gartrefi a oedd heb fynediad i gerbyd.

Yr oedd perchen car yn uniongyrchol gysylltiedig â chynnydd mewn incwm.

8.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn edrych ar atebion i gwestiynau a ofynnwyd ynglŷn â darpariaeth ynni i'r cartrefi yn y pedair cymuned astudiaeth.

8.2 Gwres canolog

Yr oedd gan wyth allan o bob deg cartref wres canolog, er bod ychydig o amrywiaeth rhwng y cymunedau a astudiwyd.

Llangamarch gyda 91% oedd â'r gyfran uchaf o eiddo gyda gwres canolog. Mewn cyferbyniad â hynny, 63% o dai a oedd â gwres canolog yn Aberdaron.


Yr oedd Llanfihangel a Chlydau yn weddol debyg i'r gyfran gyffredinol, y naill ag 83% a'r llall ag 82%.

O ran grwpiau oedran, cartrefi'r bobl hŷn a oedd â'r lefel isaf o wres canolog (76%). Gellid cymharu hyn â 79% o'r rhai dan 35, ac 82% o'r rhai yn y grŵp oedran 35 - 64.

Yr oedd cysylltiad uniongyrchol rhwng darpariaeth gwres canolog ag incwm y cartref gyda'r grwpiau incwm is yn llai tebygol o'i gael. Gwelir y berthynas hon yn Ffigur 8.1.

Yr oedd rhai cartrefi yn ardal Abertridwr o Lanwddyn, yn ardal ymchwil Llanfihangel, yn cael gwres canolog wedi'i ddarparu gan system biodanwydd lleol, a oedd wedi'i gosod a'i rhedeg gan Severn Trent Water a oedd yn berchen tir yn yr ardal. Gallai tenantiaid ddewis ymuno â'r system neu gael eu heithrio ohoni.

Ffigur 8.1 Gwres canolog yn ôl grŵp incwm



Yr oedd y ddarpariaeth gwres canolog a nwyddau arbed ynni yn amrywio yn ôl deiliadaeth y cartrefi. Er enghraifft, yr oedd gan 80% o eiddo ar rent cymdeithasol wres canolog o'i gymharu â 67% o eiddo rhent preifat.

8.3 Cyflenwad nwy

Nid oedd gan 98% o atebwyr wasanaeth y prif gyflenwad nwy. Cafwyd ymatebion negyddol o dros 96% yn y pedair cymuned astudiaeth.

8.4 Cyflenwad trydan

Credir yn gyffredinol fod toriadau yn y cyflenwad trydan yn fwy cyffredin mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol. Gofynnwyd i atebwyr asesu amledd toriadau'r cyflenwad trydan yn eu cymunedau. Gweler yr ymatebion yn ôl cymuned yn Nhabl 8.1.

Tabl 8.1 Canfyddiadau o ddibynadwyedd cyflenwad trydan

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Byth yn cael toriadau trydan	4.7%	3.7%	1.6%	9.1%	3.3%
Anaml yn cael toriadau trydan	58.7%	61.1%	59.2%	56.8%	58.5%
Cael llawer o doriadau trydan	35.8%	34.7%	38.7%	32.1%	38.2%
Ddim yn gwybod	0.8%	0.5%	0.5%	2.1%	0%

Er bod y canlyniadau hyn yn weddol debyg, yr oedd rhywfaint o amrywiaeth yn ôl cymuned. Ymddengys mai yng Nghlydau yr oedd y cyflenwad trydan mwyaf dibynadwy er mai yng Nghlydau y cafwyd y gyfran uchaf o atebwyr 'ddim yn gwybod'. Yn Llangamarch ac Aberdaron y cafwyd y cyflenwad trydan lleiaf dibynadwy.

Er bod cyfran uchel o atebwyr wedi nodi mai digwyddiadau prin oedd toriadau yn y cyflenwad trydan, dylid dweud bod mwy nag un ymhob tri atebwr yn gyffredinol wedi dweud bod 'llawer o doriadau trydan' yn ardaloedd eu cymuned. Yr oedd hyn hefyd yn wir mewn tair o'r ardaloedd astudiaeth. Clydau oedd yr unig eithriad ond yno hefyd dywedodd un ymhob tri atebwr eu bod yn ystyried eu bod yn cael 'llawer o doriadau yn eu cyflenwad trydan'.

8.5 Lleihau'r defnydd o wres

O ystyried costau cynyddol ynni ar gyfer y cartref, gofynnwyd i atebwyr a oeddent yn lleihau eu defnydd o wres yn ystod tywydd oer. Dywedodd bron hanner yr atebwyr (46%) eu


bod yn lleihau eu defnydd o wres yn ystod tywydd oer.

Dangosodd canlyniadau pob cymuned astudiaeth ryw amrywiaeth yn y gyfran o drigolion a ddewisai leihau eu defnydd o wres. Yn Llanfihangel, dewisodd 43% leihau eu defnydd o wres; yn Llangamarch yr oedd y gyfran yn 57%; ac yng Nghlydau ac Aberdaron yr oedd y gyfran yn y naill yn 47% a'r llall yn 38%.

Yn rhyfedd iawn, nid y 43% o'r grŵp dros 65 oed a ddewisodd leihau eu defnydd o wres oedd y gyfran uchaf. Y grŵp 35-64 oed oedd â'r gyfran uchaf gyda 49%. Y grŵp oedran oedd leiaf tebygol o leihau eu defnydd o wres oedd y rhai dan 35 oed gyda 40%.

Yr oedd cysylltiad uniongyrchol rhwng lleihau defnydd o wres mewn tywydd oer ag incwm y cartref gyda'r grwpiau incwm is yn fwy tebygol o leihau eu defnydd o wres. Gweler y berthynas hon yn Ffigur 8.2.

Ffigur 8.2 Cartrefi a oedd yn lleihau eu defnydd o wres yn ystod tywydd oer yn ôl incwm



Yr oedd yr esboniadau a roddwyd gan atebwyr a oedd yn lleihau eu defnydd o wres yn dangos mai costau cynyddol oedd y prif reswm:

“Olew yn ddrud iawn. Wedi cael LPG tan y llynedd, oedd yn ofnadwy - £700 bob 3 mis. Olew dipyn yn rhatach.”

“Aeth cost gwres canolog olew i fyny 25% eleni. Dim ond rhwng 2030-2200 fydda i’n rhoi’r gwres ymlaen oni bai ei bod yn ddychrynlyd o oer. Fe fydda i’n defnyddio llosgydd coed.”

“Collodd fy ngŵr ei waith eleni felly y gaeaf hwn ry’n ni’n defnyddio’r llosgydd coed fwyaf er mwyn arbed ar y gwres canolog olew.”

Tra bo rhai atebwyr yn nodi costau ariannol, yr oedd eraill yn poeni am yr amgylchedd, ac yn nodi disbyddu adnoddau a chynhesu byd-eang fel rheswm dros leihau eu defnydd o wres. Yr oedd y rhesymau a roddwyd hefyd yn dangos strategaethau addasu megis gwresogi rhai ystafelloedd yn unig, gostwng y thermostat, a gwisgo mwy o ddrillad:

“Rwy’n cau pob drws a chadw un ystafell yn gynnes.”

“Gostwng y thermostat, gwres ymlaen am lai o oriau, gwisgo dillad cynhesach.”

Yr oedd pobl nad oedd yn lleihau eu defnydd o ynni yn gweld gwres yn rhywbeth hanfodol naill ai iddynt eu hunain neu i bobl eraill yn y cartref.:

“Pwysig cadw’r plant yn gynnes.”

“...rhaid cadw pawb yn gynnes.”

Yr oedd hyn weithiau am resymau meddygol:

“Rhaid bod yn ofalus o ran cadw’n gynnes gan fod gennym grydcymalau”

“Gennym bedwar o blant – mae gan y tri hynaf asthma ac mae gennym faban chwe mis oed, felly rhaid i’r aer fod yn gynnes.”

Yr oedd eraill yn syml yn mwynhau’r cysur:

“Hoffi cadw’n gynnes!”

Nid oedd yn rhaid i nifer o gartrefi leihau eu defnydd gan eu bod yn:

“Ofalus drwy gydol y flwyddyn.”

Yr oedd eraill yn gwerthfawrogi’r angen i leihau ei defnydd o wres ond fel y dywedodd un atebwr:

“Fe ddylem ond dŷ’n ni ddim yn gwneud. Rydym yn ceisio gwneud.”

8.6 Mesurau arbed ynni a ffynonellau eraill

Gofynnwyd i atebwyr a oedd eu tai yn cynnwys mesurau arbed ynni: insiwleiddio llofft, gwydro dwbl, paneli haul, melinau gwynt, insiwleiddio ceudod y wal, a bylbiau golau arbed ynni.

Yn gyffredinol, yr oedd 82% o atebwyr wedi insiwleiddio llofft gydag ychydig o amrywiaeth yn ôl cymuned. Yn Llanfihangel yr oedd gan 75% insiwleiddiad llofft; yn Llangamarch yr oedd y gyfran yn 87%; ac yng Nghlydau ac Aberdaron yr oedd y canrannau'n 85% a 78%.

Yr oedd cysylltiad uniongyrchol rhwng cael insiwleiddiad llofft ac incwm y cartref gyda'r grwpiau incwm is yn llai tebygol o'i gael. Ymhlith y rheiny gydag incwm blynyddol llai na £10k, yr oedd gan 74% insiwleiddiad llofft. Yn y grŵp £10k -£21k y flwyddyn, yr oedd y ganran yn 80%. Yr oedd y ffigur ar gyfer y grŵp £21k-£31k y flwyddyn yn 88%, a 90% i'r rheiny ag incwm blynyddol dros £31k.

O ran deiliadaeth tai, nid oedd gan 30% o eiddo ar rent insiwleiddiad llofft, o'i gymharu ag 16% o gartrefi a oedd yn eiddo i'r perchnogion a 18% o'r holl eiddo yn yr arolwg hebddo.

Yn gyffredinol, yr oedd 10% o atebwyr yn ystyried insiwleiddio'r llofft.

Mae cost gychwynnol gwydro dwbl yn tueddu i fod yn fwy costus na mesurau arbed ynni eraill. Fodd bynnag, yr oedd y ganran gyffredinol o gartrefi gyda gwydro dwbl (82%) yr un â chartrefi gydag insiwleiddiad llofft. Yr oedd yr amrywiaeth o ran cymunedau yr un peth â'r amrywiadau ar gyfer insiwleiddiad llofft. Yn Llanfihangel, yr oedd gan 75% o'r atebwyr wydro dwbl; yn Llangamarch yr oedd y ffigur yn 88%; ac yng Nghlydau ac Aberdaron yr oedd y canlyniadau'n 81% ac 83%.

Nid oedd yn syndod fod perthynas uniongyrchol rhwng cael gwydro dwbl ag incwm y cartref, gyda grwpiau incwm llai yn llai tebygol o'i gael. Y grŵp oedd fwyaf tebygol o'i gael oedd y grŵp â'r ail incwm uchaf. Ymysg y rhai ag incwm blynyddol o lai na £10,000, 73% oedd â gwydro dwbl. Yn y grŵp incwm £10,000-£21,000 y flwyddyn yr oedd y ganran yn 81%. 86% oedd y ffigur ar gyfer y grŵp £21,000-£31,000 y flwyddyn, tra bo 84% o'r rhai ag incwm blynyddol o fwy na £31,000 â gwydro dwbl.

O ran deiliadaeth tai, nid oedd gan 31% o eiddo ar rent wydro dwbl, o'i gymharu ag 16% o gartrefi a oedd yn eiddo i'r perchnogion a 18% o'r holl eiddo yn yr arolwg a oedd hebddo. Yn

gyffredinol yr oedd 7% o'r atebwyr yn ystyried cael gwydro dwbl.

Y trydydd mesur mwyaf poblogaidd i arbed ynni oedd insiwleiddiad yng ngheudod y wal, ac yr oedd 38% o'r atebwyr â hwn. Ychydig o amrywiaeth a oedd rhwng y gwahanol gymunedau na rhwng y gwahanol grwpiau o atebwyr.

Eto, yr oedd perthynas uniongyrchol rhwng cael insiwleiddiad yng ngheudod y wal ag incwm y cartref, gyda'r grwpiau incwm is yn llai tebygol o'i gael. Ymysg yr atebwyr ag incwm blynyddol o lai na £10,000 y flwyddyn yr oedd gan 28% insiwleiddiad yng ngheudod y wal. Ar gyfer y rhai ag incwm rhwng £10,000 a £21,000 yr oedd y ffigur yn 35%. Nodwyd bod 43% o'r rhai ag incwm rhwng £21,000 a £31,000 a 44% o'r rhai ag incwm blynyddol dros £31,000 ag insiwleiddiad yng ngheudod y wal.

O ran deiliadaeth tai, nid oedd gan 71% o eiddo ar rent ddim insiwleiddiad ceudod y wal, o'i gymharu â 60% o gartrefi a oedd yn eiddo i berchnogion a 62% o'r holl eiddo yn yr arolwg a oedd hebddo. Yn gyffredinol, nid oedd 52% o'r atebwyr yn ystyried insiwleiddio ceudod y wal.

Un o'r rhesymau dros y ffaith fod canran uchel o'r atebwyr yn nodi 'nad oeddent yn ystyried' insiwleiddio ceudod y wal, a oedd hefyd yn broblem ynglŷn â'i osod, oedd y nifer fawr o eiddo hŷn, yn enwedig ffermdai â waliau cerrig solet. Mae'n bosib fod cyfyngiadau strwythurol a chynllunio cadwraethol hefyd yn wir, i raddau llai, am insiwleiddio llofft a gwydro dwbl.

Ar draws poblogaeth yr arolwg, yr oedd gan 87% o'r atebwyr rai bylbiau golau arbed ynni. Yr oedd y nifer uchaf o ddefnyddwyr (93%) yn Llangamarch, yr oedd 89% yng Nghlydau; ac yr oedd 82% yn Llanfihangel ac Aberdaron yn defnyddio bylbiau golau arbed ynni. Yr oedd cyfanswm o 26 neu 4% o atebwyr â phaneli haul. Llangamarch oedd â'r nifer fwyaf o banelli haul mewn nifer a chanran (naw a 5%). Fodd bynnag yr oedd yn anodd adnabod tueddiadau gyda nifer mor fach.

Yr un modd, yr oedd y nifer fechan o atebwyr a oedd â melinau gwynt - pedwar i gyd - yn gwneud cymharu'n anodd. Yn gyffredinol yr oedd 31% o'r atebwyr yn ystyried melinau gwynt. Yn Aberdaron, sy'n tueddu i fod yn

agored i lawer o wynt, yr oedd y ganran uchaf o atebwyr a ystyriai felinau gwynt, sef 34% i gyd.

8.7 Draeniad a dŵr

Yr oedd 59% o gartrefi heb gysylltu â'r prif ddraeniad, mwy nag oedd wedi'u cysylltu. Yr oedd rhywfaint o amrywiaeth rhwng ardaloedd, gydag ychydig mwy o gartrefi yn Llangamarch wedi'u cysylltu â'r prif ddraeniad, a 50% yn Aberdaron heb eu cysylltu. Ond yr oedd 9%,

'ddim yn gwybod'. Gellir gweld y canlyniadau hyn yn Nhabl 8.2.

Er nad oedd yn rhan o'r holiadur, nododd nifer o atebwyr mewn eiddo mwy anghysbell, yn enwedig o gwmpas Tirabad yn ardal Llangamarch a Phont Llogel a Chownwy yn ardal Llanfihangel, nad oedd ganddynt brif gyflenwad dŵr. Yr oeddent yn dibynnu ar ffynhonnau neu bistyll naturiol am ddŵr.

Tabl 8.2 Eiddo a gysylltwyd â'r prif ddraeniad

	Pawb	Llanfihangel	Llangamarch	Clydau	Aberdaron
Ydyw	36.2%	28.9%	50.5%	26.9%	40.6%
Nac ydyw	59.0%	66.8%	48.4%	69.0%	50.0%
Ddim yn gwybod	4.8%	4.2%	1.0%	4.1%	9.4%

Ynni'r cartref – Prif ddarganfyddiadau

Yr oedd gan 80% o'r holl gartrefi wres canolog. Yr oedd siaradwyr Cymraeg, y rhai a ystyriai eu hunain yn Gymry, a'r atebwyr a oedd wedi byw yn yr ardal drwy gydol eu hoes, yn llai tebygol o gael gwres canolog.

Yr oedd siaradwyr Cymraeg, y rhai a ystyriai eu hunain yn Gymry, a'r atebwyr a oedd wedi byw yn yr ardal drwy gydol eu hoes, yn llai tebygol o gyfyngu ar eu gwres mewn tywydd oer.

Yr oedd 46% o'r atebwyr yn lleihau eu defnydd o wres yn ystod tywydd oer. Nid oedd gan 30% o eiddo ar rent wres canolog.

Ystyriai un ymhob tri o'r atebwyr fod 'llawer o doriadau trydan' yn eu cymuned.

Yr oedd gan 82% o'r atebwyr insiwleiddiad llofft. Nid oedd gan 30% o eiddo ar rent insiwleiddiad llofft.

Yr oedd gan 82% o gartrefi wydro dwbl. Nid oedd gan 31% o eiddo ar rent wydro dwbl.

Yr oedd gan 38% o'r holl atebwyr insiwleiddiad yng ngheudod y wal. Yr oedd gan nifer o'r cartrefi waliau cerrig solet.

Yr oedd gan 87% o'r atebwyr rywfaint o fylbiau golau arbed ynni.

Yr oedd ychydig o baneli haul a melinau gwynt.

Nid oedd 59% o'r cartrefi wedi eu cysylltu â'r brif system ddraenio.

9.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o brif ddarganfyddiadau'r holiaduron cartrefi ac wedi ei strwythuro yn unol â'r prif themâu a drafodwyd mewn adrannau blaenorol a oedd yn dadansoddi'r holiaduron.

9.2 Ardaloedd, Cymunedau a Diwylliant

Yr oedd dros 90% o'r atebwyr yn fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw. Pan ofynnwyd beth a hoffent ynglŷn â byw yn yr ardal leol, yr oedd y rhan fwyaf o'r atebion yn cyfeirio at y tawelwch a'r heddwch, y teimlad o berthyn i'r gymuned a'r golygfeydd lleol. Y problemau a nodwyd ynglŷn â byw yn yr ardal leol oedd y diffyg gwasanaethau a'r dirywiad a'r cau diweddar a fu ar wasanaethau a oedd yn bodoli.

Yn gyffredinol, yr oedd safon bywyd yn uchel ymhob un o'r cymunedau astudiaeth, gyda 95% o'r atebwyr yn nodi bod eu safon byw naill ai'n dda iawn neu'n eithaf da. Gan Langamarch yr oedd y ganran uchaf o atebwyr a nododd fod eu safon byw yn dda iawn (76%); yn Aberdaron yr oedd y ganran isaf (61%).

Yr oedd yr holiadur yn gofyn ymhellach am gyfalaf cymdeithasol y cymunedau lle'r oedd y bobl yn byw ac yn cyfrannu. Golygai hyn edrych yn fanwl ar nodweddion y trefniadau cymdeithasol megis rhwydweithiau cymunedol a chymdeithasol yn ogystal â'r ymddiriedaeth yn y gymuned sydd yn hyrwyddo cydweithio cymunedol.

Yr oedd mwyafrif sylweddol o atebwyr (86%) yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno bod synnwyr cryf o gymuned yn yr ardal leol. Yr oedd tua phedwar allan o bob pump o'r trigolion yn eu hystyried eu hunain yn aelodau o'r gymuned leol. Yr oedd canran uchel (91%) o'r trigolion a siaradai Gymraeg yn eu hystyried eu hunain yn rhan o'r gymuned leol o'i chymharu â 67% o'r rhai na siaradent ddim Cymraeg. Yn gyffredinol, cytunai 69% o'r trigolion a oedd wedi byw yn eu hardal leol gydol eu hoes yn gryf eu bod yn rhan o'r gymuned leol. Yr oedd y ganran o'r rhai a symudodd i'r ardal, naill ai o ardal

arall yng Nghymru (45%) neu o'r tu allan i Gymru (30%) yn sylweddol is.

O ran rhyngweithio cymunedol, cytunai rhyw bedair rhan o bump o'r atebwyr eu bod yn nabod llawer o bobl yn eu cymuned leol. Yr oedden nhw'n fwy tebygol o adnabod nifer o bobl yn y gymuned os oedden nhw'n siaradwyr Cymraeg, wedi byw yn yr ardal leol ers amser hir, neu'n 65 oed neu'n hŷn.

Yn gyffredinol, yr oedd ychydig dros hanner yr holl atebwyr yn cytuno eu bod yn adnabod mwy o bobl yn y gymuned na chynt. Tua thraean o'r trigolion a deimlai eu bod yn adnabod llai ac nid oedd yr 16% a oedd yn weddiill yn cytuno nac yn anghytuno.

O ran rôl y teulu a rhwydweithiau cymdeithasol eraill o fewn bywyd y gymuned, yr oedd gan hanner yr holl atebwyr (51%) lai nag un ar ddeg o ffrindiau agos neu aelodau o'r teulu yn byw o fewn pum milltir i'w cartrefi. Yr oedd trigolion Llanfihangel ac Aberdaron yn fwy tebygol o gael nifer uwch o ffrindiau agos neu deulu yn byw heb fod ymhell, tra oedd cyfran uwch o atebwyr Llangamarch a Chlydau yn dweud nad oedd ganddynt unrhyw ffrindiau clos na theulu yn byw yn agos.

Yn gyffredinol, yr oedd atebwyr yn fwy tebygol o gael mwy o rwydwaith cymdeithasol o fewn pum milltir i'w cartref os oeddent yn siaradwyr Cymraeg neu os oeddent wedi byw yn y gymuned leol drwy gydol eu hoes.

Yr oedd 83% o'r atebwyr ar draws y pedair ardal yn cytuno y gellid ymddiried yn y bobl o fewn eu cymuned leol. Trigolion hŷn a oedd yn nodi ymddiriedaeth fwyaf.

Wrth ystyried eu bywydau o ddydd i ddydd o fewn eu cymunedau, cytunai 39% o'r holl atebwyr fod eu hardal leol yn teimlo'n ynysig. Yr oedd y teimlad o arwahanrwydd i'w deimlo amlycaf yn Llangamarch, gyda 46% o'r trigolion yn tueddu i gytuno neu gytuno'n gryf â hyn. Ar y cyfan, yr oedd y canfyddiad o arwahanrwydd i'w weld amlycaf ymysg

atebwyr o dan 35 oed a thrigolion nad oeddynt yn siarad Cymraeg.

Yr oedd tua hanner yr holl atebwyr yn fodlon ar y lefel o weithgareddau cymunedol a welid yn eu hardal leol. Yr oedd y lefelau bodlonrwydd ar eu uchaf yn Llangamarch ac ar eu hisaf yn Aberdaron.

9.3 Gwasanaethau

Cymysg oedd y farn ar gyflwr darpariaeth gwasanaethau lleol, gyda 36% o'r atebwyr ar draws y pedair cymuned yn nodi bod darpariaeth gwasanaethau naill ai'n 'wael' neu'n 'wael iawn', 37% yn ei ystyried yn foddhaol, ac ychydig dros chwarter yn eu hystyried yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Yn Llanfihangel yr oedd yr anfodlonrwydd mwyaf a'r anfodlonrwydd lleiaf yn ardal Aberdaron.

Ychydig dros draean yr holl atebwyr (37%) a ystyriai fod y ddarpariaeth gwasanaethau yn eu hardal leol wedi gwaethygu dros y pum mlynedd diwethaf. Rhennid y farn hon fwyaf gan drigolion a fu yno am gyfnod hir. Ar draws y pedair cymuned, Llangamarch a oedd â'r ganran uchaf o atebwyr a rannai'r farn hon ac yn Aberdaron yr oedd y ganran leiaf o atebwyr â'r farn hon.

Yr oedd ychydig lai nag un rhan o bump o'r trigolion a holwyd yn dibynnu ar gymorth gan bobl leol i gael mynediad i wasanaethau. Cynyddai'r ffigur i 26% ymhlith pobl hŷn (y rhai a oedd yn 65 oed neu'n hŷn). Yr oedd trigolion Llanfihangel lawer mwy tebygol o ddibynnu ar eraill i gael mynediad i wasanaethau na thrigolion y cymunedau eraill a astudiwyd.

Gweddol gymysg oedd asesiadau trigolion o ddarpariaeth gwasanaethau penodol ym mherfeddion cefn gwlad. O ran y gwasanaeth iechyd, yr oedd yr atebwyr yn gyffredinol fodlon ar ddarpariaeth meddygfeydd lleol, gyda'r farn gadarnhaol dipyn yn gryfach na'r negyddol. Yr oedd hyn yn wir ym mhob cymuned ac eithrio Clydau.

Prif sail y gynnen o ran y gwasanaethau iechyd oedd y ddarpariaeth ysbytai. Yn y pedair cymuned, nododd canran sylweddol o'r trigolion (63%) fod y ddarpariaeth ysbytai yn eu hardaloedd lleol yn wael neu'n wael

iawn. Aberdaron a ddangosodd y lefel uchaf o anfodlonrwydd gyda bron hanner yr atebwyr yn yr ardal hon yn nodi'r ddarpariaeth ysbytai yn wael iawn.

Ymhob un o'r ardaloedd astudiaeth, gwelwyd lefel debyg o anfodlonrwydd ar y ddarpariaeth ddeintyddol, gyda thair rhan o bump o'r trigolion a holwyd yn nodi bod y ddarpariaeth yn eu hardaloedd lleol yn wael neu'n wael iawn. Yr oedd y farn hon amlycaf yng Nghlydau.

Yr oedd atebwyr yn gyffredinol fodlon ar y ddarpariaeth ysgolion, siopau bwyd, tafarndai, bwytai, a chaffis, a gwasanaethau penodol megis casgliadau sbwriel ac ailgylchu yn eu hardaloedd. Ymhob un o'r ardaloedd nododd mwyafrif mawr o'r atebwyr fod y gwasanaethau hyn yn dda neu'n dda iawn. Ystyrid darpariaeth banciau a chymdeithasau adeiladau yn wael ymhob un o'r ardaloedd, gyda'r lefelau o anfodlonrwydd ar eu uchaf yn Aberdaron ac ar eu hisaf yn Llanfihangel.

Tybiai canran uchel o atebwyr fod rhai gwasanaethau'n 'hanfodol' er mwyn cynnal y cymunedau gwledig hyn. Er enghraifft, ystyriai tri chwarter yr holl atebwyr fod ysgol yn 'hanfodol' o fewn eu hardal leol, a nododd 21% arall ei fod yn 'ddymunol'. Yr oedd cyfran uwch o drigolion yn ystyried bod Swyddfa'r Post yn 'hanfodol' (82%) tra bo 16% arall yn ei weld yn 'ddymunol'. Gwelai 66% o'r holl atebwyr fod meddyg yn wasanaeth 'hanfodol' yn yr ardal, a chredai ychydig dros yr hanner fod deintydd yn 'hanfodol'. Yr oedd gwasanaethau eraill megis neuaddau cymuned, tafarndai, eglwysi a chapeli hefyd yn cael eu hystyried yn bwysig gan gyfran uchel o drigolion.

Yr oedd gan tua thri chwarter yr holl atebwyr fynediad i gyfrifiadur yn y cartref, ac yr oedd mwyafrif mawr o'r rhain (88%) wedi eu cysylltu â'r rhyngwyd. Yr oedd ychydig dros hanner yr atebwyr yn derbyn gwasanaethau band eang gyda'r gyfran uchaf yng Nghlydau ac Aberdaron.

Ychydig dros hanner yr atebwyr a oedd yn derbyn gwasanaethau digidol. Clydau a oedd â'r gyfran uchaf o drigolion gyda mynediad i'r

gwasanaeth hwn (78%) gyda'r ail ffigur uchaf yn Aberdaron (63%).

Nododd y mwyafrif o'r trigolion fod derbyniad ffôn symudol yn yr ardal yn anghyson neu'n wael. Nododd ychydig dros 80% o atebwyr na fyddent byth yn defnyddio ffôn cyhoeddus yn eu hardal leol, ac o'r lleiafrif bychan a wnâi hynny, ni fyddent yn ei ddefnyddio fwy nag unwaith yr wythnos.

9.4 Trafnidiaeth

Yr oedd gan y mwyafrif o atebwyr fynediad i un neu fwy o geir. Yn Llanfihangel (98%) y ceid y lefelau uchaf o berchnogaeth car yn enwedig mwy nag un car, ac yn Aberdaron yr isaf (92%). Yr oedd perchnogaeth car hefyd yn uwch o fewn y grwpiau incwm uchaf a'r rheiny mewn gwaith, ac yn is o fewn y grŵp dros 65 oed.

Nododd y mwyafrif o atebwyr fod cael mynediad i gar yn rhan hanfodol o'u bywydau yn eu hardal leol. Yr oedd hyn yn cyfateb i'r ffaith fod y mwyafrif o drigolion yn gweld trafndiaeth gyhoeddus yn wael. Aberdaron oedd yr unig eithriad i hyn lle'r oedd y gyfran o drigolion a ystyriai berchnogaeth car yn hanfodol yn llai na'r cyfartaledd cyffredinol, a lle y nododd cyfran uwch o drigolion fod trafndiaeth gyhoeddus yn dda neu'n dda iawn.

Er gwaethaf hyn, gweddol isel oedd y defnydd o drafndiaeth gyhoeddus yn yr holl ardaloedd astudiaeth. Yn gyffredinol, yr oedd llai na chwarter o atebwyr Llanfihangel, Aberdaron a Chlydau yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar sail wythnosol er bod y ffigur ar gyfer Llangamarch bron dwywaith mwy na hynny, sef 45%. Efallai y gellid esbonio hyn drwy nodi bod yr ardal hon yn derbyn gwasanaeth cyson gan gyswllt trên i Abertawe a'i fod yn gyffredinol yn fwy hygyrch i ganolfannau poblog megis Llanelwedd, Llandrindod, Llanymddyfri ac Aberhonddu.

Yn dilyn hyn, dengys yr arolwg ddibyniaeth helaeth ar gerbydau preifat er mwyn cael mynediad i wasanaethau, i gludo plant i'r ysgol yn ddyddiol ac i deithio i'r gwaith. Yr oedd yr angen am gar i'r diben hwn yn arbennig o amlwg yn Aberdaron a

Llangamarch, lle'r oedd dros 40% o'r atebwyr yn teithio mwy nag un ar ddeg o filltiroedd i'r gwaith.

9.5 Ynni yn y Cartref

Ymhob un o'r ardaloedd astudiaeth, yr oedd gan wyth allan o bob deg cartref wres canolog. Nododd ychydig o dan hanner y trigolion eu bod yn lleihau eu defnydd o wres yn ystod tywydd oer, gyda chartrefi incwm is gyda'r grŵp mwyaf tebygol o wneud hyn. O ran mesurau arbed ynni, yr oedd gan 82% o'r holl drigolion a holwyd insiwleiddiad llofft, yr oedd yr un gyfran (82%) â gwydro dwbl, a defnyddiai 87% fylbiau golau arbed ynni yn y cartref. Yr oedd y gyfran o gartrefi gydag insiwleiddiad yng ngheudod y wal yn sylweddol lai (35%), er y dylid nodi bod gan nifer o gartrefi waliau cerrig solet. Ychydig iawn o gartrefi a oedd yn berchen ar baneli haul na melinau gwynt.

Amrywiai darpariaeth gwres canolog a nwyddau arbed ynni yn ôl deiliadaeth y tai. Er enghraifft, yr oedd gan 80% o dai ar rent cymdeithasol wres canolog o'i gymharu â 67% o dai ar rent preifat.

O ystyried dibynadwyedd cyflenwadau trydan, nododd dros draean o'r atebwyr a holwyd eu bod yn cael llawer o doriadau yn eu cyflenwadau pŵer yn eu hardaloedd. Pwysleiswyd hyn fel problem arbennig yn Aberdaron a Llangamarch.

10.1 Cyflwyniad

Fel y trafodwyd yn adran Dulliau yr adroddiad hwn, cafwyd data ansoddol drwy gyfres o gyfweiliadau manwl gyda thrigolion pedair ardal yr astudiaeth ym mherfeddion cefn gwlad. Mae'r adran hon yn tynnu ar y data hwn i gyflwyno barn trigolion o sut beth yw byw mewn ardaloedd ym mherfeddion cefn gwlad Cymru. Pan fo'n briodol, cyflwynir y farn neu'r canfyddiadau hyn drwy ddyfyniadau gan drigolion.

Mae yna bum isadran: pedair sy'n sôn am themâu cyffredinol cymuned, diwylliant, gwasanaethau a materion, ac isadran olaf sy'n archwilio rhai o'r syniadau a gynigwyd gan y trigolion ar gyfer gwella bywyd yn yr ardaloedd hyn, ac yna ceir crynodeb o'r adran. O dan bob thema gyffredinol, rhoddir sylw i themâu mwy penodol. Yn ogystal â sylwadau ar ryngweithio, cysylltiadau a gweithgareddau cymunedol, mae'r thema Cymuned yn cynnwys barn trigolion ar eu hardal; pam eu bod naill ai wedi aros neu wedi symud yno; ac o dan ba amgylchiadau y byddent yn ystyried gadael. Mae cysylltiad agos rhwng ymdeimlad o gymuned a'r thema Diwylliant, ac mae'r thema Diwylliant yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a nodweddion lleol penodol. Mae'r thema Gwasanaethau yn archwilio barn trigolion am wasanaethau sy'n bodoli eisoes; y strategaethau ymdopi a ddefnyddir ganddynt; a'u disgwyliadau o wasanaethau mewn ardal sydd ym mherfeddion cefn gwlad. Yn dilyn ymlaen o'r thema Gwasanaethau, mae'r thema nesaf yn archwilio Materion a deimlir gan drigolion ar hyn o bryd i fod yn bwysig yn eu hardal leol. Mae'r is-adran olaf yn astudio syniadau trigolion o'r hyn allai wella bywyd yn yr ardaloedd hyn ym mherfeddion cefn gwlad ac yn crynhoi'r adran.

Nid oedd y themâu, y materion a'r pynciau a drafodwyd yn sefyll ar wahân; yr oedd llawer o orgyffwrdd a chysylltiadau. O ran lleoliad, mae llawer o'r themâu hyn yn croesi ar hyd pob un o bedair ardal yr astudiaeth. Pan geid rhywbeth penodol yn lleol, nodir hynny yn yr adroddiad a gyflwynir yn yr adran hon.

10.2 Cymuned

Dau brif drywydd y thema Cymuned yw lle a phobl. Yn ôl y diffiniad ohonynt, yr oedd gan y llefydd a astudiwyd yn yr adroddiad hwn nodweddion penodol tebyg. Yn nodweddiadol, yr oeddynt yn anghysbell, yn wledig a'u poblogaeth yn wasgaredig. Yr oeddynt hefyd yn hardd o ran golygfeydd ac yn cynnwys nifer o ffermydd. I raddau helaeth, câi'r nodweddion hyn le blaenllaw yn amgyffred atebwyr am ardaloedd yr astudiaeth. Soniai atebwyr am y golygfeydd hardd, e.e. enghraifft, dyma ateb dynes hŷn pan ofynnwyd iddi pam y symudodd i'r ardal:

"Edrychwch ar yr olygfa yna."

(Merch, 65+, Llangamarch, wedi ymddeol, sengl)

Dadleuwyd bod golygfeydd, tawelwch, ffordd o fyw arafach a chymuned yn cyfuno i gynnig ansawdd bywyd sy'n rhagori:

"Mae ansawdd bywyd yn anhygoel yma. Dydw i erioed wedi dod ar draws unrhyw beth tebyg iddo. Rydan ni mor hapus, yn bennaf oherwydd yr amgylchedd yr ydan ni'n byw ynddo a'r ffaith eich bod yn gwybod ei fod mor iach."

(Merch, 25-44, Aberdaron, sengl gyda phlant dibynnol)

Yr oedd yr atebwyr hynny a oedd wastad wedi byw yn ardaloedd yr astudiaeth yn parhau i werthfawrogi ansawdd eu bywyd, a chan eu bod wedi'u clymu gan deulu, cymuned a gwaith ni ragwelant y byddent byth yn symud i ffwrdd yn barhaol. Yn wir, yr oedd rhai wedi dychwelyd o fywyd mwy trefol megis ar ôl bod yn y coleg neu'n gweithio mewn trefi a dinasoedd:

"Dwi wrth fy modd â'r golygfeydd, ac mae gan yr ardal le arbennig yn fy nghalon."

(Merch, 65+, Aberdaron, pâr wedi ymddeol)

"Yr oeddwn i eisiau dod yn ôl i'r ardal lle cefais fy magu ac yr oedd yn braf gallu cymryd rhan ym mhopeth yr ydech yn eu cysylltu â Chymru mewn gwirionedd."

(Gwryw, 65+, Llanfihangel, pâr wedi ymddeol)

Yr amgyffrediad hwn ynghylch ansawdd bywyd a oedd wedi dod â mewnfudwyr i ardal

yr astudiaeth. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ohonynt y byddai oedran ac eiddilwch yn eu hannog i symud yn ôl i drefi neu ddinasoedd lle mae cyfleusterau meddygol a lles yn haws cael atynt. Fel y dywedodd y gŵr hwn o oedran gweithio, a oedd yn byw mewn pentref:

"Ie, yr unig beth ... wel o bosibl ... yr unig beth fyddai pe na fyddai'n gorfforol bosibl i... achos gan ein bod ychydig yn ynysig yma, a phetai hi'n dod i'r pwynt lle byddai un ohonon ni'n gorfod treulio llawer o amser mewn ysbytai a phethau fel 'na ac na fyddai hi'n gorfforol bosib."

(Gwryw, 45-64, Llanfihangel, pâr yn gweithio)

Yn fras, yr oedd dau fath o bobl yn byw yn ardaloedd yr astudiaeth: y boblogaeth frodorol, sef y rheiny a oedd wedi eu geni a'u magu neu â gwreiddiau yn yr ardal, a'r mewnfudwyr a oedd wedi symud yno naill ai ar gyfer ansawdd bywyd neu i ymddeol i amgylchedd tawel. Mewn ardaloedd o'r fath a oedd â phoblogaeth wasgaredig, ceid rhwydweithiau cymunedol agos. Wrth sgwrsio â phobl leol, yr oedd yn amlwg fod y rhan fwyaf o bobl yn yr ardaloedd hyn yn adnabod ei gilydd. Fel y dywedodd y person ifanc hwn, a oedd wastad wedi byw yn yr ardal:

"Mae gennym gymuned gref o hyd. Mae pawb yn adnabod pawb yn ein hardal ni. Nid yw'n cymryd llawer o amser, yn nac'yu, os oes rhywun yn symud i mewn rydych yn gwneud pwynt – chi'n gwybod - os ydych chi'n sefyll ar y ffordd rydych yn cydnabod nhw."

(Gwryw, 25-44, Llangamarch, sengl, cyflogedig)

Ar yr un pryd, yr oedd yr atebwyr canlynol wedi cynnig enghreifftiau gwahanol o gysylltiadau cymunedol:

"Oherwydd ein bod yn byw yn Uwchmynydd rydan ni'n tueddu i ddibynnu ar bobl yn yr ardal. Petai fy nghar yn y garej, dywedwch, yna byddwn yn dibynnu ar famau eraill i fynd â'r plant i'r ysgol yn y bore ac maen nhw'n fodlon gwneud hynny, chwarae teg."

(Merch, 25-44, Aberdaron, pâr gyda phlant dibynnol)

"Mae gyda chi gymuned ac awyrgylch, hynny yw, fel y dywedais, petai yna broblem o gwbl

neu petaech yn mynd i drafferthion gallech bob amser ffonio eich cymydog am gymorth neu rywbeth."

(Merch, 35-64, Clydau, sengl, cyflogedig)

"Mae pobl yn gwneud pethau yn y gymuned ac maen nhw'n gwneud llawer yn y pentref, fel mynd i'r dafarn."

(Merch, 45-64, Aberdaron, pâr, gyda phlant dibynnol)

Yr oedd nifer o'r rhai a holwyd wedi sôn am sut yr oedd y broses o adnewyddu cyfleuster cymunedol (yn yr achos hwn y neuadd gymunedol yn Nolan) wedi cryfhau'r cysylltiadau cymunedol:

"Yr hyn sydd wedi dod â phawb at ei gilydd yw'r neuadd gymunedol, sef yr hen ysgol."

(Merch, 45-64, Llanfihangel, pâr wedi ymddeol)

"Ryden ni'n ffodus iawn. Ryden ni wedi adnewyddu ein neuadd yn ardal Dolanog, ac mae yna lawer o bethau'n cael eu cynnal yno ac maen nhw'n medru dod i adnabod llawer o bobl sydd wedi symud i'r ardal o fewn ychydig fisoedd."

(Gwryw, 45-64, Llanfihangel, pâr, cyflogedig)

"Mae yna gymuned gref, a beth sy'n ddiddorol am Ddolanog yw, dwi'n credu i ryw raddau oherwydd y ganolfan gymunedol yr yden ni wedi'i hadnewyddu gyda grant gan Lywodraeth y Cynulliad, wel, mae'r broses adnewyddu ei hun wedi arwain at greu ysbryd cymunedol gwyb."

(Gwryw, 65+, Llanfihangel, pâr wedi ymddeol)

Yn yr un modd, yn ardal Llangamarch, yr oedd teimlad fod y prosiect i adfer Neuadd Alexander, y neuadd gymunedol, yn cael effaith gydynol ar gysylltiadau cymunedol.

Ar y llaw arall, dadleuwyd y gallai dileu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol fod yn niweidiol i'r gymuned:

"Fyddwn i ddim yn dweud fod yna lawer o gymuned yn Rhiw ei hun. Y Swyddfa Bost oedd y peth olaf i fynd ac yna roedd y siop ar agor am ychydig i werthu papurau newydd a'r math yna o bethau, a thrwy gael dim ond hynny roedd o'n gwneud i chi fynd i mewn i'r pentref ac roeddech chi'n gweld pobl ac roeddech chi'n gwybod beth oedd yn digwydd."

(Merch, 65+, Aberdaron, pâr wedi ymddeol)

Yn gyffredinol, awgrymwyd bod rhwydweithiau cymunedol cryf i'w cael yn ardaloedd yr astudiaeth. Yr oedd y rhwydweithiau hyn yn cynnwys y mewnfudwyr. Fel y nododd y pâr Saesneg hwn a oedd wedi ymddeol i fyw mewn lleoliad anghysbell:

“Yn llawn golygfeydd, heddychlon a thawel iawn, a'r bobl, wel ein cymdogion beth bynnag – yr oeddem yn disgwyl ychydig o ddrwgdeimlad, math o beth, wrth symud i mewn gan ei bod yn gymuned fach, ond mae pawb yn y gymuned wedi ein helpu. Maen nhw wedi mynd allan o'u ffordd i'n helpu ni sydd yn braf iawn, iawn. Gwneud i ni deimlo fod croeso inni.”

(Gwryw, 65+, Llanfihangel, pâr wedi ymddeol)

“Nid wyf erioed wedi cael fy hun yn cael y fath groeso mewn cymuned ag y ces gan y gymuned sy'n siarad Cymraeg.”

(Merch, 65+, Clydau, pâr wedi ymddeol)

Mae'r dyfyniad olaf yn ein harwain at y pwnc diwylliant lleol.

10.3 Diwylliant ac iaith

Fel y trafodwyd yn y Cyflwyniad, yr oedd pob un o bedair ardal yr astudiaeth yn unigryw o ran daearyddiaeth, tirwedd a golygfeydd. Yn ddiwylliannol yr oedd tebygrwydd cyffredinol. Yr oedd gan y pedair ardal ddiwylliant ffermio cryf a hynny i'w weld yn amlwg wrth iddynt dderbyn amodau garw; cenedlaethau yn aros ar y tir; cynorthwyo eich cymdogion; a bod yn ymarferol wrth ddelio â materion anodd. Yr oedd hefyd, i raddau amrywiol, ddiwylliant Cymraeg cryf. Ceid elfennau amrywiol i'r diwylliant Cymraeg hwn, fel capel, cerddoriaeth, barddoniaeth a hanes, ac iaith, fel y dengys y dyfyniadau hyn:

“Wel, rydan ni'n ffodus iawn yn ein diwylliant - mae yna ymdeimlad cryf o Gymreictod yma, y ffordd draddodiadol Gymreig o fyw, mae gynnoch chi bobl yn cydweithredu yma, mae gynnoch chi glybiau drama, mae gynnon ni berson lleol sy'n ysgrifennu barddoniaeth. Felly byddwn i'n dweud ei fod yn gymuned iach iawn i fyw ynddi a byddwn i'n dweud ei bod yn bleser byw yma. Mae rhyw fath o wefr o fod yn rhan o rywbeth.”

(Gwryw, 45-64, Aberdaron, cyflogedig, gyda phlant dibynnol)

“Mae'n ardal Gymraeg iawn, ydi. Gyda rhyw fath o awyrgylch tebyg i – awyrgylch gerddorol iawn er enghraifft.”

(Merch, 65+, Clydau, pâr wedi ymddeol)

“Mae yna ymdeimlad cryf iawn o ysbryd yma, mae pobl yn angerddol iawn dros yr iaith Gymraeg, am eu treftadaeth - mae rhywbeth hyfryd iawn amdano. Mae yna rywbeth anrhydeddus iawn am y lle hwn. Mae yna yn dal wir ymdeimlad o hunaniaeth, fe deimlaf.”

(Merch, 35-64, Clydau, sengl gyda phlant dibynnol)

“Yn yr ardal hon, mae gennym grŵp mawr o siaradwyr Cymraeg ac mae'r rhan fwyaf naill ai wedi cael eu geni neu eu magu yma. Mae gennym gymdeithas Gymraeg yma - Cymdeithas Pontrobert a Meifod ac ryden ni'n cynnal nifer o ddigwyddiadau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.”

(Merch, 65+, Llanfihangel, wedi ymddeol, sengl)

Dangosodd data o'r arolwg cartrefi fod yr iaith Gymraeg ar ei chryfaf yn Aberdaron, gyda Llanfihangel yn dilyn yn agos. Yr oedd gan Glydau hefyd ddiwylliant Cymraeg cryf. Nid oedd y Gymraeg cyn gryfed yn ardal Llangamarch, er yr ystyriwyd bod Llanwrtyd gerllaw yn gadarnle i'r iaith:

“Nac yw, nac yw, dyw'r Gymraeg ddim yn iaith gref yn Llangamarch. Yn Llanwrtyd ydi. O ydi, cryf iawn yn Llanwrtyd.”

(Merch, 25-44, Llangamarch, sengl gyda phlant dibynnol)

Rhoddyd gwybod i'r ymchwilyr yn ardal Llangamarch mai 'dim ond rhai o'r ffermwyr hyn sy'n ei siarad', a chadarnhawyd hyn i raddau gan y ffermwr canlynol:

“Mae llawer o'r ffermwyr yma yn dal i siarad Cymraeg, mae bron y cyfan yn siarad Cymraeg.”

(Gwryw, 45-64, Llangamarch, pâr o oedran gweithio)

Ceid rhywfaint o dystiolaeth o amgyffrediad y gallai'r Gymraeg gau pobl allan, er bod atebwyr yn awgrymu nad oedd hyn yn

niweidiol iawn i gysylltiadau cymunedol, fel y nododd y mewnfudwr hirdymor hwn:

(Merch, 45-64, Aberdaron, pâr)

“Dwi’n meddwl ei bod yn ardal gyfeillgar iawn, ond i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg mae’r rhwystr iaith a diwylliant yno, sy’n fater iaith yn bennaf i fod yn hollol onest. Be dwi’n ei feddwl ydi ein bod wrth ein boddau â cherddoriaeth felly nid yw eisteddfodau yn codi ofn arnon ni a’r ochr yna i ddiwylliant ond mae’n fater syml o’r iaith, ac rydych yn teimlo eich bod mewn gwlad dramor a dydych chi ddim yn siarad yr iaith ac yr ydych yn colli allan ar beth sy’n digwydd. Dydach chi ddim yn cael clywed y clecs gymaint. Byddech yn colli allan achos nad ydych yn deall Cymraeg felly mae’n fymryn o rwystr, ond wyddoch chi, rydan ni wedi bod yma 22 mlynedd bellach, felly rydan ni’n dal i deimlo’n rhan o’r gymuned, ond yr ydych yn cael eich eithrio o gymryd rhan yn llawn oherwydd yr iaith. Nid yw’n fater o be wnaiff pobl drosoch, rydych yn gwybod nad eu hagwedd ydi o, mae jest yn ffaith. Mae dim ond yn ffaith ynghylch y sefyllfa.”

(Gwryw, 65+, Aberdaron, pâr wedi ymdeol)

Awgrymwyd hefyd fod yna raniadau cynnil rhwng pobl:

“Rydych yn gweld fod pobl sydd wedi symud i’r ardal, Saeson sydd wedi symud i’r ardal, wel, maen nhw’n tueddu i gadw atyn eu hunain a sefydlu eu cymuned eu hunain mewn sawl ffordd, a’r Cymry yn tueddu i lynu at ei gilydd, ond fyddwn i ddim yn dweud fod hynny’n amlwg iawn.”

(Merch, 45-64, Aberdaron, pâr)

Ar y cyfan, fodd bynnag, dadleuai’r bobl a holwyd eu bod yn ddibryder ynghylch iaith a bod cysylltiadau cymunedol yn croesi ar hyd yr holl grwpiau.

10.4 Newidiadau

Nid oedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod llawer o newidiadau wedi bod yn eu hardal leol. Dros y blynyddoedd, fodd bynnag, sylwyd ar rai newidiadau demograffig:

“Mewnfudo yw’r newid mwyaf ddywedwn i, ac yna diboblogi falle. Pobl yn symud i ffordd o’r ardal i chwilio am waith, ac yna llawer o’r ffermydd wedi dod yn unedau mwy o faint ac rydych chi’n cael tŷ sy’n dod yn wag ac mae’n tueddu fel arfer i fynd yn dŷ haf – dyna’r math o newidiadau sydd wedi bod yn fwyaf amlwg yn yr ardal.”

“O... llawer mwy o fewnfudwyr wedi dod i mewn a llai o ffermio a pheth o’r ffermio wedi mynd i lawr rhiw, o’r blaen efallai allwn i ddim meddwl am yr un ffermwr gwael, roeddynt i gyd yn ffermwyr eithaf da, ac rydyn ni i gyd yn ffermwyr balch iawn ac yn falch o’u stoc.”

(Gwryw, 45-64, Llangamarch, pâr gyda phlant dibynnol)

Yr oedd newidiadau eraill y soniwyd amdanynt yn tueddu i fod yn rhai y teimlid oedd yn newidiadau er gwaeth. Er enghraifft, yr oedd y ffermwr canlynol wedi rhagweld adran Grŵp Ffocws Ieuenctid yr adroddiad hwn ac wedi nodi problemau cynyddol posibl i bobl ifainc yn yr ardaloedd gwledig hyn:

“Mae yna brinder mawr yma o ran plant a phobl ifainc yn benodol - mae yna glwb ieuenctid yma ac acw. Ond nid oes mwy na hynny i blant ... mae llawer o gyffuriau, a llawer o yfed a llawer o ddifflastod, llawer o rwystredigaeth ac maent naill ai dim ond eisiau symud i ffordd neu maen nhw’n cael eu sugno i mewn i hynny. Mae gen i ferch 19 oed ac mae yna lawer ohonyn nhw - dwi ddim yn meddwl eu bod yn cael digon o anogaeth. Dyna’r broblem pan ydych chi mor wledig â hyn - does yna ddim llawer i’w wneud.”

(Gwryw, 45 -64, Clydau, pâr gyda phlant dibynnol)

Teimlai’r ffermwr canlynol fod gostyngiad mewn cyfalaf cymdeithasol a rhwydweithiau cymunedol:

“Dydw i ddim wedi gofyn i unrhyw un am help ers tua 10 mlynedd, a’r un peth y ddwy ffordd. O ran ein cymydog ffermio mwyaf yn ôl pob tebyg, yn ystod blwyddyn, efallai byddech yn treulio dwy neu dair wythnos yn ei helpu, ond mae hynny wedi mynd bellach. Ond rwy’n credu bod popeth wedi mynd ychydig yn rhy gyflym i bawb, llwybr cyflym, cael popeth wedi’i wneud - Bang, bang, bang!”

(Gwryw, 35-64, Clydau, cyflogedig, pâr)

Yr oedd y rhai a holwyd wedi sylwi ar newidiadau eraill, megis presenoldeb llai amlwg yr heddlu mewn ardaloedd gwledig:

“Yr oedd ’na dŷ plismon mawr yno yn y pentref ac roedd hynny’n braf iawn a byddwn yn ei weld yn mynd a byddai’n cerdded o gwmpas drwy’r amser, chi’n gwobod, roedd o’n nabod pawb fel plismon cymunedol ac roedd o’n neis

iawn. Roedd o'n neis iawn, roedd yn deimlad braf, chi'n gwbod, ond wrth gwrs, mae ganddyn nhw, rydan ni'n gweld car heddlu bob hyn a hyn. Os ydach chi'n gweld car heddlu nwan, rydach chi'n meddwl fod rhywbeth o'i le, o beth sy wedi digwydd?"

(Aberdaron - merch, 45-64, gweithio, pâr, plant dibynnol)

Yr oedd y math hwn o newid yn gysylltiedig â'r pynciau yn y ddwy adran ganlynol: Gwasanaethau a Phrif Faterion.

10.5 Gwasanaethau

I raddau, y thema eang 'Gwasanaethau' oedd wedi ysgogi'r prosiect ymchwil hwn; ystod gyfyngedig o wasanaethau allweddol oedd un o'r meini prawf a ddefnyddiwyd i ddiffinio, adnabod a dewis pedair ardal yr astudiaeth. Drwy'r holiadur cartref, ceisiai'r prosiect ymchwil fesur y ddarpariaeth gwasanaethau. Nod y cyfweiliadau manwl wedyn oedd archwilio sut brofiad a gâi'r trigolion o wasanaethau yn ardaloedd yr astudiaeth.

Swyddfa Bost a Siopau

Yr oedd pob un o bedair ardal yr astudiaeth yn cynnwys siopau bwyd a swyddfa bost. Fodd bynnag, nid pob un o'r aneddiadau yn ardaloedd yr astudiaeth a oedd â'r gwasanaethau hyn ac yr oedd llawer o atebwyr yn byw ar ffermydd neu mewn tai anghysbell eraill. O ganlyniad, yr oedd mynediad rhwydd at y gwasanaethau hyn yn amrywio yn ôl lle yr oedd y preswylwyr yn byw.

Yr oedd pob un a gyfwelwyd yn defnyddio eu swyddfa bost leol, pan oeddynt yn gallu'i chyrraedd yn rhesymol. Ardal ymchwil Llanfihangel oedd y mwyaf darniog yn hyn o beth, ac yr oedd wedi colli'r swyddfa bost ym mhentref Llanfihangel:

"Mae'r ffaith fod y swyddfa bost wedi mynd yn Llanfihangel wedi gwneud gwahaniaeth. Yr oeddynt hefyd yn cadw mân bethau."

(Merch, 65+, Llanfihangel, sengl, wedi ymdeol)

Erbyn hyn yr oedd yn cael gwasanaeth swyddfa bost yn yr anheddiad bychan Llwydiarth/ Pontllogail a threfniadau rhan-amser yn Abertridwr. Gan fod ardal astudiaeth Llanfihangel yn un eang, dadleuai

rhai trigolion ei bod yn haws gyrru i'r swyddfeydd post yn nhrefi Llanfair Caereinion neu Llanfyllin.

Er gwaethaf y strategaethau hyn yn ymwneud â hwylustod, teimlai trigolion fod swyddfa bost leol yn rhan annatod o fywyd y gymuned wledig. Yr oeddynt yn hoffi'r syniad o wasanaeth lleol a rhwydweithiau a chysylltiadau lleol.

"Wel, roedd y swyddfa bost yma ac roedd pawb yn galw yma. Roedd llawer ohonyn nhw'n dweud nad oedden nhw erioed wedi bod i swyddfa bost o'r blaen lle gallech gael paned o goffi... ac yna dyma nhw'n ein cau ni."

(Gwryw, 35-64, Clydau, ddim mewn cyflogaeth, pâr gyda phlant dibynnol)

Yr oedd trigolion yr oedd eu swyddfa bost leol wedi cau yn ddiweddar yn gosod y golled hon yn uchel ar eu rhestr o 'wasanaethau sydd wedi newid er gwaeth'.

Fel y dangosodd canlyniadau'r holiadur cartref, tueddai'r graddau ar gyfer siopau bwyd i fod yn 'foddhaol'. Er bod y rhan fwyaf o atebwyr yn defnyddio siopau lleol yn feunyddiol, dadleuwyd bod y prisiau yn uchel o'u cymharu â siopau'r trefi agosaf, yn enwedig yr archfarchnadoedd. Deallwyd bod y prisiau lleol uchel hyn oherwydd diffyg cystadleuaeth, costau teithio, ac arbedion maint.

Yr oedd gan lawer o atebwyr strategaethau eraill ar gyfer eu prif siopa cartref. Yr oedd rhai yn teithio bob wythnos, bob yn ail wythnos neu hyd yn oed bob mis i archfarchnadoedd, a hefyd gan fod yr economïau hyn yn seiliedig ar ffermydd, cafwyd tystiolaeth o hunangynhaliath:

"Fel arfer byddwn ni'n gwneud y siopa unwaith bob pythefnos fel arfer dyna beth rwy'n ceisio ei wneud. I fod yn onest gyda chi gan nad ydw i wir yn 'shopaholic', rydyn ni'n gwneud cystal ag y gallwn â'r bwyd ffres. Rydyn ni'n tyfu ein llysiau ein hunain ac mae gyda ni ieir a llynedd roedd ychydig o dwrcis gyda ni hefyd, dim ond tri oedd gyda ni, dydyn ni ddim yn bwyta llawer o gig, ond mae'n golygu bod gyda ni gig yn y rhewgell."

(Merch, 35-64, Clydau, pâr, cyflogedig)

“Mae'r Spar yn Aberdaron yn dioddef o'r un broblem i fod yn onest, oherwydd ei fod yn llawer drutach, yn enwedig os oes gynnoch chi archfarchnad fel Asda a Kwik Save ym Mhwillheli. Rydych yn talu 80 ceiniog am rywbeth yn y pentref ac mae'n costio 50 ceiniog ym Mhwillheli, ond mae'n dipyn go lew yn nhrefn mawr pethau. Os ydach chi'n gwario £8 yma, wel mi wnaiff £3 fynd â chi i Bwillheli yn gwnaiff, a phan 'dach chi'n sôn am £100, yna mae'n wahaniaeth mawr.”

(Gwryw, 45-64, Aberdaron, cyflogedig, pâr gyda phlant dibynnol)

Yr oedd rhai atebwyr, yn enwedig parau wedi ymddeol, yn cyfuno eu teithiau siopa gyda theithiau hamdden:

“Ydi, mae siopau lleol yn ddrud iawn - Spar a rhai felly yn y pentref lleol. Dyna pam fod gennym ni ddwy rewgell ac unwaith yr wythnos rydyn ni'n mynd i Groesoswallt neu'r Trallwng. Ydyn, a stocio fyny, de. Ac nid hynny yn unig, mae'n rhoi seibiant i'r wraig.”

(Gwryw, 65+, Llanfihangel, pâr wedi ymddeol)

Yr oedd eraill, a oedd yn teithio i'r trefi neu oedd â gwaith sy'n cynnwys teithio, yn cyfuno eu siopa i'r cartref gyda theithio sy'n gysylltiedig â gwaith. Yr oedd yna hefyd atebwyr a oedd yn siopa dros ffrindiau a pherthnasau.

Yr oedd y profiadau hyn o siopa yn ôl pob tebyg yn fras yn debyg i rai pobl sy'n byw mewn trefi a dinasoedd. Yr hyn sy'n eu gwahaniaethu yw'r pellter hirach. Fel y dywedodd y person hwn o Lanfihangel a gyfwelwyd, yr oedd canoli cynyddol ar wasanaethau yn gwaethygu'r broblem, gan gynnwys dod o hyd i danwydd i deithio i'r gwasanaethau:

“Yr un thema mewn gwirionedd yw canoli pethau. Dim ond rhyw flwyddyn neu ddwy oedden ni yma dwi'n meddwl ac yr oedd yna farchnad fach ac wrth gwrs does yna'r un bellach – fe wnaeth hi gau ar ôl dwy flynedd, felly mae'n rhaid i chi fynd i naill ai Groesoswallt neu Trallwng. Ac ryden ni wedi trafod petrol – mae'n rhaid i chi deithio deg milltir o fan'ma i gael petrol.”

(Gwryw, 45-64, Llanfihangel, pâr, cyflogedig)

O ganlyniad, yr oedd y bobl yn yr ardaloedd hyn ym mherfeddion cefn gwlad yn tueddu i

fod â strategaethau pendant sydd â'r nod o leihau costau teithio.

Costau Teithio a Thrafnidiaeth Gyhoeddus

Yr oedd strategaethau i leihau costau hefyd yn cynnwys costau teithio. Dangosodd data'r holiadur cartref fod mynediad i gludiant modur preifat yn cael ei ystyried yn hanfodol i bobl sy'n byw yn y cymunedau ym mherfeddion cefn gwlad, ac er bod llefydd gwerthu tanwydd yng nghymunedau'r astudiaeth, dadleuai'r bobl a gyfwelwyd mai ychydig ohonynt sydd yno, eu bod yn bell ar wahân, yn ddrud ac nid oeddynt bob amser wedi'u stocio'n ddibynadwy:

“Un peth sydd wir yn fy ngwneud i'n rhwystredig neu yn fy ngwylltio yw'r ffaith ein bod yn tueddu i dalu premiwm yma am yr hyn y byddwn i'n ei ystyried yn rhywbeth sy'n nwydd hanfodol a sylfaenol fel tanwydd moduron, er enghraifft. Bydd yn 4c neu 5c y litr yn rhatach yn Abertawe nag o amgylch yma ac mae hynny wir yn fy nghythraddo achos rwy'n credu fod pethau fel yna, yn enwedig mewn ardal fel hyn, fod perchenogaeth ceir yn hanfodol. Nid moethusrwydd ydy e.”

(Merch, 45-64, Llangamarch, sengl, cyflogedig)

O ystyried y ddibyniaeth gyffredinol ar gerbydau preifat, soniodd trigolion am yr angen i sicrhau fod eu tanciau tanwydd yn llawn. Er mwyn lleihau costau, byddai rhai trigolion yn eu llenwi yn yr archfarchnadoedd yn ystod eu teithiau siopa a dim ond yn defnyddio ffynonellau lleol i gael cyflenwad 'ychwanegol' os byddai wir angen.

“...Mae fy ngŵr yn un sy'n codi'n gynnar, ac fel aiff i Groesoswallt ac mae'n gwneud hynny bob bore dydd Sadwrn ac yna i arbed mwy nag un daith mae'n gwneud y siopa i gyd. Yna, mae'n rhoi disel yn fy nghar ar y ffordd adref achos dydw i ddim wir yn mynd heibio i unrhyw le sydd ddim yn ddrud, felly mae o bob amser yn mynd â fy nghar bach i, ac yna yn ei llenwi â disel.”

(Merch, 25-44, Llanfihangel, pâr gyda phlant dibynnol)

Yn sgil y fath ddibyniaeth ar gerbydau preifat, ni châi trafndiaeth gyhoeddus ei defnyddio lawer ac, fel y dangosodd data'r arolwg cartrefi, derbyniodd raddau isel ym mhob ardal yn yr astudiaeth ar wahân i Aberdaron.

Trigolion ardal astudiaeth Llanfihangel a roddodd y graddau isaf i drafnidiaeth gyhoeddus, a mynegodd llawer ansicrwydd ynghylch bodolaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal – ardal y gellid dadlau oedd y mwyaf anghysbell ac eang o'r holl rai yn yr astudiaeth. Problem y teimlwyd gyda thrafnidiaeth gyhoeddus oedd yr amserlenni:

“Wel doedd gyda chi ddim pas bws achos doedd gyda ni erioed fws ac felly rwyf wedi brwydro am hyn ac wedi mynd at Kirsty Williams a Chyngor Sir Powys a phawb arall ac yn y pen draw mi gawson ni'n pas bws yma, sy'n golygu ein bod yn gallu teithio ar y trên a'r bws. Felly, y peth cyntaf roeddwn i eisiau ei wneud oedd mynd - rwy'n hoffi Llanidloes. Mi welais fod y bws yn mynd i Lanidloes ac mi ddywedais wel mi hoffwn fynd i weld Llanidloes ar y bws. Wel mi roedd hynny'n ol reit. Wel pa amser yr hoffech chi ddod yn ôl? Mi ddywedais innau y buaswn yn hoffi ychydig oriau yno, chi'n gwybod, efallai dod yn ôl yn gynnar gyda'r nos. O diar. Roedd hyn yn y Ganolfan Deithio. Yr unig fws yn ôl yw'r un rydych yn cyrraedd arno. Mae jest yn troi rownd a dod yn ôl.”

(Merch, 65+, Llangamarch, pâr wedi ymddeol)

Cyflwynwyd dadleuon tebyg o ran yr amserlenni trenau ar gyfer Llangamarch.

Er hynny, yr oedd croeso i'r cynllun diweddar i gyflwyno gwasanaethau bws cymunedol yn ardaloedd Aberdaron, Clydau a Llangamarch, er bod trigolion yn tynnu sylw at rai problemau:

“Mae yna wasanaeth bws coch wnaeth ymddangos o nunlle heb unrhyw ymgynghori ryw flwyddyn neu ddwy yn ôl. Pwy sydd wedi dod â hwn? Pam? Mae gyda ni gynllun trafnidiaeth gymunedol sydd wedi'i leoli yng Nghilmeri, ond wnaeth neb ymgynghori â nhw am hyn chwaith ac roedden nhw'n gandryll, ac yn haeddiannol felly. Mae fel petai nad oes unrhyw feddwl yn cael ei wneud i gysylltu pethau yn y lle yma. Rwy'n credu ei bod yn fenter gan y Cynulliad.”

(Merch, 45-64, Llangamarch, sengl, cyflogedig)

Mae'r ddau ddyfyniad canlynol yn dangos problem i rieni mewn ardaloedd gwledig: yr anawsterau a brofir gan bobl ifainc wrth gael mynediad at wasanaethau, gwaith, addysg ac adloniant:

“Ac fy mab, mae'n rhaid i mi fynd ag ef i bobman, achos does dim bws iddo ef neidio arno.”

(Merch, 35-64, Clydau, pâr gyda phlant dibynnol)

“Mae'n rhaid i chi eu cario. Mae fy merch yn 15 oed. Mae'n anodd iawn, iawn arni. Mae'n gweithio, rhaid i mi fynd â hi. Mae hi'n mynd i ganu, mae hi mewn côr. Rwyf ar y ffordd o hyd. Does dim gwasanaethau cyhoeddus.”

(Merch, 25-44, Llangamarch, sengl gyda phlant dibynnol)

Mae'r dyfyniad canlynol, yr un olaf ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus, yn amlgu nifer o bwyntiau: gwerthfawrogiad cyffredinol o wasanaeth gwell; yr amserlenni anodd; a phroblemau darparu a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardaloedd hyn sydd ag aneddiadau bychain a ffermydd a thai anghysbell:

“Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn well na beth oedd o - dim ond un bws sy'n mynd o Rhiw i Bwllheli bob dydd, ond flynyddoedd yn ôl dim ond unwaith yr wythnos roedd o'n arfer mynd. Does dim llawer o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth, ond mae o yno. Wrth gwrs, i ni byddai'n golygu gorfod mynd milltir i ddal y bws, ac os ydw i eisiau dal un o Botwnnog mae hynny tua thair milltir i ffwrdd, felly byddai'n rhaid i chi fynd yn y car i fynd ar y bws.”

(Merch, 65+, Aberdaron, pâr wedi ymddeol)

Gwasanaethau meddygol

Yn gyffredinol, yr oedd y rheiny a gyfwelwyd yn fodlon neu'n well gyda darpariaeth meddygon teulu yn eu hardal leol. Yr oedd mwy na 34% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg cartrefi yn teithio pum milltir neu lai i weld meddyg teulu, ac yr oedd bron i hanner ohonynt yn teithio llai na deg milltir. Dadleuwyd bod hyn yn dderbyniol ac yn cymharu ag amgylchiadau trefol.

Câi 'Shopdoc', sef y gwasanaeth tu allan-i-oriau-swyddfa ei feirniadu'n gyffredinol gan atebwyr Aberdaron. Mae'n debyg bod y meddygon ar alwad yn teithio o bellteroedd maith, o Aberystwyth er enghraifft, ac nid oeddent yn gyfarwydd â'r ardal:

“Y system newydd nŵan, chi'n gweld, dydan nhw ddim yn cael dod allan, oni bai bod y person yn sâl iawn, ac wedyn maen nhw'n anfon meddyg sydd heb syniad am Benllŷn, a gallwch ddychmygu orfod mynd i fyny i Uwchmynydd yn hwyr yn y nos a dim syniad lle rydach chi'n mynd.”

(Merch, 45-64, Aberdaron, pâr, cyflogedig)

Yr oedd gan y bobl ganlynol a gyfwelwyd o ddwy ardal arall brofiadau gwahanol o 'Shopdoc':

“Mae gennych chi Shopdoc ac maen nhw'n wych ... mae yn cymryd awr iddyn nhw weithiau i ddod allan yma, ond maen nhw yn dod o Amwythig wedi'r cyfan. Rydych chi'n ffonio y tu allan i oriau, mae gennym rif uniongyrchol iddyn nhw nŵan achos fod dad yn sâl iawn, ac yna yn llythrennol maen nhw'n dod allan, mae ganddyn nhw bopeth gyda nhw ... Mae'n gweithio'n dda iawn i ni.”

(Merch, 25-44, Llanfihangel, pâr gyda phlant dibynnol)

“Mae gennych Shopdoc sydd yn wastraff amser llwyr. Ie, ar ôl i'ch meddygfa gau rydych yn ffonio'r Shopdoc. Ar ôl i chi farw maen nhw'n eich ffonio chi'n ôl i ofyn i chi o beth wnaethoch chi farw. Mae'n hunllef. Rydych chi'n cael rhywun yn eich ffonio chi'n ôl ac yna maen nhw'n dweud o, wel ewch i'r adran ddamweiniau agosaf, sef Henffordd mae'n siŵr yng nghanol y nos – awr dda i ffwrdd.”

(Merch, 25-44, Llangamarch, sengl gyda phlant dibynnol)

Yr oedd y dyfyniad olaf uchod yn awgrymu anfodlonrwydd â'r ddarpariaeth ysbyty, sy'n cyd-fynd â graddfeydd gwael yn yr holiadur cartref a beirniadaeth gan y rhai a gyfwelwyd.

Dadleuwyd bod canoli ymddangosiadol ar ddarpariaeth ysbytai wedi gadael yr ardaloedd ym mherfeddion cefn gwlad gyda gwasanaeth annigonol. Crynhowyd y sefyllfa gan yr atebwr hwn o Aberdaron:

“Y brif broblem o ran byw yn yr ardal ydi'r ysbytai, gan eu bod yn bell iawn i ffwrdd. Mae'r ysbyty ym Mangor yn 50 milltir i ffwrdd, ac mae 'na un llai, Bryn Beryl ym Mhwllheli, ond dim ond rhai gwasanaethau penodol sy'n cael eu cynnig yno, felly byddai'n rhaid i chi fynd i Fangor os ydach chi'n sâl iawn neu os ydach chi wedi brifo'n wael ac angen llawdriniaeth.”

(Merch, 45-64, Aberdaron, pâr, cyflogedig)

Yr oedd atebwyr mewn ardaloedd eraill yn sôn am sefyllfaoedd tebyg. Câl Clydau ei wasanaethu gan ysbyty bach yn Aberteifi; câl rhai achosion yno eu hailgyfeirio i Gaerfyrddin a byddai Llanelli yn trin achosion difrifol a llawdriniaethau. Ym Mhowys, yr oedd atebwyr Llanfihangel a Llangamarch yn teimlo bod yna broblemau difrifol â darpariaeth ysbyty. Yr oedd ysbytai lleol yn y Trallwng a Llanfair-ym-muallt naill ai wedi cau neu'n cynnig gwasanaethau cyfyngedig:

“Efallai y bydd yn rhaid i mi gael llawdriniaeth ar fy nghlun ac i wneud hynny byddai'n rhaid i mi fynd i Telford, felly byddwn i'n annog y Cynulliad i ystyried bod angen ysbyty yn Sir Drefaldwyn sy'n gallu gwneud y triniaethau pwysig yma.”

(Merch, 65+, Llanfihangel, sengl, wedi ymddeol)

“Wel, does yna ddim ysbytai sydd ag adran damweiniau ym Mhowys, rhaid i chi fynd i Abertawe, rhaid i chi fynd i Gaerdydd, Merthyr, Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr neu'r Fenni... mae ganddyn nhw diffibrilwyr a phethau fel 'na ac maen nhw wedi cael tîm ymateb argyfwng yn Llanwrtyd, sydd yn hollol wych. Rwy'n siŵr eu bod wedi arbed llawer o fywydau, maen nhw'n bobl anhygoel, ac rydyn ni'n cael hofrenyddion yn dod o bryd i'w gilydd ac wedi mynd â phobl mewn ambiwlansys awyr gan fod pobl yn rhoi cymaint o arian iddyn nhw achos eu bod nhw'n dda iawn. Ond rwy'n credu ei fod yn broblem i Bowys i beidio â chael ysbyty sydd ag adran damweiniau ac achosion brys, mae'n rhaid cael un, yn does. Felly, ble bynnag rydych chi'n byw ym Mhowys, mae'n debyg bod yn rhaid i chi fynd am daith awr i'r ysbyty agosaf, mae'n sicr yn awr o fan hyn.”

(Merch, 45-64, Llangamarch, pâr gyda phlant dibynnol)

Gwerthfawrogid bod yn rhaid i'r prif ysbytai gael eu lleoli wrth ymyl trefi mwy, ond yr oedd y prif gŵynion yn ymwneud â chau a dileu ysbytai lleol a'r pwysau ar y gwasanaethau ambiwlans:

“Mae'n rhaid inni agor llygaid y llywodraeth i'r syniad mai canoli yw'r unig ffordd ymlaen oherwydd os oes gennych ysbytai sydd filltiroedd i ffwrdd, er enghraifft mae'r gwasanaeth ambiwlans yn dod o dan bwysau.”

(Merch, 65+, Clydau, pâr wedi ymddeol)

Unwaith eto, dadleuai'r atebwyr ym Mhowys fod y gwasanaeth ambiwlans o dan bwysau annerbyniol yn eu hardal. Tynnwyd sylw at y ffaith fod Powys yn awdurdod lleol sy'n cwmpasu ardal eithriadol o fawr ond yn gyffredinol ei bod yn ardal sydd â phoblogaeth wasgaredig:

"Rwy'n gwybod ar un adeg, dwn i ddim a yw rhywfaint yn well erbyn hyn, ond rwy'n gwybod ar un adeg yr oedd tua 3 ambiwlans ar gyfer Powys gyfan – hollol wirion. Ond maen nhw'n dibynnu llawer ar yr ambiwlans awyr, ond y drafferth yw ei fod yn costio tua £2,000 bob tro maen nhw'n codi'r ambiwlans awyr oddi ar y ddaear. Ac mae honna'n elusen hefyd."

(Merch, 45-64, Llangamarch, sengl, cyflogedig)

"Ydy, mae'r gwasanaeth ambiwlans yn enbyd ac nid yw hynny'n adlewyrchiad ar y staff oherwydd rwy'n adnabod sawl un ohonynt. Y pellter yw'r broblem ac mae eu niheroedd yn druenus o annigonol."

(Gwryw, 45-64, Llangamarch, cyflogedig)

"Mae Ambiwllans Awyr Cymru yn dod yn ddewis cyntaf - bob amser. Drwy'r amser. Dros £1,000 am bob lifft. Mae pob darn ohono yn elusen. Maen nhw hyd yn oed wedi stopio talu'r parafeddygon erbyn hyn. Cywilydd! Mi gafodd fy modryb strôc Nos Galan i fyny yn Abergwesyn sydd ddim mor bell â hynny i ffwrdd. Do, ac mi gymerodd hi ddwy awr a hanner i ambiwlans gyrraedd. Ydi, mae'n gywilydd."

(Merch, 45-64, Llangamarch, sengl gyda phlant dibynnol)

Cafwyd sylwadau tebyg ynghylch gwasanaethau ambiwlans ac ysbytai Powys gan atebwyr yn ardal astudiaeth Llanfihangel, ac mae llawer o'r ardal hon hyd yn oed yn fwy anghysbell na Llangamarch. Yr oedd pob un o'r ardaloedd yn yr astudiaeth yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau ambiwlans awyr, sy'n dibynnu ar roddion elusennol.

Disgwyliadau o'r Gwasanaethau a Ddarperir

Yr oedd y rhai a holwyd a oedd wedi byw yn eu hardal leol drwy gydol eu hoes yn tueddu i ddweud eu bod yn gyfarwydd â lefelau presennol y gwasanaeth a ddarperir:

"Wel, rwy'n credu ei bod hi achos fy mod, wel rwy'n byw yma, rydych chi jest yn dod i arfer ag ef. Dydych chi ddim yn meddwl am beth yr ydych wedi'i gollu nes... Oherwydd nad oes gennych y trenau, does gennych chi mo'r bysiau rydych chi jyst yn gwneud y gorau o'r hyn sydd gyda chi."

(Merch, 35-64, Clydau, sengl, cyflogedig)

Yr oedd y bobl hynny a gyfwelwyd a oedd wedi dewis symud i'r ardaloedd hyn ym mherfeddion cefn gwlad yn dadlau nad oeddent yn disgwyl lefel y gwasanaeth a ddarperir mewn ardaloedd trefol:

"Ie, ie. Beth rwy'n ei olygu, fel y dywedais, eich bod yn symud i'r llefydd hyn ac mae gennych ddirywiad yn yr amser ymateb a lefel y gwasanaeth. Mae'n rhaid i chi jyst ei dderbyn yn y bôn."

(Gwryw, 65+, Llangamarch, pâr wedi ymddeol)

"Na, mae rhai pethau nad ydych yn disgwyl eu cael, yn does? Rwy'n credu ei fod yn fater cydbwysedd. Mi gafodd fy ngwraig hi'n anodd, wyddoch chi. Mae hi'n hoffi poptai nwy, ond dydych chi ddim ar y prif gyflenwad nwy yma, fel galleu naill ai gael popty olew neu bopty trydan – pethau bach fel yna, problemau bach ydyn nhw, rhaid i chi weld y cydbwysedd, beth ydych chi'n ei ennill a beth fyddwch yn ei gollu."

(Gwryw, 35-64, Clydau, ddim mewn cyflogaeth)

I'r rhan fwyaf a gyfwelwyd, y cydbwysedd oedd rhwng lefelau is o ran darpariaeth gwasanaethau ar y naill law ac ar y llaw arall amgylchedd gwerthfawr lle gallant fyw mewn heddwch cymharol a thawelwch, ynghanol golygfeydd hardd, a naill ai yn agos at deulu neu mewn cysylltiad â chymdogion cefnogol cyfeillgar:

"Ond byddwn i'n dweud bod yna gydbwysedd rhwng y costau uwch a'r math o amgylchedd yr ydym yn cael byw ynddo. Petawn i eisiau bod yn agosach at siopau mwy, yna gallwn i symud i Bwllheli, wrth gwrs, ond yno fydddech chi ddim yn cael y manteision ychwanegol a gewch o fyw mewn ardal fel hon, fel y golygfeydd a'r gymuned."

(Merch, 45-64, Aberdaron, pâr, cyflogedig)

Daw'r sylw olaf am ambiwlansys gan ffermwr a ddangosodd synnwyr digrifwch deifiol, ac

yntau'n gwybod ymhle yr oedd y cyfwelydd yn byw:

“Os ydych chi'n meddwl, o nefoedd, mae'n rhaid i mi aros 20 munud am ambiwlans fyddech chi ddim yn byw yma, chi'n gwybod. Byddech chi'n mynd i fyw i Gaerfaddon, a dim ond hanner awr y byddai'n rhaid i chi aros yno.”

(Gwryw, 45-64, Llangamarch, pâr, cyflogedig)

10.6 Prif Faterion

Yr oedd y bobl a gyfwelwyd ym mhob un o bedair ardal yr astudiaeth wedi codi nifer o faterion yr ystyrient hwy i fod yn bwysig. Yr oedd rhai o'r materion hyn yn ymwneud â gwasanaethau; rhai yn croesi ar draws pob un o'r pedair ardal ac eraill yn benodol i fro arbennig.

Ysgolion

Fel y gellid disgwyl, y rhai oedd fwyaf pryderus ynghylch ysgolion cynradd oedd y grŵp demograffig a oedd â mamau gyda phlant dibynnol ynddo. O ganlyniad, mae'r dyfyniadau yn ymwneud ag ysgolion yn tueddu i fod gan y math hwn o drigolion.

Yr oedd ysgolion cynradd ym mhob un o bedair ardal yr astudiaeth. Fel y dangosodd data'r arolwg cartref, yr oedd darpariaeth yr ysgolion lleol wedi derbyn graddau uchel ac ystyriai'r atebwyr fod ysgolion yn agwedd bwysig, os nad hanfodol, ar fywyd mewn cymunedau gwledig.

Yn ardal astudiaeth Llanfihangel, yr oedd dwy ysgol gynradd leol, sef yr ysgol eglwys ym mhentref Llanfihangel a'r ysgol sydd wedi'i lleoli yn ardal Abertridwr, Llanwddyn. Yr oedd y ddwy ysgol yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; yr oedd gan y ddwy nifer isel o ddisgyblion, ffigyrau sengl, ac yr oedd y ddwy yn wynebu cael eu cau yn fuan. Yn wir, wrth gynnal y cyfweiliadau, rhoddwyd gwybod i'r ymchwilwyr fod cau ysgol Llanwddyn wedi ei gyhoeddi ac y byddai ysgol Llanfihangel yn dilyn yn fuan:

“O bydd honno'n cau yn araf deg. Mae'r llywodraethwyr yn brwydro'n dda i'w chadw, ond dim ond saith o blant sydd yno, felly dydi hi ddim wir yn opsiwn i mi anfon fy rhai i yno - sy'n drueni. Rydych yn gwybod eu bod yn yr un cyfng-gyngor â ni.”

(Merch, 25-44, Llanfihangel, pâr (1) gyda phlant dibynnol)

Dywedodd y trigolion wrth yr ymchwilwyr y byddai'n rhaid i blant oedran ysgol gynradd o Lanfihangel a Llanwddyn, ar ôl cau'r ysgolion, deithio naill ai i Lanfyllin neu i'r ysgol Gymraeg ym Mhen-y-bont-fawr. Dadleuai'r bobl a gyfwelwyd fod Lanfyllin yn rhy bell i blant bach orfod teithio yno, ac nid yn unig yr oedd Pen-y-bont-fawr yn rhy bell, ond yr oedd y ffordd yno yn hynod o beryglus a chanddi hanes drwg am ddamweiniau.

Yr oedd llawer o'r bobl a gyfwelwyd a llawer o atebwyr yr arolwg cartrefi yn anfodlon iawn ynghylch cau'r ysgolion. Yr oedd rhai o'r farn y dylai ysgolion Llanfihangel a Llanwddyn wedi cyfuno ac nid oeddynt yn deall pam nad oedd hyn wedi digwydd:

“Rwy'n meddwl bod y rhieni o Lanwddyn yn meddwl eu bod yn mynd i ddweud caewch un ac fe gaiff yr holl ddisgyblion fynd i'r llall... ond credai Llanwddyn nad oedd Ysgol Llanfihangel yn ysgol debyg am debyg. Felly doedd Llanfihangel ddim am gau eu hysgol ac felly aeth popeth ymlaen.”

(Merch, 25-44, Llanfihangel, pâr (2) gyda phlant dibynnol)

Gan fod cau ysgol Llanwddyn wedi bod yn wirfoddol, a'r llywodraethwyr ysgol wedi pleidleisio dros hynny, yr oedd yr atebydd isod yn deall nad oedd hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad:

“Yn anffodus, achos nad yw llawer o bobl yn deall y rheolau, dydyn nhw ddim yn sylweddoli os yw'r ysgol yn cau yn wirfoddol yna mae'r hawl statudol i gwyno wedi mynd.... Nid oes rhaid codi rhybudd statudol, sy'n golygu nad oes gen i'r ddau fis posibl i gwyno.”

(Merch, 25-44, Llanfihangel, pâr (3) gyda phlant dibynnol)

Mynegwyd pryderon eraill sy'n gysylltiedig â chau'r ysgolion. Ystyrid ysgol Llanwddyn yn ganolbwynt i gymuned Llanwddyn; yr oedd yn ganolfan gymunedol, gyda chyfleusterau coginio ac adnoddau da eraill, ac fe'i defnyddid yn helaeth gan y gymuned. Ofnwyd y byddai cau'r ysgolion yn arwain at gau'r ganolfan gymunedol.

“Ryden ni’n poeni’n fawr am neuadd y pentref oherwydd bod yr ysgol wedi’i chysylltu’n agos iawn â hi. Felly mae hynny’n rhywbeth enfawr achos fel arall mae’r mynediad yn ofnadwy i’r neuadd. Os nad oes gennym neuadd y gallwn ei defnyddio’n iawn mae’n dipyn o drychineb i’r gymuned, yn dydi?”

(Merch, 25-44, Llanfihangel, pâr (4) gyda phlant dibynnol)

Dadleuai rhai a gyfwelwyd y byddai cau’r ysgol yn annog rhieni ifanc i adael ac y byddai cyfansoddiad demograffig yr ardal yn newid:

“Gan fod yr ysgol wedi cau, mae hynny’n mynd i wneud gwir wahaniaeth i’r math o bobl sydd gennym yn byw yma. Mewn gwirionedd, mae’n bosib y bydd y pentref yn fwy o un sydd â phobl wedi ymddeol ynddo. Dydych chi ddim yn mynd i gael teuluoedd ifanc yn dod yma gyda phlant ifanc – ac mae hynny yn fy mhoeni fi.”

(Merch, 25-44, Llanfihangel, pâr (1) gyda phlant dibynnol)

Nid oedd gan y tair ardal arall yn yr astudiaeth y pwysau hyn ar eu hysgolion cynradd ar adeg yr ymchwil, er y mynegwyd rhai pryderon. Er enghraifft yr oedd ad-drefnu ysgolion cynradd wedi digwydd yn ddiweddar yn ardal Clydau. Yr oedd ysgol Bwlch-y-groes wedi cau a’r staff a’r disgyblion wedi eu trosglwyddo i ysgol Tegryn. Er hynny, yr oedd nifer y disgyblion yn dal yn gostwng, ac yn ôl y wraig hon a gyfwelwyd:

“Yr ydym yn poeni am yr ysgol... mae 16 (disgybl) yn awr. Pan oedd ein bechgyn ni yno yr oedd tua 30 yno, yn doedd?”

(Merch, 35-64, Clydau, pâr gyda phlant dibynnol)

Yr oedd pryderon hefyd yn Aberdaron am y gostyngiad yn nifer y disgyblion a’r posibilrwydd y byddai’r ysgol yn cau, rhywbeth anochel yn ôl rhai:

“Dwi’n deall ei fod yn rhywbeth fydd yn gorfod digwydd. Mae’n anochel gan fod yna gymaint o leoedd gwag yn yr ysgolion hyn, ond byddai’n biti mawr. Yr unig beth sy’n fy mhoeni ydi nad ydw i eisiau i blant orfod teithio ymhellach i’r ysgol, yn enwedig yn yr oedran maen nhw’n gorfod dechrau ysgol nawr - os oes rhaid i chi fynd yr holl ffordd i Fotwnnog, er enghraifft, byddai’n ddiwrnod hynod o hir i’r plant bach hynny.”

(Merch, 45-64, Aberdaron, pâr, cyflogedig)

“Mae’r ysgol fach yn Rhoshirwaun wedi bod dan fygythiad o gau dair gwaith yn awr, a byddwn i’n dweud y byddai colli rhywbeth mor bwysig â hynny yn gwneud yr ardal yn sylweddol dlotach. Rwy’n ofni y byddant yn ceisio gyfuno’r holl ysgolion lleol gyda’i gilydd.”

(Merch, 45-64, Aberdaron, pâr o oedran gweithio)

Rhoddwyd gwybod i’r ymchwilwyr fod y ddwy ysgol hyn yn tynnu o ardaloedd eang a bod ganddynt nifer gymharol uchel o ddisgyblion.

Cymunedau Cynaliadwy: Cyflogaeth a Thai Fforddiadwy

Fel y dengys un o’r dyfyniadau uchod, ystyrid cau ysgolion i fod yn niweidiol i gynaliadwyedd y cymunedau hyn o ran demograffeg a cholli cydlyniant cymunedol. Yr oedd amrywiaeth o faterion yn gysylltiedig â’r pryder cyffredinol hwn, sef yn bwysicaf oll, cyflogaeth a thai. Er enghraifft, soniodd y rhai a holwyd am y prinder cyfleoedd gwaith sy’n arwain at bobl ifanc yn gadael yr ardaloedd hyn a dim i ddenu pobl ifanc a phroffesiynol i symud i mewn:

“Y math o broblem sydd yna yn y rhannau hyn o Gymru - pobl ifanc, oni bai eu bod yn ffodus iawn i fod yn feibion neu’n ferched i ffermwyr, yna mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gorfod gadael yr ardal i chwilio am waith, a llawer o’r amser yn mynd y tu allan i Gymru.”

(Gwryw, 65+, Llanfihangel, pâr wedi ymddeol)

“Mae pobl ifanc yn gadael, nid oes teuluoedd ifanc yn symud i mewn... ac mae’r boblogaeth yn heneiddio hefyd yn ôl pob tebyg.”

(Merch, 35-64, Clydau, pâr gyda phlant dibynnol)

“Does fawr o ots a oes gennych radd neu unrhyw beth, be rwy’n ei feddwl yw bod yn rhaid mynd allan o’r pentref, felly maen nhw’n tueddu i fynd i fwrdd ac yn aros i fwrdd; dydyn nhw ddim yn dod yn ôl. Does dim byd yma iddyn nhw, does dim gwaith iddyn nhw.”

(Gwryw, 65+, Llangamarch, pâr wedi ymddeol)

Ystyriai’r ffermwr canlynol y sefyllfa o safbwynt ymarferol ond yr oedd wedi’i

ddadrithio gan y mathau o bobl a oedd wedi symud i'r ardal:

"Dwn i ddim a allwch chi wneud llawer iawn gydag ardal fel hon. Mae hi ym mhen draw'r byd. Mae'n ardal wledig, beth allwch ei wneud? Does dim pwynt sôn am ddod â diwydiant yma. Pan fo gyda chi ffatrioedd gwag ym Merthyr, pam traferthu dod i fyny i fan hyn, chi'n gwbod? Mae'r cyflog yn y cyffiniau yma yn echrydus o isel. ... does yna neb sy'n gwneud llawer o arian. Ac rwy'n credu ei fod yn cael ei waethygu gan y ffaith nad yw llawer o fewnfudwyr ddim yn union yn bobl categori A a B, chi'n gwbod - gradd isel. Yn aml iawn maen nhw'n ddi-waith yn rhywle arall ac wedi ryw ddrifftio i'r ardal ac... A dyw hynny ddim yn argoeli'n dda i'r ardal. I wella'r ardal byddai'n rhaid i chi annog mwy o bobl broffesiynol i'r ardal, a dwn i ddim sut byddech chi'n gwneud hynny."

(Gwryw, 45-64, Llangamarch, pâr, cyflogedig)

I'r bobl ifainc hynny sy'n ceisio aros yn yr ardaloedd hyn, ystyrir bod tai yn broblem fawr. Dadleuwyd bod prisiau tai yn rhy uchel i bobl leol, yn enwedig pobl ifainc, i ymuno â'r farchnad dai. Fel y nododd y fam sengl hon:

"Rydych chi'n gwybod nad ydyn nhw'n gallu fforddio prisiau tai yma mewn gwirionedd. Allwn i ddim fforddio prynu tŷ yn Llangamarch – dim gobaith. Yr oedd safle arall yn y Garth ar gyfer tai fforddiadwy. Does dim byd wedi dod ohono. Does dim tai fforddiadwy yn Llangamarch, Beulah – dim."

(Merch, 25-44, Llangamarch, sengl gyda phlant dibynnol)

Ystyriwyd bod prinder tai fforddiadwy yn fater allweddol ym mhob un o bedair ardal yr astudiaeth. Fodd bynnag, fel y sylwodd y person ifanc canlynol, a oedd â thŷ ynghlwm â swydd, mae 'fforddiadwy' yn derm cymharol:

"Oes, mae diffyg tai fforddiadwy felly mae'n wir. Wel, yr oedd yna sôn fod yna rai yn mynd i gael eu codi i lawr tuag at Tirabad ychydig o flynyddoedd yn ôl, ac mae'n ymddangos fod hynny wedi mynd i'r gwellt ond mae'r math o symiau y maen nhw'n siarad amdanynt - £100,000 - £120,000 fel rhywbeth fforddiadwy a dydi hynny ddim yn fforddiadwy cyn belled â bod y... Nid ar gyfer y bobl ifainc hyn. Dim perygl."

(Merch, 25-44, Llangamarch, sengl, cyflogedig)

Hefyd, fel y dadleuodd y gŵr canlynol, er mwyn cynnal cymunedau mae gofyn cael tai fforddiadwy a swyddi:

"Mae tai fforddiadwy yn fater pwysig yn yr ardal. Ond wrth gwrs, mae tai fforddiadwy yn un peth, ond byddwch hefyd angen creu gwaith a dod â phobl ifainc i mewn."

(Gwryw, 65+, Llanfihangel, pâr wedi ymddeol)

Adroddodd y wraig ganlynol a gyfwelwyd hanes cydnabod iddi a oedd wedi gorfod rhoi'r gorau i waith amaethyddol oherwydd ei fod wedi gorfod symud i dref:

"Rwy'n credu y dylai tai fforddiadwy fod yn fater pwysig, gan fod llawer o bobl wedi gorfod gadael yr ardal. Rwy'n adnabod pobl o'r pentref... rwy'n gwybod am un bachgen... roedd e eisiau gweithio ar y fferm a dyw e ddim yn gallu nawr."

(Merch, 35-64, Clydau, pâr gyda phlant dibynnol)

Yr oedd gan ardal astudiaeth Aberdaron hefyd broblemau tai fforddiadwy, fel y nodwyd gan y person ifanc hwn:

"Fe ddywedodd Tai Eryri ar un adeg eu bod yn mynd i godi mwy o dai fforddiadwy yma, ond dydan nhw ddim yn gwneud hynny bellach."

(Merch, 25-44, Aberdaron, pâr gyda phlant dibynnol)

Fodd bynnag, yr oedd gan Aberdaron ddwy broblem benodol yn gysylltiedig â materion tai: tai haf a materion cynllunio.

Mae Adran 3, sy'n disgrifio'r dulliau ymchwil ar gyfer yr ymchwil hon, yn cyfeirio at fater tai haf yn Aberdaron. Synnwyd tîm ymchwil yr arolwg gan nifer y tai haf, gwag ar eu rhestr cyfeiriadau yn yr ardal, a amcangyfrifir i fod yn fwy na 30%. I nifer o bobl a gyfwelwyd yn ardal Aberdaron, yr oedd tai haf yn broblem fawr, gan achosi problemau o ran tai i bobl leol, ac i bobl ifainc sy'n ceisio aros yn yr ardal.

I raddau helaeth ystyrir bod cysylltiad rhwng problemau tai fforddiadwy, tai haf ac anawsterau cael caniatâd cynllunio yn Aberdaron. Mae'r tri dyfyniad canlynol yn crisialu teimladau'r trigolion hynny yn

Aberdaron a gyfwelwyd o ran y materion hyn a'u heffaith ar bobl ifainc:

"Mae'n biti gweld y tai haf yma, achos dydi'r rhan fwyaf ohonyn nhw ddim yn cael eu cynnal yn dda iawn, a dydan nhw ddim yn cael eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn chwaith. Mae hefyd yn drist pan ydach chi'n gwybod fod yna bobl ifainc yn yr ardal sydd yn ceisio dod o hyd i dai yn yr ardal. Mae yna hefyd broblem wrth gael caniatâd cynllunio – mae hynny wedi bod yn anodd i nifer o bobl – pobl ifainc."

(Merch, 45-64, Aberdaron, pâr, cyflogedig)

"Mae yna broblem gyda thai haf yn yr ardal. Pan fydd gen i swydd go-iawn ac rydan ni'n dau yn barod i chwilio am dŷ i'w brynu fydd 'na ddim llawer o dai fforddiadwy ar gael ac mae'r rhan fwyaf o'r tai yn dai haf. Mae'n wastraff, gan eu bod nhw'n wag yn ystod y gaeaf ac ond yn cael eu defnyddio yn yr haf. Dydi'r cyngor ddim wir yn helpu gyda'r sefyllfa yma mewn gwirionedd achos os byddwch yn prynu darn o dir, byddai gynnoch chi fwy o siawns cael caniatâd cynllunio ar gyfer tŷ haf na'ch tŷ eich hun. Mae gan yr ardal lwythi o dai haf."

(Merch, 25-44, Aberdaron, sengl, cyflogedig)

"Mae yna ormod o dai gwag yma yn ystod y gaeaf.... Peth arall dydw i ddim yn ei ddeall ydi nid yn unig eu bod nhw'n ceisio stopio pobl o Loegr rhag symud i mewn, ond maen nhw hefyd yn stopio pobl leol rhag byw yma, achos bod ganddyn nhw obsesiwn efo cadw pobl allan. Mae cynllunio yn ofnadwy o gwmpas yma. Dwi'n meddwl ei fod yn gwbl afresymegol."

(Merch, 65+, Aberdaron, pâr wedi ymddeol)

Er bod rhai tai haf ac ail gartrefi yn y tair ardal arall a astudiwyd, nid oedd llawer ohonynt o ran nifer ac nid ystyrid hwy i fod yn broblem.

Band Eang

Dangosodd data arolwg cartref fod bwlch mawr rhwng galw a chyflenwad o ran band eang. Yr oedd mwy o atebwyr wedi dweud bod band eang yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol' na'r nifer a allai dderbyn y gwasanaeth. Dangosodd yr arolwg cartref mai ardaloedd Llangamarch a Llanfihangel yn yr astudiaeth a oedd wedi'u gwasanaethu waethaf o ran band eang.

Ystyrid bod band eang yn hanfodol ar gyfer busnes, gwaith ysgol a bywyd cymdeithasol.

Gallai'r wraig ganlynol a gyfwelwyd weld ei botensial ar gyfer ymwneud â chwmnïau cyfleustodau, ond tynnodd sylw hefyd at broblemau gyda llinellau ffôn:

"Byddai cael band eang yn gwneud gwahaniaeth mawr, gan fod yr holl gyfleustodau bellach ar lein ac i ni byddai hynny'n anhygoel. Ers inni symud yma ryden ni wastad wedi cael problemau gyda'r ffôn, felly dyna'r peth ryden ni'n ei gasáu fwyaf."

(Merch, 45-64, Llanfihangel, pâr wedi ymddeol)

Ar y llaw arall, yr oedd y person canlynol a gyfwelwyd yn gweithio o gartref a dadleuai fod band eang yn angenrheidiol ar gyfer busnes. Unwaith eto, beirniadwyd y llinell ffôn:

"Wel, petawn i eisiau ymestyn y busnes byddai'n... be dwi'n feddwl ydi gallai'r cyfathrebu fod yn llawer gwell, er bod y broblem yn ocê gan fod modd inni ddeialu (dial-up) i'w gael, ond mae mor araf achos y mwyaf y gallwch ei gael yw 28 Kilobytes ynde? 28 kB – dewch o'na ...mae'n pathetig a dim ots pa mor fawr yw eich cyfrifiadur allwch chi ddim cael dim mwy oherwydd y llinell ffôn - mae mor hynafol."

(Gwryw, 45-64, Llanfihangel, pâr)

O'r pedair ardal yn yr astudiaeth, ymddengys mai Llangamarch a oedd yn dioddef fwyaf o ran band eang. Yr oedd rhai o'r bobl a gyfwelwyd yno yn derbyn band eang ond nid oedd eraill yn gallu. Dadleuai'r fam hon fod ei merch ei angen ar gyfer gwaith ysgol:

"Rydyn ni wir yn daer ei eisiau. Mae fy merch yn dioddef oherwydd nad oes gennym fand eang oherwydd ei hysgol... Mae popeth ar gyfrifiadur, popeth, maent eisiau lluniau sy'n ymwneud â'u prosiectau a phethau fel 'na ac mae popeth ar gyfrifiadur ac mae'n gymaint o fod yn oes yr arth a'r blaidd o orfod aros i'r deialu gysylltu – mae'n ofnadwy – ac mae'r cysylltiad wastad yn cael ei gollu be bynnag."

(Merch, 45-64, Llangamarch, sengl gyda phlant dibynnol)

Er bod y dyn canlynol sydd wedi ymddeol yn gallu derbyn band eang, eto yr oedd yn sylweddoli ei werth i fywyd modern, yn enwedig ar gyfer busnes a phobl ifainc:

“Rwyf i wedi bod yn pwyso ar Kirsty Williams ers blynyddoedd, mae’n siŵr ei bod hi wedi cael llond bol ar wrando arna i’n sôn am y peth, ond mae band eang wrth galon popeth y dyddiau hyn. Os ydych chi eisiau bod mewn busnes, os ydych eisiau aros, os ydych yn sôn am rwydweithiau cymdeithasol dyna lle mae popeth yn digwydd yn enwedig o ran pobl ifainc – felly mae band eang yn beth mawr.”

(Gwryw, 65+, Llangamarch, pâr wedi ymddeol)

Fel yr awgryma’r dyfyniad uchod, ystyrir bod band eang yn hanfodol ar gyfer busnesau mewn ardaloedd gwledig:

“Mae rhai pobl yn dod yn ôl a rhedeg busnesau o gartref, ond maent yn ei chael hi’n anodd achos diffyg pethau fel band eang a ffonau dibynadwy. Mae rhedeg busnes o’r ardal yma yn waith caled dwi’n meddwl.”

(Merch, 25-44, Llangamarch, sengl, cyflogedig)

Dangoswyd pa mor ddefnyddiol yw gwasanaethau band eang gan y fam ifanc ganlynol, Yr oedd ganddi hi fand eang, ond nid felly ei rhieni, a oedd yn rhedeg busnes o’u cartref:

“Rwy’n ffodus oherwydd bod gen i fand eang. Dyw fy rhieni ddim yn gallu cael band eang. Rwy’n credu y dylai pawb yng Nghymru gael band eang. Mae fy rhieni yn dod i fan hyn i ddefnyddio fy mand eang i gymryd archebion.”

(Merch, 16-24, Llangamarch, pâr gyda phlant dibynnol)

Yn ystod adeg cynnal cyfweiliadau’r ymchwil, yr oedd gwaith wrthi’n cael ei wneud i osod ceblau ffibr-optig ym mhentref Llangamarch, a deallwyd y byddai hyn yn gwella’r gwasanaeth band eang yn yr ardal. Fodd bynnag, ni chredai’r bobl a gyfwelwyd y câi eu problemau eu datrys yn llwyr. Er enghraifft, dadleuwyd y byddai pentrefi fel Tirabad yn parhau i beidio â derbyn band eang, oherwydd eu pellter o’r gyfnewidfa ffôn:

“Maen nhw’n mynd i gael band eang yn fuan iawn. Oherwydd bod gennym ni god post Llangamarch maen nhw’n mynd i ddweud – o wel dyna eu problem nhw wedi’i ddatrys. Ond dyw e ddim. Rydyn ni chwe milltir o’r wifren band eang agosaf y maen nhw wrthi’n ei gosod. Mi gawson ni broblemau nes yn ddiweddar hyd yn oed yn cael system deialu oedd yn gweithio’n iawn.”

(Gwryw, 65+, Llangamarch, pâr wedi ymddeol)

Tynnodd unigolyn arall a gyfwelwyd, sy’n byw ym mhentref Llangamarch, sylw at broblem arall:

“Maen nhw’n rhoi nifer o dai ar linellau sy’n cael eu rhannu. Hyd nes bod y rheiny i gyd, yr holl bobl ar y llinellau hynny sy’n cael eu rhannu ac rwy’n credu bod yna tua 30, dydw i ddim yn gwybod sut maent wedi’i weithio, ond hyd nes bod pob un o’r llinellau hynny wedi’u rhoi ar eu llinellau eu hunain does yr un ohonyn nhw’n gallu cael band eang.”

(Merch, 45-64, Llangamarch, sengl, cyflogedig)

Cadarnhaodd pobl eraill a gyfwelwyd yn Llangamarch fodolaeth y llinellau ffôn hyn sydd braidd yn hynafol a lle rhennir y gwasanaeth.

Treth y Cyngor: Gwerth am arian

Cwyn gyffredin oedd nad yw’r ardaloedd gwledig hyn yn cael gwerth am arian o ran Treth y Cyngor, naill ai mewn sefyllfaoedd busnes na rhai domestig. Fel y nododd y dyn busnes lleol hwn, yn Lloegr rhoddir rhyddhad trethi wedi’i dapro yn dilyn cynnydd y Dreth Gyngor yno. Yng Nghymru, nid oedd hyn yn wir ac ystyrir bod busnesau gwledig yn cael trafferth i gwrdd â chynnydd llawn Treth y Cyngor.

“Ie, ond dros y ffin fe gafodd ei gyflwyno’n raddol dros nifer o flynyddoedd a Llywodraeth y Cynulliad a ddywedodd na fyddai rhyddhad trethi o ran ei dapro yng Nghymru ac felly un munud rydych yn talu £1,000 yr wythnos o dreth y cyngor dywedwch a’r wythnos wedyn rydych chi’n talu £1,400 yr wythnos o dreth y cyngor ac mae’n hynny’n sicr o daro busnesau.”

(Gwryw, 45-64, Llanfihangel, sengl, cyflogedig)

Yng nghyd-destun cartrefi, dadleuai’r bobl a gyfwelwyd bod ardaloedd gwledig yn talu cymaint o Dreth y Cyngor ag ardaloedd trefol, a mwy mewn rhai achosion, ond eu bod yn derbyn lefel is o wasanaethau. Yr oedd cwynion penodol yn cynnwys glanhau anaml ar strydoedd Aberdaron, o’i gymharu ag aneddiadau mwy, megis Abersoch; cau toiledau cyhoeddus dros y gaeaf; a chynnal a chadw annigonol ar y ffyrdd. Gan i dywydd eithafol ddigwydd ar yr un pryd â chynnal peth o’r ymchwil hon, pwnc amserol oedd nad

oedd ffyrdd lleol wedi cael eu graeanu yn y tywydd rhewllyd. Yr oedd pobl a gyfwelwyd yn Llanfihangel a Llangamarch yn pryderu ynghylch penderfyniad Awdurdod Lleol Powys i ddiffodd llawer o oleuadau stryd mewn lleoliadau gwledig. (Sylwodd ymchwilydd ar effeithiau'r penderfyniad hwn wrth iddo adael tŷ ym Mhontllogail. Wrth gerdded ar hyd ffordd a ddylai fod wedi cael ei goleuo i'r maes parcio, yr oedd hi wir fel y fagddu o dywyll ac felly'n beryglus.)

Mae'r dyfyniadau canlynol yn dangos rhai o'r problemau a theimladau'r bobl a gyfwelwyd:

“Dydyn ni ddim yn cael llawer am ein harian o ran trethi a'r gymuned. Does gennym ni ddim goleuadau stryd a phan fydd hi'n bwrw eira neu'n rhewi dydyn ni ddim yn cael y ffyrdd wedi'u trin, mae milltiroedd lawer o ffyrdd felly dydyn nhw ddim yn gallu'i fforddio.”

(Merch, 65+, Clydau, pâr wedi ymddeol)

“Wel dyna'r peth. Dydw i ddim yn deall yn iawn pam fod yn rhaid i ni dalu cymaint mwy na, chi'n gwybod, os ydych yn byw mewn tref mae gennych yr holl gyfleusterau, canolfannau chwaraeon a goleuadau stryd, y llyfrgelloedd. Ydi, wel mae'n amlwg ein bod yn talu mwy. Fel y ffyrdd – maen nhw'n llawn tyllau – tybed sylwoch chi wrth i chi ddod i fyny, anaml iawn maen nhw'n cael eu trin.”

(Merch, 25-44, Llanfihangel, pâr gyda phlant dibynnol)

“Be dwi'n feddwl rydyn ni allan yma, rydyn ni eisiau bod allan yma. Mae Powys eisiau pobl allan yma. Ond maen nhw eisiau pobl allan yma am gyn rhated ag y bo modd. Chi'n gwybod, maen nhw'n awyddus i wneud cymaint o arian ag y gallan nhw ohonon ni ar yr un pryd â rhoi cyn lleied â phosibl o wasanaethau ac os yw hynny'n wir, yna ni ddylai ein treth y cyngor fod yr un fath â'r Trallwng.”

(Merch, 45-64, Llanfihangel, pâr gyda phlant dibynnol)

Daw'r gair olaf ar fater Treth y Cyngor gan y pâr hwn sydd wedi ymddeol i fyw mewn lle anghysbell:

Wel, does gennym ni ddim glanhawyr ffyrdd fyny yma, mae hynny'n amlwg. Nag oes, mae gennym ein carthffosiaeth ein hunain, mi roeson ni hwnnw i mewn ein hunain. Oes, mae gennym ein dŵr ei hunain, twll turio i gael ein

dŵr ei hunain, oes. Ie, a dim goleuadau stryd, yn amlwg. Mae yna lawer o bethau nad oes mohony'n nhw yma, felly ryden ni'n aml yn eistedd i lawr a gofyn beth yn union yden ni'n talu treth y cyngor amdano? Dim ond er mwyn gwagio'r bin. Oherwydd mae'r cyfan yn dod i hynny fwy neu lai.”

(Gwryw, 65+, Llanfihangel, pâr wedi ymddeol)

Esgeulustod gan y Llywodraeth a methiant i ddeall bywyd ym mherfeddion cefn gwlad Cymru

Dadl a wnaed gan bobl a gyfwelwyd ac a atebodd yr arolwg cartrefi oedd bod adnoddau yn tueddu i gael eu dyrannu i Gaerdydd a de Cymru, yn hytrach nag i gefn gwlad Cymru. Dadleuwyd hefyd nad oedd y llywodraeth yn deall bywyd yn y Gymru wledig. Yr oedd yr atebwr canlynol yn byw mewn lle anghysbell a chynigodd enghraifft o ddyraniad adnoddau 'Cymunedau'n Gyntaf':

“Chafodd Powys wledig ddim byd a'r rheswm pam na chafodd Powys wledig ddim byd yw oherwydd bod gan y rhan fwyaf o gartrefi ddau gar. A dyna oedd y meini prawf a ddywedodd ein bod yn rhy dda ein byd. Ond wrth edrych ar yr hen racs o geir o gwmpas y lle yma – mae'n faen prawf hollol chwerthinllyd. Doedden nhw ddim yn defnyddio blydi Mercedes. Roedd wir eu hangen i bobl deithio o gwmpas. Felly roedd yn chwerthinllyd ac i raddau dyna eu ffordd nhw – o sut y gwela' i bethau – o beidio gorfod rhoi mwy o arian i ardal sydd mewn gwirionedd yn dlawd iawn.”

(Merch, 45-64, Llangamarch, pâr gyda phlant dibynnol)

Gwella bywyd ym mherfeddion cefn gwlad Cymru

Er bod y pryderon a godwyd o dan Gwasanaethau a Phrif Faterion yn canolbwyntio i raddau helaeth ar wella bywyd yn yr ardaloedd hyn ym mherfeddion cefn gwlad, yr oedd gan rai a gyfwelwyd awgrymiadau eraill i'w hychwanegu. Yr oedd nifer o'r awgrymiadau hyn yn rhai personol, a dim ond drwy ymdrech bersonol gan y sawl a gyfwelwyd eu hunain y gellid mynd i'r afael â hwy. Yr oedd y rhain yn cynnwys gweithgareddau cymdeithasol penodol megis clybiau Bridge a chymdeithasau operatig. Byddai llawer o'r rhai a gyfwelwyd wedi hoffi mynediad haws i weithgareddau

cymdeithasol a diwylliannol. Yr oedd eraill yn galw am i'r bws lleol fynd ar lwybr penodol neu iddynt fedru prynu papur newydd dyddiol yn rheolaidd, heb orfod mynd ar daith hir.

Yn fras, yr oedd awgrymiadau ar gyfer gwella bywyd gwledig yn canolbwyntio ar yr isadeiledd lleol y teimlid oedd yn annigonol, megis cyflenwadau ffôn a phŵer:

“Mi ofynnoch chi beth fyddai'n gwneud ein bywyd yn well, wel byddai'n neis gwybod na fydd y pŵer yn cael ei dorri, a byddai'n edrych yn well hefyd petai'r gwifrau ffôn o dan y ddaear, oherwydd maen nhw'n cael cymaint o drafferthion gyda stormydd o gwmpas y lle'ma.”

(Merch, 65+, Aberdaron, pâr wedi ymddeol)

“Newidiadau, rwy'n credu ie, pethau fel ... debyg y byddai gwella pethau fel y ffôn yn gwneud gwahaniaeth. Y ffôn ac ie band eang a thrydan, chi'n gwybod trydan, rydyn ni'n cael cymaint o adegau pan fo'r pŵer yn cael ei dorri.”

(Merch, 25-44, Llangamarch, sengl, cyflogedig)

Gwrthdroi'r cwtogi parhaus a deimlid ar wasanaethau lleol oedd un thema gyffredinol arall ar gyfer gwella. Dadleuai'r preswlydd canlynol o Glydau nid yn unig eu bod yn colli gwasanaethau lleol a ddim yn derbyn gwerth am arian am Dreth y Cyngor, ond ar ben hynny hefyd nid oedd gan yr awdurdod lleol ychwaith gydymdeimlad â phobl wledig ac nid oeddynt yn eu hannog:

“Rwy'n credu y byddai'n fwy o anogaeth i bobl y pentref, chi'n gwybod peidio â mynd â'n cyfleusterau oddi arnon ni bob gafael. Rydyn ni'n talu'r un trethi â phobl yn Hwlfordd. A be rydyn ni'n ei gael amdano? Wyddoch chi eu bod nhw'n gwrthwynebu mynd â fy sbwriel oherwydd fod gen i fusnes a wyddoch chi weithiau maen nhw'n edrych i wneud yn siŵr nad ydw i'n rhoi gwastraff busnes y tu allan gyda sbwriel fy nghartref. Rhowch ychydig mwy o anogaeth inni a pheidiwch â'n trethu ni mor drwm – sef beth maen nhw'n ei wneud.”

(Merch, 35-64, Clydau, pâr, cyflogedig)

Yn ardal astudiaeth Llanfihangel, gwnaeth y bobl a gyfwelwyd awgrymiadau penodol ynghylch gwella llywodraethu lleol. Nododd sawl un a gyfwelwyd ac a atebodd yr arolwg cartrefi bod Severn Trent Water, a oedd yn berchen ar dir ac eiddo sylweddol yn ardal

Llanwddyn ac a arferai fod yn gyflogwr mawr, bellach yn gadael yr ardal. Dadleuwyd bod Severn Trent erbyn hyn yn landlord absennol, nid oedd yn cynnal ei dir na'i eiddo gan amharu'n gyffredinol ar yr ardal. Ymhellach, nid oedd tai a ddeuai'n wag yn cael eu gwneud ar gael i bobl leol.

“Mae hi fel petai gan Severn Trent ryw wrthwynebiad anferth i unrhyw un sy'n byw yn lleol yn y tai o amgylch y llyn. Be dwi'n feddwl ydi eu bod nhw'n dai hardd ond maen nhw jest yne. O ydi, mae'n drueni mawr. Maen nhw'n dai hyfryd, hardd. Rydech chi'n mynd i rai ohonynt a gallwch weld fod y drysau wedi cael eu cicio a'u malu a bod pobl wedi sgwatio ynddyn nhw. Yr oedd yna un i fyny yna tro diwethaf... roedd hi flwyddyn dda yn ôl – roedden ni'n cerdded i fyny fan'no ac yr oedd rhywun wedi malu'r drws ac wedi dechrau codi'r llawr parquet i'w losgi. Chi'n gwybod – da iawn, Severn Trent, mae hynny'n mynd i wneud yr ardal yn ddiogel, yn dydi?”

(Llanfihangel – merch, 25-44, gweithio, pâr, plant dibynnol)

Yn ogystal, dadleuwyd y gallai Severn Trent, yr RSPB a'r Comisiwn Coedwigaeth, sydd hefyd â buddiannau helaeth yn yr ardal, gyfrannu mwy i'r gymuned leol o ran cyflogaeth. Galwodd y dyn busnes lleol canlynol am newid yn nhrefniadau llywodraethu lleol; ac i Severn Trent, yr RSPB a'r Comisiwn Coedwigaeth yn ymwneud yn ffurfiol â'r gymuned:

“Beth yr hoffwn i ei weld yw rhyw fath o drefn lle mae'r gwesty, Severn Trent, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a'r Comisiwn Coedwigaeth ryw ddwywaith y flwyddyn yn eistedd yn ôl a'u bod wir yn gwrando ar yr hyn y mae'r gymuned yn ei wneud.”

(Gwryw, 65+, Llanfihangel, pâr o oedran gweithio)

Yn ôl dadl y bobl a gyfwelwyd ac a gyfrannodd at yr ymchwil hon, pe rhoddid sylw i'r pryderon a godwyd o dan Gwasanaethau a Phrif Faterion, yna ceid gwelliant i fywyd yn yr ardaloedd sydd ym mherfeddion cefn gwlad Cymru. I grynhoi, maent yn galw am welliannau i isadeiledd, gan gynnwys ffyrdd, cyflenwadau trydan, ffôn (llynell dir a symudol), trafniadaeth gyhoeddus, a darparu band eang. Ystyriwyd bod adeiladu a chynnal cymunedau cynaliadwy yn

hanfodol. Un o'r prif faterion ar gyfer cynaliadwyedd oedd rhoi modd i bobl, yn enwedig pobl ifainc, i fyw yn yr ardaloedd hyn. Dadleuai'r rhai a holwyd y byddai hyn yn gofyn am dai fforddiadwy, cynllunio sensitif a synhwyrol a chadw ysgolion cynradd lleol. Er bod galw am greu swyddi lleol, gwerthfawrogiad y byddai hyn yn anodd, ac yr oedd y rhan fwyaf o bobl yn barod i deithio i'r gwaith yn y trefi agosaf.

Yn gyffredinol, yr oedd atebwyr yr arolwg cartrefi a'r rheiny a holwyd oll yn ymroddedig i'r ardaloedd hyn; yr oeddynt yn hoffi byw yno, ac yr oeddynt yn barod i aberthu rhai cyfleusterau i gael bywyd o ansawdd. Fodd bynnag, teimlent eu bod yn cael eu hecsbloetio yn economaidd. Yr oedd yr argraff hon o ymelwa arnynt yn cynnwys prisiau uchel mewn siopau lleol; prisiau tanwydd uchel i foduron; a pheidio â derbyn gwerth am arian o ran Treth y Cyngor.

10.7 Diweddsglo

Nid oedd pobl hŷn a phobl anabl yn grwpiau ar wahân yn yr ymchwil hon. Yn ychwanegol at y gwasanaethau cymdeithasol a gafodd ganmoliaeth gyffredinol, dangosai data'r cyfweiliadau a'r arolwg cartrefi bod rhwydweithiau teulu a'r gymuned yn strwythurau cefnogaeth gref yn yr ardaloedd hyn ym mherfeddion cefn gwlad. Fodd bynnag, un grŵp cymdeithasol annibynnol a godai bryderon oedd pobl ifainc yn eu harddegau. Cytunwyd yn gyffredinol fod y cyfleusterau ar gyfer pobl ifainc yn annigonol yn yr ardaloedd hyn. Fel y dywedodd y wraig hon a gyfwelwyd:

"Dwi'n credu bod angen inni wella safon y gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer pobl ifainc yn eu harddegau, dwi'n credu bod hynny wir, wir yn hanfodol.

(Merch, 45-64, Aberdaron, pâr gyda phlant dibynnol)

Mae pobl ifainc yn eu harddegau, felly, wedi cael eu hadran eu hunain yn yr adroddiad hwn. Gweler Adran 11.

Cyfweiliadau – prif ganfyddiadau

Cymuned

Yr oedd preswylwyr yn rhoi bri mawr ar ansawdd bywyd: yr amgylchedd naturiol,

harddwch y golygfeydd, yr heddwch a'r llonyddwch, a ffordd o fwy arafach yn gyffredinol.

Yr oedd pob un o'r ardaloedd a astudiwyd wedi arddangos rhwydweithiau cymunedol cryf, a oedd yn cynnwys mewnfudwyr a siaradwyr di-Gymraeg.

Yr oedd y Gymraeg a'i diwylliant yn gryf mewn tair o'r ardaloedd a astudiwyd. Yn nhrefn eu cryfder, yr ardaloedd hyn oedd Aberdaron, Llanfihangel a Chlydau. Yn Llangamarch ymddengys fod y Gymraeg yn cael ei chynnal gan genedlaethau o ffermwyr hŷn, er yr ystyrid bod Llanwrtyd yn un o gadarnleoedd yr iaith.

Teimlai'r trigolion fod yna newidiadau demograffig, gan gynnwys colli poblogaeth, mwy o fewnfudwyr a dirywiad mewn ffermio.

Mynegwyd pryderon cyffredinol ynghylch diffyg cyfleusterau a chyfleoedd i bobl ifainc yn eu harddegau.

Gwasanaethau

Yr argraff gan drigolion oedd bod lleihad mewn gwasanaethau: e.e. swyddfeydd post, siopau, ysgolion, gwasanaethau iechyd.

Ystyrid bod prisiau lleol ar gyfer bwyd a thanwydd yn uchel. Defnyddiai'r trigolion amrywiaeth o strategaethau teithio a rhannu er mwyn cwtogi ar gostau.

Graddiwyd trafndiaeth gyhoeddus yn wael ac ni chânt eu defnyddio fawr iawn.

Yr oedd yn rhaid i bobl ifainc yn eu harddegau deithio neu gael eu cludo i gyfleusterau.

Ystyrid bod darpariaeth meddygon yn foddhaol, ond dadleuwyd nad oedd darpariaeth ddigonol o ran ysbytai a'r gwasanaeth ambiwlans a bod gormod o ganolbwyntio ar ardaloedd trefol.

Tueddai preswylwyr i dderbyn lefelau is o ran darpariaeth gwasanaeth gan eu pwysu yn erbyn ansawdd eu bywydau yn gyffredinol.

Prif Faterion a godwyd gan drigolion

Ysgolion lleol – yr oedd cau ysgolion yn ardal astudiaeth Llanfihangel yn amhoblogaidd a phryderon ynghylch dyfodol ysgolion yn yr ardaloedd eraill a astudiwyd.

Yr oedd pryderon ynghylch cynaliadwyedd cymunedau gwledig o ran colli poblogaeth, pobl ifainc yn gadael, cau ysgolion, ychydig o gyfleoedd gwaith, cyflog isel, cyflenwad cyfyngedig o dai fforddiadwy, a phobl hŷn yn symud i mewn.

Yn Aberdaron soniwyd am bryderon penodol ynghylch gormod o dai haf a chaniatâd cynllunio cyfyngedig.

Ystyriwyd fod band eang yn hanfodol ar gyfer busnes, gwaith ysgol, addysg ehangach a bywyd modern yn gyffredinol.

Fodd bynnag, gwelwyd bod y gwasanaeth band eang yn annigonol, yn enwedig yn ardaloedd Llangamarch a Llanfihangel.

Dadleuwyd yn eang nad oedd ardaloedd gwledig yn cael gwerth am arian o ran Treth y Cyngor.

Teimlid nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi digon o sylw i ardaloedd gwledig.

Yr oedd angen canfyddedig i wella llywodraethu. Er enghraifft, awgrymwyd y dylai cyrff fel Severn Trent, yr RSPB a'r Comisiwn Coedwigaeth ymwneud yn fwy â chymunedau lleol.

11.1 Cyflwyniad

Yn ôl amodau'r arolwg cartrefi yr oedd yn rhaid i'r atebwyr fod yn hŷn na 16 mlwydd oed ac, o ddewis, yn bennaeth mewn enw ar y cartref. Fel y digwyddodd hi, yr oedd holl atebwyr yr arolwg wedi cyrraedd llawn oed. O ganlyniad, er bod pobl ifainc wedi cael eu crybwyll yn ystod yr arolwg a'r cyfweiliadau dilynol, a'u bod ar adegau yn bresennol am gyfnodau byr, fel grŵp nid oeddynt ar y cyfan wedi'u cynrychioli. Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon, aeth yr ymchwilyr ati i gynnal grŵp ffocws gyda phobl ifainc sy'n byw ym mhob un o'r pedair ardal astudiaeth.

Cyflwynir y manylion methodolegol yn yr adran Dulliau yn yr adroddiad hwn. Isod, ceir adroddiadau naratif ynghylch pob un o'r pedwar cyfarfod, ynghyd â manylion cyddestun a dadansoddiad o'r cyfarfodydd, gydag enghreifftiau o ddyfyniadau o'r trafodaethau. I gynorthwyo'r dadansoddiad, caiff pob adroddiad ei gyflwyno o dan amrywiaeth o themâu. Mae rhai o'r dyfyniadau hyn yn aml-leisiol; cânt eu hatgynhyrchu air am air ac nid ydynt wedi cael eu golygu o ran gramadeg.

11.2 Ardal astudiaeth Llangamarch

Yn ardal astudiaeth Llangamarch, yr oedd y bobl ifainc yn eu harddegau yno yn tueddu i fedru teithio a symud i raddau. Er bod ardal astudiaeth Llangamarch yn ddi-os ym mherfeddion cefn gwlad, gyda rhannau ohoni mor anghysbell ag unrhyw rai eraill o'r ardaloedd a astudiwyd, eto dyma'r ardal a oedd â'r cysylltiadau gorau o ran trafniadaeth gyhoeddus: drwy fws i Lanfair-ym-muallt, Llandrindod ac Aberhonddu, a thrwy drên i Abertawe a'r Amwythig. Yn ogystal, yr oedd ardal yr astudiaeth am y ffin â Llanwrtyd – ac er bod y fan honno o faint pentref, honnir mai dyma dref leiaf y Deyrnas Unedig. Mae wedi ennill enw iddo'i hun fel lleoliad digwyddiadau megis achlysuron blynyddol 'Pencampwriaethau Snorclo Cors y Byd' a 'dyn yn erbyn ceffyl'; ac yr oedd yn ymddangos mai dyma'r fan lle tueddai'r bobl ifainc leol i ymgynnull.

Yn ystod yr arolwg cartrefi a'r cyfweiliadau wedi hynny, Llangamarch oedd yr un ardal astudiaeth lle cafwyd awgrym o densiynau rhwng y trigolion oedd yn oedolion a'r bobl ifainc leol. Cafwyd sylwadau gan sawl un yn y cyfweiliadau a'r arolwg cartrefi yn awgrymu bod yna griw trafferthus o bobl ifainc yn eu harddegau a dueddai i ymgynnull yn Llanwrtyd. Yn ôl y pâr hwn wedi ymddeol sy'n byw mewn lleoliad anghysbell ger Llanwrtyd:

"Fel y dywedais i o'r blaen, mae yna ryw deimlad o dan yr wyneb fod yna leiafrif o bobl ifainc yn achosi problemau yn yr ardal."

(Gwryw, 65+, Llangamarch, pâr wedi ymddeol)

Yr oedd gan y dyn canlynol a gyfwelwyd brofiad mewn meysydd cysylltiedig, a thynnodd ef sylw at broblemau sylfaenol i bobl ifainc yn yr ardal:

"Mae yna gnewyllyn selog o bobl ifainc sy'n achosi problemau. Ac mae yna broblem fawr yno – nid dim ond gwaith – ond hefyd pa gyfleusterau sydd yno ar gyfer pobl ifainc sydd yn iau nag oedran cael eu cyflogi? Mynd i drwbwl, yn 'dyn nhw? Wyddoch chi, anaml iawn y mae'r pethau hyn i'w cael ar eu pennau eu hunain. Mae nifer o faterion yna, ond dyna yw un o'r cwynion mwyaf yn Llanwrtyd sef y... y cnewyllyn yna o bobl ifainc."

(Gwryw, 45-64, Llangamarch, pâr yn gweithio)

O ran y rheiny a gyfwelwyd a oedd â phlant, yr oedd rhai yn ystyried y grŵp yn Llanwrtyd yn ddylanwad niweidiol ar bobl ifainc eraill; gan gynnig y math anghywir o esiampl:

"...yn gwneud niwsans o'u hunain. Os ydych yn byw i lawr yn Llanwrtyd maen nhw'n boen go iawn. O ydynt, problem ddifrifol."

(Merch, 25-44, Llangamarch, pâr gyda phlant dibynnol)

Nid oedd gan Langamarch na Llanwrtyd glwb ieuencid; mae'n debyg fod y clwb ieuencid yn Llangamarch wedi dod i ben yn ddiweddar oherwydd ymddygiad gwael:

"Yr oedd gennym glwb ieuencid yma, ac yr oedd yn ... yn gweithio yn llwyddiannus iawn am nifer o flynyddoedd oherwydd ei fod yn cael ei redeg gan ... yr oedd yn cael ei redeg gyda chymorth rhieni a phan fyddai'r rhieni yn helpu"

yr oedd yn wych ond mae'r pethau hyn yn mynd a dod fel tonnau. Mae arweinydd diwethaf ein clwb ieuencid yn ferch abl iawn ac yr oedd hi ... yr oedd hi'n dda iawn. Rhoddodd hi'r gorau iddi yn y diwedd oherwydd dywedodd nad oedd hi'n gallu ymdopi â'r ymddygiad, ac os ydych chi'n meddwl am yr ardal o gwmpas fan'ma fyddech chi ddim yn meddwl fod yna broblemau ymddygiad gyda phobl ifainc, ond yr oedd yna rai ...ac yr oedd yn effeithio ar iechyd a diogelwch."

(Merch, 25-44, Llangamarch, sengl, yn gyflogedig)

Pan ofynnwyd i'r ferch hon a gyfwelwyd beth yr oedd pobl ifainc yn eu harddegau yn yr ardal yn ei wneud yn eu hamser hamdden, gwelai hi broblemau eraill:

"Neu byddan nhw – ydw i'n meiddio'i ddweud – yn mynd i botsio neu lampo. Dydw i ddim yn credu y byddai llawer o bobl eisiau sôn am hynny o reidrwydd, ond mae'n digwydd. Ydi, ond dyna'r math o beth a dyna be' maen nhw'n ei wneud – a'r hyn sydd gen i yw eu bod nhw'n tueddu i fod â diddordeb mewn gynnuau a phethau sydd ddim yn dda, ond..."

"Ond rwy'n gwybod bod rhai ohonynt yn cymryd cyffuriau er enghraifft. Ac rwy'n credu bod delwyr o gwmpas y lle a ... dwn i ddim pa mor ymwybodol yw'r heddlu o'r peth ond mae rhywun wedi dweud wrtha i fod yr heddlu yn gwybod."

(Merch, 25-44, Llangamarch, sengl, yn gyflogedig)

Serch hynny, dadleuai atebwr arall, a oedd â phlant yn eu harddegau, nad oedd pobl ifainc leol cynddrwg â hynny ac y gallai ymddygiad oedolion gynnig yr esiampI anghywir i bobl ifainc:

"Ond er enghraifft, yn Llanwrtyd... mae gennym bencampwriaethau snorclo cors y byd a phethau fel 'na. Ac mae pobl yn meddwi'n dwll ac yn gwneud pethau erchyll yng nghanol y sgwâr a phethau ac mae hynny, 'ha ha', yn achosi chwerthin, chi'n gwybod. Ac mae hyn yn esiampI i bobl ifainc. ... a does neb yn dweud llawer. Ond os yw pobl ifainc yn gwneud unrhyw beth yn y gymuned, os ydynt yn gwneud unrhyw beth drwg fel petai, mae pawb yn lladd arnyn nhw. I ddeud y gwir, rwy'n meddwl bod y bobl ifainc yn cael amser digon anodd mewn gwirionedd. Rwy'n credu ei bod bob amser yn hawdd iawn rhoi bai ar y plant."

(Merch, 45-64, Llangamarch, cwpl sydd â phlant dibynnol)

Grŵp ffocws pobl ifainc Llangamarch

Cynhaliwyd y grŵp ffocws mewn ystafell breifat yn y Neuadd Arms Hotel yn Llanwrtyd gyda'r nos ar Ebrill 7fed 2009. Daeth chwech o bobl ifainc yn eu harddegau yno, rhai yn ferched a rhai yn fechgyn. Yr oedd eu hoedran yn amrywio o 14 i 17; yr oedd rhai wedi gadael ysgol ac eraill yn mynd i'r ysgol yn Llanfair-ym-Muallt. Yr oedd y bobl ifainc hyn yn byw yn Llangamarch, Llanwrtyd neu aneddiadau eraill yn ardal yr astudiaeth. Yr oedd y fenyw leol a drefnodd y cyfarfod hefyd yn bresennol ond ni chymerodd ran.

Manteision bywyd gwledig

Yr oedd yn amlwg wrth iddynt gyfarch ei gilydd eu bod i gyd yn adnabod ei gilydd yn iawn. Yn wir, cadarnhawyd ganddynt fod pawb a oedd yn eu harddegau yn Llangamarch, Llanwrtyd a'r pentrefi cyfagos yn adnabod ei gilydd; yr oeddynt i gyd yn mynychu neu newydd adael yr ysgol yn Llanfair-ym-Muallt. Gan ddilyn y thema hon, dywedodd aelodau'r grŵp nad oedd unrhyw broblemau rhwng y pentrefi hyn, neu rhwng pobl ifainc unigol yn yr ardal. Yr oeddynt yn hoffi adnabod pawb yn eu grŵp cyfoedion. Fel y nododd un o'r merched:

"Wel, mae fel petai pawb yn cadw golwg ar bawb arall achos fod pawb yn adnabod ei gilydd. Felly rydych chi'n rhyw deimlo'n ddiogel fel cerdded yn hwyr yn y nos os oes angen i chi fynd i Spar neu gallwch aros allan ychydig yn hirach na phe byddech mewn tref fwy o faint neu ddinas."

Aethant ati i sôn am fanteision eraill o gael eu magu mewn ardal wledig. Yr oedd y rhain yn cynnwys yr heddwch a'r tawelwch, natur a golygfeydd hardd, a'u profiadau cyn iddynt gyrraedd eu harddegau megis chwarae yng nghefn gwlad ac ar lannau afonydd lleol:

"Rydych hefyd yn cael mwy o'r math yna o weithgareddau awyr agored. Fel mewn dinas dydych chi ddim mewn gwirionedd yn gallu mynd ac ... adeiladu 'den' pan ydych yn fach a phethau fel 'na."

Eto, yr oeddynt yn sylweddoli eu bod wedi tyfu o fod yn blant i fod yn oedolion ifainc:

"Ie, pan chi'n iau mae popeth yn ymddangos yn well beth bynnag, yn 'dyn nhw.... Mae cymaint i'w wneud. Achos mae gennych chi fwy o ddychymyg, yn does. Achos dydych chi ddim yn teimlo fod cerdded i fyny bryn neu wneud 'den' yn gymaint o hwyl ag yr oedd yn arfer bod."

Anfanteision bywyd gwledig

Wrth iddynt symud i flynyddoedd yr ardegau, gwerthfawrogent nad oedd gweithgareddau ar gael iddynt mewn ardal wledig:

*"Wel, rhaid i ni deithio os ydyn ni eisiau mynd i...
Siopa.
Siopa neu fynd...
Am ddiwrnod allan mewn gwirionedd.
Diwrnod i ffwrdd, unrhyw weithgaredd.
Does dim sinema.
Siopa neu wneud pethe ...
Am ddiwrnod allan mewn gwirionedd.
Diwrnod i ffwrdd, unrhyw weithgaredd.
Does dim sinema.
Nag oes
Rhaid inni deithio i Lanfair-ym-Muallt i wneud hynny.
Oes i Lanfair-ym-Muallt.
Ie, Llanfair-ym-Muallt.
Ond mae'n cau i lawr.
Bydd hwnnw wedi mynd cyn bo hir.
Bydd.
Diwedd y flwyddyn. Flwyddyn nesaf.
Yr un agosaf wedyn fydd Aberhonddu.
Aberhonddu.
Mae ganddyn nhw glwb sinema yma ac maen nhw'n dangos un ffilm bob mis.
Ond maen nhw i gyd fel petaen nhw'n hen ffilmiau.
Ie, dydy e ddim fel ...
Ond mae'n dal yn beth da eu bod nhw'n ceisio gwneud ymdrech a hynny i gyd, rwy'n meddwl..."*

Nid oedd unrhyw un o'r grŵp hwn yn gallu gyrru, felly yr oedden nhw'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Beirniadwyd y gwasanaeth bws:
*"Dim ond y bws i Aberhonddu fwy na heb. Ie.
Ydw, dwi'n mynd ar y bws...
Oes, mae yna fysiau ond maen nhw'n eithaf annibynadwy go iawn gan fy mod yn mynd i'r coleg ar ddydd Llun arny'n nhw ac weithiau gallwch gael y bws o Lanwrtyd i Lanfair-ym-Muallt, ond wedyn bydd yr un o Lanfair-ym-*

*Muallt i Aberhonddu wedi mynd yn barod erbyn inni gyrraedd yno.
Dydyn nhw ddim yn aros, yn na'dyn?
Na'dyn, felly mae'n blincin poen. Maen nhw'n ei neud e drwy'r amser.
Ac maen nhw'n gwybod ei fod yn fws coleg.
Ynden.
Felly maen nhw i fod i aros i'r bobl gyrraedd achos dyna pam mae e yno..."*

Canmolwyd y gwasanaeth trên:

*"Neu os ydych chi eisiau mynd i Orllewin Cymru neu Dde Cymru gallwch ddal trên i'r ddau le, ond dyna'r cwbl bron â bod.
Ydyn, mae'r trenau yn eithaf dibynadwy.
Bob tro ar amser a hynny i gyd, yn dydyn nhw?
Ydyn.
Maen nhw'n reit rad..."*

Weithiau, gellid gofyn i rieni am gymorth neu wneud trefniadau gyda ffrindiau hŷn:

*"Cael lifft gyda rhieni efallai.
A threfnu'r peth gyda rhai o'ch ffrindiau sy wedi dechrau gyrru..."*

Newidiadau yn yr ardal leol

Yr oedd y grŵp hwn wedi gweld newidiadau sylweddol, a'r farn yn gyffredinol oedd mai colli gwasanaethau a wnaed:

*"Mae'r siopau i gyd wedi mynd.
A'r swyddfa bost.
Mae 'na swyddfa bost yn dal yn Llangamarch.
Rydyn ni wedi cael blwch post rŵan..."*

Bywyd cymdeithasol pobl ifainc yn eu harddegau

Mae gan rai o'r grŵp frodyr a chwiorydd hŷn a oedd yn dal yn eu harddegau ac yr oedd ganddynt hwy fodd o ddefnyddio cerbydau modur, a theithio i gymdeithasu mewn mannau mwy fel Henffordd ac Abertawe. I'r grŵp hwn a oedd yn iau, yr oedd bywyd cymdeithasol yn tueddu i droi o gwmpas y cae chwarae a'r parc sglefrio ar gyrion Llanwrtyd:

*"Mae gyda ni gae pêl-droed, oes.
Oes.
Mae hwnnw'n gyfleuster eitha da, wir.
Ydi."*

Y parc sglefrio a'r pêl-droed.
Felly yn yr haf mae pawb lawr fan'no.
A'r clwb criced erbyn hyn hefyd.

Beth, pawb sydd tua'ch oed chi?
le.

Rhyw fath.
A chryn dipyn o'r rhai hyn hefyd.
Ydyn.

Yn mynd yno.
Wel, rhai yn eu hugeiniau ac mae 'na lawer o ddisgyblion yr ysgol gynradd a phawb ym mlwyddyn 7 ac 8 yn mynd lawr yne, felly mae 'na dipyn o amrywiaeth oed. Mae cryn dipyn o bobl i lawr yno.

Mae'n dda.
Ydi, chwarae lot o bêl-droed i lawr y parc a phethau fel 'na ac yn y bôn jest ymlacio gyda'ch ffrindiau, yndé..."

Fodd bynnag, weithiau yr oedd 'ymlacio' yn mynd ychydig yn ddiflas a chwilient am bethau eraill i'w gwneud a lleoedd eraill i ymweld â nhw, er, unwaith eto, yr oedd trafnidiaeth gyhoeddus yn broblem:

"Does 'na'm llawer i'w wneud – mi ddywedwn ni felly.

Ar wahân i pan fyddwch yn mynd am ddiwrnod allan, fel nawr rydyn ni ychydig yn hŷn ac rydyn ni'n tueddu i fynd ar y trê'n i..."

Ydyn.
Fel heddiw, mi aethon ni a chael trê'n i Lanymddyfri a mynd i nofio. Ac os ydyn ni am wneud diwrnod ohoni ac rydyn ni'n tueddu i neud hynny neu fynd i weld ffrindiau mewn trefi eraill a phethau fel'ne.

Rydyn ni ei angen yn fwy aml – fel y bws yn dod bob awr neu rywbeth felly.

Achos, dim ond un yn dod bob dwy awr, chi'n gweld.

Mae 'na fws bedair gwaith y dydd.
Ac mae'r trê'n os ydych chi am fynd i Abertawe, mae hwnnw bob pedair awr.

Rydych chi naill ai yn mynd yn gynnar yn y bore neu amser cinio neu am chwech. Os ydych yn mynd am chwech does gyda chi ddim trê'n i ddod yn ôl arno..."

Aent i ymweld ag Abertawe i siopa a chael diwrnodau allan fel grŵp:

"...Ydyn, rydyn ni hefyd yn mynd i Abertawe weithiau.

Mae'n eithaf braf.
Mae'n hwyl iawn. Mae jest yn neis cael mynd allan o'r dref a hynny i gyd...

le, pan 'dyn ni i gyd yn mynd gyda'n gilydd.
A mynd i'r math o le gwahanol dych chi ddim fel arfer yn mynd iddo yn aml iawn..."

Dyna'r unig le y gallwch chi wir fynd iddo o fan'ma.

Weithiau mynd i'r Amwythig ar y trê'n.

Gallwch fynd i Henffordd o Llanfair-ym-Muallt bob dydd Sadwrn, bws yno.

Rydyn ni fel arfer yn gwneud diwrnod ohoni, yn 'dyn ni?'"

Nid oedd y bobl ifainc o Langamarch yn mynd cymaint:

Does 'na'm llawer i'w wneud yma, yn nag oes?
Na, dim rili.

Yn enwedig Llangamarch.

Mi awn ni i Llandod efallai.

Ydyn, mi wn. Rwy bob amser yn meddwl hynny. Rwy bob amser yn meddwl fod Llanwrtyd yn ddiflas, ond mae Llangamarch yn llawer gwaeth.

Yr unig beth sydd gyda ni yw llithren...

Fach.

Parc bach gyda sleid a rowndabowt.

Sydd fel...

Ac yn y diwedd rydyn ni'n mynd i gae ryw ffermwr i chwarae pêl-droed, rygbi, criced be bynnag..."

Yr oedd ambell berson ifanc yn eu harddegau ym mhentref Llangamarch:

"Efallai fe gewch chi ddau fachgen yn yr un flwyddyn ac yna byddai yna ryw ddau mewn rhyw flwyddyn arall. Fel dau ym mhob blwyddyn ysgol yno, dyna i gyd mewn gwirionedd..."

Yr oeddent yn cymdeithasu drwy chwarae pêl-droed neu griced, neu fynd draw i Lanwrtyd. Yr oedd gan rai o'r grŵp swyddi rhan-amser, fel golchi llestri mewn bwytai lleol. Mae'n debyg fod llawer o ferched yr ardal sy'n eu harddegau cynnar, yn enwedig y rheiny sy'n byw ar ffermydd ac mewn lleoliadau anghysbell, yn tueddu i aros gartref gyda'r nos.

Rhwydweithio cymdeithasol a chyfathrebu

Defnyddiai pobl ifainc yr ardal rwydweithiau cyfrifiadurol cymdeithasol:

"Mae'n beth da os nad ydych chi'n gallu gweld eich ffrindiau mor aml â hynny achos rydych chi'n cael gwybod sut maen nhw, be maen nhw'n ei wneud.

"Mae yna lot o bobl ... sy'n 'addicted' i'w Playstations, Wiis a X-Boxes a'r stff yna i gyd.

Ond dydw i ddim yn addicted cofiwch.”

Tynnwyd sylw at broblemau cyfathrebu yn yr ardaloedd hyn yn yr arolygon cartref a'r cyfweiliadau dilynol. Rhoddodd y grŵp hwn o bobl ifainc eu barn ar fand eang a ffonau symudol:

“Yn Tirabad dydyn nhw ddim yn cael dim byd. Dydyn nhw ddim yn gallu cael band eang. Mae'n rwtsh, mae'n dda i ddim. A rwy'n gallu cael band eang, ond mae'n anodd. Mae wir yn araf, yn dydi. Mae'n amrywiol, mae gan rai mannau fand eang da iawn, a rhai llefydd eraill... Yr unig adeg... rwy wedi sylweddoli mai'r amser gorau i fynd ar y we yw wir yn gynnwys yn y bore neu'n hwyr iawn yn y nos. Yn ystod y dydd, dyw e dda i ddim o gwbl.”

“Mae ffonau symudol yn ddefnyddiol iawn o gwmpas y lle 'ma. Mae'n iawn gyda rhai rhwydweithiau ond gydag eraill mae'n dda i ddim.”

Awgrymiadau am welliannau

Yr oedd syniadau'r grŵp am ffyrdd i wella eu bywyd cymdeithasol yn tueddu i ganolbwyntio ar weithgareddau corfforol:

“Wel, ei wneud yn fwy diddorol i fyw yma. Ei wneud yn hwyl i fod yn y dref ac yn yr awyr agored. Ie, cael cyfleuster arall fel pwll nofio neu rywbeth fel yna fyddai'n dda. Ie. Ie, fel 'taen ni am un diwrnod yr wythnos neu rywbeth felly, yn gallu cael y pwll nofio yn y, beth ydych yn ei alw, llyn Abernant neu Victoria Wells ac mae gyda nhw gyrsiau rhwystrau a phopeth.”

Yr oedd nifer o weithgareddau sy'n eiddo preifat, megis caiacio, cyrsiau rhwystrau a llynnoedd pysgota yn yr ardal. Awgrymwyd y gallai'r rhain gael eu hagor i'r cyhoedd ar delerau cyfyngedig neu dalu-wrth-eu-defnyddio. Yr oedd gwelliannau eraill a awgrymid yn cynnwys ei gwneud yn haws iddynt deithio i'r weithgareddau yn y trefi yn y cyffiniau:

“Beth allech chi ei wneud yw gwella pethe fel teithio, a'i gwneud wir yn hawdd i gyrraedd rywle fel Llanfair-ym-Muallt neu Landod.

Ie. Tocynnau bws i fyfyrwyr. Ie, byddai hynny'n dda.”

Fel y nodwyd uchod, yr oedd y gwasanaeth bws yn broblem i'r bobl ifainc hyn. Er enghraifft, er bod yr ysgol yn Llanfair-ym-Muallt yn trefnu rhai gweithgareddau ar ôl ysgol, yr oedd newidiadau diweddar yn yr amserlenni bws yn golygu ei bod yn anodd cyrraedd adref i Langamarch neu Lanwrtyd:

“Oes, mae ganddyn nhw glybiau ar ôl ysgol a hynny i gyd ond mae'r bws olaf o Llanfair-ym-Muallt i Lanwrtyd yn gorffen am 5 o'r gloch, rwy'n meddwl ei fod e. Ydi, maen nhw'n defnyddio'r bws cymunedol. Ac wedyn os ydych yn mynd i glwb ar ôl ysgol mae'n rhaid i chi gael eich rhieni neu rywun i'ch gyrru yn ôl achos does dim bws yn mynd. Pan o'n i yno, pan wnes i ddechrau yno, yr oedd ganddyn nhw glybiau ar ôl ysgol ar gyfer popeth – rhedeg, pêl-droed – popeth. A bws ar ôl ysgol. Ac yr oedd ganddyn nhw eu gwasanaeth bws eu hunain ar ôl ysgol. Oedd. Ond does ganddyn nhw ddim hynny bellach. Yr oedd yna fws hwyr yn arfer bod. Ac yr oedd hwnnw am ddim hefyd. Nawr os ydych chi eisiau aros a gwneud gwaith cartref mae'n rhaid i chi dalu am y gwasanaeth bws. Achos wnân nhw ddim derbyn ein tocynnau bws. Ond ar ôl rhyw amser penodol maen nhw'n stopio be bynnag, felly dydych chi ddim yn gallu. 5 o'r gloch. Ie. Am 4.40 mae'r bws olaf, yndé?”

Gweithgareddau chwaraeon

Er bod gan yr ysgol dimau chwaraeon, nid oedd yr un o'r rhai sy'n dal yn yr ysgol yn y grŵp hwn yn chwarae yn y timau hyn, er eu bod yn dilyn eu mathau eu hunain o weithgareddau chwaraeon. Fodd bynnag, yr oeddent yn cael anawsterau:

“Ac rydyn ni'n mwynhau mynd i'r goedwig a hynny i gyd ar ein beiciau modur, ond mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn ein stopio nawr felly allwch chi ddim mynd fyny yna bellach nac i unrhyw le.

Wel, mi wnaethon ni ofyn i'r bobl oedd bia'r lle cyn hynny, be ydi eu henwe nhw, Tillhill neu rywbeth? Ie, wel, mi ofynnon ni iddyn nhw ac mi ddeudon nhw ydi mae'n iawn gallwch chi fynd fyny yno ond erbyn hyn mae yna gwmni newydd wedi'i brynu a dydyn nhw ddim yn hoffi i ni fynd i fyny yno o gwbl. Maent yn llwyr yn ei erbyn.

Y rhai Abergwesyn sydd yn eiddo i Tillhill, dwi'n credu, felly rydyn ni'n mynd fyny i fan'na rwan.

Ydyn.

Ond yr oedden ni'n arfer mynd fyny yn ymyl Tirabad.

Wel chwarel Tirabad - mwy fel hynny, ond na dydyn nhw ddim yn gadael i ni fynd yno ddim chwaneg."

Er bod y Comisiwn Coedwigaeth yn gwgu ar fynd â cherbydau oddi ar y ffordd, yr oedd beicio mynydd yn dderbyniol:

"Dydyn nhw ddim wir yn cwyno am hynny.

Ydy mae'n weddol hawdd mynd allan ar feic a dydych chi ddim yn cael pryd o dafod os ydych yn mynd i fyny i le'r Comisiwn Coedwigaeth.

Rwy'n mynd i feicio bob hyn a hyn.

Rwy'n mynd ar y beic weithiau yn ystod yr haf. Ie, beicio fyny at yr afon a phethe."

Clybiau

Nid oedd gan Langamarch a Llanwrtyd unrhyw glybiau chwaraeon a drefnid:

"Rwy'n chwarae llawer o chwaraeon. Rhaid i mi fynd i chwarae criced yn Aberhonddu. Mae pêl-droed fwy neu lai yr un fath a bowlïo yn ddigon tebyg hefyd. Gorfod mynd i Lanfair-ym-Muallt neu Llandod i chwarae hwnnw.

Mae 'na glybiau pêl-droed a rygbi da yn Llanfair-ym-Muallt, dyna'r cyfan am wn i. Mae 'na glwb criced ond dydyn nhw ddim yn gwneud llawer."

Trafodwyd cau Clwb Ieuencid Llangamarch uchod, ond yr oedd y grŵp hwn dan yr argraff fod y rhesymau dros gau, yn ogystal â materion personél, yn fater o ddiffyg arian:

"Yr oedd gyda ni glwb ieuencid, ond maen nhw wedi rhoi'r gorau iddo am ryw reswm.

Pres.

Yr oedd un yn arfer bod yma.

Mae popeth yn ymwneud ag arian y dyddiau 'ma.

Yr oedd 'da ni un ond dy'n nhw ddim yn gallu dod o hyd i unrhyw un i'w redeg bellach.

Ie, yr oedd e'n dod o dan yr Eglwys ac yr oedd yr Eglwys wedi cael pawb i gael y checks CRB a phethe fel'ne i'w wneud e ond dy'n nhw ddim yn ei neud e nawr. Maen nhw'n bwriadu ei ddechrau eto ond..."

Mae'n debyg fod Clwb Ieuencid yn arfer bod yn Llanwrtyd ond bod hwnnw hefyd wedi dod i ben:

"Achos yr arian, ie. Dim digon o arian ar ei gyfer o.

Oedd, yr oedd yna lot o bobl yn mynd iddo."

Nid oedd gan Langamarch na Llanwrtyd glybiau nos nac yn cynnal dawnsfeydd, ar wahân i dafarn ac ambell ddawns yn cael ei chynnal mewn ysgubor o bryd i'w gilydd. Nid oedd y rhain yn boblogaidd gyda'r grŵp hwn, a dadleuent fod gormod o bobl hŷn yn mynd iddynt.

Er hynny, yr oedd y bobl ifainc hyn yn ddiweddar wedi dod o hyd i glwb yn Abertawe a oedd yn darparu'n benodol ar gyfer eu grŵp oedran nhw. Oherwydd nad oedd y trenau yn rhedeg ddigon hwyr yn y nos, yr oeddynt wedi trefnu bws mini:

"Mae 'na glwb neis iawn yn Abertawe.

Wnaethon ni ddod i glywed amdano fe.

Mae'n ddwy awr o daith ar y trê, ei enw yw Oceana ac mae'n wych.

Oceana – mae i bobl ifainc dan 18 oed.

Maen nhw'n gwneud y digwyddiadau yma i'r rhai dan 18 oed.

Ar rai nosweithiau maen nhw'n ei drefnu yn benodol ar gyfer pobl ifainc.

Ac mae hynny wir yn ddiogel.

Ydi mae hynny'n dda, yn dda iawn. Maen nhw'n gwneud job dda ohoni.

Achos ei fod yn lân.

Wnaethon ni drefnu bws mini i fynd.

Dim ond £6.50 mae'n ei gostio i fynd mewn ac felly mae wedi'i anelu llwyr yn ein grŵp oedran ni, yn dyw e?

Ie, ni'n meddwl mynd eto ar ddiwedd yr arholiadau."

Pethau sy'n peri problemau

Trafodwyd eisoes beth oedd barn rhai oedolion yn yr ardal am y grŵp hwn o bobl ifainc. O safbwynt y bobl ifainc yr oedd pethau'n wahanol. Cododd y pwnc pan

ofynnwyd iddynt beth oedd eu cas bethau yn yr ardal:

"Ie, agwedd y bobl hŷn ...

At bobl ifainc, ie.

Ie.

Wel dydyn nhw ddim yn – wel os ydyn nhw'n ein gweld ni ar y sgwâr, grŵp ohonon ni jyst yn hongian o gwmpas achos does 'da ni ddim byd arall i'w neud, byddan nhw'n dweud ein bod ni'n wrthgymdeithasol ac yn torri pethau a bod yn swnllyd.

Ie dydd Iau diwethaf oedd diwrnod olaf y tymor felly aeth pawb i lawr i'r Parc.

O do.

Yr oedd 'na gasgliad mawr ohonon ni, ac fe roeson ni chydig o gerddoriaeth mlaen.

Ac erbyn 9 o'r gloch yr oedd yr heddlu wedi cael eu galw ac yr oedden nhw lawr yno am 9.30.

Ac erbyn 9.30 yr oedd e wedi dod i ben, do ... na yr oedd yr heddlu yno am 9 achos yr oedden nhw wedi cael cwyn am gerddoriaeth uchel –

Felly yn amlwg yr oedd yfed dan oed a chyffuriau yn digwydd yno (yn sarcastig)

Oedd a dim ond pedwar o bobl oedd yno oedd wir yn byw yn yr ardal honno hefyd.

Ie, ac mi wnaeth un ohonyn nhw ddweud nad oedd hi hyd yn oed yn gallu clywed y gerddoriaeth am ei bod yn gwrando ar y teledu.

Doedd e fawr o barti rili.

Yr oedd e jest yn ...

Mi wnaeth e ddechre gyda rhai ohonom yn jyst...

Bod gyda'n gilydd.

Lawr yna yn ymlacio 'chydig, diwrnod braf.

Cymdeithasu.

Ac yna, chi'n gwbod, o mae 'na ychydig o bobl i lawr yno.

Dod â'ch ffôn, rhoi'r gerddoriaeth ymlaen.

Ac yna mae'n tyfu i fod yn fwy o grŵp nag yr oedden ni'n ei feddwl, o beth am gael rhywfaint o gerddoriaeth, te?

Yna yr oedd yna gryn dipyn o bobl.

Ac yna yn y pen draw, mae jest yn mynd yn fwy. Yr oedd yna, faint, tua 20 ohonon ni neu rywbeth tebyg?

Am 9 o'r gloch daeth yr heddlu lawr. Yr oedden nhw'n dweud eu bod wedi clywed bod plant yn bod yn drwbwl braidd yn gwneud sŵn ac yn chwarae o gwmpas, allwch chi i gyd stopio a mynd adref.

Doedd e ddim mor uchel â hynny. Doedd e wir ddim mor swnllyd â 'ny.

Y gwir amdani yw bod bobl o gwmpas fan'na pan maen nhw'n clywed cerddoriaeth maen nhw'n dweud mai plant yw e. Mae'n yfed dan oed a chyffuriau yn syth. Maen nhw'n fandaleiddio pethau. Maen nhw ar gyffuriau.

Maen nhw'n yfed, jest achos eich bod yn chwarae cerddoriaeth dyw hynny ddim yn golygu ein bod yn chwalu'r dref yn rhacs. Maen nhw'n credu ein bod ni i gyd yn hwliganiaid."

Yr oedd y grŵp wedi cyferbynnu agwedd yr heddlu atyn nhw ag achos tafarn leol sy'n chwarae cerddoriaeth yn uchel yn rheolaidd tan oriau mân y bore, ag a oedd wedi bod yn destun cwynion:

"Ie, cyn belled â'i fod yn gwneud elw does neb fel petaen nhw'n becso.

Dim ots gan neb amdanon ni ond os oes yna gwpl o blant yn cael hwyl yn y Parc am 9 o'r gloch - rhaid iddo gael ei stopio!

Yr heddlu yn cael eu tynnu mewn.

Ie 9 o'r gloch. Digon teg 'tai hi'n... 12 hanner nos neu rywbeth a'r gerddoriaeth wir yn curo'n uchel, ond ...

Doedd hi ddim, nag oedd.

Mae yna ychydig o bobl, rhai pobl oedrannus yn y pentref sydd jest ... sydd yn dal dig yn erbyn yr holl blant.

Dal dig yn erbyn pobl ifainc bob munud."

Nododd y bobl ifainc o Langamarch wahanol agwedd yr oedolion yn y fan honno:

"Does dim o hynny yn digwydd yn Llangamarch. Mae pawb hŷn wrth eu boddau â'r plant drwy'r adeg. Dim ond rhywbeth maen nhw'n ei wneud. Dwn i ddim pam."

Cynlluniau i'r Dyfodol

Er bod y bobl ifainc yn y grŵp hwn yn hoffi byw yn yr ardal maent yn sylweddoli nad oedd llawer o gyfleoedd iddynt.

"Chewch chi ddim job o gwmpas fan'na mae arna i ofn.

Does dim swyddi yn Llangamarch.

Wel, i'r bobl ifainc, mae yna, wel rydych chi'n gallu golchi llestri a hynny i gyd.

Y swydd orau yn Llangamarch yw un yn y Lake Hotel ond does dim swyddi yno achos maen nhw'n credu bod gweithwyr Pwylaidd yn gallu rhedeg y lle.

Ac wedyn does yna fawr ddim arall i fynd iddo."

Yr oedd rhai yn bwriadu mynd i brifysgol, eraill wrthi'n mynychu coleg ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol; ac yr oedd rhai yn bwriadu ymuno â'r heddlu. Yr oedd pob un

o'r grŵp wedi mynegi awydd i gadw eu cysylltiadau â'r ardal.

11.3 Ardal astudiaeth Llanfihangel

Ardal astudiaeth Llanfihangel efallai oedd yr ardal ddaearyddol fwyaf darniog o'r holl ardaloedd a astudiwyd. Yr oedd cryn bellter rhwng y prif aneddiadau, a phob un ohonynt yn fach iawn; yr oedd nifer o ffermydd a thai anghysbell eraill; yr oedd y trefi agosaf 20 milltir i ffwrdd; a dim trafndiaeth gyhoeddus o gwbl fwy neu lai.

Grŵp ffocws ieuencid Llanfihangel

Cynhaliwyd y grŵp ffocws yn ysgol Llanwddyn a chanolfan gymunedol yn Abertridwr gyda'r nos ar y 5^{ed} Ebrill 2009. Daeth pump o bobl ifainc yn eu harddegau yno, rhai yn ferched a rhai yn fechgyn. Yr oedd eu hoedran yn amrywio o 15 i 18; yr oedd rhai wedi gadael ysgol ac eraill yn mynd i'r coleg ac yr oedd gan rai waith rhan-amser mewn gwesty lleol. Yr oedd eraill yn eu plith yn mynd i'r ysgol yn Llanfyllin. Yr oeddynt i gyd yn byw yn y fro. Yr oedd y fenyw leol a drefnodd y cyfarfod hefyd yn bresennol ond ni chymerodd ran.

Nid oes llawer o bobl ifainc yn eu harddegau yn byw yn ardal yr astudiaeth. Dywedodd cyfranogwyr y grŵp fod yna tua 12 i 15 o bobl yn eu harddegau yn yr ardal, gyda dim ond dau ym mhentref Llanfihangel.

*"Ydi, mae pawb yn adnabod pawb.
Llanfihangel, mae yna rai yn Llanfihangel.
Oes.
Dwi'n eu nabod nhw, ond dydw i ddim ... dydw i ddim yn ffrindiau efo nhw os chi'n gwybod be dwi'n feddwl.
Achos eu bod nhw'n byw yn rhy bell i ffwrdd a dydych chi byth yn eu gweld nhw."*

Yr oedd nifer y bobl ifainc yn eu harddegau yn yr ardal wedi gostwng yn ddiweddar:

*"Wel yr oedd yna ddau fachgen ein hoed ni wedi symud yn ddiweddar i Llanfyllin felly...
Do, symudodd y teulu o'ma.
Mae wedi mynd yn dawel ers hynny – ers iddyn nhw fynd.
Yr oedden nhw'n ddoniol.
Yr oedd un...
Yn wirion bost."*

*Yn hollol hurt.
Yr oedden nhw'n llawn egni.
Ar ei feic yr oedd e'n wallgof."*

Manteision bywyd gwledig

I'r grŵp hwn manteision tyfu i fyny mewn ardal bellennig yng nghefn gwlad Cymru oedd yr amgylchedd a'r rhyddid a roddai:

*"Mae'n llawer mwy ffres yma, yr aer yn lanach a phethe. Peidiwch â chwerthin arna i - mae'n wir.
Es i Fanceinion penwythnos diwethaf, a chi'n gwbod yr oedd hi'n braf cael dod yn ôl.
Yr oedd yn dawelach, debyg, a doeddwn i ddim yn gallu ... fyddech chi ddim yn gallu cadw ceffylau a phethe yn y ddinas.
Byddai'n anoddach cadw anifeiliaid fel cŵn a phethau a gallwch fynd am dro yma ac o fewn deng munud gallwch fynd i ben y bryn ac mae'r golygfeydd yn anhygoel."*

Mae gweithgareddau sy'n benodol wledig:

*"Saethu.
Oes, saethu cyfreithlon hynny ydi.
Colomennod clai a chwingod.
Wel, mi es i'n ddiweddar i geisio saethu.
Fawr o lwyddiant chwaith.
Wel, allwch chi ddim wir ... os ydech chi mewn dinas gallwch fynd allan am ddyddie bwygilydd math o beth, ond allwch chi ddim mynd i wersylla na dim byd fel'na."*

Anfanteision bywyd gwledig

Er hynny, yr oedd gan fywyd gwledig hefyd ei anfanteision o'i gymharu â lleoliadau mwy trefol:

*"Mae 'na lawer mwy i'w wneud mewn dinas.
Mynd allan yn y nos gyda'ch ffrindiau.
Ie.
Sinemâu a phethe ond does dim byd yma.
Yr agosa ydi Llanfyllin.
Ie, ond dydi hi ddim yn sinema dda iawn.
Chwarter awr yn y car.
Does dim canolfan hamdden yma na unrhyw beth fel yna.
Clybio yn y dref neu rywbeth.
Ie, dyna ni.
Clybio efallai.
Mae'n siŵr bod mwy o glybiau yn digwydd yn y ddinas, yn does 'na? Be dwi'n feddwl ydi, fan'ma ryden ni'n gorfod dreifio deg milltir i fynd*

i'r pwll nofio neu i'r gampfa neu unrhyw beth fel 'na, i gadw'n ffit.

le, dwi newydd fod yno – yn Llanfyllin.

le, ac mae'r siop chips ddeg milltir i ffwrdd hefyd.

Es i fan'no wedyn.

Does 'na ddim llawer o fwytai neu unrhyw beth o gwmpas yma. Gallwch chi fynd i'r gwesty.

Mae yna fwyd Indiaidd i'w fwyta allan tua 15 milltir i ffwrdd. Mi fyddai yna lawer mwy ohonynt yn y ddinas.

Felly be 'dech chi'n ei wneud fel arfer os ydech chi'n mynd allan o'r pentre am ddyddiau neu be bynnag be ydech chi'n ei wneud yw eich archebu wrth i chi fynd drwyddo.

A ffonio pawb yn y pentref; ydech chi eisiau têt-awê? A chael un i tua 15 o bobl."

Bywyd cymdeithasol pobl ifainc yn eu harddegau

Mae bywyd cymdeithasol yn y fro yn troi o gwmpas y tŷ tafarn:

"Yng ngwesty Llyn Efyrynwy tua milltir i ffwrdd. le.

Bob nos fwy neu lai.

Mae 'na dîm pŵl.

Ryden ni i gyd yn y tîm, yn dyden.

Fi enillodd eleni. Fi oedd y gore yn y tîm 'na."

"Un diwrnod ar y penwythnos a bydda i'n mynd allan i'r Amwythig.

le.

le, dim ond mynd i'r sinema a siopa a phethau fel 'na.

Ond wedyn yn ystod yr wythnos dwi ddim yn gwneud fawr o ddim go iawn. Wel, nos Lun dwi'n mynd i'r ganolfan hamdden yn Llanfyllin.

Dim ond tua 15 munud i ffwrdd mae o. Yna nos Fawrth dwi'n gwneud dim byd. Dydd Mercher dwi'n mynd i'r Trallwng sydd... pa mor bell i ffwrdd ydi o?

le a dydd lau dwi'n mynd i'r dafarn a dim byd dydd Gwener."

Weithiau byddai'r bobl ifainc hyn yn ymweld â chlybiau yn y trefi cyfagos:

"Yden, bob yn hyn a hyn ryden ni'n cael tacsî neu rywbeth.

Y Trallwng, Croesoswallt neu Amwythig."

"Byddai'n rhatach petaen ni'n byw yn y ddinas lle ryden ni'n mynd allan, ond wedyn pan chi'n byw yma dydech chi ddim yn mynd allan mor aml felly rydech chi'n mwynhau eich hun yn fwy achos dydech chi ddim wedi arfer ei wneud gymaint.

Fel arfer ryden ni'n cael bws mini o'r pentref os yden ni'n mynd gyda llawer o bobl."

I bobl ifainc yn eu harddegau cynnar nid oedd tafarndai a chlybiau yn ddewis. Unwaith eto, soniwyd am nifer isel y bobl ifainc sydd yn yr ardal:

"Wel fel arfer mi fydda i jest o gwmpas y pentref gyda'r hogyn arall sydd 'run oed â fi neu wyllo teledu adre.

Ryden ni'n mynd ar y llwybrau beic yn y goedwig neu chwarae pêl-droed neu rywbeth."

"Achos fydden ni ddim yn mynd allan achos ein bod tywyllu yn rhy hwyr achos does dim golau, wel dim goleuadau stryd.

Dim goleuadau stryd chwaith.

Ro'n i wedi gorfod gyrru [ENW] adre o'r clwb ieuenctid un noson achos ei bod yn rhy dywyll.

Allwn i ddim gweld dim byd.

A dim ond i lawr y ffordd mae o."

Mae'n debyg nad oedd llawer o ferched yn eu harddegau yn yr ardal, ac oherwydd eu bod yn byw mor bell ar wahân:

Oes, mae rhai, ond dwi ddim yn eu gweld nhw rhyw lawer.

Gweithgareddau chwaraeon

Yr oedd gan yr ysgol sawl tîm chwaraeon ac yr oedd y disgyblion ysgol yn y grŵp yn cymryd rhan ynddynt:

"Oes mae 'na bêl-droed, rygbi, nofio - dipyn go lew - pêl-rwyd a hoci. Mae yna dipyn o dimau ... timau chwaraeon ysgol.

Ryden ni'n cystadlu gydag ysgolion eraill

Dwi'n eu tîm rygbi.

Dwi wedi nofio dros yr ysgol.

Dwi wedi nofio dros yr ysgol a chwarae pêl-rwyd hefyd."

Fodd bynnag, ychydig iawn o'r grŵp oedd yn bwriadu dal ati i wneud chwaraeon ar ôl gadael yr ysgol:

"...fydda' i ddim mae'n siŵr. wnes i ddim..."

Rhwydweithio cymdeithasol a chyfathrebu

Nid oedd y grŵp hwn o bobl ifainc yn ddefnyddwyr arbennig o aml ar rwydweithiau cymdeithasol ar y cyfrifiadur:

"Fel Facebook?"

Dwi ddim yn gallu deall sut i'w ddefnyddio..."

*Mae pawb yn ei ddefnyddio, dyden nhw?
Heblaw amdana i, mae'n swnio felly.
Does gen i ddim Facebook ond mae gen i
MSN.
Mae gen i MSN ond dydw i ddim yn gwybod sut
i ddefnyddio Facebook.
Byddwn yn dweud bod y rhan fwyaf o bobl
ifainc o gwmpas fan'ma yn defnyddio hwnna.
Os ydi o ganddyn nhw mae hynny achos mai
dyna'r unig beth i'w wneud os nad ydech yn
mynd i'r dafarn bob nos.
Achos gallwch aros adre y rhan fwyaf o'r amser
gan ei bod yn tywyllu.
Dwi'n mynd i'r dafarn a'i wneud ar fy ffôn."*

Cytunai'r grŵp cyfan fod y signal ffôn symudol yn amrywio yn yr ardal, felly hefyd y gwasanaeth band eang.

Awgrymiadau am welliannau

Credai'r grŵp y byddai eu bywydau yn gwella pe bai mwy o bobl ifainc yn yr ardal. Dadleuwyd hefyd y byddai gwell trafniadaeth gyhoeddus o fudd mawr:

"Dwi'n credu mai un peth fyddai'n gwella ardal dipyn, dwi'n gwobod mod i'n gallu gyrru nŵan, ond doedd dim bysiau yn unrhyw le. Yr oedd gwasanaeth bws, ond doedd hynny dim ond ar ddydd Mercher a Gwener pan yr oedden ni yn yr ysgol.

Dim ond dydd Mercher nawr.

Ac unwaith y mis i Amwythig.

le unwaith y mis i Amwythig.

le, unwaith y mis.

Hyd yn oed petai dim ond i Lanfyllin mae yna fysiau yn fan'no o lefydd, ie ond...

O Lanfyllin.

Does 'na ddim byd go iawn i fedru mynd allan a gwneud pethau os nad ydych yn gallu gyrru.

Dwi'n meddwl bod y plant yn cael eu gorfodi i yrru ac os nad ydyn nhw'n gallu gyrru mae'n anodd iawn."

"Dwi'n credu y dylai fod mwy o ddigwyddiadau fel sy gynnon ni... yr oedden ni'n arfer cael ffair yr hydref yn yr haf. Yr oedd hwnnw'n arfer bod yn...

Yr oedden ni'n arfer cael diwrnod hwyl hefyd.

Yr oedden ni'n arfer cael diwrnod hwyl.

Diwrnod Hwyl.

Mae 'na ras hwyaid.

Dwi ddim yn hoffi hynny.

Naci, ond dwn i'm petai'n rhywbeth sy'n seiliedig ar y gymuned..."

Clybiau

Yr oedd clwb ieuentid yn Llanwddyn. Fodd bynnag, nid oedd yn rhedeg yn rheolaidd, a dim ond pump neu chwech o bobl ifainc a oedd yn mynd iddo.

Yr oedd gan Lanwddyn dîm pêl-droed yn y pentref oedd yn chwarae mewn cynghrair ac yr oedd rhai o'r grŵp yn chwarae i'r tîm hwn, tra bod eraill, nad oedd yn bresennol, yn chwarae i dîm yn y Trallwng.

Pethau sy'n peri problemau

Ymddengys fod yna wahaniaethau rhwng barn y bobl ifainc yn yr ardal a rhai o'r bobl hŷn. Dadleuwyd nad oedd dim byd yma i bobl ifainc yn eu harddegau i'w wneud:

"Dydw i ddim yn hoffi'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r pentref yma wedi'i anelu tuag at bobl hŷn – yr henoed ac ati yn hytrach nag anelu at blant neu bobl ifainc yn eu harddegau neu beth bynnag, neu jest pob oed.

Wel y ffaith nad oes unrhyw beth i'w wneud. Does dim clybiau nos neu unrhyw beth fel 'na na fyddai'r bobl hŷn yn ei hoffi.

Onid eto ar gyfer pobl hŷn mae'n debyg bod 'na... dwi'n gwobod y gallwn fynd iddyn nhw hefyd, ond mae 'na bethau fel bingo a gyrfa chwist. Dwi'n gwobod y gallwn ni fynd iddyn nhw ond dydi o ddim wir ... dydi o ddim wir yn y pethe mwya deniadol."

"Ryden ni bob amser yn cwyno nad oes unrhyw beth i'w wneud a phryd rydech chi'n wirioneddol meddwl am rywbeth i'w wneud, chi methu.

Onid y peth yw yn fan'ma, dwi ddim yn meddwl y gallech chi wneud rywbeth heb ddifetha'r ardal; fel y dywedsoch chi allwch chi ddim gollwng sinema yma, ond dyna rywbeth yr hoffem ei wneud.

le.

Onid fydddech chi ddim yn gallu gwneud hynny yma. Dwi ddim yn meddwl bod unrhyw beth y byddem yn hoffi ei wneud y bydddech yn gallu ei wneud yma heb ddifetha ...

Yr oeddem ni'n arfer cael disgos, wyddoch chi, y rhai oedd yn arfer bod, ond mae hynny wedi stopio bellach ac yr oedd hynny'n drueni, doedd, achos ro'n nhw'n bethau iawn, doedden nhw?

Oedden ni ddim yn arfer cael sinema yma hefyd?

Oedden, yn doedden.

Yr oedden nhw'n arfer dangos ffilmiau hefyd.

Mae'r holl offer yn dal yma, yn dydi?

Fel y taflunydd.
Ydyn, ydyn.
Os byddai yna ffilm dda ymlaen, ie.
Os oedden nhw'n ffilmiau call, de.

Mae hi fel petai unwaith i ni gyrraedd ein harddegau fe stopiodd bopeth.
Does dim sinemâu a does dim disgos ers hynny.
Dim gwasanaeth bws.
Dim bysiau."

Hyd yn oed pan oedd y bobl ifainc yn gwneud rhywbeth creadigol, caent eu hanwybyddu neu eu beirniadu:

"Fe wnaethon ni brosiect ffotograffiaeth, a'u hargraffu nhw i gyd allan yn daclus ac fe gawson ni arddangosfa fawr yn y neuadd, ac fe wahoddon ni bobl i ddod draw i weld, dyna be wnaethon ni. Dwi'n meddwl i bump o bobl ddod yno, a ninnau'n meddwl 'ar ôl yr holl ymdrech'. Ac mae'n siŵr mai dim ond rhieni pobl oedd y rheini, yndé?
Ie, a neb o'r pentref sy'n rhyw ddweud o mae'r bobl ifainc o gwmpas y lle 'ma, maen nhw'n gwneud hyn a'r llall. Wnaethon nhw ddim dod i weld ein bod ni wir yn gwneud rhywbeth yn y clwb ieuentid. Maen nhw jest yn ein beirniadu ni pan dyden ni ond yn loetran o gwmpas ar y Parc neu rywbeth, a wnaethon nhw ddim dod i weld pan wnaethon ni rywbeth cynhyrchiol, doedd ganddyn nhw ddim diddordeb."

"Dwi'n meddwl ein bod dan y lach am fod yn swllyd neu'n ddinistriol neu rywbeth, ond os yden ni'n chwarae pêl-droed ac ryden ni'n torri ffenestr mi gawn ni wedyn ein labelu am oes fel rhywun sy'n torri ffenestr.
Mae o dros ben llestri braidd."

"Dwn i'm, debyg nad ydech chi'n gweld y bobl yma i'ch wyneb, rydech chi jyst yn clywed pobl yn siarad gyda phobl eraill o chi'n gwobod y bechgyn 'na oedd yn y Parc neithiwr yn gwneud uffern o sŵn a bla bla bla a chwarae teg be arall sy yne i ni ei wneud?
Wel yr oedden ni yn y clwb ieuentid un noson ac yr oedden ni ar y cae pêl-droed, ac yr oedden ni'n chwarae rownderi ac yr oedden ni'n cael hwyl ond do, mi wnaeth pobl gwyno'r noson honno.
Do.
Oedden.
Yr oeddwn wrth fy modd â rownderi.
Oedd, yr oedd hwnnw'n cŵl."

"Mae ganddyn nhw ryw fath o bwyllgorau lle maen nhw'n dweud na chewch chi mo hwnnw, chewch chi mo hynny, chewch chi mo hyn."

Does dim sŵn. Chi jest yn rhyw glywed amdany'n nhw yn hytrach na'u gweld go iawn."
"Wedi'r cwbl dyden ni ddim eisiau mynd allan a thorri popeth a'i roi ar dân.
Does yna ddim byd i'w dorri a'i roi ar dân be bynnag."

Cynlluniau i'r Dyfodol

Ar wahân i un cyfranogwr, a oedd yn bwriadu mynd i weithio ar fferm y teulu, yr oedd y grŵp yn mynd i adael yr ardal i ddilyn gyrfaeodd. Yr oeddynt yn dadlau, ar wahân i ffermio a rhywfaint o waith yn y gwesty a'r siopau yn Llyn Efyrynwy, nad oedd ganddynt unrhyw ragolygon cyflogaeth yn yr ardal:

"Mynd i rywle arall, gobeithio.
Hoffwn i weld y byd.
Byddai'r rhan fwyaf o bobl ein hoed ni yn dweud eu bod yn mynd i fynd a gadael. Mae rhywun isio bod yn blisman; mae rhywun eisiau mynd i Awstralia am flwyddyn. Mae un person jest eisiau mynd o'ma.
Cyn gynted ag y gall."

Yr oedd y sylwadau diwethaf yn ymwneud ag effeithiau posibl cau'r ysgol. Yr oeddynt yn rhagweld cymuned wedi'i phoblogi â phobl wedi ymddeol i'r ardal, wedi'u denu gan y dirwedd:

"Dwi'n meddwl pan fydd yr ysgol yn cau, fyddan nhw ddim yn cael unrhyw deulu newydd yn symud i mewn, felly bydd llai a llai o bobl ifainc yma.
Pentref hen bobl.
Ie, yr henoed."

"Ac mae'n siŵr y mwyaf o hen bobl fydd yma, y lleiaf fydd teuluoedd newydd yn awyddus i ddod i mewn oherwydd y bobl hŷn. Does 'na ddim llawer o blant eraill iddyn nhw chwarae efo nhw, y math hynny o beth.
Ac os nad oes ysgol fydden nhw ddim yn dod achos bydd rhaid iddyn nhw anfon eu plant...
Yn bell i ffwrdd.
Dim gwaith yma chwaith, felly fyddan nhw ddim yn meddwl dod yma ar gyfer gwaith na'r ysgol chwaith, ond os yw'r ysgol yn cau hefyd, a does dim gwaith."

"Hyd yn oed nawr, mae 'na lawer mwy ohonyn nhw nag sy yna ohonon ni yn ein harddegau."

11.4 Ardal astudiaeth Clydau

Yr oedd y rhan fwyaf o'r bobl ifainc yn ardal astudiaeth Clydau yn mynychu Ysgol y Preseli yng Nghrymmych, sef pentref sylweddol sydd ychydig y tu allan i ardal yr astudiaeth. Mae gan Ysgol Preseli ddalgylch mawr, ac mae Crymmych, sydd â chanolfan hamdden yn ogystal ag ysgol, yn tueddu i fod yn ganolbwynt sy'n denu pobl ifainc o ardal gymharol eang.

Grŵp ffocws ieuencid Clydau

Cynhaliwyd grŵp ffocws Clydau Ysgol y Preseli yng Nghrymmych gyda'r nos ar Ebrill 30^{ain} 2009. Daeth chwech o bobl ifainc yn eu harddegau yno, rhai yn ferched a rhai yn fechgyn. Yr oedden nhw naill ai'n 15 neu'n 16 oed. Yr oedd rhai o'r grŵp yn byw yng Nghrymmych, ac eraill mewn pentrefi yn ardal astudiaeth Clydau. Cynhaliwyd y drafodaeth yn Gymraeg. Yr oedd cynrychiolwraig o Aelwyd Crymmych, sef grŵp ieuencid lleol a drefnodd y cyfarfod, hefyd yn bresennol, ond ni chymerodd hi ran.

Manteision bywyd gwledig

Gallai aelodau'r grŵp weld manteision byw mewn amgylchedd gwledig:

"Mae'n llawer tawelach o gwmpas fan hyn, ac mae llai o drafnidiaeth, felly byddwn i'n dweud ei fod yn weddol ddiogel.

Dringo'r mynyddoedd a mynd allan i'r awyr agored.

Gallwch hefyd gymysgu â phobl sy'n hŷn na chi, oherwydd bod cyn lleied o blant yn yr ardal, mae pob un ohonom yn tueddu i gymysgu beth bynnag yw ein hoed.

Pan ydych yn byw mewn pentref rydych chi'n tueddu i adnabod pawb, ond mewn trefi mwy fyddech chi ddim yn adnabod llawer o bobl."

Câi'r ffaith fod yr ardal â phoblogaeth wasgaredig ei gweld yn ffactor gadarnhaol o ran cael rhwydweithiau cymunedol agos a chymryd rhan mewn gweithgareddau lleol:

"Rwy'n credu fod y gymuned yn llawer agosach yma achos fod llai o bethau i'w gwneud, felly unrhyw beth sydd yma, mae pobl yn tueddu i wneud hwnnw."

Yn yr un modd, gallai elfen anghysbell yr ardal o ganolfannau siopa mwy gael ei ystyried yn fantais:

"...Ond mae hefyd yn braf gallu teithio mas o'r ardal a mynd i siopa a gwneud diwrnod ohoni."

Anfanteision bywyd gwledig

Yn gyffredinol, fodd bynnag, y ffaith fod yr ardal yn eithaf anghysbell sy'n cael ei hystyried yn anfantais:

"Mewn ardaloedd mwy trefol rydych chi'n gallu cerdded yn rhwydd i'r siop, ond yma mae'n rhaid i chi deithio 20 milltir neu fwy jest i fynd i siopa, neu i fynd allan am bryd o fwyd neu rywbeth..."

"Mae fy ffrindiau i gyd yn byw filltir i ffwrdd felly mae'n eithaf anodd cwrdd â nhw.

Os ydych yn byw ym Mlaenffos, yna mae'n rhaid i chi gael car i fynd i'r cyfleusterau hyn beth bynnag.

Gyda'r nos does dim llawer i'w wneud o gwmpas fan hyn, mae gennym glwb rygbi, ond ar wahân i hynny does dim llawer o weithgareddau o gwmpas yma, fel clybiau dawnsio neu bethau fel hynny.

Mae'r siopau a'r bwytai a'r caffis yn llawer pellach i ffwrdd, ond mewn tref neu ddinas byddai gennych fwyty Indiaidd neu Tsieineaidd ar garreg eich drws."

Newidiadau yn yr ardal leol

Yr oedd aelodau'r grŵp wedi sylwi ar rai newidiadau yn yr ardal. Mae'n debyg fod y ganolfan hamdden wedi cael ei hadnewyddu:

"Mae'r ganolfan hamdden wedi cael ei gwella'n ddiweddar ac mae'n llawer gwell erbyn hyn."

Eto yr oedd ganddynt farn a phrofiadau gwahanol o'r siopau yn yr ardal leol. Ar y naill law yr oedd Crymmych wedi gwella:

"Yng Nghrymmych, mae gyda chi dipyn o siopau bellach - mae gyda chi Siop Sian, Beth's baguettes a sawl tafarn hefyd."

Ond ystyrid bod canolfan drefol gyfagos wedi dirywio, gan felly olygu taith hyd yn oed yn hirach er mwyn siopa a mynd i glybiau:

“O ran siopa, byddai'n rhaid i chi fynd i Gaerfyrddin nawr achos fod Aberteifi wedi mynd â'i ben iddo braidd - Woolworths wedi cau.”

“Mae Aberteifi wedi mynd yn eithaf gwael o ran llefydd i fynd allan - does 'da fe ddim llawer o glybiau y gallwch fynd iddyn nhw - mwy na thebyg mae 'na lefydd gwell i fynd iddyn nhw yng Nghrymmych.”

Bywyd cymdeithasol pobl ifainc yn eu harddegau

I'r grŵp hwn o bobl ifainc, yr oedd bywyd cymdeithasol yn troi o gwmpas clwb ieuencid, ffermwyr ifainc, gweithgareddau diwylliannol a phartion:

“Rydyn ni'n dod i'r clwb ieuencid bob wythnos ar ddydd lau. Rwy'n hoffi canu, felly, yn dibynnu ar adeg y flwyddyn, byddaf yn ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod, mynd i ymarferion ar ôl gwaith. Ar wahân i hynny, dydw i ddim yn gwneud llawer i fod yn onest – rwy'n dod i'r clwb ieuencid.

Dydw i ddim yn gwneud llawer iawn - mi wna i ddod i'r grŵp ieuencid bob wythnos, gwyllo'r teledu adre gyda'r nos, chwarae ychydig o gerddoriaeth, cymdeithasu – dyna'r cyfan go iawn.”

“Mae'r clybiau ffermwyr ifainc yn eithaf cryf yn yr ardal - mae un yn Eglwyswrw a Clunderwen ac maen nhw'n cwrdd bob wythnos.

Rwy'n mynd i'r clwb ffermwyr ifainc yn Hermon bob nos Lun. Rydyn ni'n cael llawer o gystadlaethau canu a grwpiau actio.”

“Mae yna hefyd grwpiau ieuencid eraill yn Ewenni a Maenclochog, ac er bod y grŵp ieuencid yng Nghrymmych yn llawer mwy na'r ddau yno, rydyn ni weithiau yn dod at ei gilydd. Mae'n neis iawn pan fyddwn yn ymuno â grwpiau eraill – rydyn ni'n eu hadnabod yn bur dda gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn ein hysgol be bynnag, felly mae'n gyfeillgar iawn...”

“Wel, mae 'da ni lawer o bartion pen-blwydd yn ddeunaw oed ar y penwythnosau ar hyn o bryd. Rydyn ni i gyd yn eithaf agos yn yr ysgol, felly rydyn ni'n cael ein gwahodd i nifer o bartion. Caiff y rhan fwyaf o'r partion eu cynnal yn Nant-y-Ffin, sy'n westy tua ugain munud i ffwrdd.

Rydyn ni naill ai yn trefnu aros gyda ffrindiau neu weithiau rydyn ni'n trefnu bysiau mini i fynd â ni adref.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn tueddu i fynd mas i Gaerfyrddin i gael noson mas, neu fel y dywedais, rydyn ni'n cael partion pen-blwydd ddeunaw oed.”

Yr oedd y sinema agosaf yn Aberteifi, ond nid oedd mor boblogaidd â hynny. Hefyd, yr oedd bywyd cymdeithasol yn tueddu i fod wedi'i strwythuro yn ôl ardaloedd dalgylch yr ysgol ac nid oedd Aberteifi wir o fewn radiws cymdeithasol y grŵp hwn:

“Mae 'na sinema yn Aberteifi, ac rydyn ni'n mynd iddi, ond weithiau mae'r ffilmiau yn dod allan yn eithaf hwyr.”

“Dydw ni ddim wir yn cymysgu gyda llawer o bobl yn Aberteifi – maen nhw mewn sir wahanol i ni felly dydw ni ddim yn wir yn chwarae rygbi yn eu herbryn neu unrhyw beth fel yna.

Bydden ni ond yn mynd i lawr i Aberteifi os ydyn ni am fynd i'r sinema neu os oes gyda chi wejen lawr yno neu ryw beth fel 'na. 'S da fi ddim wejen lawr 'na, cofiwch! Rydyn ni'n tueddu i gymysgu llawer mwy â phobl o Abergwaun.

Ydyn, ac achos fod cymaint o bobl yn dod i ysgol Preseli o ran isaf y sir, yna maen nhw'n tueddu i adnabod pobl o ysgol Abergwaun.”

Gweithgareddau yn ymwneud â'r ysgol

Er bod yr ysgol, i raddau helaeth, yn fan cyfeirio i'r bobl ifainc hyn, eto nid oedd yn cynnig llawer o weithgareddau ar ôl ysgol. Yr oedd hyn oherwydd bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gorfod teithio cryn bellter i'r ysgol:

“Ac os ydych yn aros ar ôl, yna mae rhai ohonon ni yn byw mor bell i ffwrdd nes ei bod yn amhosibl cyrraedd adref wedyn.

Does dim digon ohonon ni'n byw yng Nghrymmych ei hun i gyfiawnhau cynnal clwb ar ôl ysgol, ac felly byddai'n rhaid i chi ddibynnu ar bobl eraill yn teithio o bellach i ffwrdd.”

Gweithgareddau chwaraeon

Yr oedd rhai o'r grŵp yn cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu, ac yr oedd rhai yn ffafrio dull mwy achlysurol o gymryd rhan mewn chwaraeon:

"I'r clwb rygbi y mae'r rhai hŷn i gyd yn tueddu i fynd, ac unwaith yr ydych chi wedi troi un ar bymtheg dyna pryd y gallwch wir ddechrau mynd yno, achos mae 'da chi'r tîm ieuencid yno ac mae 'da chi gryn dipyn o ferched sy'n mynd i wylïo'r gemau.

Rwy'n gwneud llawer o chwaraeon, felly bydda i'n chwarae hoci a mynd i wylïo rygbi, ac yn defnyddio'r cyfrifiadur.

Rydyn ni'n mynd i fyny i'r clwb rygbi cryn dipyn gyda'r nos, ac os yw'r tywydd yn caniatáu mae llawer ohonon ni yma yn mynd i gicio a chwarae ar y cae.

Mynd allan i chwarae pêl-droed gyda ffrindiau. Yn Hermon, does dim llawer i'w wneud i fod yn onest."

Awgrymiadau am welliannau

Yr oedd y rheiny yn y grŵp a oedd yn byw mewn pentrefi anghysbell yn dadlau bod angen mwy o gyfleusterau lleol:

"Rydyn ni ddigon agos i Aberteifi ac mae digon o bethau i'w wneud yno, ond petai gyda ni rywbeth yn yr ardal hyn oedd yn fwy personol i ni, yna byddai hynny'n neis a byddai'n llawer mwy diogel hefyd.

I mi, rwy'n credu y byddai'n beth da cael lle penodol lle gallwch fynd i gwrdd â ffrindiau, yn hytrach na gorfod dod i'r ysgol, neu fynd i'r clwb rygbi. Ry'n ni angen rhywbeth fel neuadd. Ie, rhywbeth fel neuadd gydag ardal fawr y tu allan, ac yn hytrach na chael ystafelloedd sydd eisoes wedi'u haddurno i'w defnyddio, dylen ni gael y cyfle i'w wneud i fyny ein hunain, er mwyn inni fedru dod â'n pethau ein hunain a'i wneud yn fwy cyfforddus ac i'n chwaeth ni. Rwy hefyd yn meddwl y dylid cael mwy nag un lle yno, fel nad oes gormod o grwpiau yn anghytuno."

Dadleuwyd hefyd fod gofyn am well cyfleusterau chwaraeon lleol:

"Mae angen mwy o gyfleusterau chwaraeon yn yr ardal arnon ni - mae gyda ni gyrtiau tenis a chae pêl-droed, sydd mor bell o'r pentref fel nad oes unrhyw un yn gallu ei gyrraedd yn hawdd iawn."

Pethau sy'n peri problemau

Yr oedd y grŵp hwn yn yr oedran lle yr oeddynt yn dechrau cael swyddi rhan-amser. Fodd bynnag, yr oeddynt yn cael problemau wrth sicrhau'r math hwn o gyflogaeth:

"Ydyn, rydyn ni'n dechrau chwilio am swyddi nawr, ond mae cymaint ohonon ni ambwyti fan hyn yn chwilio am waith nes ei fod yn eithaf anodd.

Hefyd, mae 'da chi bobl ifainc yn eu harddegau sy'n hŷn na ni yn chwilio am waith hefyd, felly mae prinder swyddi yn yr ardal.

Mae'r teithio yn achosi rhywfaint o broblem hefyd, oherwydd dydych chi ddim yn gallu teithio'n rhy bell..."

Cafwyd yr unig awgrym o densiwn rhwng pobl ifainc a phobl hŷn yr ardal yn ystod trafodaeth am y posibilrwydd o ddarparu neuadd ar gyfer pobl ifainc i'w defnyddio:

"Oes, mae 'da ni un yma yn y pentref a hefyd yn y pentrefi cyfagos, fel Boncath. So nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer fawr o ddim - maen nhw'n cael bowls yno.

Dylen nhw gael eu defnyddio gan bobl ifainc yn yr ardal go iawn, ond mae'n eitha hen ffasiwn, a does 'na ddim llawer o gyfleusterau yno go iawn - dydyn nhw yn y bôn yn ddim byd heblaw neuaddau gwag.

Petaen ni'n gofyn am gael rhoi ein stamp ein hunain arno, yna byddai'r hen bobl yn cwyno am y lliwiau llachar.

Fyddem ni ddim wir yn gwybod pwy i siarad gyda nhw (am y neuadd) i fod yn onest."

Hyd yn oed wedyn yr oedd y grŵp hwn o bobl ifainc yn ystyriol o'r cenedlaethau hŷn:

"Allen ni ddim wir ofyn am ddefnyddio'r neuaddau, achos dyna lle mae'r hen bobl yn tueddu i fynd, ac allen ni ddim wir gymryd hynny i ffwrdd oddi wrthyn nhw."

Y prif fater a deimlir a oedd yn achosi problem oedd y mewnlifiad o fewnfudwyr Saesneg i'r ardal. Dadleuwyd nad oeddynt yn tueddu i integreiddio â chymunedau lleol, a'u bod yn cael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg:

"Oes, mae 'na lawer o Saeson wedi symud i'r ardal i ymddeol.

Ac mae wir yn effeithio ar yr ardal. Mae 'na bobl newydd symud i mewn drws nesaf i ni, a dydyn ni ddim yn rhy hoff ohonyn nhw i fod yn onest.

Cymraeg mae'n siŵr oedd y brif iaith dros y deng mlynedd diwethaf, ond mae'n cael ei siarad llai bellach.

Dyw'r bobl sy'n symud i mewn i'r ardal ddim yn gwneud llawer iawn yn y gymuned ac maen nhw'n cadw ar wahân i bawb arall.

Rwy'n meddwl fod y gymuned hon wedi arfer mwy â chael pobl sy'n siarad Cymraeg, gan fod y bobl Saesneg, rwy'n credu eu bod nhw'n teimlo ychydig fel outcasts os ydyn nhw'n gwneud i ni droi i'r Saesneg."

Cynlluniau i'r Dyfodol

Yr oedd rhai o'r grŵp hwn am fynd i'r brifysgol; yr oedd eraill am deithio; ac eraill i ddsygu:

"Hoffwn i symud i Gaerdydd i astudio cerddoriaeth ac yna mynd i fod yn athrawes. Ie, wel hoffwn i fynd i ffwrdd i'r Brifysgol ac yna dod yn ôl i'r ardal i ddsygu.

Hoffwn i aros i'r chweched dosbarth ac yna ar ôl hynny hoffwn i fynd i deithio rownd y byd - hoffwn i fynd i America i brifysgol neu rywbeth i astudio naill ai cerddoriaeth neu gelf.

Hoffwn i fynd i brifysgol i astudio pensaernïaeth, felly byddwn yn hoffi naill ai symud i rywle fel Caerdydd, achos does 'na ddim llawer o swyddi pensaernïaeth ambwyti fan hyn. Falle yn y diwedd hoffwn i ddod 'nôl i'r ardal hon, ond dwi ddim yn gwybod."

Serch hynny, yr oedd y rhan fwyaf o'r grŵp yn bwriadu dychwelyd i'r ardal yn ddiweddarach yn eu bywydau.

"Eto rwy'n credu, hyd yn oed petawn i'n mynd i ffwrdd i America, byddwn yn dal eisiau dod yn ôl i'r ardal hon – dyma ble mae fy ngwreiddiau ac rwy'n adnabod pawb yma, felly dyma lle byddaf yn y diwedd rwy'n meddwl."

"Yr ardal ei hun debyg a'r ffaith 'mod i'n adnabod pawb yma. Mewn tref neu ddinas fwy fyddwn i ddim yn adnabod unrhyw un, felly fyddai 'da fi neb i gymdeithasu gyda nhw. Os byddwn yn gweithio yno, yna byddai athrawon eraill yno, ond rwy'n credu y bydden nhw'n hŷn a bydde 'da nhw ddiddordebau gwahanol i mi."

"Ar ôl gorffen y chweched dosbarth, hoffwn i fynd i'r brifysgol, naill ai i Gaerdydd neu rywle arall yng Nghymru - ac yna byddaf yn dod 'nôl mae'n siŵr i'r ardal hon i ddod o hyd i swydd achos rwy'n hoffi'r ardal."

"Hoffwn i fynd i brifysgol ac yna mynd i deithio rownd y byd, ac yna dod 'nôl i'r ardal hon."

"Rwy'n bwriadu aros ar gyfer y chweched dosbarth ac yna mynd i'r Brifysgol i astudio chwaraeon a dod o hyd i swydd yn yr ardal hon – byddai'n braf dod yn ôl i'r ardal hon ar ôl byw

yn rywle arall a gweld rhywfaint o amrywiaeth."

Yr oedd aelodau'r grŵp hwn yn hoffi'r ardal lle maent yn byw. Yn ogystal â ffactorau megis y gymuned a'r amgylchedd gwledig, soniwyd am gynnal yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yn rhesymau dros ddychwelyd:

"Rwy'n credu, dim ond y ffaith mai hwn yw'r lle cawsom ein magu a chymuned glòs hefyd. Rwy'n credu y byddai'n gymaint o drueni pe byddai pobl ifainc yn symud o'r ardal hon, gan fod eich bod wedyn jyst yn cael pobl Saesneg yn symud i mewn. Rydych bob amser yn gwerthfawrogi lle rydych wedi cael eich magu."

"A'r iaith Gymraeg hefyd."

"Ie, achos rydych yn cael cynifer o bobl sy'n siarad Cymraeg yn symud o'r ardal i'r dinasoedd mwy, ac yna pobl Saesneg yn symud mewn i'r pentrefi bychain gwledig, felly rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni ddod yn ôl i'r ardal i gynnal y Gymraeg a'r ysgolion bach. Dyma lle rwyf am fagu teulu."

11.5 Ardal astudiaeth Aberdaron

Er bod pob un o'r pedair ardal astudiaeth yn bellennig i raddau, yr oedd gan Aberdaron gasgliad unigryw o amgylchiadau. Dyma'r aneddiad pellaf ym mhenrhyn Llŷn, yr oedd yn gryn bellter o'r dref agosaf, sef Pwllheli; yr oedd wedi'i amgylchynu ar dair ochr gan y môr; yr oedd yma nifer sylweddol o dai haf oedd yn wag heblaw am fisoedd yr haf; a deuai mewnlifiad o ymwelwyr yma yn ystod yr haf. Fe allai'r amgylchiadau hyn beri problemau i bobl ifainc yr ardal.

Grŵp ffocws pobl ifainc Aberdaron

Cynhaliwyd grŵp ffocws ieuencid Aberdaron gyda'r nos ar Fai 10^{fed} 2009 yn Ysgol Botwnnog, ysgol leol. Daeth chwech o bobl ifainc yn eu harddegau yno, rhai yn ferched a rhai yn fechgyn. Yr oeddynt naill ai'n 15 neu'n 16 oed. Cynhaliwyd y drafodaeth yn Gymraeg. Er bod staff addysgu'r ysgol yn yr adeilad, nid oeddent yn bresennol yn y drafodaeth.

Manteision bywyd gwledig

Yr oedd y bobl ifainc hyn yn eu harddegau yn gwerthfawrogi rhwydweithiau cymunedol clòs a heddwch a thawelwch eu hardal wledig.

“Dwi’n meddwl bod y gymuned rownd lle ’ma yn llawer mwy agos-atoch achos fod pawb yn adnabod ei gilydd fwy neu lai, a dydw i ddim yn siŵr fod hynny’n wir mewn rhywle fel Pwllheli.”

“Mae’n dawel iawn yma. Mae hynny’n neis iawn, dydi?”

“Rydw i’n dal yn hoff o fyw yma er gwaetha hynny – mae gynnwng ni fwy o ryddid yma dwi’n meddwl i fynd allan a gwneud be yden ni eisiau’i wneud.”

Anfanteision bywyd gwledig

Yr oedd yna, fodd bynnag, anfanteision cydnabyddedig i fyw mewn ardal wledig. Yr oedd y rhain yn tueddu i ymwneud â diffyg cyfleusterau yn yr ardal, a’r pellter a’r amser teithio i gael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau:

“Does dim siopau rownd fan’ma. Does dim byd yma go iawn – mae’n rhaid i ni deithio i Bwllheli i’r ganolfan hamdden.”

“Yr oedd fy mrawd yn gwneud gwaith saer ac yr oedd o’n gorfod teithio’r holl ffordd i Ddolgellau bob bore - byddai’n codi am bump a fydda fo ddim yn dod ’nôl tan tua saith yn y nos. Rydach chi jest wedi blino’n lân ar ôl teithio ar y bws am ddwy awr bob ffordd.”

“Byddai’n llawer gwell gen i fyw yn rhywle sydd ag ychydig mwy o fywyd ynddo – jest rhywle sydd â siopau da a lle mae gynnwng chi bopeth o’ch cwmpas, yn hytrach na gorfod cerdded pum milltir i gyrraedd unrhyw le. Ond dim lle mae’r chavs i gyd yn byw chwaith! Ond mae fy mrawd yn byw lawr yn Abertawe, chi’n gweld, a phan dwi’n mynd i lawr i’w weld o dwi jest yn teimlo’n llawer gwell achos eich bod chi’n gallu cerdded i bobman, ac rydych chi’n cael mwy o gyfleoedd yn y llefydd hynny hefyd, yn enwedig o ran pethau fel gwaith.”

Dadleuwyd bod rhai aneddiadau yn ardal yr astudiaeth dan hyd yn oed fwy o anfantais o ran bod yn anghysbell ac yn brinnach ei phoblogaeth na Aberdaron. Er enghraifft, Rhoshirwaun a Rhiw:

“Dim ffiars, does ’na’m byd fyny fan’na! Mae gynnwng chi dŷ fy nain, ein tŷ ni, yna tŷ [ENW] lle mae ganddyn nhw tua chant o bobl, ond dyna ni.

Mae’n well na Rhiw be bynnag – byddan nhw’n tynnu Rhiw oddi ar y map yn eithaf buan!

Wel, pan fyddwch yn mynd trwy Roshirwaun dydach chi ddim yn sylweddoli ei fod o’n bentref – rydach chi’n gweld ein tŷ ni ar y ffordd, ond does ’na ddim byd i ddangos lle rydach chi - gallech fod yn unrhyw le!”

Newidiadau yn yr ardal leol

Yr oedd y grŵp wedi sylwi ar newidiadau yn yr ardal leol, yn gysylltiedig â cholli poblogaeth a gwasanaethau:

“Yn Rhiw, dim ond dau deulu sydd yn y pentref nŵan, ac mae llawer o dai haf, cartrefi hen bobl, neuadd bentref ac mae hyd yn oed y siop wedi cau nŵan, felly does ’na ddim byd yno.

Yr oedd siop yn arfer bod yn Rhoshirwaun, ond ers i honno gau mae’r hen bobl yn yr ardal i gyd yn gorfod mynd i lawr i Aberdaron i nôl eu pensiwn.”

Mae’n debyg bod ambell i wyl yn arfer cael ei chynnal yn yr ardal ond mae’r rhain wedi dod i ben:

“O ie, yr oedd yna rywbeth o’r enw’r ‘pentref coll’ yn Rhoshirwaun – yr oedd ganddyn nhw’r pebyll tepees yma ac yr oedd nhw’n arfer gwahodd cantorion a bandiau Cymraeg i wneud gigs acwstig.

Dwi’n meddwl eu bod nhw’n dal i’w cynnal nhw, ond maen nhw fyny yn ochra Caernarfon nŵan...”

“Yr oedd ganddyn nhw rywbeth o’r enw’r ‘traeth coll’ hefyd - ar Borth Iago, sy allan yng nghanol unlle ac yr oedd ganddyn nhw’r holl fandiau yma’n chwarae ar y traeth ac yr oeddech chi’n gallu gweryslla yno, ond cafodd ei ganslo achos doedd ganddyn nhw ddim trwydded.”

Yn ogystal, teimlid bod yna newidiadau a cholli gwasanaethau yn y trefi a’r pentrefi mwyaf oedd agosaf atynt:

“Does ’na’m byd lawer i’w wneud ym Mhwillheli mewn gwirionedd achos ma’ popeth newydd gau – mae Woolworths wedi cau. Mae ’na un siop ddillad neis yno ac mae honno’n gwerthu dillad neis iawn, ond mae rhai eraill yn eithaf drud felly allwn ni ddim prynu unrhyw beth mewn gwirionedd. Fel arfer dwi’n mynd i siopa

a phrynu dillad yng Nghaerdydd, pan ydan ni'n mynd i lawr i weld fy mrawd sy'n byw i lawr yn y de."

"Mae 'na le yr oedden ni'n arfer mynd iddo i wneud byrddio-mynydd i lawr yn Abersoch, ond dwi'n meddwl fod hyd yn oed hwnnw wedi cau erbyn nwan achos maen nhw wedi tynnu'r arwydd i lawr."

Bywyd cymdeithasol pobl ifainc yn eu harddegau

Yr oedd pobl ifainc yn eu harddegau yn yr ardal yn cymdeithasu mewn clybiau ieuencid, gyda'r ffermwyr ifainc neu'n teithio i glybiau ym Mhwillheli:

"Mae 'na glwb ieuencid sydd yn yr ysgol gynradd yn Aberdaron, ond mae hwnnw fel arfer ar gyfer y plant iau.

Mae 'na glwb ffermwyr ifainc yn Rhiw - yr oeddwn i'n aelod yno y llynedd, ond dydw i ddim wedi ymuno eleni.

Dwi'n mynd i glwb y ffermwyr ifainc, dwi'n mynd i glwb dawnsio ym Mhwillheli bob wythnos..."

Yr oedd y lleill yn gwneud gweithgareddau gwledig traddodiadol a gweithgareddau corfforol eraill, er y soniwyd eto am bellter fel problem:

"Dwi'n mynd i glwb ffermwyr ifainc hefyd, ac weithiau rydan ni'n mynd i saethu hefyd, tydan? Mae 'na glwb saethu yn Rhiw, chi'n gweld, ond y drafferth yw ein bod ni'n gorfod teithio'n bell i fynd i'r pethau yma."

"Wel, mae rhywle yn Llanystumdwy yr ydan ni'n mynd iddo sydd â llawer o weithgareddau awyr agored, ond mae'n rhy bell i deithio yno a byddai gymaint yn haws pe byddai'n agosach. Wedyn mae Hafan y Môr ym Mhwillheli newydd osod y lle gwaith rhaffau yma ac mae'n dda iawn, ond mae'n dal yn bell, tydi. Felly, rhywbeth fel'na ar gyfer y bechgyn sy'n agosach i fa'ma."

Yn ystod misoedd yr haf âi'r bobl ifainc hyn yn eu harddegau i draethau lleol:

"Does yna fawr i'w wneud rownd yma yn yr haf - rydan ni jest yn mynd i'r traeth bob dydd, a dyna beth mae pawb yn ei wneud go iawn."

Er bod rhai wedi mynd ati'n gynnar i ymwneud â gweithgareddau oedolion:

"Dwi'n mynd allan i'r dafarn yn Sarn - mae ganddyn nhw ddwy dafarn yno. Ond dydi hi ddim yn dda iawn yno dyddiau hyn achos eu bod wedi mynd yn eitha llym ynghylch yfed dan oed. Mae Abersoch wedi troi i fod dros 21 oed hefyd, felly allwn ni ddim wir fynd i fan'no. Ro'n i'n arfer mynd yno."

Yr oedd bwyta allan ym mhentref gwyliau cyfagos Abersoch yn boblogaidd:

"Mae yna lawer o lefydd bwyta neis yn Abersoch - mae ganddyn nhw lawer o bethau gwahanol yno, fel bwyd Indiaidd, Tsieineaidd, Groeg a'r math yna o beth. Achos yn Aberdaron dim ond siop sglods sy gynnon ni ac maen nhw'n codi crochris - maen nhw'n codi £2 am ddogon o sglodion sydd heb eu coginio'n iawn."

Ac yr oedd gan rai o'r grŵp swyddi rhan-amser:

"Dwi'n gweithio yn Ty Newydd, weithiau gyda'r nos ac ar benwythnosau."

Er bod yna broblem wrth gael gwaith rhan-amser:

"Wel, yr unig lefydd yn Aberdaron ydi'r Llong a'r Ty Newydd, ac os ydach chi eisiau mynd i Bwillheli byddai'n costio gymaint a byddai'n rhaid i chi fynd ar fws, sy'n cymryd tua thair awr, felly rydym yn llythrennol yn sownd yn y pentref. A dwi byth yn cael yr oriau lle dwi'n gweithio chwaith."

Gweithgareddau chwaraeon

Yr oedd gweithgareddau chwaraeon wedi'u canoli ar y ganolfan hamdden ym Mhwillheli, ond yr oedd y daith hon yn cymryd amser hir:

"Ie, os ydan ni eisiau mynd i'r ganolfan hamdden gyda'r ysgol mae'n rhaid i ni deithio yn eithaf pell i fynd yno - rydan ni'n mynd yno bob wythnos. Byddai'n braf pe byddai rhywle yn nes er mwyn inni fedru mynd iddo achos byddwn i'n sicr yn gwneud mwy o chwaraeon wedyn. Mae'n cymryd tua hanner awr i gyrraedd yno, ac yna arall hanner awr i ddod yn ôl ac felly mae dwy awr wir yn mynd yn gyflym iawn, a does gynnoch chi ddim llawer o amser yno. O leiaf pe tase fo'n agosach gallen ni gerdded yno."

Rhwydweithio cymdeithasol a chyfathrebu

Câi'r defnydd o ffonau symudol a rhwydweithiau cymdeithasol ar y rhyngwyd eu cyfyngu gan ansawdd y gwasanaeth:

"Mae'r cysylltiad â'r rhyngwyd o gwmpas fan'ma yn ofnadwy.

Ydi, ac mae'r signal ffôn symudol yn eithaf anghyson hefyd.

Ddoe, yr oedd o i ffwrdd trwy'r dydd – anobeithiol.

Yn Aberdaron, dim ond mewn un lle rydych chi'n gallu cael signal – wrth sefyll ar y bont."

Awgrymiadau am welliannau

Dadleuai'r bobl ifainc hyn yn eu harddegau eu bod angen rhywle lleol lle gallent gwrdd i gymdeithasu:

"Rydan ni angen rhywle y gallwn fynd i ymlacio ynddo, yn hytrach na gorfod mynd i grwydro i bobman a mynd i dai ein gilydd – rydan ni angen rhywle y gallwn fynd iddo. Mae 'na gaffis yn Aberdaron, ond dydan nhw ddim yn gyffrous iawn.

Cael rhywle i fynd iddo..."

Yr oeddynt wedi sylwi ar safle posibl:

"Mae yna neuadd bentref yn yr ardal sydd wedi ei adnewyddu'n ddiweddar, ond y cwbl maen nhw'n ei gael ydi'r cyngherddau yma ar gyfer hen bobl - byddai'n llawer gwell pe buasai ganddyn nhw bethau i ni yno. Mae'r neuadd yn gwbl wag y rhan fwyaf o'r amser, fel gallem ei defnyddio'n hawdd – mae'n ddibwynt. Rydan ni wedi ceisio eu cael i gynnal pethau i ni yno, ac mae hyd yn oed Mam wedi bod yn trio, ond dim siawns. Os ydach chi'n meddwl am yrr holl bobl a allai fynd yno, mae'n hollol wirion. Dim ond neuadd bentref gwag ydi hi, ac maen nhw'n cael pobl fel Trebor Edwards yno i ganu, ond tydan ni ddim yn debygol o fynd yno i wrando arno, yn nac 'dan ni?

Dwi'n ei fwynhau o!

Petaen nhw'n trio cael mwy o fandiau, byddai hynny'n well.

Mi yr oedd Bryn Fôn yno ychydig yn ôl, yn doedd?

Dim ond ryw unwaith y flwyddyn mae'n cael ei ddefnyddio mewn gwirionedd.

Yr unig broblem gyda chael rhywun fel Bryn Fôn ydi bod y bobl hyn yn ei hoffi fo hefyd, felly byddai gennych y bobl hyn yno...

Bydde, a pe byddech chi'n trio sefyll i fyny, yna byddech chi'n cael y bobl yma i gyd yn mynd

(ac mae'n sibrwd) 'steddwch i lawr! Steddwch i lawr!"

Teimlent hefyd y dylai'r oedran gyrru gael ei ostwng:

"Gallu gyrru ar hyd y ffyrdd yn iau – dwi'n gyrru ar y fferm dipyn go lew, felly hoffwn i allu gyrru. Ie, dwi'n meddwl y gallech yrru ar hyd y ffyrdd, achos mae'r ffordd yn ymyl tŷ ni mor dawel – gallech chi orwedd ar y ffordd a byddai neb yn gyrru heibio. Dim ond rhyw ddau gar sy'n pasio drwy'r dydd."

Clybiau a'r ysgol

Mae'n debyg nad oedd unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol:

"Be dwi'n feddwl ydi y gallen nhw'n hawdd drefnu ychydig o glybiau i ni yma yn yr ysgol, achos mae gynnoch chi'r holl gyfleusterau yma, ond dydi hi ddim yn edrych fel petai unrhyw un yn gwneud unrhyw beth. Does 'na neb chwaith y gallwn ni siarad â nhw – neb fyddai'n gwrando be bynnag!"

"Rydan ni'n cael gwersi ychwanegol ar ôl ysgol, fel busnes a Sbaeneg, ond does dim byd lawer heblaw am hynny."

Mynegwyd rhywfaint o anffodlonrwydd ynghylch cwricwlwm yr ysgol; y diffyg chweched dosbarth; a rheoli annigonol:

"Mae ganddyn nhw fwy o bynciau yma yn yr ysgol erbyn rŵan, achos fod y rhan fwyaf o'r pethau sydd ganddyn nhw yng Ngholeg Meirion Dwyfor ac yng Ngholeg Menai – byddai'n well pe byddai ganddyn nhw ddosbarth chwech yma mewn gwirionedd.

Dydw i ddim yn gwybod a fyddai hynny'n gweithio yma, achos does yna ddim digon o le i wneud hynny.

Ie, wel dydw i ddim yn dweud y baswn i am aros be bynnag.

Dwi ddim yn gwybod be dwi eisiau ei wneud i fod yn onest. Dydan ni ddim yn cael llawer o help i benderfynu go iawn – mae rhai pobl yn yr ysgol yn cael cyfle i fynd am gyfweiliadau a phethau fel 'na a nhw ydi'r rhai sydd fel petaen nhw'n mynd bob tro – felly mae'r rhai yn y setiau is yn tueddu i fynd cryn dipyn.

Ie, dwi'n gwybod fod yna dipyn o bobl sy'n astudio gwallt a harddwch a'u bod nhw'n mynd ar gyrsiau a phethau, ond pam nad ydan ni'n cael y cyfleoedd hynny hefyd?

Bydd y dewisiadau pwnc yn well y flwyddyn nesaf, achos maen nhw wedi cyflwyno dipyn o rai newydd, yn dydyn, ac maen nhw wedi cael llyfrgell newydd, a dwi'n meddwl y byddan nhw'n cyflwyno fideo-gynadleda hefyd.

Fydd hynny ddim yn gweithio o gwbl, yn na fydd, achos fyddan nhw byth yn gallu rheoli'r stafell ddosbarth. Maen nhw'n gwario'r holl arian yma ar brynu'r pethau newydd yma, ond dylen nhw jest gwella beth sydd ganddyn nhw'n barod."

Pethau sy'n peri problemau

Teimlid bod diffyg cyfleoedd gwaith yn yr ardal:

"Dim ond ffermio - does dim byd arall.

Mae fy mrawd yn dysgu Technoleg ac mae o wedi gorfod symud i lawr i'r de i ddod o hyd i swydd dysgu. Mae fy mrawd arall yn gweithio gyda nhad – aeth o i'r coleg a chael ei gymwysterau ac yr oedd o'n ffodus iawn bod fy nhad yn saer coed, fel arall, byddai'n rhaid iddo fynte symud i ffwrdd hefyd,

Mae gynnoch chi feddygfeydd, ond mae'n rhaid i chi deithio ymhell iawn hyd yn oed ar gyfer y rheiny.

Dwi jyst yn meddwl nad oes yna unrhyw gyfleoedd o gwmpas fan'ma i ni - os ydan ni isio mynd i grŵp actio neu ryweth fel 'na, deudwch.

Does 'na ddim cyfleoedd rownd fan'ma – er enghraifft, fy mrawd – mae o newydd gael ei wneud yn bennaeth adran mewn ysgol yng Nghaerdydd a dim ond 22 ydi o, ond fyddai gynnoch chi ddim siawns o gael y cyfle yma yn fan'ma fydddech chi? Mae ein penaethiaid adran tua chwe deg, yn tydyn nhw!"

"Rydan ni'n cwyno llawer!"

Soniwyd am densiynau lleol rhwng pobl ifainc a phobl hŷn:

"Mae cymaint o bobl yn yr ardal yn cwyno am bethau gwirion iawn, fel pobl hŷn yn cwyno am godi ffensys adeiladu a thorri coed i lawr.

O, y dyn sy'n gwneud yr holl betha 'na efo'r llwybrau cerdded. Mi wnaethon nhw wthio'i delar, yn do.

Ac yr oedden ni'n arfer cael gŵyl bob blwyddyn i lawr ar y traeth yn ymyl Ty Newydd, ond mae hwnnw bellach wedi cael ei ganslo achos bod yr holl hen bobl yn cwyno ac yr oedden nhw'n arfer ffonio'r heddlu, felly yr oedd yr heddlu yn dod i lawr yno. Doedd dim llawer o bwynt iddo yn y diwedd.

Mae'r pentref yn llawn o hen bobl – dyna i gyd mewn gwirionedd.

Ie, chi jyst yn cael yr hen bobl yma yn cwyno - 'O, y bobl ifainc 'ma, o fandaliaeth', a dwi jest yn teimlo fel dweud wrthy'n nhw am ei chau hi."

"Wel maen nhw wedi gofyn i ni sawl gwaith a oes 'na unrhyw beth yr ydan ni isio yn yr ardal, ond mae bob amser yn achos o - 'Na, allwch chi ddim cael hynny!', ac yna maen nhw'n troi rownd a dweud eu bod yn trio helpu pawb o gwmpas lle 'ma, ond dydyn nhw ddim go iawn."

Gallai'r mewnlifiad o ymwelwyr i'r ardal yn ystod yr haf achosi rhai problemau:

"Ie, wel mi wnaethon nhw osod camera CCTV yng nghanol y pentref, achos bod yna dipyn o ymladd yno llynedd.

Do, ond allwch chi ddim gweld llawer trwy'r camerau be bynnag, achos pan wnaeth yr heddlu geisio edrych arno llynedd, allen nhw ddim gweld dim byd drwyddo.

Ac mae pobl yn gor-ddweud pan fydd rhywbeth yn digwydd, achos fe wnân nhw stori fawr, pan mai'r cwbl sy wedi digwydd mewn gwirionedd yw bod ffenestr wedi'i thorri. Maen nhw'n gwneud i bobl ifainc edrych yn wael iawn."

"Dwi ddim yn hoffi'r ffaith ein bod yn cael cymaint o ymwelwyr yn yr haf."

"Ie, ac maen nhw'n parcio ym mhob man ac yn cymryd drosodd ar y ffyrdd yn tydyn. Fyddwn i ddim wir yn mynd i lawr i draeth Aberdaron yn yr haf - byddwn i'n mynd i Borth Iago sy'n llai ac yn ddistawach achos fod y lle yn llawn o Saeson.

Ie, mae'n hynod doniol pan fydd Dad yn mynd i lawr i'r pentref maen nhw wastad yn ei wneud yn flin iawn ac yn diwedd mae o'n colli limpyn efo nhw!

Dydyn nhw jest ddim yn symud allan o'ch ffordd chi, er eich bod yn dweud 'excuse me."

Cynlluniau i'r Dyfodol

Er bod y rhan fwyaf o'r grŵp, ar wahân i'r rhai â chefnidir ffermio, yn bwriadu symud i ffwrdd i chwilio am waith, yr oedd ganddynt deimladau cymysg ynghylch dychwelyd i'r ardal:

"Hoffwn i symud i ffwrdd am ychydig ac yna dod yn ôl, ond wedyn wedi dweud hynny efallai na fyddwn yn ei hoffi dod yn ôl achos ei fod yn rhy dawe!

le, dydw i ddim yn siŵr i fod yn onest. Dydw i ddim wir wedi bod i ffwrdd o fan hyn am fwy nag wythnos, felly fyddwn i ddim wir.

le, wel ffermwyr ydach chi, chi'n gweld, felly dydach chi ddim wir eisiau symud i ffwrdd.

Dwi eisiau mynd i deithio - i China.

Ar ôl gorffen ysgol dwi eisiau mynd i Goleg Meirion Dwyfor i ddosbarth chwech ac yna ceisio mynd i mewn actio.

Mae hi wastad yn braf dod adra, yn dydi.

Mae'n neis mynd i ffwrdd, ond wedyn mae hi bob amser yn braf cael dod adra!

Ydi, dwi'n cytuno. Pryd bynnag rydan ni'n mynd i ffwrdd ar wyliau, dwi bob amser yn falch iawn o gael dod adra."

11.6 Crynodeb

O'r grwpiau ffocws hyn gyda phobl ifainc yn eu harddegau mewn pedair ardal wahanol o berfeddion cefn gwlad Cymru, gellir gweld fod nifer o faterion trawsbynciol. Yr oedd y mwyafrif helaeth o'r bobl ifainc hyn yn hoffi byw yn yr ardaloedd gwledig hyn oherwydd yr amgylchedd a'r heddwch a'r tawelwch; yr un rhesymau a roddwyd gan eu cymrodyr hŷn. Fodd bynnag, dywedodd nifer y byddent yn gadael: er mwyn cael rhagor o addysg; i ennill cymwysterau, ac i gael profiadau newydd. Yn bennaf, fodd bynnag, yr oedd y bobl ifainc ym mhob un o'r pedair ardal yn poeni am y diffyg cyfleoedd cyflogaeth ac yn teimlo y byddai'n rhaid iddynt adael. Yr oedd llawer ohonynt wedi datgan y byddent yn hoffi dychwelyd yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Yn gymdeithasol, dadleuodd y bobl ifainc ym mhob un o'r pedair ardal eu bod wedi'u cyfyngu gan ddiffyg cyfleusterau; gan y nifer fach yn eu grŵp cyfoedion; ac yn bwysicach gan yr angen i deithio pellter hir i fannau lle gallent gael adloniant. Yr oedd pwysigrwydd y rhynggrwyd, band eang a chyfathrebu symudol i'r grwpiau hyn hefyd yn amlwg.

Teimlid hefyd y câi cyfyngiadau eu gosod gan ofynion a barn y cenedlaethau hŷn. Yr oedd y tensiynau hyn rhwng pobl ifainc a'r rhai hŷn i'w cael ym mhob un o'r pedair ardal astudiaeth, ond yn fwyaf amlwg yn ardal astudiaeth Llangamarch. Yn baradocsaid, awgryma'r dystiolaeth o'r grwpiau ffocws mai'r bobl ifainc yn ardal Llangamarch oedd y mwyaf mentrus a hunangynhaliol o ran chwilio am gyfleoedd fel grŵp.

Wrth edrych ymlaen, mynegwyd pryderon gan y bobl ifainc hyn ynghylch amodau yn yr ardaloedd hyn ym mherfeddion cefn gwlad. Dadleuwyd y byddai lleihad mewn gwasanaethau, ynghyd â mwyfwy o bobl hŷn yn mewnfudo wrth chwilio am le braf i ymddeol iddo, yn arwain at sefyllfaoedd lle byddai'r cymunedau ym mherfeddion cefn gwlad yn anghynaliadwy o ran poblogaeth a chymuned. Yn Aberdaron a Chlydau yr oedd y pryderon hyn wedi'u cyplysu â gofidiau ynghylch pa mor hyfyw y bydd yr iaith Gymraeg yn parhau i fod.

Pobl ifainc – casgliadau allweddol

Yr oedd nifer isel o bobl ifainc ym mhob ardal astudiaeth – yn enwedig yn Llanfihangel a Llangamarch.

Yn gyffredinol, mae pobl yn eu harddegau yn gwerthfawrogi rhai agweddau ar fywyd gwledig – y golygfeydd, yr amgylchedd naturiol, tipyn o ryddid pan oeddynt yn iau, adnabod pawb a theimlo'n ddiogel.

Yn Aberdaron a Chlydau, dangosodd y bobl ifainc ymlyniad cadarn at y Gymraeg a'i diwylliant.

Yr oedd y rhynggrwyd, band eang a ffonau symudol yn bwysig iddynt yn addysgol ac yn gymdeithasol. Yr oeddent yn feirniadol o safonau darparu'r gwasanaethau hyn.

Yn ardal astudiaeth Llangamarch, yr oedd pobl ifainc yn eu harddegau a oedd yn iau nag oedran gyrru o Lanwrtyd wedi trefnu tripiâu i glwb i blant dan 18 oed yn Abertawe.

Materion a oedd yn broblemau

Dim ond yn ardal astudiaeth Llangamarch y mynegwyd pryderon gan oedolion fod y bobl ifainc leol yn eu harddegau (grŵp Llanwrtyd - gweler uchod) yn grŵp gwrthgymdeithasol a oedd yn achosi problemau.

Ychydig o gyfleusterau a oedd yn lleol i bobl ifainc. Yr oedd yn rhaid iddynt deithio i ganolfannau trefol ar gyfer hamdden ac adloniant. Nid oedd amserlenni trafniadaeth gyhoeddus yn tueddu i fod yn addas. O ganlyniad, yr oeddynt yn trefnu eu hunain

(gweler Llanwrtyd); yr oedd gan rai geir, fel yn Llanfihangel, neu yr oeddynt yn dibynnu ar rieni.

Dadleuwyd bod pobl ifainc angen lle i gwrdd, fel caffî rhyngrwyd.

Prin oedd y gweithgareddau ar ôl ysgol. Pan oedd y rhain ar gael, tueddai trefniadau trafndiaeth gyhoeddus i beidio â bod yn addas. Awgrymodd llanciau Llanwrtyd docynnau bws myfyrwyr.

Ym mhob ardal astudiaeth, ceid yr argraff fod oedolion lleol yn anoddefgar o bobl ifainc. Yr oedd hyn i'w weld amlycaf yn ardal astudiaeth Llangamarch.

Yr oedd pobl ifainc yn eu harddegau yn poeni am gynaliadwyedd eu cymunedau o ran colli gwasanaethau, siopau a swyddfeydd post yn cau, a phoblogaeth yn heneiddio.

Yn Aberdaron a Chlydau mynegwyd pryderon am gynaliadwyedd yr iaith Gymraeg.

Yr oedd ieuencid Aberdaron yn poeni am newydd- ddyfodiaid Saesneg a thai gwyliau.

Cynlluniau i'r Dyfodol

Gan mai prin oedd cyfleoedd cyflogaeth leol, yr oedd y rhan fwyaf yn bwriadu gadael eu hardaloedd. Fodd bynnag, yr oedd llawer am ddychwelyd yn ddiweddarach yn eu bywydau.

12.1 Cyflwyniad

Fel y trafodwyd yn yr adran Dulliau, defnyddiwyd holiadur i gasglu data gan ddarparwyr gwasanaeth sy'n gweithio ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru. Cafodd yr holiadur ei lenwi gan gynrychiolydd y darparwr gwasanaeth a'i ddychwelyd i Arsyllfa Wledig Cymru yn electronig, ar-lein neu drwy'r post. Er bod yr arolwg cartrefi hefyd yn seiliedig ar holiadur, y gwahaniaeth pwysig rhwng hwnnw a'r holiadur ar gyfer y darparwyr gwasanaeth oedd bod y rhan fwyaf o'r holiaduron cartref wedi eu cwblhau wyneb-yn-wyneb gydag ymchwilwyr. Yr oedd hyn wedi sicrhau y câi dealltwriaeth ddyfnach ei chyfleu yn atebion yr holiadur. Mewn gwrthgyferbyniad, er y câi atebwyr i'r Holiadur Darpariaeth Gwasanaeth eu hannog i ddefnyddio'r blychau testun gwag, yr oedd nifer o'r atebion hynny yn fyr. Yr oedd y mathau o ddarparwyr gwasanaeth a atebodd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gofal megis Age Concern, Cymorth i Ddioddefwyr a chefnogaeth Anabledd; y sector twristiaeth a hamdden; trafnidiaeth; cymdeithasau tai; cynghorau cymuned; llywodraeth leol; yr heddlu; Cyngor ar Bopeth Cymru; yr eglwys; mudiadau ieuencid, y sector iaith Gymraeg; y sector fferylliaeth; y sector gwirfoddol; a'r sector cymdeithasol, gan gynnwys Sefydliad y Merched a'r Geidiau.

O ran yr holiadur, gofynnwyd yn gyntaf i atebwyr roi gwybodaeth gyd-destunol megis enw eu corff/sefydliad a'r sector yr oedd y sefydliad yn gweithredu ynddo. Yna cafwyd cwestiynau a oedd yn gofyn i'r atebwr nodi, yn nhrefn blaenoriaeth, beth yr ystyrient hwy yn brif ffactorau sy'n effeithio ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â gwasanaethau ym mherfeddion cefn gwlad Cymru. Dyma'r materion y gofynnwyd iddynt eu blaenoriaethu: beth sy'n dylanwadu ar lefel y gwasanaethau a ddarperir mewn ardaloedd ym mherfeddion cefn gwlad; y prif rwystrau y mae'r darparwr gwasanaeth yn eu hwynebu; elfennau hanfodol arfer da ar gyfer darparu gwasanaeth effeithiol, a beth oedd yn atal arfer da; a beth yr ystyrid oedd y materion allweddol a oedd yn wynebu trigolion ym mherfeddion cefn gwlad Cymru o ran mynediad i wasanaethau.

Yn olaf, gofynnwyd i atebwyr godi unrhyw faterion eraill y teimlent hwy a oedd yn berthnasol wrth ddarparu gwasanaeth.

Ar gyfer pob un o'r cwestiynau amserol yn yr holiadur, ceir dadansoddiad meintiol sy'n dangos y blaenoriaethau a nodwyd gan y darparwyr gwasanaeth sy'n gweithredu 'ym mherfeddion' cefn gwlad Cymru. Caiff y dadansoddiad meintiol ei esbonio gan ddadansoddiad ansoddol sydd yn ymwneud â'r ffactorau canlynol: cyllid, poblogaeth, lleoliad, trafnidiaeth a chyfathrebu. Wrth astudio Tablau 12.1-12.4, dylid nodi nad oedd yr holl atebwyr wedi llenwi pob cwestiwn, ac yr oedd rhai atebwyr wedi'u llenwi yn rhannol.

12.2 Y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar lefel y gwasanaeth a ddarperir

Gofynnwyd i atebwyr restru yn nhrefn blaenoriaeth y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar lefel y gwasanaeth a ddarperir ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru. Mae Tabl 12.1 yn dangos yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Tabl 12.1 Y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar lefel y gwasanaeth a ddarperir ym mherfeddion cefn gwlad

Thema	Atebion					
	Cyfanswm	1 ^{af}	2 ^{il}	3 ^{ydd}	4 ^{ydd}	5 ^{ed}
Materion Ariannol	20	11	3	2	1	3
Materion sy'n ymwneud â phoblogaeth	27	9	5	5	4	4
Materion lleoliad neu ddiffyg gwasanaethau	28	4	10	8	5	1
Materion Trafnidiaeth	19	5	6	6	2	0
Materion Cyfathrebu TG	10	0	2	2	5	1

Nid yw'n syndod mai cyllid a dderbyniodd y brif flaenoriaeth fel ffactor yn ymwneud â lefel y gwasanaethau a ddarperir. Dengys Tabl 10.1 fod un ar ddeg o atebwyr yn ystyried cyllid yn brif ffactor. Ar ben hynny, nododd

naw o atebwyr eraill fod cyllid yn un o'u ffactorau blaenoriaeth.

Yr oedd y sylwadau yn ymwneud â chyllid ac ariannu yn cynnwys sylwadau:

"[mae yna] ddiffyg arian i ateb heriau cynyddol demograffig."

(Llywodraeth leol)

Hefyd:

"Dyna i chi'r mater o sicrhau cydbwysedd rhwng cost, ansawdd a mynediad. Allwn ni ddim cael popeth ym mhob man."

(Llywodraeth leol)

Sylwodd eraill ar y problemau a achosir gan y cynnydd mewn costau a phwysigrwydd arian Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo a chynnal y diwydiant ymwelwyr.

At ei gilydd cafodd materion yn ymwneud â phoblogaeth fwy o raddau blaenoriaeth na chyllid, ond cawsant lai o raddau blaenoriaeth gyntaf. Tynnodd atebwyr sylw at y ffaith fod 'perfeddion cefn gwlad' Cymru wedi'i nodweddu gan:

"Prinder poblogaeth heb unrhyw grynsyth mawr ohonynt."

(sector gofal)

Ystyriwyd mai dwy sgil-ffaith i'r dwysedd poblogaeth isel hwn oedd cyllidebau bach, o gael eu cyfrifo yn ôl y pen, ar gyfer darparu gwasanaethau mewn ardaloedd daearyddol eang yn ogystal â nifer isel o weithwyr gwirfoddol ar gyfer gwasanaethau sy'n dibynnu arnynt.

Canlyniad dwysedd poblogaeth isel yw pellter mawr rhwng y cymunedau gwledig eu hunain a hefyd fod yn bell o ganolfannau mwy trefol. Gan mai hyn oedd un o'r prif ffactorau yn lefelau isel darparu gwasanaeth, ystyriwyd ei fod yn cael ei waethygu gan faterion teithio anodd, o ran trafndiaeth gyhoeddus; anawsterau cyffredinol cael mynediad i wasanaethau; a chostau teithio uchel.

Yn olaf, o dan y thema hon, codwyd nifer o faterion yn ymwneud â chyfathrebu a TG. Yr oedd sylwadau yn cynnwys yr angen am well gwasanaeth band eang yn y Gymru wledig, er mwyn galluogi gwell entrepreneuriaeth a

chynnal mentrau bach a chanolig sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â natur annibynadwy y gwasanaeth ffôn symudol.

12.3 Rhwystrau y mae darparwyr gwasanaeth yn eu hwynebu

Mae cydberthynas gref rhwng Tabl 10.1 (sy'n canolbwyntio ar ffactorau sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaeth) a Thabl 12.2 (sy'n ymwneud â rhwystrau), ac mae'r gydberthynas hon yn dangos bod darparwyr gwasanaeth yn ystyried y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddarparu gwasanaeth yn rhwystrau yn hytrach nag fel elfennau sy'n galluogi. Yn wir, yr oedd nifer o'r sylwadau a wnaed gan atebwyr yn union yr un fath ar gyfer y ddau gwestiwn, megis y rhai oedd yn ymwneud â dwysedd poblogaeth isel, costau uned uchel a lefelau ariannu isel, a nifer isel o wirfoddolwyr. Yr oedd sylwadau newydd yn cynnwys:

"Ymddengys nad oes fawr o gyllid newydd i gefnogi datblygiad gwasanaethau."

(sector fferylliaeth)

Tabl 12.2 Y prif rwystrau y mae darparwyr gwasanaethau yn eu hwynebu ym mherfeddion cefn gwlad

Thema	Atebion					
	Cyfa nsw m	1 ^{af}	2 ^{il}	3 ^{ydd}	4 ^{yd} d	5 ^{ed}
Materion Ariannol	25	14	5	3	2	1
Materion sy'n ymwneud â phoblogaeth	28	4	10	5	4	5
Materion Lleoliad neu ddiffyg gwasanaethau	29	7	10	5	6	1
Materion Trafndiaeth	15	4	4	5	1	1
Materion Cyfathrebu TG	16	2	1	4	7	1

12.4 Elfennau hanfodol arfer da

Fel y dengys Tabl 12.3, yr oedd yr hyn yr oedd atebwyr yn ei ystyried yn elfennau hanfodol arfer da yn ymwneud yn bennaf â chyfathrebu, pobl a lleoliad yn hytrach na chyllid.

Yr oedd cyfathrebu, ar gyfer y darparwyr gwasanaeth hyn, yn bwnc eang. Er enghraifft, dadleuodd atebwyr fod angen cyfathrebu da gyda phartneriaid a chleientiaid. Yn ymarferol, yr oedd y cyfathrebu hwn yn cynnwys yr angen am rwydweithiau ffôn symudol dibynadwy ac sy'n ddaearyddol eang. Yn fwy penodol ar gyfer Cymru wledig, yr oedd rhai darparwyr gwasanaethau yn tynnu sylw at yr angen hanfodol i ddarparu gwybodaeth hawdd ei gael yn Gymraeg a Saesneg.

Tabl 12.3 Elfennau hanfodol ar gyfer arfer da

Thema	Atebion					
	Cyfanswm	1 ^{af}	2 ^{il}	3 ^{ydd}	4 ^{ydd}	5 ^{ed}
Materion Ariannol	5	0	2	2	1	0
Materion sy'n ymwneud â phoblogaeth	27	9	6	4	4	4
Materion Lleoliad neu Ddiffyg gwasanaethau	22	2	6	8	5	1
Materion Trafnidiaeth	10	3	4	1	1	1
Materion Cyfathrebu TG	45	14	12	6	8	5

Y brif thema o ran arfer da yn seiliedig ar bobl oedd cydnabod a gweithredu darparu gwasanaethau wedi'u cynllunio yn ôl anghenion yn hytrach nag wedi'u harwain gan gyflenwyr / cynhyrchwyr. Dyma enghreifftiau normadol o arfer da yn seiliedig ar bobl:

"Cynllunio lefel gwasanaeth a'r ffordd o'i ddarparu yn ôl angen."

(sector gofal)

"Dylai gwasanaethau gael eu cynllunio o amgylch anghenion y claf."

(sector fferylliaeth)

"Dylai gwasanaethau fod wedi'u harwain gan anghenion yn hytrach na chynhyrchwyr / cyflenwyr."

(Llywodraeth leol)

"Dylai gwasanaethau fod ar gael i bawb lle bynnag y bo angen."

(sector eglwysi)

"Ni ddylai bod rhagfarn a gwahaniaethu ar sail arwahanrwydd gwledig."

(sector eglwysi)

12.5 Rhwystrau i arfer da

Y gwrthwyneb i elfennau hanfodol arfer da, wrth gwrs, yw rhwystrau i arfer da ac yma yr oedd atebwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar ddiffyg cyllid ac adnoddau. Mewn llawer o achosion ystyriwyd y diffygion canfyddedig i fod yn gysylltiedig â'r sefyllfa yng nghefn gwlad Cymru. Er enghraifft, yn ogystal â phrinder arian yn gyffredinol, soniodd atebwyr am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyfieithu gwybodaeth; anhawster talu costau oherwydd poblogaeth darged fach; a phrinder gwirfoddolwyr sy'n siarad Gymraeg.

O ran TG a chyfathrebu, cafwyd sylwadau fod annigonolrwydd rwydweithiau ffôn symudol a band eang yng nghefn gwlad Cymru yn rhwystr i arfer da.

12.6 Y materion allweddol y mae trigolion yn eu hwynebu

Gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaethau beth, yn eu barn hwy, yw'r materion allweddol y mae trigolion 'perfeddion cefn gwlad' Cymru yn eu hwynebu o ran darparu gwasanaethau. Mae Tabl 12.4 yn dangos y mathau o atebion a dderbyniwyd, wedi'u grwpio o dan yr un ffactorau â'r dadansoddiadau blaenorol.

Tabl 12.4 Y materion allweddol y mae trigolion perfeddion cefn gwlad Cymru yn eu hwynebu, o ran cael mynediad at wasanaethau

Thema	Atebion					
	Cyfanswm	1 ^{af}	2 ^{il}	3 ^{ydd}	4 ^{ydd}	5 ^{ed}
Materion Ariannol	12	3	2	3	3	1
Materion sy'n ymwneud â phoblogaeth	14	0	1	6	5	2
Materion Lleoliad neu Ddiffyg gwasanaethau	49	15	13	7	9	5
Materion Trafnidiaeth	34	17	8	7	2	0
Materion Cyfathrebu TG	17	2	5	3	5	2

Yr oedd y materion allweddol a ystyrid gan yr atebwyr i fod yn rhai a oedd yn effeithio fwyaf ar drigolion yn cyd-gysylltu â'i gilydd. Er enghraifft, ystyriwyd bod materion lleoliad yn

bwysig gan y rhan fwyaf o ymatebwyr, ond yr oedd hyn yn gysylltiedig â materion trafniadaeth. Yr oedd y sylwadau a dderbyniwyd gan atebwyr yn canolbwyntio ar anawsterau cael mynediad i wasanaethau; arwahanrwydd daearyddol llawer o gymunedau gwledig; poblogaethau bychain o ran nifer y bobl, sy'n arwain at ddileu rhai gwasanaethau megis swyddfeydd post ac ysgolion o ardaloedd gwledig; canoli cynyddol ar wasanaethau megis iechyd a siopau; yr angen i deuluoedd gwledig gael mwy nag un cerbyd modur; cost gymharol uchel o fyw yng nghefn gwlad; a'r lleihad yn narpariaeth trafniadaeth gyhoeddus. I raddau helaeth, felly, mae'r rhestr uchod yn crynhoi'r problemau i drigolion ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru, a manylir arnynt mewn adrannau eraill yn yr adroddiad hwn.

12.7 Materion ychwanegol darparu gwasanaeth ym mherfeddion cefn gwlad Cymru

Yn olaf, gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaeth amlinellu unrhyw faterion eraill y teimlent hwy sydd angen sylw neu unrhyw bwyntiau eraill am 'berfeddion cefn gwlad' Cymru y dymunant sôn amdanynt. Mae rhai o'r atebion hyn yn tueddu i ailadrodd pwyntiau a wnaed yn y dadansoddiad. Yr oedd rhai eraill yn llawn, ac mewn rhai achosion yn benodol.

Gan adleisio tystiolaeth a gyflwynwyd mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn, ystyriwyd bod Powys yn enghraifft o ardal wledig fawr sydd â dwysedd poblogaeth isel; sefyllfa a ystyrid i fod yn arwain at broblemau ar gyfer darparu gwasanaeth:

"Mae setliad isel i'r Awdurdod Lleol gan Lywodraeth y Cynulliad wedi golygu lleihau cymorth i ddarparwyr gwasanaeth y sector gwirfoddol. Mae'r galw gan y cleient yn cynyddu (o ran cyngor a chymorth), ond mae'r lefelau staffio yn cael eu lleihau. Mae Powys dan anfantais drwy gael lle afrealistig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, gan nad yw'n cyd-fynd â realiti byw ym Mhowys (gweler adroddiad Tlodi ym Mharadwys)."

(sector gofal)

"Powys yw'r sir fwyaf gwledig yng Nghymru ac o'r braidd y sylweddolir cymaint yw costau darparu gwasanaethau i safon debyg i'r rhai mewn ardaloedd mwy poblog."

(sector gofal)

Gwnaeth yr atebwr hwn sylw cyffredinol fod pobl yn tueddu i ddewis byw mewn lleoliadau gwledig, ac, i raddau helaeth, eu bod yn barod i ystyried lefel is o wasanaethau:

"Yn fy mhrofiad i o dyfu i fyny yn yr ardal a chael dychwelyd wedyn i'r ardal, mae trigolion llawer o ardaloedd perfeddion cefn gwlad yn dewis byw lle maent yn byw. Er bod hwn fel petai'n ddatganiad amlwg, mae'n awgrymu mai anaml y mae pellter o wasanaethau yn bwnc llosg a'r lleoliad gwledig mewn gwirionedd yw'r un y ceisir o flaen pob ffactor arall."

(sector mam a'i phlentyn)

Dyma farn a wrthwynebir gan yr atebwr canlynol:

"Dydw i ddim yn credu fod gan bobl mewn trefi neu ganolfannau poblog unrhyw syniad sut rydym yn byw. Maent yn credu ein bod yn byw yma oherwydd ein bod yn gallu fforddio hynny, mewn geiriau eraill maent yn credu bod gennym lwyth o arian ac felly'n gallu teithio i gael beth ydym ei eisiau ar unrhyw adeg o unrhyw le. Mae'n debyg fod hynny i'r gwrthwyneb o beth yw'r gwir go iawn. Rydyn ni'n byw yma achos allwn ni ddim fforddio byw mewn tref, ac felly mae gennym fwy o broblemau mynediad oherwydd tlodi. Mae'n rhaid i ni deithio milltiroedd yn fwy i gyrraedd unrhyw beth, felly mae costau tanwydd i ni yn holl bwysig. Mae angen cario pobl ifainc i bopeth, a phobl hŷn hefyd angen eu cario am resymau gwahanol."

(sector Iaith Gymraeg)

Er bod yr atebwyr hyn yn galw am gymorth gan Lywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol i helpu i gynnal cymunedau a busnesau ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru:

"Mae ardaloedd sydd ym mherfeddion cefn gwlad angen help i aros fel cymunedau byw. Mae angen dyrannu rhagor o arian i gynghorau cymuned gwledig. Mae angen rhagor o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifainc e.e. tai, clybiau, mwy o ddefnydd o neuaddau (cyfraddau rhatach), gwasanaethau bws llawer gwell a gwasanaethau bws wedi'u hariannu trwy gymhorthdal."

(sector cymdeithasol)

"Prin fu'r ymateb a'r gefnogaeth gan Aelodau'r Cynulliad ar gyfer micro-fentrau. Mae'r rhan fwyaf o'r economi wledig yn cael ei rhedeg gan fusnesau sydd â llai na phedwar aelod o staff."

(sector gwirfoddol)

“Mae angen inni ddefnyddio'r cymorth cadarnhaol a gynigir gan gymunedau gan fod llawer ohonynt yn cefnogi eu hunain a'u pobl leol ac mae'n rhaid i'r Awdurdodau Lleol feithrin a datblygu hyn yn fwy.”

(Llywodraeth leol)

“Mae mynediad araf i'r rhyngwyd a phŵer sy'n torri yn aml yn ei gwneud yn anodd i lawer o fusnesau i weithredu'n effeithiol.”

(sector eglwysi)

“Ymddengys fod diffyg ymagwedd genedlaethol i gynllunio a gweithredu gwasanaethau. Mae dirprwyo cyfrifoldeb a chyllidebau i Fyrddau Lechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol wedi arwain at ymagwedd dameidiog at gynllunio a darparu gwasanaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad fel petai wedi paru'n gadarn â dulliau traddodiadol o ddarparu gwasanaethau, ac yn methu â gwneud y gorau o'r ystad fferyllfa gyfredol sydd yn rhan allweddol o'r seilwaith gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig.”

(sector Fferylliaeth)

Cyfeiriodd yr atebwyr hyn at broblemau'r staff sy'n gweithio i ddarparu gwasanaeth gwledig:

“Nid yw diogelu cefn gwlad fel petai'n digwydd ym mholisiau Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth Genedlaethol. Mae canolfannau gweinyddol yn aml yn tueddu i fod yn aml mewn ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth uchel ac mae'n hawdd anwybyddu problemau sydd mewn ardaloedd gwledig. Dim ond pan fyddwch wedi gweithio yn y fath le am gyfnod o amser y bydd gwir effaith yr amodau amgylcheddol a demograffig yn dod yn amlwg.”

(sector gofal)

“Mae staff sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig yn unig – ac yn gweithio ar eu pennau eu hunain mewn swyddfeydd i raddau helaeth. Mae'n rhaid i gyfleoedd i wirfoddolwyr a staff gwrdd â rheolwr llinell neu gydweithwyr i 'lawrlwytho' fod wedi'u trefnu o flaen llaw a cholli'r elfen o wneud pethau yn y fan a'r lle. Byddai'n ddefnyddiol pe câi mwy o swyddfeydd i sawl elusen eu hagor gyda digon o le ar gael i'w rhentu ar sail ystafelloedd unigol. Mae prinder hefyd o leoliadau addas i gwrdd â chleientiaid sy'n gyfrinachol ac sydd â chyfleusterau modern a dim grisiau.”

(sector gofal)

12.8 Crynodeb o atebion y darparwyr gwasanaeth

Yn gyffredinol, yr oedd atebion darparwyr gwasanaeth ym 'mherfeddion cefn gwlad'

Cymru yn adlewyrchu rhai'r trigolion, fel y'u disgrifiwyd mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn. Yn union fel y bu i'r trigolion dynnu sylw at broblemau cael mynediad at wasanaethau oherwydd pellter ac arwahanrwydd, nid yw'n syndod i'r darparwyr gwasanaethau hwythau gael anawsterau wrth ddarparu gwasanaethau i leoliadau sydd ym 'mherfeddion cefn gwlad'. Cyfeiriodd trigolion a darparwyr gwasanaeth at ffactorau cyffredin eraill a oedd yn cael effaith negyddol ar gael mynediad i wasanaethau a darparu gwasanaethau fel ei gilydd. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys annigonolrwydd cyllidebau awdurdodau lleol. Mae'r feirniadaeth hon yn cynnwys cyfanswm cyllidebau ariannol terfynol yn ogystal â'r dulliau a ddefnyddir i gyfrifo'r symiau hyn. Dadleuwyd bod methiant i ddeall anawsterau darparu gwasanaethau yn yr ardaloedd hyn – ardaloedd a ddisgrifir fel rhai sydd wedi'u nodweddu gan ddwysedd poblogaeth isel ac aneddiadau bychain wedi'u gwasgaru'n eang, ac sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd gan ffyrdd anodd. Yn fwy cyffredinol, teimlai trigolion a darparwyr gwasanaeth bod yna ddiffyg cefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol i gymunedau gwledig a busnesau.

Nodwyd nifer o ffactorau penodol gan drigolion a darparwyr gwasanaeth ill dau. Yn bennaf ymysg y rhain oedd band eang. Dadleuai pob math o gyfranogwyr yr ymchwil fod band eang yn rhan hanfodol o fywyd modern; bod gwasanaeth o safon uchel yn angenrheidiol ar gyfer addysg, bywyd cymdeithasol, busnes a darparu gwasanaethau. Ystyriwyd bod darparu gwasanaeth band eang o ansawdd uchel, i bob rhan o Gymru wledig, yn brif flaenoriaeth ar gyfer cynaliadwyedd gwledig. Yn yr un modd, dadleuwyd yn helaeth fod telathrebu symudol yn tueddu i fod o ansawdd amrywiol yng nghefn gwlad Cymru; teimlid bod yr amrywioldeb hwn yn amharu ar ryngweithio cymdeithasol, busnesau a gwasanaethau.

Ffactor cyffredin arall oedd y canoli cynyddol a fu ar wasanaethau, a'u crynhoi mewn ardaloedd trefol. Dadleuai trigolion 'perfeddion cefn gwlad' Cymru fod canoli yn achosi problemau iddynt o ran mynediad i wasanaethau, pellter a deithir a'r costau a ddaw yn sgil hyn. Yr oedd darparwyr

gwasanaethau yn wynebu problemau tebyg. Yn ogystal, yn sgil canoli mewn ardaloedd trefol, dadleuai rhai darparwyr gwasanaeth fod y personél hynny sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i gael eu hynysu. Er mwyn atal y diffyg cysylltiad hwn â phobl eraill, awgrymwyd sefydlu swyddfeydd a chanolfannau 'aml-asiantaeth' mewn ardaloedd gwledig. Byddai'r trefniadau hyn yn galluogi rhyngweithio personol a chyfathrebu gwell. Awgrym arall sy'n ymwneud â strwythur y gwasanaeth gwledig oedd bod methiant, hyd yma, i fanteisio'n llwyddiannus ar y rhwydwaith presennol o fferyllfeydd ar gyfer darparu gwasanaeth ehangach.

Yn olaf, gwnaed sylwadau pwysig gan drigolion a darparwyr gwasanaeth ynghylch yr iaith Gymraeg. Mae'r ymchwil yn dangos bod yr iaith Gymraeg yn arbennig o gryf yn ardaloedd ymchwil cymunedol Aberdaron, Llanfihangel a Chlydau, ac er nad yw mor gryf yn gyffredinol yn ardal ymchwil Llangamarch, yr oedd crynodiadau o siaradwyr Cymraeg yn Llanwrtyd ac ymhlith y boblogaeth ffermio yno, er y mynegwyd pryderon gan drigolion lleol, gan gynnwys pobl yn eu harddegau, ynghylch cynaliadwyedd yr iaith.

Yn ogystal, cyfeiriodd darparwyr gwasanaethau at yr angen i gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, caed arwyddion bod deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhoi straen ychwanegol ar adnoddau darparwyr gwasanaeth a thrigolion yng nghefn gwlad Cymru. Er enghraifft, yr oedd swyddogion cyngor cymuned Llangamarch yn bryderus na fyddent yn gallu fforddio'r costau a fyddai'n gysylltiedig â deddfwriaeth arfaethedig ynglŷn â'r Gymraeg. Yn yr un modd, soniodd darparwyr gwasanaeth fod y costau ychwanegol a ddaw yn sgil y gofyniad i gyfieithu i'r Gymraeg yn rhwystr i arfer da wrth ddarparu gwasanaeth. Yn ogystal, gan fod llawer o wasanaethau yn dibynnu ar waith gwirfoddol, crybwyllodd darparwyr gwasanaeth fod prinder gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

Darparu gwasanaethau – casgliadau allweddol

Prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddarparu gwasanaeth

Ariannu a chyllid oedd y ffactorau sy'n flaenoriaeth i'r rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaethau.

Gwelwyd bod cyfuniad o ddwysedd isel mewn poblogaeth a phellteroedd hir rhwng cymunedau ac i ganolfannau trefol, yn mynd i arwain at gyllidebau bach, costau uchel sy'n gysylltiedig â theithio, a nifer fach o weithwyr gwirfoddol.

Rhwystrau i ddarparu gwasanaethau

Tueddwyd i sôn am ffactorau a oedd yn dylanwadu ar ddarparu gwasanaeth fel rhwystrau yn hytrach na phethau oedd yn galluogi.

Elfennau arfer da

Dylai darparu gwasanaeth fod wedi'i arwain gan anghenion yn hytrach nag wedi'i arwain gan fuddiannau cyflenwyr a chynhyrchwyr.

Ystyriwyd bod cyfathrebu da yn hanfodol.

Dylai gwasanaethau fod yn hawdd eu cael yn Gymraeg a Saesneg.

Rhwystrau i arfer da

Ystyriwyd bod rhwydweithiau annigonol band eang a chyfathrebu symudol ar hyn o bryd yn rhwystrau i arfer da.

Yr oedd costau ychwanegol yn codi yn sgil y gofyniad i gyfieithu i'r Gymraeg.

Yr oedd diffygion ariannu a diffygion adnoddau ill dau yn rhwystrau i arfer da. Yr oedd diffygion adnoddau yn cynnwys prinder gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

Y prif faterion y mae trigolion yn eu hwynebu

Yr oedd mynediad i wasanaethau yn cael ei wneud yn anodd gan leoliad, materion arwahanrwydd a theithio.

Ceid canoli cynyddol ar wasanaethau fel iechyd a siopau.

Yr oedd dileu gwasanaethau megis swyddfeydd post ac ysgolion lleol yn creu anawsterau.

Cyflwyniad

Yr oedd y prosiect hwn yn archwilio profiadau pobl sy'n byw ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru yn ogystal â phrofiadau'r rheiny sy'n darparu gwasanaeth yno, ac i'r perwyl hwn casglwyd data drwy bedwar cymal ymchwil. Yn gyntaf, ceisiodd yr arolwg cartrefi gyrraedd pob cartref ym mhedair ardal yr astudiaeth, sef Aberdaron, Clydau, Llanfihangel-yng-ngwynfa a Llangamarch. Bu i gyfran uchel o gartrefi lenwi'r holiadur. Ceir dadansoddiad o'r arolwg cartrefi yn Adrannau 4 i 8 o'r adroddiad hwn. Mae Adran 4 yn canolbwyntio ar 'Ardal a Demograffeg'; mae Adran 5 yn mynd i'r afael â 'Cymuned a Diwylliant'; Adran 6 yn archwilio darparu 'Gwasanaethau'; Adran 7 yn ystyried 'Trafnidiaeth'; ac Adran 8 yn asesu materion 'Ynni Cartrefi'. Er bod y penodau hyn yn cynnwys elfennau ansoddol, maent yn bennaf yn feintiol. Mae Adran 9 yn crynhoi'r prif ganfyddiadau o'r pum pennod cyn hynny.

Mewn cyferbyniad, yr oedd ail gymal yr ymchwil yn benodol ansoddol. Yn dilyn ymlaen o'r arolwg cartrefi, cynhaliodd ymchwilwyr gyfres o 60 o gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb gyda thrigolion pedair ardal yr astudiaeth. Yr oedd y cyfweiliadau hyn yn gallu mynd ati'n fanylach i archwilio profiadau'r bobl sy'n byw ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru. Cyflwynir y dadansoddiad ansoddol hwn yn Adran 10, dan y teitl 'Safbwyntiau Preswylwyr'.

Yr oedd trydydd cymal yr ymchwil yn archwilio profiadau categori pwysig o bobl sy'n byw yn ardaloedd yr astudiaeth, sef pobl ifainc yn eu harddegau; yn yr achos penodol hwn, pobl ifainc rhwng 14 a 18 oed. Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda hwy ym mhob un o bedair ardal yr astudiaeth. Cyflwynir y data hwn mewn ffordd naturiol, gan ddefnyddio blociau o drawsgrifiadau heb eu golygu o drafodaethau grŵp ac maent yn cyflwyno amryw o leisiau. O'r trafodaethau hyn ceir dirnadaeth bwysig ynghylch sut beth yw bod yn eich arddegau ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru. Mae'r dadansoddiad ansoddol hwn i'w weld yn Adran 11: 'Pobl Ifainc ym Mherfeddion Cefn Gwlad Cymru'.

Yn olaf, yr oedd pedwerydd cymal yr ymchwil yn gymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol. Yr oedd yn cynnwys holiadur a roddwyd i amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaeth sy'n cynnig gwasanaethau ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru. Drwy ofyn i ddarparwyr gwasanaeth flaenoriaethu a rhoi sylwadau ar y ffactorau sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaeth - arfer da; rhwystrau, a materion allweddol – ceisiai'r holiadur ddeall y materion a'r problemau sydd ynghlwm â chynnig gwasanaethau ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru. Mae'r dadansoddiad hwn yn Adran 12 – 'Darparu Gwasanaethau'.

Ar ddiwedd pob un o Adrannau 4-12, ceir crynodeb o'u prif ganfyddiadau. Er nad bwriad yr adran olaf hon yw ailadrodd y canfyddiadau hyn, mae'n ddefnyddiol nodi a chnoi cil ar eu cysondeb ar draws yr adrannau. Yn benodol, nodwyd nifer o themâu, materion a phroblemau canfyddedig sy'n gyffredin i fwy nag un o bedwar cymal yr ymchwil. Mae'r adran gloi hon yn trafod y themâu, materion a'r problemau canfyddedig hyn sy'n dod i'r amlwg. Yn olaf, trafodir rhai awgrymiadau a wnaed gan atebwyr ar gyfer gwella bywyd yng nghefn gwlad.

13.2 Adnabod y cydbwysedd rhwng ansawdd bywyd a lefel y gwasanaeth a ddarperir

Yn gyffredinol, yr oedd yr atebwyr, gan gynnwys pobl yn eu harddegau, yn fodlon â'r ardaloedd hyn ym 'mherfeddion cefn gwlad' fel lle i fyw ynddo. Yr oedd y rhan fwyaf, os nad yr holl atebwyr, naill ai wedi eu geni yn yr ardal a chysylltiadau teulu a gwaith ganddynt ynddo, neu wedi dewis symud yno, i ymddeol neu i ddilyn ffordd benodol o fyw.

Er nad oedd y rhan fwyaf yn bwriadu symud i leoliadau mwy trefol, hyd yn oed ar ryw adeg yn y dyfodol, eto yr oedd yna ddau grŵp o bobl a oedd am wneud hyn. Yn gyntaf, yr oedd rhai pobl hyn yn ystyried symud i dref, yn enwedig y rheiny a oedd yn sâl ac yn eiddil, ac eraill a ragwelai problemau pan oeddent yn hyn, gan y dadleuent y byddai'n haws cael at wasanaethau iechyd yno. Yn ail, ar wahân i'r rhai hynny a oedd yn sicr o yrfa ym myd ffermio, yr oedd y bobl ifainc hynny

yn eu harddegau a gymerodd ran yn yr ymchwil yn bwriadu symud i fynd i brifysgol; i gael hyfforddiant galwedigaethol ac addysg bellach; i deithio, ac i gael gyrfaedd a thorri eu cwys eu hunain yn y byd. Er hynny, dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl ifainc eu bod yn bwriadu dychwelyd i'r ardaloedd gwledig hyn ar ryw adeg yn ddiweddarach yn eu bywydau. Ystyriai'r bobl ifainc yr ardaloedd gwledig hyn fel cartref ac fel y lle y byddent yn dymuno ymgartrefu yn y diwedd.

Yn gyffredinol, yr oedd yr atebwyr yn deall y problemau ynghlwm â darparu gwasanaethau i ardaloedd gwledig – y pellteroedd maith, dwysedd poblogaeth isel a chyllidebau bychain o ganlyniad i hynny – ac, i raddau helaeth, yr oeddynt yn barod i dderbyn lefelau is o ran darpariaeth gwasanaethau yn gyfnewid am ansawdd bywyd y teimlir sy'n uwch na'r hyn sydd ar gael mewn trefi a dinasoedd. Wrth sôn am agweddau cadarnhaol ansawdd eu bywydau, sonient am yr amgylchedd naturiol; harddwch y golygfeydd; rhwydweithiau cymunedol agos, a'r ffordd o fyw arafach a thawelach sydd i'w gael yng nghefn gwlad Cymru.

13.3 Cryfder y cymunedau gwledig

Yr oedd y farn hon yn gyffredin gan y boblogaeth frodorol yn ogystal â mewnfudwyr i'r ardaloedd hyn, gan gynnwys rhai di-Gymraeg. Yn gyffredinol, dywedai'r atebwyr fod cymunedau lleol yn rhai agos-atoch ac yn groesawgar i fewnfudwyr, cyn belled â'u bod yn gwneud ymdrech i integreiddio. Yn wir, yr oedd y rhan fwyaf o'r atebwyr di-Gymraeg wedi dweud eu bod wedi cael croeso gan aelodau'r gymuned. Ceid y sefyllfa gydnaws hon yn Aberdaron yn ogystal, sef yr ardal gryfaf o ran iaith a diwylliant Cymraeg, er gwaethaf y problemau penodol a gâi'r ardal o ran tai haf a mewnlifiad ymwelwyr yn ystod yr haf.

Er hynny, sylwyd ar rai gwahaniaethau cynnil a bychain rhwng trigolion Cymraeg a Saesneg. Er enghraifft, dadleuwyd bod angen bod yn rhugl yn y Gymraeg i fedru cyfranogi'n llawn yng nghymunedau lleol Aberdaron, Llanfihangel a Chlydau.

13.4 Materion y teimlir sy'n achosi problemau ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru

Yr hyn a oedd yn pryderu llawer o'r atebwyr oedd y teimlad fod yr ardaloedd hyn ym 'mherfeddion cefn gwlad' yn dirywio, a bod llywodraeth leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ill dau fel petaent yn cydgyllwynio yn y dirywiad; nid ystyrid bod y cyrff hyn yn cymryd camau i leddfu'r problemau, yn hytrach yr oeddynt yn gwaethygu'r sefyllfa drwy eu penderfyniadau polisi. Yr enghreifftiau mwyaf uniongyrchol oedd dileu gwasanaethau; canoli cynyddol ar wasanaethau; costau byw uchel; materion trafnidiaeth, cyfathrebu, a gwerth am arian o ran Treth y Cyngor.

13.5 Dileu gwasanaethau

Yng nghymunedau'r astudiaeth, yr oedd nifer o Swyddfeydd Post, ynghyd â siopau pentref, wedi cau yn ddiweddar. Yn ogystal, yn ardal astudiaeth Llanfihangel, yr oedd dwy ysgol i gau, yr oedd ysgol yn ardal Clydau wedi cau, ac ystyrid bod ysgolion eraill yn ardaloedd yr astudiaeth dan fygythiad. Dadleuai'r trigolion fod siopau, Swyddfeydd Post ac ysgolion lleol yn elfennau annatod o'r gymuned leol. Yn ogystal â darparu gwasanaethau gwerthfawr yr oeddynt yn 'angorau cymunedol', yn gweithredu fel manau cyfarfod ac yn cynnig cyfleusterau cymunedol.

13.6 Canoli gwasanaethau

I raddau helaeth yr oedd y broses o ganoli yn ganlyneb i ddileu gwasanaethau; wrth i wasanaethau gael eu dileu'n lleol caent eu cynnig yn fwy canolog, ond gan fod yn llai hygyrch. Gwasanaethau iechyd oedd un o'r materion amlycaf, gan gynnwys: meddygon teulu, deintyddion, ysbytai a'r gwasanaeth ambiwlans.

Mae'r dystiolaeth ymchwil o'r arolwg cartrefi a'r cyfweiliadau manwl yn dangos y credid bod y ddarpariaeth meddygfeydd yn foddhaol neu'n well. Nododd atebwyr fod taith o ychydig filltiroedd i fynd at y meddyg yn dderbyniol ac yn debyg i sefyllfaoedd trefol.

O ran deintyddfeydd, er y barnwyd y ddarpariaeth yn 'wael', eto nid oedd atebwyr yn tueddu i ddisgwyl cael deintydd yn agos. Câi ymweliadau â'r deintydd eu trefnu fel

rheol a gellid gwneud trefniadau teithio. Gwelwyd y problemau wrth gael mynediad at wasanaethau deintyddol gan lawer i fod yn rhan ehangach o'r symud i ffwrdd o wasanaethau deintyddol y GIG tuag at bractis preifat.

Ystyriwyd bod darpariaeth ysbytai yn broblem fawr o ran gwasanaeth iechyd i ardaloedd gwledig. Ym mhob un o ardaloedd yr astudiaeth soniodd atebwyr am gau diweddar ar ysbytai lleol, neu gwtogi mewn gwasanaethau neu oriau agor yn yr ysbytai hyn. Rhoddodd atebwyr enghreifftiau o deithiau hir i'w hysbyty agosaf. Er enghraifft, yr oedd trigolion ardaloedd astudiaeth Llanfihangel a Llangamarch yn gorfod teithio i ysbytai mawr yn Lloegr fel Amwythig a Henffordd i gael triniaeth. Ac yn ardal astudiaeth Aberdaron yr oedd trigolion yn gorfod teithio pellter hir i Fangor i fynd i'r ysbyty.

Dadleuwyd hefyd fod y gwasanaeth ambiwlans wedi'i orymestyn ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru. O ystyried nodweddion ffisegol ardaloedd yr astudiaeth, gyda nifer o aneddiadau anghysbell, tir sy'n aml yn fynyddig a ffyrdd cul a throellog, gallai gwasanaethau brys ddisgwyl rhywfaint o anawsterau. Fodd bynnag, ceid argraff fod toriadau i'r gwasanaeth ambiwlans wedi bod yn rhy llym. Er enghraifft, awgrymwyd mai dim ond tri ambiwlans sy'n gwasanaethu Powys gyfan. Câi pob ardal yn yr astudiaeth eu gwasanaethu gan y gwasanaeth ambiwlans awyr, sy'n dibynnu ar gyfraniadau elusennol.

Er nad ystyrid trosedd yn broblem fawr yn ardaloedd yr astudiaeth, nododd trigolion fod y sefyllfa o ran yr heddlu yn debyg i rai'r ysbytai a'r gwasanaeth ambiwlans. Dadleuwyd bod y gwasanaeth heddlu wedi cael ei ganoli; bod presenoldeb yr heddlu yn isel; bod gorsafoedd lleol naill ai wedi cael eu cau neu'n gweithredu am lai o oriau, neu heb weithwyr ynddynt, ac yn yr achos hwnnw yr oedd yn rhaid defnyddio ffôn a oedd wedi'i gosod y tu allan i'r orsaf heddlu er mwyn cysylltu â'r heddlu. Teimlid bod y trefniadau cymharol newydd hyn yn anfoddfaol.

Agwedd arall ar ganoli gwasanaethau oedd crynhoad cynyddol y sector manwerthu

mewn archfarchnadoedd mawr yn y trefi. Yr oedd hyn, ynghyd â phrisiau uwch canfyddedig mewn siopau gwledig, wedi arwain at drigolion ardaloedd yr astudiaeth yn llunio 'strategaethau siopa'. Yr oedd llawer o atebwyr yn cyfuno teithio i weithio mewn trefi ag ymweliadau ag archfarchnadoedd ar gyfer bwyd a thanwydd cerbydau. Yr oedd yr atebwyr hynny nad oeddynt yn gweithio mewn trefi yn tueddu i gynllunio teithiau siopa ar gyfer cyfnodau cymharol hir o ddwy neu dair wythnos neu hyd yn oed fis, gan ddefnyddio rhewgelloedd y cartref yn helaeth. Yr oedd strategaethau eraill yn cynnwys siopa gan aelodau eraill o'r teulu a ffrindiau.

13.7 Trafnidiaeth

O ystyried pa mor bellennig oedd cymunedau'r astudiaeth i raddau, ynghyd â nifer y cartrefi a oedd yn ddaearyddol ar wahân, a'r nifer helaeth oedd yn teithio pellter hir i'r gwaith, dangosodd arolwg y cartrefi fod bod yn berchen ar gar neu fod â modd defnyddio cerbyd modur yn cael ei ystyried yn rhan hanfodol o fywyd yn yr ardaloedd hyn ym 'mherfeddion cefn gwlad'. Yn wir, yr oedd gan lawer o gartrefi fwy nag un cerbyd. Dadleuai rhai ymatebwyr, yn enwedig o ran ffermwyr ac eraill sy'n byw mewn lleoliadau anghysbell, fod bod yn berchen ar o leiaf ddau gerbyd yn rheidrydd. Awgrymwyd bod y 'ffaith' hon wedi mynd yn erbyn ardaloedd gwledig wrth ddyrannu adnoddau. Yn ôl rhai atebwyr ym Mhowys, cymerwyd y nifer uchel o achosion o fod yn berchen ar sawl cerbyd gan rai arolygon i fod yn arwydd o gyfoeth cymharol ac felly wedi golygu nad oedd yr ardal yn gallu cael mynediad at arian mawr ei angen.

I'r rhan fwyaf o'r rhai a atebodd, ni châi trafndiaeth gyhoeddus ei gweld fel dewis arall ymarferol yn yr ardaloedd hyn ym 'mherfeddion cefn gwlad'; cadarnhawyd hyn gan yr arolwg cartrefi a ddangosai nad oedd yr un o'r atebwyr yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i fynd i'r gwaith. Yr oedd hyd yn oed yr atebwyr hynny a ddefnyddiai drafnidiaeth gyhoeddus yn sôn am anawsterau. Ymddengys mai'r brif broblem oedd amserlenni anghydnaws neu ddiddychymyg. Er enghraifft, yr oedd y trên olaf o Abertawe i Langamarch yn hwyr yn y prynhawn yn hytrach nag yn hwyr yn y nos.

Soniodd atebwyr eraill am amserlenni a oedd yn golygu dal y bws i dref, ac yna gorfod mynd yn ôl yn syth ar yr un bws er mwyn mynd adref.

13.8 Costau byw uchel

Dadleuwyd bod effeithiau pellter ar y cyd â mynediad cymharol wael at wasanaethau yn arwain at gostau byw uchel yn ardaloedd yr astudiaeth. Enghreifftiau penodol a roddwyd gan atebwyr oedd cost uchel tanwydd cerbydau a pha mor annibynadwy oedd cyflenwadau tanwydd ar adegau, yn ogystal â phris uchel bwyd mewn siopau gwledig lleol. Yr oedd y rhain yn ffactorau sy'n cyfrannu at ddefnyddio'r 'strategaethau siopa' y soniwyd amdanynt yn gynharach.

13.9 Cyfathrebu a chyflenwadau pŵer

Un agwedd gyffredinol a godwyd gan atebwyr ym mhob cymal yr ymchwil oedd y gwasanaeth band eang. Dadleuwyd bod gwasanaeth band eang da yn hanfodol os yw ardaloedd gwledig i ffynnu. Ystyrid band eang yn ffactor sy'n galluogi busnesau gwledig sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â busnesau sy'n dechrau ac entrepreneuriaeth; heb sôn am addysg, ac ar gyfer bywyd cymdeithasol yn yr unfed ganrif ar hugain.

Fodd bynnag, dangosodd yr arolwg cartrefi fod y gwasanaeth band eang yn ardaloedd yr astudiaeth yn amrywio o ran ansawdd a'r manau lle cyrhaeddai; yr oedd rhai cartrefi yn derbyn band eang, er nad oedd eraill yn yr un ardal. Ymddengys mai ardal astudiaeth Llangamarch oedd â'r gwasanaeth gwaethaf, er bod ceblau ffibr-optig newydd yn cael eu gosod yn ystod cyfnod yr ymchwil. Er hynny, lleisiodd rhai trigolion mewn lleoliadau anghysbell yn ardal astudiaeth Llangamarch bryderon y gallent fod yn ddiodefwr rhyw fath o 'loteri cod post'. Hynny yw, oherwydd bod ganddynt god post Llangamarch yna byddai sefydliadau ac ati yn rhagdybio bod ganddynt wasanaeth band eang. Yr oeddent o'r farn eu bod yn rhy bell o'r gyfnewidfa ffôn i dderbyn band eang. Yr oedd rhai trigolion Llangamarch yn parhau i fod â llinellau ffôn 'gwasanaeth wedi'i rannu', sy'n rhwystro'r posibilrwydd o fedru derbyn band eang.

Mae ffonau symudol, wrth gwrs, yn agwedd amlwg ar gyfathrebu modern. Amrywiol oedd signal y ffonau symudol yn holl ardaloedd yr astudiaeth; Llanfihangel, sef ardal fwyaf mynyddig yr astudiaeth, a oedd â'r telathrebu symudol gwaethaf.

Mae cyfathrebu electronig fel band eang, ffonau symudol a chyfrifiaduron yn dibynnu, yn y pen draw, ar gyflenwadau pŵer trydan, yn yr un modd â nifer o agweddau eraill ar fywyd modern. Mae amodau anodd yn her i gyflenwi pŵer ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru a dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn cael toriadau aml yn y pŵer.

13.10 Treth y Cyngor – Gwerth am arian

Fel yr awgrymwyd yn gynt, deallai'r rhan fwyaf o'r atebwyr yr anawsterau sydd ynghlwm â darparu gwasanaeth ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru. Fodd bynnag, dadleuent nad oeddent yn derbyn gwerth am arian o ran Treth y Cyngor yr oeddynt yn eu talu. Awgrymwyd eu bod yn talu cymaint â thrigolion trefi, ac mewn rhai achosion mwy na'r rheiny, ond eto nid oeddynt yn derbyn gwasanaethau cyfatebol. Yn wir, dywedai rhai mai'r unig wasanaeth a ddarparid iddynt, yn enwedig mewn lleoliadau anghysbell, oedd casglu sbwriel. Cyfeiriodd eraill at ddiffodd neu ddiffygion mewn goleuadau stryd, darparu toiledau cyhoeddus a'u cynnal a'u cadw, glanhau strydoedd anaml, ac yn enwedig graeanu annigonol ar ffyrdd yn y gaeaf.

13.11 Cynladwyedd cymunedau gwledig

Fel y trafodwyd yn gynharach, teimlai trigolion a darparwyr gwasanaeth fod yna broblemau 'perfeddion cefn gwlad' o ran bod yr ardaloedd hyn yn dirywio ac nid oedd llywodraeth fel petai'n cydymdeimlo â hwy neu nad oedd ganddynt yr ewyllys i fynd i'r afael â'r problemau. Dadleuwyd mai canlyniad posibl y sefyllfa hon yw y byddai'r ardaloedd hyn, ac ardaloedd gwledig eraill tebyg, yn dod yn anghynladwy o ran bywyd cymdeithasol a phoblogaeth. Yr oedd ystyriaethau'r broblem hon fel a ganlyn.

Yr oedd gwasanaethau a ystyrid yn hanfodol i fywyd cymunedol gwledig, megis swyddfeydd post ac ysgolion, yn cael eu cau a'u dileu. Yr oedd sgil-effeithiau cau ysgol, o ran

teuluoedd, yn ddeublyg: byddai teuluoedd presennol sydd â phlant bach yn symud allan ac ni fyddai unrhyw gymhelliad i deuluoedd sydd â phlant ifanc, neu sy'n bwriadu eu cael, i symud i'r ardaloedd hyn. Câl unrhyw le gwag mewn tai eu llenwi, o leiaf yn rhannol, gan bobl hŷn yn chwilio am le braf i ymddeol iddo. Gwelwyd bod prisiau tai yn yr ardaloedd hardd hyn yn uchel ac nid oedd llawer o dai fforddiadwy neu dai cymdeithasol ar gael ynddynt. Prin oedd y cyfleoedd cyflogaeth yn ogystal. O ganlyniad, yr oedd tri pheth a oedd yn llesteirio pobl ifanc naill ai rhag aros neu symud i'r ardaloedd hyn. Ni allant gael gwaith, na fforddio tŷ, nac anfon eu plant i ysgol leol. Dadleuwyd yn eang fod y poblogaethau yn yr ardaloedd hyn ym 'mherfeddion cefn gwlad' yn heneiddio ac y byddent yn parhau i wneud hynny. Er hynny, gallai parhau i ddileu a chanoli gwasanaethau megis gwasanaethau iechyd a manwerthu, ynghyd â chostau uwch ac anawsterau mynediad, lesteirio hyd yn oed bobl hŷn rhag symud i'r ardaloedd hyn ym 'mherfeddion cefn gwlad'.

13.12 Hyrwyddo cynaladwyedd ym mherfeddion cefn gwlad Cymru

Awgrymiadau Trigolion

Yr oedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o'r atebwyr yn ymroddedig i fyw yn yr ardaloedd hyn ym 'mherfeddion cefn gwlad'. Yr oeddynt naill ai wedi eu geni yn y fro honno ac yn driv iddi fel cartref yn yr ystyr ddyfnaf neu'r oeddynt wedi dewis byw yno oherwydd ei phriodoleddau. Yr oedd y ddau gategori o bobl yn ceisio sicrhau ffyrdd i gynnal eu cymunedau.

Wrth wraidd yr holl bryderon oedd cyflwr yr economi wledig ac awgrymwyd y dylid cynnig cymorth treth a mathau eraill o gymhelliad ariannol i fusnesau bach a chanolig a busnesau gwledig eraill. Trafodwyd eisoes bwysigrwydd cael gwasanaeth band eang helaeth o ansawdd uchel i fusnesau gwledig.

Gwnaed awgrym mwy lleol, y gellid ei ymestyn i ardaloedd eraill, gan wraig fusnes ar fferm anghysbell ger Llanwddyn, sy'n rhan o ardal astudiaeth Llanfihangel. Yr oedd gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) a'r Comisiwn Coedwigaeth ill dau

bresenoldeb cryf yn yr ardal ac, mae'n debyg, yr oedd y ddau yn cyflogi pobl ifanc o'r tu allan i'r ardal i gynnal arolygon. Awgrymwyd y dylai'r sefydliadau hyn drefnu ymgyrchoedd i gyflogi pobl ifanc leol, a fyddai eisoes yn berchen ar wybodaeth a phrofiad da o amodau lleol. Byddai hyn yn agor llwybrau gyrfaf posibl yn ogystal â meithrin cysylltiadau agosach rhwng y sefydliadau a chymunedau lleol.

Gwnaed awgrym arall, sy'n gysylltiedig â'r uchod, gan breswlydd o bentref Llanwddyn. Ym marn rhai o'r atebwyr yr oedd y tri sefydliad mawr a grymus a oedd â diddordebau yn yr ardal, sef Severn Trent Water, yr RSPB a'r Comisiwn Coedwigaeth, yn ddatgysylltiedig o'r cymunedau lleol, gan hyd yn oed gael effaith andwyol ar yr ardal. Awgrymwyd y dylai'r tri sefydliad hyn, ynghyd â chynghorau cymuned Llanwddyn a Llanfihangel, busnesau lleol a phobl leol eraill, gwrdd yn rheolaidd mewn fforwm democrataidd i hyrwyddo llywodraethu a buddiannau'r ardal. Gellid defnyddio'r awgrym hwn hefyd mewn ardaloedd gwledig eraill. Yn wir, mae fforymau llywodraethu o'r math hwn mewn ardaloedd eraill: er enghraifft, mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Coedwigoedd Cymunedol yn Lloegr, a Fforwm Ashby Woulds yng Nghoedwig Genedlaethol Lloegr.

Nid yw'n syndod bod llawer o atebwyr yn pryderu ynghylch lleddfu eu sefyllfa ariannol eu hunain a chafwyd galwadau am 'ryddhad gwledig' o ran tanwydd, bwyd, treth car a Threth y Cyngor. Gan y byddai'r mesur diwethaf yn lleihau'r arian sydd ar gael i awdurdodau lleol, awgrymwyd y dylai'r 'rhyddhad gwledig' gael ei ariannu ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru.

O ran adnoddau llywodraeth leol, awgrymwyd y dylid datblygu meini prawf cyllidebol newydd a fyddai'n ystyried nodweddion penodol a neilltuol ardaloedd gwledig. I lawer o'r atebwyr yr enghraifft amlwg oedd Powys – y mae hi'n ardal fawr sydd â phoblogaeth fach ac, o ganlyniad, gellid dadlau na roddir digon o adnoddau iddi. Câl effeithiau cyllidebau isel llywodraeth leol wledig eu gweld fel toriadau ac yn ganoli ar wasanaethau iechyd, yr heddlu ac addysg (sef cau ysgolion lleol).

Galwyd am fwy o gydymdeimlad a dealltwriaeth yn y system gynllunio leol. Dadleuwyd ei bod yn hynod anodd cael caniatâd cynllunio mewn rhai rhannau o ardaloedd yr astudiaeth, er enghraifft Aberdaron, ac y gallai mwy o dai fod ar gael i bobl iau. Yn gysylltiedig â'r mater o dai ar gyfer pobl ifainc leol, dadleuai atebwyr y dylid mynd i'r afael â phrinder tai fforddiadwy ar eu cyfer. Yr oedd y sefyllfa dai yn arbennig o amlwg yn Aberdaron, gan fod yno nifer fawr o dai haf, a llawer ohonynt yn wag am gyfnodau hir. Er nad oedd unrhyw awgrymiadau penodol, yr oedd llawer o atebwyr o'r farn y dylai'r llywodraeth roi sylw i'r sefyllfa hon.

Awgrymiadau Darparwyr Gwasanaethau

Cafwyd nifer o awgrymiadau gan ddarparwyr sy'n cynnig gwasanaethau ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru. Yr oedd rhai o'u sylwadau cyffredinol yn adlewyrchu rhai a wnaethpwyd eisoes, ac sydd wedi'u trafod yn flaenorol yn yr adroddiad hwn. Er enghraifft, gwnaent y sylw bod angen gwell cymorth i fusnesau bach a chanolig, gan yr ystyrid mai'r rhain oedd sail yr economi wledig. Ac yr oeddynt yn pwysleisio pwysigrwydd gwasanaeth band eang o ansawdd uchel a chyflenwadau ynni dibynadwy i fusnesau.

Yn fwy penodol, gwnaed pedwar sylw neu awgrym gan y darparwyr gwasanaeth. Yn gyntaf, dadleuwyd nad yw prawfesur polisïau gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r llywodraeth genedlaethol fel petai'n digwydd. Awgrymwyd y dylid rhoi proses prawfesur polisïau gwledig mwy effeithlon ar waith.

Yn ail, sylwyd bod Llywodraeth y Cynulliad yn darparu gwasanaethau drwy ddulliau traddodiadol. Awgrymwyd bod angen cydnabod gwerth y rhwydwaith fferyllol a'i ddefnyddio ar gyfer darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

Y trydydd sylw a wnaed oedd bod gweinyddu gwasanaethau yn digwydd yn rhy ganolog mewn canolfannau trefol. Yr oedd galw am fwy o swyddfeydd lleol mewn ardaloedd gwledig.

Yn bedwerydd, gwelwyd bod personél mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i weithio ar eu pennau eu hunain. Yr awgrym oedd y gellid grwpio swyddfeydd gwasanaethau gyda'i gilydd. Byddai hyn yn well defnydd ar ofod swyddfa ac adeiladau ac yn galluogi rhyngweithio personol, rhwydweithio a chyfathrebu gwell.

Awgrymiadau Pobl ifainc

Yr oedd y bobl ifainc a gymerodd ran yn y prosiect ymchwil hwn yn poeni am gynladwyedd eu cymunedau, ac am gynladwyedd yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Yn fwy uniongyrchol, yr oeddynt yn wynebu amgylchiadau o brifio a chyrraedd oedran oedolyn mewn ardaloedd cymharol anghysbell lle nad oes fawr o bobl eraill yn eu harddegau. Gwnaethant nifer o awgrymiadau y credant hwy a allai wella bywyd pobl ifainc yn eu harddegau ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru.

Yn debyg i grwpiau atebwyr eraill, pwysleisiwyd ganddynt yr angen i gael band eang a thelathrebu o ansawdd uchel ar gyfer dibenion addysgol a chymdeithasol. Yn gysylltiedig â hyn, awgrymwyd cael lleoedd cyfarfod pwrpasol ar gyfer oedolion ifainc; nid clybiau ieuencid o reidrwydd, ond rhywbeth tebyg i gaffi rhyngrwyd.

Gwnaed dau awgrym mewn perthynas â theithio mewn cerbydau. Yn gyntaf, gan adlewyrchu eu hangen i symud o gwmpas yn eu hardaloedd eang, yr oedd rhai yn galw am ostwng yr oed gyrru mewn ardaloedd gwledig. Ymddengys y gwneir hyn mewn rhai ardaloedd gwledig yn yr Unol Daleithiau. Yn ail, awgrymodd rhai y dylid mynd at berchnogion coedwigaeth, y Comisiwn Coedwigaeth a phobl breifat, er mwyn cael caniatâd i reidio beiciau modur ar lwybrau coedwigaeth penodol.

Yr oedd galw am fwy o weithgareddau ar ôl ysgol. Problem a nodwyd yma oedd trafndiaeth. Yn eu hanfod, ni fyddai bysiau ysgol yn mynd pan fyddai pobl ifainc yn teithio adref ar ôl gweithgareddau yn yr ysgol, ac mae'n debyg nad oedd trafndiaeth gyhoeddus yn derbyn tocynnau bws ysgol. Awgrymai ieuencid Llanwrtyd gael tocyn myfyrwyr a fyddai'n rhoi modd iddynt

ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ac yn gyffredinol i fedru symud o gwmpas mwy.

Yn olaf, gan fod grŵp Llanwrtyd i gyd o dan yr oedran cyfreithiol ar gyfer gyrru, yr oeddynt wedi mynd ati i drefnu bws mini i gludo eu grŵp i glwb 'diogel' i bobl ifainc dan 18 oed yn Abertawe, gan nad oedd trafndiaeth gyhoeddus ar gael ar yr amseroedd angenrheidiol. Gellid astudio ac allforio'r math hwn o fentrusrwydd i rannau eraill o 'berfeddion cefn gwlad' Cymru, gan efallai ei ariannu trwy gymorthdal, er mwyn rhoi modd cael mynediad gwell i bob math o wasanaethau.

13.13 Crynodeb

Aeth y prosiect ymchwil hwn ati i geisio cael dealltwriaeth fanwl o sut beth yw byw ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru. Gwnaethpwyd hyn drwy ddewis pedair ardal cymuned ar gyfer eu hastudio; dewiswyd y cymunedau dan sylw drwy ddefnyddio meini prawf sy'n seiliedig ar wyddoniaeth. Yr oedd y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd yn gymysgedd o arolwg cartrefi, cyfweiliadau manwl personol, grwpiau ffocws, a holiadur i ddarparwyr gwasanaeth.

At ei gilydd, gallai'r pedair ardal cymuned gynnig mynediad i 1860 o gartrefi posibl. Fel y digwyddodd hi, cyrhaeddodd yr arolwg cartref 845 o aelwydydd, sef cyfradd ymateb o 51%. Yr oedd data'r holiadur o'r arolwg cartref yn feintiol yn bennaf; gan roi gwybodaeth ddemograffig megis pwy sy'n byw ar yr aelwyd, pa mor hir y maent wedi byw yno, data cyflogaeth, patrymau siopa, perchnogaeth a defnydd o gerbydau, a barn pobl ynghylch ansawdd bywyd, cryfder y cymunedau lleol, yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, a darpariaeth ac ansawdd amrywiaeth o wasanaethau. Yn ogystal, anogwyd atebwyr i ddarparu data ansoddol trwy ychwanegu sylwadau at eu holiaduron. Casglwyd data mwy ansoddol drwy gyfres o gyfweiliadau manwl, personol â phreswylwyr, ac yr oedd y rhain yn rhoi cnawd ar esgyrn yr arolwg cartrefi ac yn cynnig dealltwriaeth ddyfnach o sut beth yw byw ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru a'r materion sy'n wynebu pobl sy'n byw yno.

Grŵp penodol o bobl sy'n tueddu i gael eu hepgor o arolygon cartref yw oedolion ifainc yn eu harddegau. Aeth y prosiect ymchwil ati i roi sylw i hyn drwy gynnal grwpiau ffocws ar gyfer pobl ifainc 14-18 oed ym mhob ardal yn yr astudiaeth. Unwaith eto, rhoddodd y grwpiau ffocws hyn ddata manwl ynghylch sut beth yw bod yn ifanc ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru.

Y dull ymchwil terfynol oedd holiadur ar gyfer darparwyr gwasanaeth a oedd yn gweithredu ac a oedd â buddiannau ym 'mherfeddion cefn gwlad' Cymru. Yr oedd y data hwn yn rhoi awgrym o'r materion a wyneba ddarparwyr gwasanaeth yn yr ardaloedd hyn.

